

Bro Morgannwg Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021-2036

Hydref 2025



RLDP

CDLN



Cynllun Adneuo



TABLE OF CONTENTS

Beth yw'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo?	i
Dweud eich dweud ar yr CDLIN Adneuo	i
Sut i gyflwyno sylwadau ar y CDLIN Adneuo	ii
Beth fydd yn digwydd ar ôl yr ymgynghoriad?	iii
1 CYFLWYNIAD.....	1
Strwythur y CDLIN.....	2
Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon	3
Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig y Cynllun Adneuo.....	3
Dogfennau Ategol Eraill.....	4
2 CYD-DESTUN POLISI	5
Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol	5
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Llesiant).....	5
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.....	6
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	7
Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.....	7
Cymru Fwy Cyfartal – Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (2021).....	8
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017	8
Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2021).....	8
Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019).....	13
Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 (2024)	13
Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau), Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (NCTMau) Cylchlythyrau a Llythyrau Egluro Polisi	14
Adeiladu Lleoedd Gwell – Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair: Creu Lleoedd a'r adferiad Covid-19 (LIC, Gorffennaf 2020)	14
Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021).....	15
Datganiadau Argyfwng Hinsawdd a Natur Llywodraeth Cymru	16
Y Cyd-destun Rhanbarthol	17
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.....	17
Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol 2023-2028 P-RC.....	17
Metro De Cymru.....	17
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (Drafft 2025).....	18
Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau (2020) Ail Adolygiad	20


Cyd-gynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ar gyfer 2023-2028	20
Cydweithredu Rhanbarthol	21
Cynlluniau Datblygu Lleol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyfagos	22
Cyd-destun Polisi Lleol	23
Yr Argyfyngau Hinsawdd a Natur a Ddatganwyd	23
Cynllun Llesiant Bro Morgannwg 2023-28	24
Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg 2025-2030 (Bro 2030)	25
Crynodeb o Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bro Oed-Gyfeillgar 2025-2028	26
Prosiect Sero – Cynllun Her Newid Hinsawdd Cyngor Bro Morgannwg 2021-2030	27
Cynllun Ynni Ardal Leol Bro Morgannwg (2024)	28
Cynllun Trafnidiaeth Lleol Bro Morgannwg 2015-2030	29
Blaengynllun Bioamrywiaeth Bro Morgannwg (2019)	30
Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Fro	30
Strategaeth Tai Lleol Bro Morgannwg 2021-2026	30
Strategaeth Tai Pobl Hŷn Bro Morgannwg	31
Y Siarter Creu Lleoedd a Chynlluniau Creu Lleoedd	32
3 NODWEDDION ALLWEDDOL BRO MORGANNWG	33
Patrwm Anheddiad	33
Poblogaeth a Demograffeg	36
Y Farchnad Dai a'r Angen am Dai	40
Sipsiwn a Theithwyr	41
Iechyd a Lles	41
Addysg	42
Cysylltedd	43
Economi a Chyflogaeth	44
Twristiaeth	47
Manwerthu	48
Yr Amgylchedd Naturiol	48
Iaith, Diwylliant, Treftadaeth ac Amrywiaeth	50
Newid yn yr Hinsawdd a Pherygl Llifogydd	50
4 THEMÂU ALLWEDDOL, GWELEDIGAETH AC AMCANION Y CDLIN	52
THEMÂU ALLWEDDOL	52

GWELEDIGAETH (2021 - 2036).....	54
AMCANION STRATEGOL	57
5 Y Strategaeth a Ffafrir	61
Ardal Twf Strategol	70
Diagram Allweddol	70
6 FFRAMWAITH POLISI.....	72
DEWISIADAU STRATEGOL A GOFODOL (DSG)	73
STRATEGAETH OFODOL	73
DATBLYGU YNG NGHEFN GWLAD	79
FFINIAU ANHEDDIAD.....	80
CREU LLEOEDD A DYLUNIO DA (CLIDD).....	82
CREU LLEOEDD	82
DWYSEDDAU DATBLYGIAD PRESWYL.....	89
CREU LLEOEDD A GOFODAU IACH A CHYNHWYSOL	91
LLEOEDD ACTIF A CHYMDEITHASOL.....	95
TWF TAI A CHYFLENWAD (TT).....	95
DARPARIAETH TAI	100
SAFLEOEDD TAI ALLWEDDOL.....	102
TAI FFORDDIADWY.....	128
GOFYNION TAI FFORDDIADWY.....	130
SAFLEOEDD A ARWEINIR GAN DAI FFORDDIADWY GWLEDIG.....	133
EITHRIADAU TAI FFORDDIADWY.....	135
TAI ARBENIGOL	138
TAI AMLFEDDIANNAETH	139
ADDASU AC ADNEWYDDU ADEILADAU GWLEDIG	142
ANHEDDAU AMNEWID, ESTYNIADAU PRESWYL A RHANDAI YNG NGHEFN GWLAD.....	145
LLETY SIPSIWN A THEITHWYR (STh).....	148
TRAFNIDIAETH (TR).....	151
CANOLFANNAU MANWERTHU, MASNACHOL A GWASANAETH (MMG).....	158
SIOPAU TECAWÊ POETH.....	166
SEILWAITH CYMUNEDOL (SC)	168

MAN AGORED A HAMDDEN	170
CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL	172
TWF ECONOMAIDD A CHYFLOGAETH.....	179
AMDDIFFYN SAFLEOEDD AC EIDDO CYFLOGAETH PRESENNOL.....	187
CYFLOGAETH AC ARALLGYFEIRIO YNG NGHEFN GWLAD	193
TWRISTIAETH.....	195
NEWID HINSAWDD A PHONTIO TUAG AT SERO NET	196
DATBLYGIADAU CARBON SERO NET.....	200
DATBLYGIADAU YNNI ADNEWYDDADWY A CHARBON ISEL	204
RHEOLI GWASTRAFF CYNALIADWY.....	210
ADNODDAU MWYNOL	214
SEILWAITH GWYRDD	221
CADWRAETH NATUR A BIOAMRYWIAETH.....	223
ARDALOEDD TIRWEDD ARBENNIG.....	227
LLETMAU GLAS.....	228
ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG	229
AMGYLCHEDD HANESYDDOL.....	231
DIOGELU'R AMGYLCHEDD.....	233

Beth yw'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo?

Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Adneuo yw'r cam ffurfiol nesaf yn y broses o baratoi'r cynllun datblygu. Mae'n ymhelaethu ar y Strategaeth a Ffeirir, a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Rhagfyr 2023 a Chwefror 2024. Mae'n nodi Strategaeth gyffredinol, yn dyrannu tir ar gyfer ystod o ddefnyddiau ac yn nodi polisiau sydd â'r nod o lywio gwaith datblygu a fframio'r broses gwneud penderfyniadau Rheoli Datblygu. Mae wedi cael ei lywio gan sylfaen gadarn o dystiolaeth, gan gynnwys cyfres o bapurau cefndir ac adroddiadau ategol, yn ogystal ag Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI).



Dweud eich dweud ar yr CDLIN Adneuo

Mae'r ymgynghoriad hwn ar y CDLIN Adneuo yn gam allweddol wrth gynllunio ar gyfer dyfodol Bro Morgannwg. Mae'n rhoi cyfle i drigolion a rhanddeiliaid ddweud eu dweud

am y cynigion a pholisïau cynllunio defnydd tir a fydd yn siapia datblygiad cymunedau yn y Fro yn y cyfnod hyd at 2036.

Bydd y cyfnod o ymgynghori statudol yn cael ei gynnal rhwng **28ain Ionawr 2026 i 11eg Mawrth 2026**. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yw 23:55 ar **11eg Mawrth 2026**. Ni fydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad ac amser cau'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried.

Mae'r CDLIN Adneuo a'r holl ddogfennau ategol ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor ac mae copïau o'r Cynllun Adneuo wedi'u rhoi yn holl lyfrgelloedd y Cyngor ac ym mhrif Swyddfeydd Dinesig y Cyngor.

Sut i gyflwyno sylwadau ar y CDLIN Adneuo

Gellir cyflwyno sylwadau ar ymgynghoriad y CDLIN Adneuo yn y ffyrdd canlynol:

- Defnyddio'r porth ymgynghori ar-lein:

Mae'r Cyngor yn annog i ymatebion gael eu cyflwyno drwy ei borth ymgynghori ar-lein, sy'n cynnwys nodweddion i'ch helpu i wneud sylwadau, yn ogystal â nodwedd i gadw ac adolygu ymatebion i'r ymgynghoriad cyn eu cyflwyno'n derfynol.

I gyflwyno ymateb ar-lein i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo, bydd angen i chi naill ai fewngofnodi i'r cyfrif sydd gennych yn barod (os cyflwynoch chi sylwadau ar gam y Strategaeth a Ffeirir neu os cofrestroch chi eich diddordeb) neu sefydlu cyfrif newydd a dilyn y Canllawiau sydd ar gael ar y wefan. Gallwch ddefnyddio'r porth ymgynghori ar-lein i ddarllen a chyflwyno sylwadau ar y CDLIN Adneuo a'r ddogfennaeth ategol. Mae'r porth ymgynghori ar-lein ar gael yn: <https://valeofglamorgan.oc2.uk/cy/>

- **E-bost:** Llenwch y ffurflen ymgynghori sydd ar gael yn <https://valeofglamorgan.oc2.uk> a'i hanfon at: LDP@bromorgannwg.gov.uk
- **Post:** Gallwch argraffu, llenwi a dychwelyd y ffurflen sylwadau i'r tîm CDLI yn: Tîm Polisi Cynllunio, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri CF63 4RU

Mae ffurflen sylwadau ymgynghoriad y CDLIN Adneuo ar gael mewn fformatau eraill ar gais, e.e. Cymraeg neu brint bras. Cysylltwch â Thîm y CDLI yn LDP@valeofglamorgan.gov.uk neu'r cyfeiriad uchod.

Beth fydd yn digwydd ar ôl yr ymgynghoriad?

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd y Cyngor yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ofalus ac yn paratoi Adroddiad Ymgynghori a fydd yn nodi pwy yr ymgynghorwyd â nhw, y materion allweddol a godwyd a sut y mae'r Cyngor yn credu y dylid mynd i'r afael â phob sylw.

Bydd y Cynllun a'i ddogfennaeth ategol, gan gynnwys yr Adroddiad Ymgynghori, yn cael eu hystyried gan y Cyngor Llawn i gymeradwyo ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn trefnu i Arolygydd Cynllunio annibynnol gael ei benodi i archwilio'r Cynllun.

Bydd yr Arolygydd Cynllunio yn ystyried a yw'r Cynllun yn addas at y diben trwy ei asesu yn erbyn tri phrawf o gadernid:

- **Prawf 1: A yw'r cynllun yn gweddu?**
- **Prawf 2: A yw'r cynllun yn addas?**
- **Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni?**

Bydd cyfres o Wrandawiadau yn cael eu cynnal i archwilio unrhyw faterion y mae angen eglurhad pellach ar yr Arolygydd yn eu cylch. Bydd yr Arolygydd yn ystyried y sylwadau ysgrifenedig a wnaed ar y Cynllun Adneuo ond bydd gan y rhai sydd wedi gwneud sylwadau yr hawl hefyd i gael eu clywed mewn Gwrandawriad Archwilio.

Yn dilyn y Gwrandawiadau, bydd yr Arolygydd yn paratoi adroddiad sy'n ystyried y materion a godwyd. Os canfyddir bod Cynllun yn gadarn, yn amodol ar newidiadau, bydd adroddiad yr Arolygydd yn nodi argymhellion rhwymol. Gall argymhellion gynnwys ailddrafftio testun, hepgor polisi neu adran o destun (neu gynnwys un newydd), neu newidiadau i'r Map Cynigion, ar yr amod bod yr hyn sy'n weddill yn gynllun cadarn pan gaiff ei ddarllen yn ei gyfanrwydd.

Ar ôl derbyn adroddiad yr Arolygydd, bydd y Cyngor mewn sefyllfa i fabwysiadu'r CDLIN, a fydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd ar gyfer 2011-2026, a bydd yn dod yn fframwaith y caiff penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ym Mro Morgannwg eu gwneud yn ei erbyn.

1 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) i reoli tir a datblygiad dros y tymor hir. Dylai'r Cynllun hwn nodi gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer yr ardal a nodi ble a sut y dylai datblygiad ddigwydd yn y dyfodol.
- 1.2 Mabwysiadwyd CDLI presennol Bro Morgannwg ym mis Mehefin 2017, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 2011-2026. Ar ôl mabwysiadu CDLI, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol fonitro perfformiad y cynllun yn flynyddol, ac ar ôl 4 blynedd cynnal adolygiad o'r cynllun i ystyried a oes angen diweddaru'r CDLI neu lunio un newydd. Cynhaliwyd adolygiad o'r CDLI mabwysiedig ym mis Mehefin 2021, a ddaeth i'r casgliad bod angen llunio CDLI Newydd (CDLIN) oherwydd newidiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol a dyheadau uchelgeisiol y Cyngor, megis ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Dechreuodd y gwaith ar y CDLIN yn ffurfiol ym mis Mai 2022.
- 1.3 Mae'r CDLIN yn nodi amcanion strategol allweddol sy'n adlewyrchu'r materion allweddol sy'n wynebu Bro Morgannwg, gan gynnwys:
- Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd.
 - Gwella Iechyd Meddyliol a Chorfforol a Llesiant.
 - Cartrefi i Bawb.
 - Creu Lleoedd.
 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol.
 - Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth.
 - Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog, a Chysylltiedig.
 - Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy.
 - Adeiladu Economi Lewyrchus a Gwyrdd.
 - Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy.
- 1.4 Mae'r Cynllun Adneuo hwn wedi cael ei baratoi yn unol â deddfwriaeth berthnasol, polisi cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a Strategaeth a Ffefrir y CDLIN. Mae'r Cynllun wedi'i ategu gan sylfaen o dystiolaeth helaeth, i nodi cyfres o bolisiâu a chynigion sydd â'r nod o arwain datblygiadau ym Mro Morgannwg yn y dyfodol mewn modd cynaliadwy.



- 1.5 Mae Strategaeth a Ffefrir y CDLIN, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2023, yn sail i'r Cynllun Adneuo, er bod y Weledigaeth, yr Amcanion a'r Polisiâu Strategol wedi cael eu mireinio yn dilyn sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol.

Strwythur y CDLIN

- 1.6 Mae'r CDLIN Adneuo yn cynnwys Datganiad Ysgrifenedig (gydag Atodiadau), Map Cynigion a Map Cyfyngiadau. Mae strwythur y Datganiad Ysgrifenedig wedi'i nodi isod:
- **Adran 2 - Cyd-destun Polisi** – yn nodi'r polisiâu, y ddeddfwriaeth a'r strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol.
 - **Adran 3 - Nodweddion Allweddol** – yn rhoi trosolwg o nodweddion allweddol y Fro a'r prif faterion economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a nodwyd trwy ymgynghoriadau a dadansoddi sylfaen dystiolaeth y CDLIN.
 - **Adran 4 - Themâu Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion** – yn nodi'r themâu allweddol y dylai'r cynllun fynd i'r afael â nhw ac yn nodi Gweledigaeth ofodol hirdymor hyd at 2036 a fydd yn llywio penderfyniadau polisi ac amcanion er mwyn gwireddu'r Weledigaeth, gan adlewyrchu'r themâu allweddol.
 - **Adran 5 - Strategaeth Ofodol** – yn nodi'r Strategaeth Twf Cynaliadwy ar gyfer lleoliad datblygiadau yn y dyfodol a lefel y twf a gynigir hyd at 2036. Mae'r Strategaeth Ofodol wedi'i ddangos mewn Diagram Allweddol.
 - **Adran 6 - Fframwaith Polisi** – yn nodi'r polisiâu strategol, polisiâu rheoli datblygiad sy'n seiliedig ar feini prawf, dyraniadau safle-benodol ac ardaloedd dynodedig i'w gwarchod. Mae'r rhain wedi'u trefnu'n fras yn ôl thema o dan y penawdau polisi allweddol a nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru: Dewisiadau Strategol a Gofodol (Creu Lleoedd); Lleoedd Actif a Chymdeithasol; Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus; a Lleoedd Unigryw a Naturiol.
 - **Adran 7 - Fframwaith Monitro** – yn nodi sut y bydd y strategaeth, yr amcanion, y polisiâu a'r cynigion yn y cynllun yn cael eu monitro yn erbyn dangosyddion priodol a phwyntiau sbarduno ar gyfer gweithredu.



Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

- 1.7 Dylid darllen y CDLIN yn ei gyfanrwydd gan fod llawer o amcanion a pholisïau'r Cynllun yn drawsbynciol ac yn gydgysylltiedig. Rhaid i benderfyniadau ar gynigion datblygu roi sylw i'r polisïau perthnasol yn y Cynllun a gofynion y Polisi Cynllunio Cenedlaethol, sydd wedi'i gynnwys mewn ystod eang o ddogfennau polisi, datganiadau a nodiadau cyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, nid yw'r CDLIN yn ailadrodd polisïau cynllunio cenedlaethol fel y nodwyd yng nghynllun Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau). Fodd bynnag, lle bo'n briodol, mae'r ddogfen hon yn esbonio ble a sut mae polisïau cynllunio cenedlaethol yn cael eu trosi ar lefel leol.
- 1.8 Yn ogystal â'r Datganiad Ysgrifenedig, mae'r CDLIN yn cynnwys Map Cynigion a Map Cyfyngiadau. Mae'r Map Cynigion yn nodi'r ardaloedd hynny sydd wedi'u dyrannu'n benodol ar gyfer datblygu neu sy'n destun amddiffyniad trwy bolisïau perthnasol yn y Cynllun. Mae'r Map Cyfyngiadau yn gynllun ar wahân y dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Map Cynigion, ac mae'n dangos maint a lleoliad daearyddol y cyfyngiadau i ddatblygiadau sy'n cael eu creu gan ddeddfwriaeth y tu allan i'r broses cynlluniau datblygu, er enghraifft Henebion Cofrestredig, ardaloedd risg llifogydd a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Er nad yw hwn yn rhan o'r CDLIN, rhaid rhoi sylw i'r Map Cyfyngiadau wrth ystyried cynigion datblygu. Mae'r Map Cyfyngiadau yn cynnwys dynodiadau a wnaed gan gyrrff statudol heblaw'r Cyngor a bydd yn cael ei ddiweddarau yn ôl yr angen.

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig y Cynllun Adneuo

- 1.9 Yn unol â gofynion statudol, mae paratoi'r Cynllun Adneuo wedi bod yn destun i, a'i lywio gan, Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI). Mae'r ACI yn cyflawni'r gofynion a'r dyletswyddau cyfreithiol ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Asesiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.
- 1.10 Nod yr ACI yw asesu i ba raddau y bydd polisïau cynllunio datblygol yn helpu i gyflawni amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach y CDLIN. Mae ACI y Cynllun Adneuo, a baratowyd gan ymgynghorwyr annibynnol, wedi'i gyhoeddi fel dogfen ar wahân. Mae'r Cynllun Adneuo hefyd wedi cael ei ystyried fel rhan o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Mae'r ddwy



ddogfen yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLIN ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.

- 1.11 Cynhaliwyd yr asesiadau hyn mewn modd integredig a chânt eu defnyddio fel offer ar gyfer llunio cynlluniau i lywio'r Cynllun Adneuo sy'n caniatáu craffu ar oblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd pob elfen o'r Strategaeth ac i fynd i'r afael ag unrhyw ansicrwydd, materion neu ofynion lliniaru a nodwyd yn ystod y prosesau asesu effaith. Bydd y broses ailadroddol hon yn parhau i fod yn rhan annatod o waith paratoi cynllun y Cyngor o'i CDLIN.

Dogfennau Ategol Eraill

- 1.12 Yn eistedd ochr yn ochr â'r Cynllun Adneuo mae papurau dystiolaeth gefndir sy'n darparu ffynonellau gwybodaeth allweddol ar ystod o bynciau sydd wedi llywio'r strategaeth a'r CDLIN Adneuo. Cyhoeddwyd y dogfennau hyn ar wahân ac maent ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r rhestr o ddogfennau cymorth wedi'i chynnwys yn Atodiad 10.



2 CYD-DESTUN POLISI


- 2.1 Wrth ddatblygu'r CDLIN, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried unrhyw bolisiâu a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a chanfyddiadau'r dystiolaeth gefndir dechnegol a ddatblygwyd i gefnogi'r cynllun. Mae elfennau allweddol o'r cyd-destun y mae'r Cynllun Adneuo wedi'i baratoi ynddo wedi'u nodi isod.

Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol

- 2.2 Mae'r dogfennau a ystyrir yn yr adran hon yn ddogfennau cenedlaethol sy'n berthnasol ledled Cymru gyfan.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Llesiant)

- 2.3 Mae'r Ddeddf Llesiant yn cryfhau'r fframwaith ar gyfer gwella llesiant Cymru drwy sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus. Ei nod yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl yng Nghymru o ran y saith nod llesiant:



Ffigur 1: Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)



Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 (Chwefror 2024)

- 2.4 Mae'r Ddeddf Llesiant yn nodi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ac yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i weithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.' Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd y CDLIN ac mae'n rhan sylfaenol o broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI).
- 2.5 Mae'r Ddeddf Llesiant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau drwy fabwysiadu 5 ffordd o weithio, sef:
- Ystyried y tymor hir.
 - Helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
 - Defnyddio dull gweithredu integredig.
 - Defnyddio dull gweithredu cydweithredol.
 - Ystyried a chynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth.
- 2.6 Mae'r pum ffordd o weithio wedi bod yn ganolog i baratoi pob un o gamau'r CDLIN.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

- 2.7 Daeth Deddf Cynllunio (Cymru) (y Ddeddf Cynllunio) i rym ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn wydn ac yn galluogi datblygiad.
- 2.8 Mae'r Ddeddf Cynllunio yn cyflwyno fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau). Cafodd Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol, y FfDC, ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2021, ac fe'i trafodir yn fanwl yn yr adran nesaf. Bwriad CDSau yw darparu fframwaith gofodol rhanbarthol ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn rhanbarth diffiniedig yn y dyfodol. Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru sy'n gyfrifol am baratoi CDS ar gyfer rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Cytundeb Cyflwyno ar gyfer y CDS wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2025 ac mae paratoi'r cynllun wedi dechrau. Disgwylir y bydd y CDS yn cael ei fabwysiadu ddiwedd 2031/cyntaf 2032. Mae'r gwaith o baratoi'r CDLIN felly'n



mynd rhagddo cyn paratoi'r CDS a bydd angen adolygiad o'r CDLIN unwaith y caiff y CDS ei fabwysiadu.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- 2.9 Nod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (Deddf yr Amgylchedd) yw gwella rheolaeth adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig. Mae'n cynnwys dyletswydd bioamrywiaeth uwch sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.
- 2.10 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd hefyd ofyniad i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) lunio Datganiadau Ardal. Mae Bro Morgannwg wedi'i gynnwys yn Natganiad Ardal Canol De Cymru, sydd hefyd yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd.
- 2.11 Diben Datganiadau Ardal yw darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae Datganiad Ardal Canol De Cymru wedi'i lywio gan y 5 thema ganlynol:
- Adeiladu ecosystemau gwydn
 - Cysylltu pobl â natur
 - Gweithio gyda dŵr
 - Gwella ein hiechyd
 - Gwella ansawdd ein haer

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

- 2.12 Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) (Deddf Teithio Llesol) yw hyrwyddo cerdded a beicio fel ffordd o deithio ar gyfer teithiau byr (h.y. i gyrraedd y gwaith, ysgol neu siopau a gwasanaethau). Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gynllunio llwybrau addas ar gyfer teithio llesol, llunio mapiau teithio llesol, ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr a gwella llwybrau a chyfleusterau teithio llesol.
- 2.13 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig



drwy ddatblygu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLI). Mae MRhTLI Bro Morgannwg yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLIN.

Cymru Fwy Cyfartal – Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (2021)

- 2.14 Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a ddaeth i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol ystyried sut y gall eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.
- 2.15 Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gall polisïau, rhaglenni a gwasanaethau leihau anghydraddoldebau a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Gan fod y Ddyletswydd yn berthnasol i ddatblygu polisi strategol, mae'n berthnasol i'r CDLIN. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn dod o fewn cwmpas yr ACI a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r CDLIN a nodir canfyddiadau'r arfarniad yn nogfennau'r ACI.

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

- 2.16 Mae Rhan 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEIau) mewn amgylchiadau penodol. Mae'r rheoliadau drafft yn nodi'r amgylchiadau y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gynnal AEI ynddynt; a'r ffordd y mae'n rhaid cynnal AEI.
- 2.17 Diben AEI yw sicrhau bod effeithiau datblygiad ar iechyd ac anghydraddoldebau iechyd yn cael eu hystyried a'u trin yn ystod y broses gynllunio, a dylid gwneud hyn yn gynnar yn y cynllun datblygu fel bod modd nodi ac ymdrin ag unrhyw effeithiau iechyd perthnasol. Wrth baratoi'r CDLIN mae'r ACI yn ymgorffori AEI yn y fethodoleg arfarnu ac mae'n cynnwys mesurau iechyd a lles penodol.

Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2021)

- 2.18 Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw fframwaith datblygu cenedlaethol Cymru, sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at



2040. Mae'n gynllun datblygu ag iddo strategaeth ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, sicrhau datgarboneiddio a gwydnwch yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau. Dyma'r haen uchaf o gynllun datblygu yng Nghymru ac mae'n canolbwyntio ar atebion i faterion a heriau ar raddfa genedlaethol. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi lle mae angen twf a seilwaith o bwys cenedlaethol a sut y gall y system gynllunio ei gyflawni ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae'n darparu cyfeiriad ar gyfer CDSau a CDLlau ac yn cefnogi pennu Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

- 2.19 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi 11 o ganlyniadau sydd, gyda'i gilydd, yn ddatganiad o ble mae Llywodraeth Cymru yn dymuno i Gymru fod erbyn 2040. Dyma'r canlyniadau:

Cymru lle mae pobl yn byw...

- ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach.
- mewn lleoedd gwledig llewyrchus lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau.
- mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy.
- mewn lleoedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy.
- mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo.
- mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy.
- mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf.
- mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd.
- mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, cadarn a chysylltiedig.
- mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

- 2.20 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi 18 o bolisïau cenedlaethol sy'n berthnasol ledled Cymru gyfan, a 4 polisi rhanbarthol sy'n berthnasol ledled Rhanbarth y De-ddwyrain. Er y bydd angen mynd i'r afael â'r holl bolisïau yn y CDLIN, mae gan y polisïau canlynol bwysigrwydd arbennig ar gyfer strategaeth y cynllun:



- **Polisi 1 – Ble bydd Cymru yn tyfu** – Mae Polisi 1 Cymru'r Dyfodol yn nodi tair Ardal Dwf Genedlaethol, gan gynnwys de-ddwyrain Cymru. Mae'r diagram strategaeth ofodol sy'n cefnogi'r polisi hwn yn nodi bod Bro Morgannwg wedi'i lleoli o fewn Ardal Dwf Genedlaethol y De-ddwyrain, y cyfeirir ato fel 'Caerdydd, Casnewydd, a'r Cymoedd.' Ategir Polisi 1 gan Bolisi 33, sy'n ymwneud yn benodol ag Ardaloedd Twf Cenedlaethol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd.
- **Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol** – mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion creu lleoedd allweddol y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar leoliad datblygiad newydd. Mae hyn yn cynnwys creu cyfuniad o ddefnyddiau ac amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaethau, adeiladu lleoedd ar raddfa gerdded gyda chartrefi, cyfleusterau lleol, a thrafnidiaeth gyhoeddus o fewn pellter cerdded a sicrhau bod datblygiad yn cael ei adeiladu ar ddwysedd priodol gyda seilwaith gwyrdd wedi'i ymgorffori.
- **Polisi 6 – Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf** – mae hwn yn nodi dull canol trefi yn gyntaf o ddarparu cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaeth cyhoeddus newydd sylweddol y mae'n rhaid eu lleoli o fewn canol trefi a dinasoedd. Mae'r testun ategol ar gyfer y polisi hefyd yn dangos bod canol trefi yn lleoliadau priodol ar gyfer cartrefi newydd.
- **Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy** – ailddatgan dyhead Llywodraeth Cymru i ddarparu lefelau sylweddol o dai fforddiadwy, gan gynnwys drwy'r system gynllunio.
- **Polisi 8 – Llifogydd** – cefnogi gwaith rheoli perygl llifogydd sy'n hwyluso twf economaidd a chenedlaethol cynaliadwy, gan hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur a cheisio sicrhau'r buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mwyaf posibl o seilwaith rheoli perygl llifogydd.
- **Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd** – mae Polisi 9 yn gofyn am weithredu tuag at ddiogelu a chreu rhwydweithiau ecolegol cadarn a hyrwyddo seilwaith gwyrdd effeithiol drwy greu lleoedd. Mae'n rhagnodi y dylid cynnwys meysydd presennol a darpar feysydd mewn Cynlluniau Datblygu i




hyrwyddo a diogelu'r swyddogaethau a'r cyfleoedd y mae rhwydweithiau ecolegol a seilwaith gwyrdd yn eu darparu.

- **Polisi 10 – Cysylltedd Rhyngwladol** – mae Porth Strategol wedi'i nodi ym Maes Awyr Caerdydd i hwyluso cysylltedd rhyngwladol. Bydd angen i'r CDLI gefnogi'r Porth Strategol drwy sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'w rhanbarthau priodol a Chymru. Dylid rheoli datblygiadau newydd o amgylch y Porth Strategol yn ofalus i sicrhau na pheryglir na chyfyngir ar eu gweithrediad.
- **Polisi 12 – Cysylltedd Rhanbarthol** – yn nodi bod yn rhaid i ACLlau fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n deillio o'r buddsoddiad mewn trafndiaeth gyhoeddus wrth gynllunio ar gyfer twf ac adfywio. Rhaid i awdurdodau cynllunio integreiddio dyraniadau safleoedd, datblygiadau newydd, a seilwaith â rhwydweithiau teithio llesol a, lle bo hynny'n briodol, sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at eu hehangu a'u gwella. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella a chynyddu trafndiaeth gynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau yn yr ardal dwf genedlaethol gynllunio ar gyfer twf i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus.
- **Polisi 15 – Fforest Genedlaethol** – Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu fforest genedlaethol drwy nodi safleoedd a mecanweithiau priodol, gyda tharged i gynyddu gorchudd coetir ledled Cymru o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn. Bydd y fforest genedlaethol yn cynnwys tair elfen:
 - Amgylchedd o ansawdd sy'n cynnwys ecosystemau cysylltiedig, bioamrywiaeth a chynefinoedd, adfer coetir nas rheolwyd yn ddigonol a choetir hynafol;
 - Coetir cynhyrchiol;
 - Coetir cymunedol.
- **Polisi 16 – Rhwydweithiau Gwresogi** – yn nodi tref y Barri'n benodol fel lleoliad ar gyfer ystyried rhwydwaith gwres ardal.
- **Polisi 33 – Ardal Dwf Genedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd** – Mae'r diagram gofodol rhanbarthol ar gyfer De-ddwyrain Cymru (Ffigur 2 isod) yn



amlygu bod Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd, gan gynnwys Bro Morgannwg, yn rhan o ardal dwf genedlaethol. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel canolbwynt ar gyfer twf economaidd a thai strategol; gwasanaethau a chyfleusterau; gweithgynhyrchu uwch; trafndiaeth a seilwaith digidol. Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a'r dyheadau rhanbarthol hyn, mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod nad yw'r 10 awdurdod lleol yn y rhanbarth yn bodoli ar wahân i'w gilydd ac wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, y bydd angen i awdurdodau cynllunio "ystyried y rhyngddibyniaeth rhwng Caerdydd a'r rhanbarth ehangach... [gan] sicrhau bod cymunedau o amgylch y Brifddinas yn llewyrchus, ffyniannus ac yn gysylltiedig." Ar gyfer CDLIN Bro Morgannwg bydd hyn yn gofyn i'r cynllun ystyried sut mae'r dyheadau o ran tai a thwf economaidd yn cyd-fynd ac yn ategu dyheadau rhanbarthol ehangach, yn enwedig rhai Caerdydd gyfagos.



Ffigur 2: Rhanbarth De-ddwyrain Cymru
Ffynhonnell: Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040



- 2.21 **Polisi 36 – Metro'r De-ddwyrain** – yn darparu sail polisi rhanbarthol ar gyfer datblygu'r Metro ac ar gyfer datblygiadau sy'n canolbwyntio ar y Metro. Dylai awdurdodau cynllunio gynllunio ar gyfer twf ac adfywio er mwyn achub ar y cyfleoedd sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol, gan gynnwys nodi cyfleoedd am ddatblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro newydd a gwell.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)

- 2.22 Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) yn nodi polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf ar gyfer defnydd cynaliadwy o'r moroedd. Mae'r cynllun yn cynnwys cynlluniau a pholisïau a fydd yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer moroedd glân, iach, diogel ac amrywiol, yn arwain datblygu cynaliadwy yn y dyfodol ac yn cefnogi twf gofod morol ac adnoddau naturiol ('twf glas').
- 2.23 Mae'r Cynllun yn nodi polisïau o dan y categorïau canlynol:
- Sicrhau economi forol gynaliadwy (twf economaidd cynaliadwy, cydfodolaeth).
 - Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn (gan gynnwys mynediad i'r amgylchedd morol, llesiant cymunedau'r arfordir, tirweddau a morweddau, llifogydd arfordirol a newid yn yr hinsawdd).
 - Byw o fewn terfynau amgylcheddol (ecosystemau morol cydnerth, ansawdd aer a dŵr).
 - Hyrwyddo llywodraethu da (effeithiau cronol, cysondeb ar draws ffiniau ac ar draws cynlluniau).
 - Defnyddio gwyddoniaeth gadarn mewn ffordd gyfrifol.
- 2.24 Mae polisïau ategol penodol i sectorau y CMCC yn gweithredu ochr yn ochr â'r polisïau cyffredinol ac yn gosod polisi ar gyfer datblygu a defnyddio ardal y cynllun morol yn y dyfodol gan rai sectorau. Mae hyn yn cynnwys defnyddiau megis agregau ar y glannau ac ar y môr, dyframaeth, carthu, ynni adnewyddadwy morol, porthladdoedd a morgludo, a thwristiaeth a hamdden.

Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 (2024)

- 2.25 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 12) yn nodi'r polisïau cynllunio defnydd tir a nodau datblygu cynaliadwy troswaol i Gymru, wedi'u diwygio i gyfrannu tuag at nodau llesiant statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae PCC



yn nodi rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac yn ystyried mai dull a arweinir gan Gynllun yw'r dull mwyaf effeithiol o sicrhau datblygu cynaliadwy drwy'r system gynllunio.

- 2.26 Mae gan PCC bwyslais cryf ar hyrwyddo creu lleoedd, sy'n cael ei ystyried yn allweddol i gyflawni lleoedd cynaliadwy, darparu datblygiad cymdeithasol gynhwysol a hyrwyddo cymunedau mwy cydlynol. Ystyrir bod creu lleoedd yn ddull cyfannol sy'n 'ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle'r datblygiad a'i gyffiniau ehangach.'
- 2.27 Ar lefel strategol mae pedair thema sy'n cyfrannu'n unigol at greu lleoedd:
- Dewisiadau Strategol a Gofodol;
 - Lleoedd Actif a Chymdeithasol;
 - Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus;
 - Lleoedd Unigryw a Naturiol
- 2.28 Mae PCC yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu "gynnwys strategaeth ofodol fydd yn para oes y cynllun gan lunio patrwm datblygu sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol," a "hyrwyddo cydbwysedd cyffredinol rhwng tai, cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyfleoedd gwaith."

Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau), Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (NCTMau) Cylchlythyrau a Llythyrau Egluro Polisi

- 2.29 Bydd y CDLIN yn ystyried y gofynion fel y nodir yn y gyfres o NCTau, NCTMau, Cylchlythyrau a Llythyrau Egluro Polisi, sy'n ymhelaethu ar ystod o faterion polisi cynllunio.

Adeiladu Lleoedd Gwell – Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair: Creu Lleoedd a'r adferiad Covid-19 (LIC, Gorffennaf 2020)

- 2.30 Mae Adeiladu Lleoedd Gwell yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i helpu gyda'r cyfnod o adfer yn dilyn argyfwng y pandemig Covid-19. Mae'n cydnabod y dylai'r system gynllunio fod yn ganolog wrth ystyried materion yr amgylchedd adeiledig a naturiol sydd wedi deillio o'r pandemig. Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at y polisiâu a'r offer cynllunio presennol allweddol y dylai pob sector eu defnyddio yn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd




Cymru. Dylai CDLlau fynd ati'n weithredol i gefnogi'r agenda creu lleoedd a nodir yn PCC, gan nodi ei gymeriad, ei gryfderau a'i feysydd y mae angen eu gwella a nodi polisïau ar sut y bydd y meysydd hyn yn cael eu gwella.

- 2.31 Mae'r ddogfen yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leoedd gwell, creu lleoedd, canlyniadau o ansawdd a dylunio da ac yn nodi meysydd polisi y dylid canolbwyntio arnynt wrth ystyried a gweithredu, i weithredu fel catalydd ar gyfer adferiad. Mae'n nodi materion allweddol sy'n dod â meysydd polisi unigol ynghyd i sicrhau y gweithredir yn y modd mwyaf effeithiol. Mae'r CDLIN yn offeryn allweddol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn a bydd yn chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi adferiad ar ôl Covid ym Mro Morgannwg wrth hefyd gyfrannu at wytnwch cymunedau yn y dyfodol.
- 2.32 Yr 8 mater yw:
- Cadw'n lleol: creu cymdogaethau.
 - Teithio llesol: ymarfer corff a dulliau teithio a ailddarganfyddir.
 - Adfywio canol ein trefi.
 - Lleoedd digidol: rhaff achub yn ystod y cyfnod clo.
 - Newid arferion gwaith: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol.
 - Ailddeffro sector twristiaeth a sector diwylliannol Cymru.
 - Seilwaith gwyrdd, iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol.
 - Gwella ansawdd aer a seinweddau er mwyn sicrhau iechyd a lles gwell.

Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)

- 2.33 Mae Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn nodi tair blaenoriaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf:
- Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio.
 - Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth sy'n hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon.
 - Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.
- 2.34 Mae'r Strategaeth yn nodi hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy i lywio penderfyniadau am seilwaith newydd:





**Ffigur 3: Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy
Ffynhonnell: Llwybr Newydd**

Datganiadau Argyfwng Hinsawdd a Natur Llywodraeth Cymru

- 2.35 Mewn ymateb i dystiolaeth gynyddol o effeithiau newid hinsawdd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'argyfwng hinsawdd' ym mis Ebrill 2019. Gwnaed y cyhoeddiad i dynnu sylw at faint ac arwyddocâd y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno'n barhaus gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd. Gwnaed y datganiad i anfon arwydd clir na fydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu i'r broses o adael yr Undeb Ewropeaidd dynnu oddi wrth her newid yn yr hinsawdd.
- 2.36 Gwnaed datganiad pellach ym mis Mehefin 2021, wrth i Lywodraeth Cymru ddatgan argyfwng natur i sicrhau cydraddoldeb rhwng y camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Pwrpas hyn oedd gosod targedau ar gyfer cyfyngu ar golli bioamrywiaeth, yn debyg i'r rhai sy'n bodoli ar gyfer allyriadau carbon.
- 2.37 Pwysleisiwyd hyn ar lefel ryngwladol, wrth i bron i 200 o wledydd ledled y byd ddod i gytundeb yng Nghynhadledd Bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig (COP15) i gyrraedd targed o '30 x 30' – targed uchelgeisiol i warchod 30% o dir a 30% o gefnfor y byd erbyn 2030.



Y Cyd-destun Rhanbarthol

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

- 2.38 Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yn cynnwys deg awdurdod lleol ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Bro Morgannwg, sy'n gweithio ar y cyd ar brosiectau a chynlluniau sydd â'r nod o adeiladu ar gryfderau sectoraidd y rhanbarth. Mae'r cryfderau hyn yn cynnwys sylfaen sgiliau uchel a thair prifysgol lwyddiannus y rhanbarth, a phrosiectau a fydd yn ceisio cyflymu twf economaidd a chynhyrchiant drwy gyfres o fuddsoddiadau a dargedir mewn sgiliau, seilwaith, prosiectau a arweinir gan arloesedd y gellir eu tyfu ar raddfa, ac mewn sectorau diwydiant a busnesau â blaenoriaeth. Bydd Bargen Ddinesig P-RC yn helpu i roi hwb i dwf economaidd drwy wella cysylltiadau trafnidiaeth, gwella sgiliau, helpu pobl i gael swyddi a rhoi cymorth i fusnesau y mae ei angen arnynt i dyfu. Mae P-RC wedi ariannu sawl buddsoddiad mawr yn y rhanbarth, gan gynnwys prynu hen Orsaf Bŵer Aberddawan yn ddiweddar i hwyluso ei dymchwel, ei hadfer a'i hailddatblygu fel Parc Ynni Gwyrdd.

Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol 2023-2028 P-RC

- 2.39 Mae Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yn ceisio meithrin economi ranbarthol sy'n fwy, yn decach ac yn wyrddach, gan gynhyrchu twf da a chreu amodau ar gyfer ffyniant cyffredin ar draws y deg awdurdod lleol yn y rhanbarth. Mae'r Cynllun yn nodi nifer o heriau ond yn ceisio cyflawni'r uchelgais o fod yn *“Prifddinas-Ranbarth Caerdydd falch lle mae pawb wedi'i gysylltu'n lleol ac yn fyd-eang, yn mwynhau cyfleoedd gwaith, busnes a bywyd sydd yn ein gwneud yn lle i wireddu potensial.”*
- 2.40 Mae'r Cynllun yn nodi tri maes ffocws – Bod yn Fwy Cystadleuol, Bod yn Fwy Cysylltiedig a Bod yn Fwy Cadarn. Fel rhan o'r thema Bod yn Fwy Cystadleuol, cyfeirir yn benodol at dyfu'r economi werdd drwy fentrau arloesi sy'n canolbwyntio ar dechnolegau gwyrdd a sgiliau'r dyfodol, gan gyfeirio'n benodol at ddatblygu Parc Ynni Gwyrdd yn Aberddawan. Bydd y CDLIN yn chwarae rhan wrth hwyluso tir a datblygu polisiau priodol a fyddai'n cefnogi'r amcanion a'r prosiectau yn y Cynllun.

Metro De Cymru

- 2.41 Roedd Metro De Cymru yn rhan o Fargen Ddinesig wreiddiol P-RC, gyda dros hanner cyfanswm cyllid y Fargen Ddinesig yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygiad y



Metro. Mae Llywodraeth Cymru, drwy Trafnidiaeth Cymru (TC), yn gweithredu'r gwasanaethau rheilffyrdd metro yn y rhanbarth, tra bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am wasanaethau bysiau a theithio llesol. Mae'r Metro yn brosiect uchelgeisiol gyda'r nod o ddarparu rhwydwaith integredig o deithio llesol, bysiau a rheilffyrdd a fydd yn gwella hygyrchedd ac yn gwneud trafndiaeth gynaliadwy ledled y rhanbarth ac ar ei draws yn haws ac yn gyflymach.

- 2.42 Ar ben hynny, mae cyllid Metro+ ar gael ar gyfer cynlluniau sy'n cefnogi gweithredu Metro De Cymru hefyd, ac mae'r Fro wedi elwa ar gyllid ar gyfer datblygu cyfnewidfa drafnidiaeth newydd yn Nociau'r Barri.
- 2.43 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'r gofyniad i CDLlau gynllunio ar gyfer twf a fydd yn manteisio i'r eithaf ar fuddion cyllid y Metro.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (Drafft 2025)

- 2.44 Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) Drafft Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC), a elwir hefyd yn "Trafndiaeth ar gyfer P-RC", yn weledigaeth hirdymor ar gyfer datblygu rhwydwaith trafndiaeth effeithlon, cynaliadwy a chynhwysol ar draws De-ddwyrain Cymru. Nod y CTRh yw llywio buddsoddiad a pholisi trafndiaeth rhwng 2025 a 2030 a thu hwnt.
- 2.45 Nodau craidd y CTRh yw adeiladu Rhanbarth Cystadleuol, Cysylltiedig a Gwydn trwy sefydlu rhwydwaith trafndiaeth effeithlon, fforddiadwy a charbon isel sydd yn:
- **Gwella ansawdd bywyd:** Mae hyn yn cynnwys gwella mynediad at swyddi, addysg, gofal iechyd, a gweithgareddau hamdden ym mhob cymuned.
 - **Meithrin ffyniant ar y cyd:** Trwy gysylltu busnesau, ysgogi twf economaidd, a chreu cyfleoedd gwaith ar draws y rhanbarth.
 - **Cefnogi rhanbarth carbon niwtral:** Blaenoriaethu cerdded, beicio ac "olwyno" ar gyfer teithiau byrrach, a chyflymu'r gwaith o ddatgarboneiddio'r fflyd o gerbydau.
 - **Gwella hygyrchedd i bawb:** Sicrhau mynediad teg at drafnidiaeth waeth beth fo'r amgylchiadau, gan gynnwys i'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig.
 - **Lleihau allyriadau:** Gosod targed i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, llygredd aer a sŵn o drafnidiaeth ffyrdd 60% erbyn 2035.
 - **Gwneud y mwyaf o seilwaith digidol a ffisegol:** Gwneud defnydd gwell o'r seilwaith trafndiaeth presennol ac integreiddio datrysiadau digidol.



- **Hyrwyddo newid ymddygiad:** Cynyddu dealltwriaeth o opsiynau trafndiaeth cynaliadwy ac annog pobl i beidio defnyddio ceir os mai'r gyrrwr yn unig sy'n teithio.
 - **Gwella diogelwch:** Lleihau damweiniau traffig ar y ffyrdd a gwella diogelwch canfyddedig wrth deithio.
 - **Cryfhau cysylltiadau:** Cysylltu cymunedau a gwella cysylltiadau trafndiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru, gweddill y DU, a thu hwnt.
- 2.46 Mae'r CTRh yn cyd-fynd â strategaeth 'Llwybr Newydd: Strategaeth Drafndiaeth Cymru 2021' Llywodraeth Cymru ac yn symud i ffwrdd o gynlluniau trafndiaeth lleol unigol tuag at ddull rhanbarthol mwy integredig, gyda'r Cydbwyllgorau Corfforaethol yn cymryd yr awenau. Er bod y cynllun yn cwmpasu rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd strategol, mae'n canolbwyntio ar gynlluniau i'w darparu gan awdurdodau lleol.
- 2.47 Cydnabyddir bod Bro Morgannwg yn wynebu amrywiaeth o heriau o ran trafndiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio sy'n rhoi mwy o bwysau ar drafndiaeth gyhoeddus, gwahaniaethau rhwng cymunedau arfordirol ac ardaloedd mewndirol o ran mynediad at drafndiaeth, opsiynau trafndiaeth gyhoeddus mwy cyfyngedig mewn ardaloedd gwledig, a thagfeydd yn ystod oriau brig ar hyd prif lwybrau. Mae'r CTRh Drafft yn tynnu sylw at y ffaith bod y nifer fwyaf o deithiau dyddiol ar y ffyrdd yn mynd o Fro Morgannwg i Gaerdydd, gyda hyd at 7,358 o gerbydau wedi'u cofnodi yn y boreau yn ystod yr wythnos, a 5,385 o gerbydau'n teithio o Gaerdydd i Fro Morgannwg.
- 2.48 Bydd cynigion trafndiaeth Bro Morgannwg yn y dyfodol yn cael eu llywio gan amcanion y CTRh Drafft. Mae llawer o amcanion yn berthnasol ar draws y rhanbarth, ond mae amcanion penodol a gweithgareddau strategol lle cyfeirir at Fro Morgannwg yn benodol yn cynnwys:
- Cefnogi uchelgais y Rhanbarth i ehangu'r rhwydwaith rheilffyrdd, gan gynnwys manteisio ar gyfleoedd i adeiladu ar raglenni arfaethedig presennol, fel Cledrau Croesi Caerdydd, er mwyn parhau i ddatblygu opsiynau sy'n cynnwys cynyddu amllder trenau ar Linell y Ddinas ac ehangu i Gogan a thu hwnt.
 - Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer seilwaith rheilffyrdd ychwanegol a gwasanaethau cludo nwyddau a theithwyr yn Aberddawan / Sain Tathan er



mwyn sicrhau'r cysylltedd mwyaf posibl rhwng rhwydweithiau ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a morol.

- Darparu rhwydwaith trafndiaeth carbon is, hygyrch, integredig a dibynadwy i staff a theithwyr gael teithio i'r maes awyr, sydd hefyd yn hwyluso mynediad cynaliadwy i Barc Busnes Bro Tathan cyfagos.
- Manteisio i'r eithaf ar rôl trafndiaeth y maes awyr fel cyfnewidfa drafnidiaeth genedlaethol a rhyngwladol a phorth i Gymru ar gyfer teithwyr busnes a hamdden.
- Gweithio gyda Chymdeithas Porthladdoedd Prydain, cynghorau Caerdydd, Casnewydd a Bro Morgannwg a gweithredwyr bysiau lleol i wella mynediad at borthladdoedd y Rhanbarth, er mwyn helpu i gynnal eu statws fel safleoedd cyflogaeth strategol.

- 2.49 Mae'r CTRh wedi'i ategu gan Gynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (CCTRh), sy'n nodi cynlluniau ac ymyriadau y mae awdurdodau lleol yn bwriadu eu datblygu i gyflawni gweledigaeth ac amcanion y CTRh a blaenoriaethau'r strategaeth Llwybr Newydd. Yn y CCTRh Drafft ceir cyfeiriad penodol at gynigion teithio llesol rhwng y Barri a Chosmeston, y Barri a Dinas Powys a'r Barri a Maes Awyr Caerdydd, yn ogystal â chyfleoedd yng ngorsaf Cogan.

Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau (2020) Ail Adolygiad

- 2.50 Lluniwyd y Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) gan Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (GARhD). Cyhoeddwyd yr ail adolygiad (y cyfeirir ato fel DTRh2), yn 2020. Mae NCT Mwynau 1 (paragraff 1.45 yn cyfeirio) yn gosod amcan trosfwaol, sy'n ceisio sicrhau cyflenwad o agregau a reolir yn gynaliadwy sy'n hanfodol ar gyfer adeiladu drwy daro'r cydbwysedd rhwng costau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae'r DTRh wedi'i lunio i helpu i lywio Awdurdodau Lleol unigol yn Ne Cymru ar sut i weithredu'r polisïau cynllunio mwynau hyn wrth lunio eu polisïau a'u dyraniadau CDLI unigol.

Cyd-gynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ar gyfer 2023-2028

- 2.51 Mae'r Cyd-gynllun Ardal yn ddogfen allweddol a baratowyd ar y cyd gan Gyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol, a gofawyr. Mae'n eistedd ochr yn ochr â'r Cynlluniau Lles o'r



ardaloedd priodol i ddarparu dull system gyfan o wella iechyd a lles poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'n nodi blaenoriaethau ynghylch tri cham bywyd:

- Dechrau'n Dda: rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd.
- Byw'n Dda: cefnogi pobl i wneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.
- Heneiddio'n Dda: galluogi pobl i aros yn annibynnol wrth iddynt dyfu'n hŷn.

Cydweithredu Rhanbarthol

- 2.52 Nid yw Bro Morgannwg yn bodoli ar wahân i awdurdodau lleol eraill ac mae'n rhyngweithio ag awdurdodau lleol cyfagos yn rhanbarthol ar faterion strategol gan gynnwys paratoi'r CDLI. Mae Bro Morgannwg yn aelod o Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (GCSDdC) sy'n cynnwys 10 awdurdod lleol P-RC i ystyried materion polisi a effeithiodd ar y rhanbarth.
- 2.53 Hyd yma mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cydweithio ag awdurdodau eraill mewn cysylltiad â cyd-ddatblygu tystiolaeth ar gyfer CDLIN a bydd yn parhau i gydweithio ar nifer o brosiectau parhaus. Mae'r prosiectau gorffenedig a pharhaus yn cynnwys:
- Cytuno ar fethodoleg gyffredin ar gyfer Arfarniadau Aneddiadau Cynaliadwy.
 - Caffael system cronfa ddata ymgynghori ar gyfer y CDLI (Caerffili, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf).
 - Methodoleg Arolwg Tir Cyflogaeth.
 - Asesiad Strategol Rhanbarthol o Ganlyniadau Llifogydd.
 - Datblygu model hyfywedd datblygu ar gyfer asesiadau hyfywedd safle-benodol a lefel uchel (10 awdurdod P-RC ac awdurdodau lleol yn Rhanbarthau Canolbarth a Gorllewin Cymru).
 - Methodoleg Rhanbarthol i Nodi Lleiniau Glas a Lletemau Glas.
 - Methodoleg gyffredin ar gyfer pennu gwerthoedd trosglwyddo tai fforddiadwy.
 - Asesiad Trafnidiaeth Strategol gan ddefnyddio Model Trafnidiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru.
- 2.54 Bydd cydweithio a chysylltu â'r awdurdodau lleol eraill yn rhanbarthol yn parhau wrth i'r CDLIN fynd yn ei flaen gan gynnwys cyd-gomisiynu neu gydweithredu lle bo hynny'n briodol.



Cynlluniau Datblygu Lleol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyfagos

- 2.55 Yr awdurdodau lleol sy'n ffinio â Bro Morgannwg yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r gorllewin, Cyngor Caerdydd i'r dwyrain a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) i'r gogledd.
- 2.56 Fel y nodwyd yn Neddff Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac yr eglurir mewn polisi cynllunio cenedlaethol, rhaid i CDLI fod yn gadarn. Rhan o'r broses o bennu a yw'r cynllun yn gadarn yw ei ystyried yn erbyn profion cadernid. Mae prawf o gadernid 1 - 'Ydy'r cynllun yn ffitio?' - yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddangos ei fod yn gyson â chynlluniau awdurdodau cyfagos.
- 2.57 Mabwysiadwyd CDLIN Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Mawrth 2024. Mae'r Fro a Phen-y-bont ar Ogwr wedi cydweithio'n agos ar faterion trawsffiniol drwy gydol y broses o baratoi CDLIN Pen-y-bont ar Ogwr, gan arwain at gytuno ar 'Ddatganiad o Dir Cyffredin' sy'n nodi na chododd y Fro unrhyw bryderon na gwrthwynebiadau drwy'r broses ymgynghori ffurfiol ynghylch y CDLIN a'i sylfaen dystiolaeth ategol.
- 2.58 Mae gan Fro Morgannwg a Chaerdydd gyfagos amserlenni tebyg ar gyfer paratoi eu CDLINau, felly mae swyddogion cynllunio o'r ddau awdurdod yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd i drafod cynlluniau newydd y ddau awdurdod, yn enwedig mewn perthynas â materion trawsffiniol fel tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth. Cyhoeddodd Cyngor Caerdydd ei CDLIN Adneuo i ymgynghori arno ym mis Chwefror 2025. Paratowyd datganiad sefyllfa ar y cyd ar y berthynas rhwng CDLINau Caerdydd a Bro Morgannwg sy'n esbonio'r berthynas rhwng y ddau awdurdod cyfagos a sut yr ystyrir bod y ddau gynllun yn ategu ei gilydd yn hytrach na chystadlu â'i gilydd. Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal trafodaethau gyda RhCT, a gyhoeddodd eu Strategaeth a Ffeirir ym mis Chwefror 2024, ac mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â'i gymdogion ar unrhyw faterion trawsffiniol sy'n deillio o'r cynlluniau datblygu hyn.
- 2.59 Yn ogystal, paratowyd asesiad rhanbarthol o dwf ac ymfudo yn y dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n asesu'r twf arfaethedig o ran poblogaeth a swyddi yn y CDLINau perthnasol ledled De-ddwyrain Cymru. Ystyriodd hyn y twf arfaethedig o ran poblogaeth a swyddi ar draws y rhanbarth o safbwynt rhifiadol a gofodol, a sut roedd hyn yn cyd-fynd â Chymru'r Dyfodol. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod y twf yn nifer y swyddi lefel uwch a ragwelwyd a'r twf cronol yn nifer y swyddi a gynigiwyd yn y cynlluniau datblygu yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae Papur



Cefndir wedi'i baratoi i nodi'r Cydweithrediad Rhanbarthol sydd wedi llywio gwaith paratoi'r cynllun.

Cyd-destun Polisi Lleol

- 2.60 Mae'r adran ganlynol yn nodi dogfennau allweddol y Cyngor sydd wedi llywio datblygiad y CDLIN Adneuo. Yn ogystal, bydd tystiolaeth allweddol a baratowyd gan y Cyngor megis yr hyn sy'n ymwneud â'r angen am dai hefyd yn cael ei defnyddio wrth ddatblygu polisiau a chyfeirir at y sylfaen dystiolaeth hon yn y CDLIN.

Yr Argyfyngau Hinsawdd a Natur a Ddatganwyd

- 2.61 Ym mis Gorffennaf 2019, ymunodd Cyngor Bro Morgannwg â Llywodraeth Cymru a chynghorau eraill ledled y DU i ddatgan 'argyfwng hinsawdd' byd-eang. Ymrwymodd y Cyngor i:
- Leihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net cyn targed Llywodraeth Cymru o 2030 a chefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Cyflawni Carbon Isel newydd Llywodraeth Cymru.
 - Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru a'r DU, fel y bo'n briodol, i ddarparu'r pwerau, yr adnoddau a'r cymorth technegol mae eu hangen ar awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i gyflawni targed 2030 yn llwyddiannus.
 - Parhau i gydweithio â phartneriaid ar draws y rhanbarth.
 - Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol gan gynnwys Cynghorwyr, trigolion, pobl ifanc, busnesau a phartïon eraill perthnasol i ddatblygu strategaeth yn unol â'r targed o allyriadau sero net erbyn 2030 ac edrych ar ffyrdd o sicrhau'r buddion lleol gorau posibl o ganlyniad i'r camau hyn mewn sectorau eraill megis cyflogaeth, iechyd, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a'r economi.
- 2.62 Wedi'i gysylltu â datganiad yr argyfwng hinsawdd, ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddodd Cyngor Bro Morgannwg 'argyfwng natur' ac ymrwymodd i darged o ddim colled net o ran bioamrywiaeth ym Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i barhau i ddatblygu a gweithredu dulliau arfer gorau a all ddiogelu bioamrywiaeth Cymru.



Cynllun Llesiant Bro Morgannwg 2023-28

- 2.63 Fel rhan o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Cyngor, ynghyd â phartneriaid sector cyhoeddus fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg, wedi paratoi ei ail Gynllun Llesiant ar gyfer y Fro. Wedi'i lywio gan Asesiad Lles, mae'r Cynllun Llesiant yn cwmpasu'r 7 nod llesiant ac yn darparu fframwaith i bob corff sector cyhoeddus gyflawni'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy drwy fabwysiadu'r 5 ffordd o weithio.
- 2.64 Mae'r Cynllun Llesiant newydd yn nodi tri Amcan Llesiant newydd a'r meysydd blaenoriaeth y bydd y BGC yn canolbwyntio arnynt, ac mae'r amcanion yn adlewyrchu'r materion allweddol a'r heriau allweddol a nodwyd yn Asesiad Lles Bro Morgannwg:
- **Bro fwy gwydn a gwyrdd** – drwy ddeall a gwneud y newidiadau sy'n angenrheidiol fel unigolion, cymunedau a sefydliadau mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.
 - **Bro fwy actif ac iach** – drwy annog a galluogi pobl o bob oed i fod yn fwy actif a hyrwyddo manteision cofleidio ffordd o fyw iachach.
 - **Bro decach a mwy cysylltiedig** – drwy fynd i'r afael â'r annhegwch sy'n bodoli ledled y Fro, ymgysylltu â'n cymunedau a darparu gwell cyfleoedd a chefnogaeth i wneud gwahaniaeth parhaol.
- 2.65 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Cynllun Lles wedi nodi 3 ffrwd waith â blaenoriaeth lle canolbwyntir ar gydweithio:
- **Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur** – Mae'r Asesiad Lles yn nodi rhai o'r materion allweddol i'r Fro o ran yr argyfyngau hinsawdd a natur, ac mae partneriaid yn cydnabod mai'r ffordd orau o gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen ar draws ein sefydliadau a'n cymunedau yw trwy gydweithio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried trafnidiaeth, ynni, bwyd, bioamrywiaeth a sut rydym yn defnyddio ein hadeiladau a'n tir.
 - **Gweithio gyda'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau sy'n profi'r lefelau amddifadedd uchaf** – Mae'r Asesiad Lles wedi amlygu'r gwahaniaethau ar draws y Fro a sut mae'r anghydraddoldebau hyn wedi'u gwaethygu yn sgil pandemig Covid-19. Bydd y Cynllun Lles yn canolbwyntio'n benodol ar yr



ardaloedd hynny ym Mro Morgannwg y nodwyd eu bod yn fwy difreintiedig gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y cymunedau hyn.

- **Bod yn Fro sy'n Dda i Bobl Hŷn** – Rhagwelir y bydd cyfran poblogaeth y Fro rhwng 65-84 oed yn cynyddu. Bydd y Cynllun Llesiant yn ceisio sicrhau bod y Fro yn well i bobl hŷn ac yn lle gwell i bobl heneiddio, gan ei gwneud yn lle mwy cyfeillgar i bawb a chydabod cyfraniad pobl hŷn.

Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg 2025-2030 (Bro 2030)

- 2.66 Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg yw dogfen strategol allweddol y Cyngor ac mae'n nodi'r fframwaith ar gyfer y gwahanol weithgareddau y mae'r Cyngor yn ymgymryd â nhw. Mae'n ceisio cyflawni ystod eang o ganlyniadau a fesurir yn erbyn 4 amcan lles y cynllun:
- Creu lleoedd gwyb i fyw, gweithio ac ymweld.
 - Parchu a dathlu'r amgylchedd.
 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb.
 - Cefnogi ac amddiffyn y rhai sydd ein hangen.
- 2.67 Ar gyfer pob amcan, mae'r cynllun yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cydweithio â'r gymuned a phartneriaid i gyflawni'r amcanion dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cyfeirio'n benodol at *'ddarparu Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n cydbwyso'r angen am dwf cynaliadwy, yr argyfyngau natur a'r hinsawdd, ac anghenion cymdeithasol a diwylliannol Bro Morgannwg.'*
- 2.68 Ar ben hynny, mae nifer o gamau gweithredu penodol eraill sy'n berthnasol i gynllunio defnydd tir a'r CDLIN wedi'u nodi yn y Cynllun Corfforaethol a fydd yn helpu i gyflawni'r amcanion lles, yn fwyaf nodedig:
- Cymhwyso egwyddorion creu lleoedd ar draws ein holl weithgareddau gan sicrhau pwyslais cryf ar anghenion lleol a llais y gymuned.
 - Cyflwyno rhaglen o fuddsoddiad mawr i sicrhau adfywiad hirdymor y Barri gyda ffocws cryf ar weithio mewn partneriaeth a chreu lleoedd.



- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu safle Ynni Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Gorsaf Bŵer Aberddaw gynt) ac Ardal Fenter Bro Tathan a Maes Awyr Caerdydd fel ardaloedd twf economaidd allweddol ar gyfer Bro Morgannwg a'r rhanbarth ehangach.
- Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd da y gall pobl fanteisio arno.
- Sicrhau bod ffyrdd fforddiadwy a hygyrch i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwarae, chwaraeon, diwylliannol a threftadaeth.
- Creu amgylchedd i fusnesau fuddsoddi a ffynnu yn y Fro.
- Cyflawni ein rhaglen Prosiect Sero i leihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net a chymryd camau i gyflawni sero net ledled Cymru erbyn 2050.
- Datblygu a gweithredu polisïau cynllunio newydd i gefnogi cyflawni targed 2050 a lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â datblygiadau a thai newydd.
- Cefnogi newid o ran sut mae pobl yn teithio drwy gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a hyrwyddo'r angen am wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus lleol, amserol ac o ansawdd.
- Annog y defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn drwy osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ledled y Fro ac adolygu fflyd cerbydau'r Cyngor.
- Cymryd rhan flaenllaw yn y gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', a gweithio i gadw mwy o'n gwastraff yn lleol a chyfyngu'r hyn sy'n mynd i mewn i'r system drwy arbed, aildefnyddio ac ailgylchu mwy.
- Gwella ein seilwaith gwyrdd, cynyddu bioamrywiaeth, gwella sut rydym yn cysylltu â natur a'n gwerthfawrogiad a'n parch at y byd naturiol.
- Diogelu ein cymunedau, ein tir a'n hadeiladau rhag effaith llifogydd ac erydu arfordirol.
-

Crynodeb o Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bro Oed-Gyfeillgar 2025-2028

- 2.69 Mae Bro Morgannwg wedi derbyn statws 'Oed-gyfeillgar' gan Sefydliad Iechyd y Byd, gan gydnabod yr ymrwymiad lleol, y cynnydd a wnaed hyd yma, a'r bwriad i barhau i gefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda ym Mro Morgannwg. Er mwyn adeiladu ar gynnydd y Fro wrth weithio i fod yn gymuned sy'n dda i bobl hŷn, paratowyd Strategaeth a Chynllun Gweithredu sy'n nodi siarter o ymrwymadau, y gall y system cynllunio defnydd tir a'r CDLIN gyfrannu at gyflawni llawer ohonynt. Dyma'r dyheadau a nodwyd yn y Strategaeth:



- Mae gan bobl ymdeimlad o bwrpas, maent yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn cymryd rhan weithredol yn eu cymunedau.
- Mae pobl yn wybodus am y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt trwy fathau gwahanol o gyfathrebu.
- Mae gan bobl fynediad i fathau addas o drafnidiaeth ar draws y Fro.
- Mae gan bobl gyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar bob agwedd ar eu bywyd.
- Mae pobl yn cael eu cefnogi i gael mynediad i gyfleoedd gwaith a gwirfoddoli a'u cadw.
- Mae pobl yn cael eu cefnogi i gadw'n iach ac yn annibynnol trwy gael mynediad i wasanaethau priodol
- Mae gan bobl fynediad i fannau awyr agored ac adeiladau â chyfleusterau addas.
- Mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn eu cartrefi.

Prosiect Sero – Cynllun Her Newid Hinsawdd Cyngor Bro Morgannwg 2021-2030

- 2.70 Ym mis Chwefror 2020 llofnododd y Cyngor Siarter Argyfwng Hinsawdd gyda BGC y Fro ac mae hwn yn nodi ymrwymiad cyffredin y BGC i arwain drwy esiampl, cymryd camau cadarnhaol a lleihau ei effaith ar y newid yn yr hinsawdd.
- 2.71 Prosiect Sero yw ymateb Cyngor Bro Morgannwg i'r argyfwng newid hinsawdd. Mae Prosiect Sero yn dwyn ynghyd yr ystod eang o waith a chyfleoedd sydd ar gael i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net erbyn 2030, ac annog eraill i wneud newidiadau cadarnhaol. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at rôl y CDLI mabwysiedig wrth gyfrannu at yr ymrwymiad newid hinsawdd, er enghraifft drwy sicrhau cyfraniadau cynllunio tuag at gynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy a thrwy weithredu polisïau sy'n annog ynni adnewyddadwy.
- 2.72 Mae'r CDLIN yn rhoi cyfle i'r Cyngor archwilio ffyrdd o ddatblygu ei ymrwymladau newid hinsawdd i gyfrannu at y broses o wneud Cymru'n genedl carbon isel.



Cynllun Ynni Ardal Leol Bro Morgannwg (2024)

- 2.73 Mae Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) Bro Morgannwg wedi'i gynhyrchu i nodi'r llwybr mwyaf effeithiol i Fro Morgannwg gyrraedd system ynni sero net. Ni all y Cyngor gyflawni'r cynllun a osodwyd ar gyfer cyflawni sero net ar ei ben ei hun, ac mae'n cynnwys ymrwymïadau a chyfrifoldebau ar gyfer sefydliadau a chwmnïau partner ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Fel y nodwyd yng Ngweledigaeth y ddogfen, mae'r CYAL yn *'cynrychioli ein hymrwymiad ar y cyd i lunio dyfodol lle mae ynni'n lân, yn hygyrch ac yn deg i bob preswlydd a busnes, ac yn ystyriol o genedlaethau'r dyfodol.'*
- 2.74 Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth, mae 12 amcan yn cyd-fynd â'r CYAL:
- Lleihau allyriadau carbon cymaint â phosibl ar draws pob gweithgaredd.
 - Gwella effeithlonrwydd er mwyn lleihau'r galw am ynni.
 - Chwilio a manteisio'n strategol ar ystod amrywiol o adnoddau ariannol i gefnogi mentrau sydd â'r nod o leihau allyriadau carbon.
 - Cefnogi dyheadau Prosiect Sero Cyngor Bro Morgannwg i fod yn sero net erbyn 2030.
 - Gweithio tuag at wneud adeiladau newydd a phresennol yn garbon isel gan flaenoriaethu cynhwysiant, cydraddoldeb a thegwch.
 - Defnyddio ynni adnewyddadwy mewn modd sensitif i'r graddau mwyaf posibl.
 - Manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio hydrogen gwyrdd ar gyfer trafndiaeth a diwydiant.
 - Meithrin gwytnwch yn y gadwyn gyflenwi ynni trwy amrywiaethu ynni gan gynnwys prosiectau ynni cymunedol.
 - Gwella a chynyddu'r gwaith o drydaneiddio'r system drafnidiaeth ochr yn ochr â newid moddol.
 - Meithrin partneriaethau a chydweithrediad rhwng llywodraeth leol, busnesau, sefydliadau addysgol, sefydliadau cymunedol, a rhanddeiliaid ynni.
 - Meithrin y gadwyn gyflenwi i ddarparu swyddi o safon a chyfleoedd economaidd.
 - Creu'r gweithlu sydd ei angen i gyrraedd targedau sero net 2050.
- 2.75 Mae'r CYAL yn ddogfen fyw y dylid ei diweddarau bob 5 mlynedd. Mae'n nodi'r meysydd blaenoriaeth canlynol a fydd yn ffocws yn y byrdymor i gynorthwyo'r gwaith o roi'r Fro ar y llwybr i sero net:



- Gwneud cartrefi'n garbon isel.
- Mabwysiadu ynni adnewyddadwy ar y tir.
- Symud trafndiaeth a logisteg i fod yn sero net.
- Cefnogi trawsnewidiad ynni diwydiannol.
- Atgyfnerthu a throsglwyddo'r rhwydweithiau dosbarthu nwy a thrydan.

2.76 Mae'r CYAL yn cynnwys ffigurau llym ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei wneud er mwyn cyflawni sero net erbyn 2050, er enghraifft gosod 1,190 GWh o ynni ffotofoltäig wedi'i osod ar y ddaear o'i gymharu ag 85 GWh yn 2023. Mae cyfnod y CDLIN yn cynnwys cyfnod sylweddol lle bydd angen cymryd camau i gyflawni sero net. Yn wir, mae'r CYAL yn rhagweld y bydd diwedd y 2020au a dechrau'r 2030au yn gyfnod lle bydd y gwaith o osod y dechnoleg sydd ei hangen i gyrraedd sero net yn cyflymu. Bydd y CDLIN yn gosod y fframwaith cynllunio lleol yn ystod y cyfnod hwn. Felly, mae angen i oblygiadau cyflawni sero net, fel yr awgrymwyd gan lwybr ffafriol a nodwyd yn y CYAL, gael eu cydnabod o fewn y CDLIN.

Cynllun Trafnidiaeth Lleol Bro Morgannwg 2015-2030

- 2.77 Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLI) y Cyngor yn ceisio nodi'r mesurau trafndiaeth gynaliadwy lleol sydd eu hangen i sicrhau bod Bro Morgannwg yn cydymffurfio â'r gofynion a bennir gan Lywodraeth Cymru a'r canllawiau arfer da cyfredol. Mae'r CTLI yn nodi nifer o amcanion byrdymor hyd at 2020 ac yn cynnwys amcanion tymor canolig a thymor hwy hyd at 2030. Mae'r CTLI wedi'i lywio gan gynigion o fewn CDLI mabwysiedig y Cyngor ac mae hefyd yn gyson ag amcanion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.
- 2.78 Wrth nodi cynlluniau, mae'r CTLI yn chwilio am ffyrdd o sicrhau gwell amodau i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus ac annog newid mewn dewisiadau teithio, i ffwrdd o geir â'r gyrwyr yn unig ynddynt. Mae'r CTLI hefyd yn ceisio mynd i'r afael â thagfeydd traffig drwy sicrhau gwelliannau i'r coridorau priffyrdd strategol i gymudwyr y gallai fod angen iddynt deithio mewn car yn ogystal â darparu seilwaith gwell ar gyfer cludo nwyddau. Mae hefyd yn ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau diogelwch ffyrdd allweddol y Fro. Mae'r CTLI yn cefnogi cynigion ar gyfer Metro Caerdydd a bydd yn llywio gwaith cynllunio trafndiaeth rhanbarthol yn y dyfodol.



Blaengynllun Bioamrywiaeth Bro Morgannwg (2019)

- 2.79 Mae Blaengynllun Bioamrywiaeth (BGB) Bro Morgannwg yn canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gwella adnoddau naturiol i sicrhau bod bioamrywiaeth a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried ym mhob gwasanaeth a'u bod yn themâu craidd wrth ddarparu gwasanaethau, gan ddod yn rhan annatod o brosesau gwneud penderfyniadau ledled y Cyngor. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i ddangos sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn "ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau'n briodol ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau."
- 2.80 Mae rhan un o'r Blaengynllun yn nodi'r cefndir (gan gynnwys y cyd-destun deddfwriaethol), heriau a chyfleoedd, a'r targedau a'r camau gweithredu sydd i'w cymryd i gyflawni'r nodau hyn. Adroddir ar y camau gweithredu yn y BGB bob tair blynedd yn unol â gofynion statudol a chânt eu hadolygu a'u diweddarau ar ddiwedd pob cyfnod adrodd o 3 blynedd. Bydd yr adolygiad o'r BGB yn cyd-fynd ag un y CDLI ac felly bydd yn darparu tystiolaeth gefndirol allweddol ar gyfer y CDLI newydd ac yn llywio'r adolygiad o bolisiau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth o fewn y Cynllun.

Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Fro

- 2.81 Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) ar gyfer Bro Morgannwg gan Bartneriaeth Natur y Fro i ddarparu fframwaith i unrhyw un sy'n cyflawni camau i warchod, diogelu a chyfoethogi natur yn y Fro. Mae'r CGAN yn canolbwyntio ar 6 math eang o gynefinoedd gan gynnwys Coetir, Dŵr Croyw, Glaswelltir, Arfordirol, Amaethyddol a Threfol. Mae amrywiaeth o gamau gweithredu wedi'u nodi i gefnogi adfer natur yn y Fro, gan gynnwys camau gweithredu craidd sy'n berthnasol i bob cynefin ledled y Fro, camau gweithredu sy'n berthnasol i gynefinoedd penodol, a chamau gweithredu ar gyfer grwpiau a sefydliadau.

Strategaeth Tai Lleol Bro Morgannwg 2021-2026

- 2.82 Mae'r Strategaeth Dai yn nodi bwriadau'r Cyngor a'i bartneriaid i gyflawni ystod eang o amcanion tai. Mae'r strategaeth yn cynnwys gweledigaeth hirdymor ar gyfer tai yn y Fro lle mae "*gan holl breswylwyr Bro Morgannwg hawl i gael tŷ addas o ansawdd da, a'u bod yn gallu byw'n hapus ac yn annibynnol mewn cymunedau*



bywiog a chynaliadwy.” Mae'r weledigaeth wedi'i seilio ar bedwar nod allweddol sy'n ffurfio'r fframwaith y bydd camau'n cael eu gweithredu ynddo:

- Nod 1: Mwy o gartrefi, mwy o ddewis.
- Nod 2: Cartrefi a chymunedau gwell.
- Nod 3: Gwell cyngor a chymorth tai.
- Nod 4: Mynediad cyfartal at dai a gwasanaethau tai.

- 2.83 Mae cynllun cyflawni yn cyd-fynd â'r Strategaeth, sydd wedi'i osod dros yr un cyfnod â'r strategaeth. Mae'r cynllun cyflawni yn amlinellu ystod o gamau gweithredu a ddatblygwyd gan y Cyngor a'i bartneriaid, o dan y 4 nod.

Strategaeth Tai Pobl Hŷn Bro Morgannwg

- 2.84 Mae Strategaeth Tai Pobl Hŷn y Cyngor, 'Creu Cartrefi a Chymdogaethau yn Ddiweddarach mewn Bywyd 2022-36', yn disgrifio gweledigaeth ar gyfer Bro Morgannwg sy'n ceisio: *'sichrau'r ansawdd bywyd gorau ar gyfer pobl hŷn i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl yn ddiweddarach mewn bywyd. Golyga hyn ddarparu amrywiaeth o lety sy'n galluogi pobl hŷn i fyw bywydau boddhaus a mwynhau iechyd da mewn cartrefi deniadol sy'n diwallu eu hanghenion ac yn caniatáu iddynt gadw eu hannibyniaeth wrth iddyn nhw heneiddio.'*
- 2.85 Mae'r strategaeth yn rhagweld, erbyn 2037, y bydd angen rhyw 1,357 o dai arbenigol dynodedig ar gyfer oedran, tai ymddeol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) a thai â gofal (tai gofal ychwanegol ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu). Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd y Cyngor a'i bartneriaid i fynd i'r afael ag anghenion tai yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r strategaeth yn nodi ystod o fecanweithiau cyflawni gan gynnwys y CDLI, yr ystyrir ei fod â rôl allweddol wrth annog darparwyr tai preifat a chymdeithasol i ddatblygu ystod o dai prif ffrwd sy'n addas ac yn ddeniadol i bobl hŷn.



Y Siarter Creu Lleoedd a Chynlluniau Creu Lleoedd

2.86 Ym mis Mai 2023, penderfynodd Bro Morgannwg y dylai'r Fro lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru¹. Datblygwyd y Siarter Creu Lleoedd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru. Mae'r Siarter yn datblygu'r ffocws cynyddol ar greu lleoedd mewn polisïau ac arferion yng Nghymru a'i nod yw rhoi dealltwriaeth gyffredin o'r amrywiaeth o ystyriaethau a wneir wrth greu lleoedd. Cytunodd llofnodwyr y Siarter i hyrwyddo'r egwyddorion canlynol wrth gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a phresennol:

- Pobl a'r gymuned.
- Lleoliad.
- Symudiad.
- Cyfuniad o ddefnyddiau.
- Tir cyhoeddus.
- Dulliau adnabod.

2.87 Mae Cynlluniau Creu Lleoedd wedi cael eu paratoi ar gyfer y pedair tref yn y Fro (Y Barri, Penarth, Y Bont-faen a Llanilltud Fawr) sy'n adlewyrchu chwe egwyddor y Siarter Creu Lleoedd. Mae'n bwysig bod cysondeb rhwng Cynlluniau Creu Lleoedd a chynigion a nodwyd yn y CDLI a'r CDLIN mabwysiedig. Fodd bynnag, mae gan Gynlluniau Creu Lleoedd gylch gwaith ehangach na materion cynllunio defnydd tir, gan gwmpasu pethau eraill fel digwyddiadau, gweithgareddau mewn lleoedd a lles cymdeithasol. Bydd Cynlluniau Creu Lleoedd mabwysiedig yn cael eu cymeradwyo fel Canllaw Cynllunio Atodol ac yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.



3 NODWEDDION ALLWEDDOL BRO MORGANNWG

- 3.1 Bro Morgannwg yw Awdurdod Unedol mwyaf deheuol Cymru, sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gaerdydd rhwng yr M4 ac Aber Afon Hafren. Mae'n gorchuddio arwynebedd o 33,097 hectar (130 milltir sgwâr) y mae'r rhan fwyaf ohono, tua 85% (28,132 hectar) yn dir amaethyddol.
- 3.2 Mae'r Fro yn ffinio ag Aber Afon Hafren ag iddi 53 cilomedr o arfordir, y mae 19 cilomedr ohono wedi'i ddynodi'n 'Arfordir Treftadaeth Morgannwg'. Yr awdurdodau lleol cyfagos yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r gorllewin, Cyngor Caerdydd i'r dwyrain a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i'r gogledd.
- 3.3 Roedd poblogaeth y Fro tua 131,900 fel y nodwyd gan Gyfrifiad 2021. Y Barri, y dref fwyaf, yw'r ganolfan weinyddol a hi yw'r brif ganolfan boblogaeth gyda phoblogaeth breswyl o tua 56,600 o bobl yn 2021. Mae 45,300 o bobl eraill yn byw yn y trefi a'r pentrefi mwy, sef Penarth, Llanilltud Fawr, Dinas Powys a'r Bont-faen. Mae'r boblogaeth sy'n weddill wedi'i gwasgaru ledled pentrefi a phentrefi gwledig llai y Fro.

Patrwm Anheddiad

- 3.4 Mae patrwm anheddiad Bro Morgannwg wedi'i lunio i raddau helaeth gan dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal a thirwedd amaethyddol pennaf y Fro. Lleolir prif aneddiadau Y Barri a Phenarth ar yr arfordir ac fe'u datblygwyd o amgylch y porthladdoedd, gan wasanaethu'r galw am lo o Gymru, ond datblygwyd aneddiadau fel y Bont-faen a Llanilltud Fawr yn drefi marchnad i ddarparu gwasanaethau ar gyfer amaethyddiaeth leol. I ffwrdd o'r prif ganolfannau, nodweddir y Fro gan gymysgedd o aneddiadau sydd wedi'u lleoli'n bennaf yn neddwyrain y Fro. Mewn mannau eraill mae'r Fro wledig yn cynnwys pentrefi a phentrefi bach.
- 3.5 Mae Papur Cefndir Adolygiad Arfarnu Aneddiadau Bro Morgannwg yn gwahanu aneddiadau'r Fro yn bum categori sy'n cynrychioli orau eu rôl, eu cymeriad a'u swyddogaeth. Y rhain yw:



Anheddiad Allweddol: Y Barri

Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth: Y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Penarth

Prif Aneddiadau: Dinas Powys, Y Rhws, Sain Tathan, Llandochoau (Penarth), Sili, Gwenfô, y Wig a Chroes Cwrlwys

Aneddiadau Gwledig Bach:

Aberthin	Llancarfan	Llanbedr-y-fro
Tresimwn	Llandŵ	Tresigin
Tregolwyn	Llan-faes	Saint-y-brid
Corntwn	Llyswyrny	Sain Nicolas
Dwyrain Aberddawan	Aberogwr	Tre-os
Ewenni	Pendeulwyn	Ystradowen
Fferm Goch	Pen-llin	
Craig Pen-llin		

Pentrefannau ac Aneddiadau Gwledig Llai:

Brychdyn	Llansanwyr	Sain Dunwyd
Castell Alun	Llantridddyd	Sain Siorys
City	Maendy	Saint Hilari
Y Ddrôp	Marcroes	Llwyneliddon
Dyffryn	Llanfihangel-y-pwll	Llan-fair
Trefflemin	Yr As Fawr	Eglwys Fair y Mynydd
Ffwl-y-mwn	Moulton	Sant y Nyll
Silstwn	Norton	Swanbridge
Gwern y Steeple	Pentref Ogwr	Tair Onen
Hensol	Pancross	Downs
Llanffa	Pen-marc	The Herberts
Larnog	Pennon	Tredogan
Lecwydd	Pentremeurig	Trerhingyll
Llanbydderi	Porthceri	Tre-Dodridge
Llancatal	Rhuthun	Twynyrodyn
Llandochoau (Y Bont-faen)	Southerndown	Tre-walter
Llan-gan	Saint Andras	Llanddunwyd
Llanfihangel y Bont-faen	Llansanffraid-ar-Elái	Gorllewin Aberddawan

- 3.6 Ym mhlegwn uchaf yr hierarchaeth mae anheddiad allweddol y Barri, sef y mwyaf o drefi'r Fro ac yn ganolbwynt pwysig ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd. Wedi'i gydnabod fel canolfan weinyddol y Fro, y Barri yw'r lleoliad mwyaf cynaliadwy i ganolbwyntio cyfleoedd datblygu newydd o bwys, gyda chysylltiadau rheilffordd ardderchog â Chaerdydd (4 trên yr awr) a Phen-y-bont ar Ogwr (1 trên yr awr ond disgwylir i hyn gynyddu i 2 drên yr awr o leiaf yn ystod adegau brig fel rhan o welliannau Metro). Mae'r Barri yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau strategol gan gynnwys cyflogaeth, chyfleusterau cymunedol ac ardaloedd manwerthu sefydledig sy'n cynnig amrywiaeth o nwyddau a chyfleusterau.
- 3.7 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ardal Dociau'r Barri wedi ei adfywio gryn dipyn gyda datblygiad y cynllun Glan y Dŵr defnydd cymysg ar dir llwyd ger y dociau, a buddsoddiad yn Ynys y Barri, sy'n ganolbwynt ar gyfer twristiaeth.
- 3.8 Er bod cymeriad aneddiadau'r Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr yn wahanol i'w gilydd o ran eu maint a'u lleoliad, ystyrir eu bod yn chwarae rolau strategol tebyg. Yn ogystal â phoblogaethau preswyl sylweddol, mae'r aneddiadau hyn hefyd yn cynnig ystod o gyfleoedd cyflogaeth lleol, opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy, canolfannau manwerthu sefydledig ac amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau diwylliannol, addysgol a chymunedol. O ganlyniad, mae'r aneddiadau hyn wedi'u hystyried yn Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth, sy'n adlewyrchu eu rôl wrth ddarparu ystod o wasanaethau sy'n gwasanaethu anghenion dyddiol eu trigolion ac yn gweithredu fel hybiau pwysig i'r rhai sy'n byw mewn aneddiadau llai cyfagos.
- 3.9 Mae prif aneddiadau Dinas Powys, Y Rhws, Sain Tathan, Llandochoau (Penarth), Sili, Gwenfô, Y Wig a Chroes Cwrlwys yn ategu rôl Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth yn yr ystyr eu bod yn darparu ar gyfer anghenion trigolion ac yn darparu ar gyfer anghenion yr ardaloedd gwledig ehangach cyfagos. Maent hefyd yn cynnig sawl gwasanaeth a chyfleuster allweddol, sy'n hanfodol i'w rôl fel cymunedau cynaliadwy, wrth iddynt leihau'r angen i deithio i'r Barri neu Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth ar gyfer anghenion o ddydd i ddydd.
- 3.10 Mae'r grŵp o Aneddiadau Gwledig Bychain wedi'u gwasgaru ledled y Fro ac yn gynnwys ystod fwy cyfyngedig ond pwysig o wasanaethau a chyfleusterau sy'n




chwarae rhan weithredol wrth ddiwallu rhai o anghenion sylfaenol trigolion mewn ardaloedd gwledig, gan leihau'r angen i deithio.

- 3.11 Mae'r haen isaf o aneddiadau yn cynnwys 54 o bentrefi bach ac aneddiadau gwledig llai y Fro. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cynnwys naill ai grwpiau bach o anheddau neu grwpiau mwy gwasgaredig o eiddo preswyl (yn aml yn cynnwys tai unigol ynysig neu ffermdai ac ysguboriau wedi'u trosi). Fel arfer mae gan y llefydd hyn boblogaethau preswyl llai, yn aml o dan 100 o drigolion. Er hynny, mae'r aneddiadau yn gyfranwyr pwysig at fywyd cefn gwlad ym Mro Morgannwg a chymeriad cefn gwlad y tu allan i'r aneddiadau mwy.

Poblogaeth a Demograffeg

- 3.12 Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf (2011 a 2021) cynyddodd poblogaeth Bro Morgannwg 4.3% o tua 126,300 yn 2011 i tua 131,800 yn 2021, a oedd yn fwy na'r newid canrannol ledled Cymru gyfan dros yr un cyfnod (1.4%). Bro Morgannwg yw'r 12^{fed} awdurdod mwyaf yng Nghymru yn seiliedig ar faint y boblogaeth.
- 3.13 Bu'r twf mwyaf yn y boblogaeth (2001–2020) yn y grŵp oedran 65–79, gyda chynnydd cyffredinol o bron i 50% (Ffigur 4). Mae'r grŵp oedran 80+ hefyd wedi gweld twf sylweddol, gan gynyddu 38% dros y cyfnod hanesyddol. Mae maint y boblogaeth oedran gweithio (15–64) wedi cynyddu 10%, tra bod y boblogaeth rhwng 0-4 wedi gostwng 2%. Mae heneiddio'r boblogaeth a welwyd ym Mro Morgannwg yn nodwedd anochel o'r newid yn y boblogaeth ledled y DU, wrth i garfannau geni mwy y cyfnod wedi'r rhyfel symud i'r oedrannau ymddeol ac wrth i welliannau mewn gofal iechyd olygu bod pobl yn byw yn hirach. Bu rhai newidiadau sylweddol i'r strwythur demograffig rhwng 2011 a 2021, gyda'r boblogaeth 65 oed a hŷn yn cynyddu 24.9%. Mae hwn yn sylweddol uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan, lle mae'r boblogaeth 65 oed a hŷn wedi cynyddu 17.7%. Mae'r boblogaeth rhwng 15 a 64 oed yn y Fro wedi gostwng 1.5%, sy'n is na'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan, sef 2.5%, ond mae'r boblogaeth iau (15 oed ac iau) wedi cynyddu 4.3% o'i gymharu â gostyngiad o 1% yn y grŵp oedran hwn yng Nghymru yn gyffredinol.






Ffigur 4: Newid yn y Boblogaeth 2011 i 2021
Ffynhonnell: SYG

- 3.14 Mae data mudo Bro Morgannwg yn dangos bod y cyfnewid poblogaeth mwyaf (mewnfudo ac allfudo) wedi digwydd rhwng y Fro a Chaerdydd gyfagos. Dangosir hyn yn Ffigur 5, sy'n dangos y bu cyfnewid cyson o bobl yn symud rhwng Caerdydd a'r Fro, gyda'r Fro yn gweld cynnydd net yn ei phoblogaeth (cyfartaledd o 716 y flwyddyn) yn bennaf oherwydd llif mudo net sylweddol o Gaerdydd. Mae hyn wedi gwneud cyfraniad allweddol at y cynnydd yn y boblogaeth a nodwyd yng nghyfrifiad 2021, a oedd yn 'uwch na chyfartaledd Cymru'.







Ffigur 5: Llif Mudo Blynnyddol Rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg
Ffynhonnell: SYG

- 3.15 Mae'r cyfnewid poblogaeth rhwng y Fro a Chaerdydd wedi dylanwadu ar broffil demograffig y ddau awdurdod hefyd. Mae ffigur 6 a 7 yn tynnu sylw at y ffaith y bu mewnlif net i'r Fro ers 2001 ar draws pob grŵp oedran, heblaw'r garfan 15–19 oed, gan fod grwpiau teulu yn arbennig wedi symud i'r Fro o leoedd fel Caerdydd. I'r gwrthwyneb, mae all-lif mawr wedi bod yn gysylltiedig â phobl ifanc yn gadael yr ardal i astudio mewn mannau eraill yn y DU. Adlewyrchir hyn hefyd yn y mewnlif o bobl ifanc 15–19 oed i Gaerdydd.





Ffigur 6: Mudo Net Mewnol Bro Morgannwg – Proffil Oedran
Ffynhonnell: SYG



Ffigur 7: Mudo Net Mewnol Caerdydd – Proffil Oedran
Ffynhonnell: SYG



Y Farchnad Dai a'r Angen am Dai

- 3.16 Mae'r duedd mudo hirdymor o bobl sy'n symud rhwng Caerdydd a'r Fro yn awgrymu bod y Fro a Chaerdydd, i ryw raddau, yn rhannu marchnad dai fwy na'r farchnad dai leol, ac i raddau llai rhennir hyn hefyd â Phen-y-bont ar Ogwr gyfagos. Mae'r ffactorau hyn yn amlygu pwysigrwydd cydweithio rhwng y Fro a'i chymdogion wrth ystyried materion strategol fel twf tai.
- 3.17 Y Fro sydd â'r gymhareb fforddiadwyedd uchaf yng Nghymru gyda phrisiau tai cyfartalog yn 2023 9.7 gwaith yn fwy ar gyfartaledd nag enillion cyfartalog o'r gweithle o'i gymharu â chyfartaledd o 6.1 ar gyfer Cymru gyfan².
- 3.18 O ganlyniad, mae gan y Fro angen sylweddol am dai fforddiadwy, gyda'r angen am dai fforddiadwy yn parhau i fod yn un o'r uchaf yng Nghymru, er gwaethaf y ffaith mai'r Fro yw un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran darparu tai fforddiadwy. Gan ddefnyddio'r prif amcanestyniadau, mae Asesiad 2023 y Cyngor o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) yn nodi bod angen 1,075 o gartrefi fforddiadwy y flwyddyn dros y cyfnod 5 mlynedd 2023-2028 a 154 o gartrefi fforddiadwy y flwyddyn am y 10 mlynedd nesaf. Mae'r AFDL hefyd yn cynnwys senarios amrywiadol i asesu'r angen ar sail twf y boblogaeth yn unol ag amcanestyniadau'r CDLIN yn hytrach na phrif amcanestyniadau LIC o 2018. Yn senario'r CDLIN, mae angen 1,114 o gartrefi fforddiadwy y flwyddyn am y 5 mlynedd gyntaf, a 196 o gartrefi fforddiadwy y flwyddyn am y 10 mlynedd wedyn. Mae'r AFDL yn amlygu mai'r ardaloedd yn y Fro sydd â'r angen mwyaf yw'r Barri a Phenarth/Llandochoau, fodd bynnag, mae angen am amrywiaeth o fathau a meintiau o dai fforddiadwy ar draws yr holl ardaloedd marchnad dai yn y Fro.
- 3.19 Mae pwysau sylweddol ar lety dros dro yn y Fro am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys mwy o bobl yn rhoi gwybod i'r Cyngor eu bod yn ddigartref (wedi'i yrru mewn llawer o achosion gan yr argyfwng costau byw), yn ogystal â dyletswyddau ac ymrwymïadau'r Cyngor mewn perthynas â rhaglenni ailsefydlu. Mae'r angen am dai fforddiadwy parhaol digonol i helpu i symud pobl allan o lety dros dro yn

² SYG [Fforddiadwyedd tai yng Nghymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk)



hollbwysig ac mae gan y system gynllunio rôl hanfodol wrth gynorthwyo i ddarparu tai fforddiadwy newydd.

Sipsiwn a Theithwyr

- 3.20 Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn cael eu diwallu drwy ddarparu digon o dir yn y CDLIN ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh) diweddaraf yn nodi angen heb ei ddiwallu am leiniau yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Iechyd a Lles

- 3.21 Yn gyffredinol, ystyrir bod Bro Morgannwg yn ardal gefnog a deniadol yn y rhanbarth. Fodd bynnag, mae'r Fro yn arddangos amrywiaeth economaidd-gymdeithasol sylweddol. Mae rhannau o'r Fro wledig yn cynnwys rhai o'r cymunedau mwyaf cefnog yng Nghymru, tra bod cymunedau eraill, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, ymhlith y 10% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru.
- 3.22 Mae Mynegeion Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn dangos mai yn y Barri fu'r cymdogaethau â'r amddifadedd mwyaf yn y Fro yn gyson, yn bennaf yn y wardiau dwyreiniol. Nododd data diweddaraf MALIC (2019) fod 3 ardal yn y Barri ymhlith y 10% o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru (Gibbonsdown 2, Buttrills 2, a Court 3), gydag ardaloedd eraill yn y Barri hefyd yn disgyn o fewn yr 20% uchaf. Yn ogystal, mae pocedi o amddifadedd uchel hefyd yn bresennol mewn ardaloedd ym Mhenarth, Sain Tathan a Llanilltud Fawr.
- 3.23 Adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn iechyd a lles ein cymunedau. O'u cymharu â rhannau eraill o Gymru, mae trigolion y Fro yn dangos iechyd da ar y cyfan ac mae eu disgwyliad oes cyfartalog ymysg yr uchaf adeg eu geni ar gyfer gwrywod a benywod, ac mae eu disgwyliad oes iach ymysg yr uchaf yng Nghymru hefyd. Fodd bynnag, yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, mae disgwyliad oes pobl yn sylweddol is, lle mae cyflyrau iechyd hirdymor yn effeithio ar gyfran uwch o bobl.



- 3.24 Bydd cydnabyddiaeth o'r anghydraddoldebau hyn, sy'n arwain at anghenion cymunedol gwahanol ar lefel cymdogaeth ac ar lefel ardal leol ym Mro Morgannwg, yn mynnu dulliau pwrpasol a chyfannol sy'n mynd y tu hwnt i gylch gorchwyl y CDLIN. Fodd bynnag, gall y cynllun helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn trwy wella mynediad at gyflogaeth, gwella mannau agored a thrafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol, a chefnogi'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy a gwaith adfywio.
- 3.25 Mae mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn fater mwy heriol i rai rhannau o'r Fro, yn enwedig o ystyried y boblogaeth sy'n heneiddio, ac mewn ardaloedd gwledig lle mae cael mynediad at dtrafnidiaeth gyhoeddus yn fwy heriol. Wrth baratoi'r CDLIN, mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i nodi problemau iechyd a lles y dyfodol ac i sicrhau bod iechyd yn ystyriaeth allweddol ym mholisiâu'r Cynllun.

Addysg

- 3.26 Mae'r Fro yn cael ei gwasanaethu gan 44 ysgol gynradd, sy'n cynnwys 10 ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru, 2 ysgol gynradd Gatholig a 6 ysgol gynradd Gymraeg. Mae chwe ysgol uwchradd Saesneg, un ysgol 3-18 Gymraeg ac ysgol uwchradd Gatholig. Mae yna un ysgol arbennig, sydd â phrif ganolfan ond sydd hefyd yn gweithredu o sawl safle lloeren.
- 3.27 Mae nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd newydd wedi'u datblygu ledled y Fro fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (a elwid gynt yn Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif), gyda chynlluniau pellach fel rhan o'r rhaglen yn cael eu datblygu. Mae hyn yn cynnwys safleoedd newydd â capasiti uwch yn Ysgol Gatholig St Richard Gwyn yn y Barri (uwchradd), Ysgol Gymraeg Iolo Morganwg yn y Bontfaen (cynradd) a darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mwy yn Ysgol Llyn Derw yng Nghosmeston. Wrth baratoi'r CDLIN, mae'r Cyngor wedi ystyried anghenion addysgol sy'n deillio o dwf cynlluniedig, yn enwedig o fewn yr ardaloedd hynny lle mae capasiti'n gyfyngedig.
- 3.28 Mae Coleg Caerdydd a'r Fro hefyd wedi'i leoli yn y Barri, gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer campysau newydd ym Maes Awyr Caerdydd a Glannau'r Barri.



Cysylltedd

- 3.29 Mae'r ardal yn elwa ar gysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd da sy'n darparu cysylltedd uniongyrchol â'r rhanbarth ehangach. Mae traffordd yr M4 sydd wedi'i lleoli tua gogledd y Fro yn darparu cyswllt trafndiaeth allweddol sy'n rhoi mynediad i ranbarth De-ddwyrain Cymru a thu hwnt. Mae rheilffordd Bro Morgannwg yn mynd o'r dwyrain i'r gorllewin drwy'r awdurdod gan wasanaethu aneddiadau mwyaf y Fro sef Dinas Powys, Y Barri, Penarth (Cogan), Llanilltud Fawr a'r Rhws, gan gysylltu'r awdurdod â Chaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr a darparu cysylltiadau â phrif reilffordd de Cymru. Mae yna hefyd linell gangen rhwng Penarth a Chaerdydd, sy'n darparu cysylltiadau mynych. Mae gan y prif drefi fynediad rhesymol at wasanaethau bysiau lleol hefyd, ond nid yw pentrefi sydd wedi'u lleoli i ffwrdd o goridau bysiau allweddol yn cael eu gwasanaethu cystal.
- 3.30 Mae Maes Awyr Caerdydd ger yr arfordir i'r gorllewin o'r Barri. Cydnabyddir y maes awyr fel porth pwysig ar gyfer busnes a thwristiaeth yn ne Cymru, felly mae'n chwarae rhan sylweddol wrth gefnogi'r economi leol a chysylltu de Cymru â chyrchfannau ledled y DU a'r byd. Ers dechrau pandemig y Coronafeirws yn 2020, mae nifer y teithwyr sy'n defnyddio Maes Awyr Caerdydd wedi gostwng yn sydyn. Yn 2024, nifer y teithwyr oedd 881,000 (cyrraedd a gadael), sy'n is na'r lefelau cyn y pandemig o 1.65 miliwn yn 2019. Mae agoswydd at y maes awyr yn cynnig manteision a chyfleoedd sylweddol a dylid manteisio arnynt drwy'r cynllun.
- 3.31 Mae natur patrymau aneddiadau'r Fro yn golygu bod trigolion yn y prif drefi ac aneddiadau yn gallu cael mynediad gwell at ystod o gyfleusterau trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, ac mae'r Cyngor yn parhau i wella'r rhwydwaith teithio llesol o fewn a rhwng aneddiadau. Fodd bynnag, mae argaeledd trafndiaeth gyhoeddus yn gymharol gyfyngedig yn yr ardaloedd gwledig mwy anghysbell a rhwng yr ardaloedd hynny a'r prif drefi. Mae hyn yn cyfyngu ar hygyrchedd i gyfleusterau a gwasanaethau, yn enwedig i grwpiau difreintiedig.
- 3.32 Mae Bro Morgannwg o fewn Parth Metro De-ddwyrain Cymru ac mae'r Cyngor yn parhau i geisio gwella cysylltedd trafndiaeth gyhoeddus i wella seilwaith trafndiaeth.



- 3.33 Mae Porthladd y Barri yn gyfleuster allweddol ar gyfer diwydiant cemegol y rhanbarth, gan drin swmp-gargo hylifol ar gyfer cwmnïau cemegol mawr. Mae'r porthladd yn trin tua 300,000 tonnall o gargo, gan gyfrannu dros £340 miliwn i'r economi bob blwyddyn ac mae'n ffynhonnell bwysig o swyddi lleol.
- 3.34 Bydd cysylltedd digidol yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth alluogi gweithio ystwyth a hwyluso twf economaidd. Mae data o MALIC 2019 yn rhoi cipolwg ar ansawdd argaeledd band eang ledled Bro Morgannwg. Mae Maes Amgylchedd y MALIC yn cynnwys mesur o'r diffyg band eang ar gyflymder o 30 megabit yr eiliad (mbs), sef y cyflymder nodweddiadol a ddarperir gan gysylltiadau Ffeibr i Gabinet. Mae gwahaniaeth mewn cyflymderau lawrlwytho rhwng ardaloedd mwy gwledig a threfol Bro Morgannwg. Mae trefi fel y Barri, Penarth a'r Bont-faen yn dangos argaeledd uchel i fand eang ar 30mbs ac mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mewn ardaloedd mwy gwledig yn dangos argaeledd gwaeth. Bydd y CDLIN yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith digidol a chyfathrebu i ddiwallu anghenion defnyddwyr a darparwyr ar gyfer cyfnod y cynllun.

Economi a Chyflogaeth


Gweithle a Chymudo

- 3.35 Mae daearyddiaeth gweithgarwch economaidd o fewn yr awdurdod yn gynyddol amrywiol, gyda thrigolion y Fro yn aml yn byw, yn gweithio ac yn ymgymryd â gweithgareddau hamdden o fewn a thu allan i'r awdurdod. Ers pandemig Covid, mae nifer y bobl sy'n gweithio gartref wedi cynyddu'n sylweddol, ochr yn ochr â chyfran y gweithlu sydd â phatrymau gwaith hyblyg. Mae'r data diweddaraf o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod 34% o'r gweithlu yn gweithio gartref naill ai'n rhan amser neu'n llawn amser, er y dylid bod yn ofalus wrth ystyried y ffigur hwn oherwydd amseriad y Cyfrifiad mewn perthynas â phandemig Covid. Mae'r



ffigurau'n amrywio ar draws Bro Morgannwg, gyda'r achosion uchaf o weithio gartref wedi'u lleoli yng nghefn gwlad y Fro, a'r isaf yn y Barri³.

- 3.36 Mae'r pellteroedd y mae trigolion yn nodweddiadol yn eu teithio wrth gymudo yn gymharol fyr, gyda'r rhan fwyaf o drigolion y Fro (33.8%) yn teithio llai na 10km i'w gweithle, 16% yn cymudo hyd at 30km a 3.5% fwy na 30km. Fodd bynnag, mae lefelau all-gymudo yn parhau i fod yn gymharol uchel.
- 3.37 Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod 48% o'r trigolion sy'n gweithio sy'n byw yng Ngorllewin y Fro a 43% o'r trigolion sy'n gweithio sy'n byw yn Nwyrain y Fro yn gweithio yn y Fro. O'r rhai a oedd yn cymudo y tu allan i'r Fro, roedd y mwyafrif yn teithio i Gaerdydd gyda llifau nodedig eraill i Ben-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (Ffigur 10).



Ffigur 8: Llif Cymudo: Tarddiad a Chyrchfannau
Ffynhonnell: SYG 2011

- 3.38 Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod 72% o drigolion yn teithio i'r gwaith gan yrru cerbyd modur preifat, gyda 10% yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, 9% ar droed, 2% ar feic a 6% fel teithiwr mewn car. Dangosodd Cyfrifiad 2021 gynnydd bach yn y

³<https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/traveltoworkenglandandwales/census2021>



defnydd o geir (77%) a gostyngiad yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus (6%), ond mae'n bosibl bod y pandemig wedi cael effaith ar ffigyrau.

Strwythur Cyflogaeth

- 3.39 Cyfran poblogaeth oedran gweithio'r Fro (16-64 oed) yn 2021 oedd 60.3%; sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd rhanbarthol a chenedlaethol (62% a 61.2% yn y drefn honno).
- 3.40 Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer y swyddi ym Mro Morgannwg wedi aros yn gyson dros 41,000 ar y cyfan. Mae proffil swyddi'r bobl sy'n cael eu cyflogi yn y sector wedi newid, gyda'r newid mwyaf yn digwydd yn y sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, a gwasanaethau busnes a chymorth, gan adlewyrchu'r duedd ehangach o ran ehangu cyflogaeth mewn swyddfeydd.
- 3.41 Y sector iechyd sy'n cyfrif am y nifer fwyaf o gyflogeion ym Mro Morgannwg, gydag 8,000 neu 19.5% wedi'u cyflogi yn y sector hwn. Gweithgynhyrchu oedd yr ail ddiwydiant mwyaf ym Mro Morgannwg, gan gyflogi 3,500 neu 8.5% o'r gweithlu. Roedd y sector swyddfa breifat yn cyfrif am gyfanswm cyfunol o 15.4%, neu 6,300 o weithwyr yn y Fro, o'i gymharu â 16.8% yng Nghymru. Oherwydd y nifer uchel o drigolion a gyflogir mewn sectorau proffesiynol, gellir disgrifio'r Fro fel gweithlu medrus, a adlewyrchir yn y ffaith bod cyflog wythnosol cyfartalog y Fro £61 yn fwy na'r cyflog wythnosol cyfartalog yn y gweithle yn gyffredinol, sy'n cyfateb i 10% yn fwy⁴. Mae amaethyddiaeth, coedwigaeth a ffermio yn gwneud cyfraniad bach ond pwysig i'r economi yn y Fro wledig, gan ddarparu 800 o swyddi, neu 2% o gyflogaeth y gweithlu.





Ffigur 9: Cyflogaeth yn ôl Galwedigaeth, Ionawr 2021 - Rhagfyr 2021
Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, 2022

Twristiaeth

- 3.42 Mae gan y Fro amrywiaeth o atyniadau i dwristiaid sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol i wella lles economaidd yr ardal. Mae hyn yn cynnwys Arfordir Treftadaeth Morgannwg; Llwybr Arfordir Cymru; cyrchfannau glan môr hirsefydlog; cefn gwlad a pharciau gwledig deniadol; nodweddion hanesyddol unigryw; amrywiaeth o weithgareddau awyr agored; a rhwydwaith hirsefydlog o Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
- 3.43 Cydnabyddir glan môr Ynys y Barri a Bae Whitmore fel y prif gyrchfan i dwristiaid ym Mro Morgannwg. Mae'r gyrchfan yn adnabyddus ledled Cymoedd De Cymru, De-orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr y mae cyfran uchel o ymwelwyr wedi dod ohonynt yn y gorffennol. Mae prif atyniadau'r gyrchfan yn cynnwys y traeth, Parc Pleser Ynys y Barri, atyniadau llai eraill a nifer o beiriannau chwarae, caffis a bariau.
- 3.44 Mae cyfraniad economaidd y sector twristiaeth yn sylweddol, gyda data STEAM 2023 yn dangos mai gwerth effaith economaidd gyfan twristiaeth yw £327.89 miliwn, gyda 2,970 o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi'u cefnogi gan wariant twristiaeth a 4.05 miliwn o ymwelwyr. Mae yna nifer sylweddol o ymwelwyr undydd



ac ymwelwyr sy'n aros, ond mae'r ffigurau yn dal i fod ychydig yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

Manwerthu

- 3.45 Mae'r sector manwerthu ym Mro Morgannwg yn cynnwys amrywiaeth o siopau cyfleustra a chymharu sy'n canolbwyntio'n bennaf ar aneddiadau'r Barri, Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen, ac yn y parc manwerthu y tu allan i'r canol yng Nghroes Cwrlwys. Nododd archwiliadau iechyd ar y prif ganol trefi a gynhaliwyd fel rhan o'r Astudiaeth Hamdden Manwerthu a Masnachol (2023) fod Penarth, Y Bont-faen a Llanilltud Fawr yn perfformio'n dda, gyda lefelau is na'r cyfartaledd o unedau gwag yng nghanolfannau'r ardal. Fodd bynnag, roedd gan Heol Holltwn yng nghanol tref y Barri a Chanolfan Ardal y Stryd Fawr nifer uwch na'r cyfartaledd o unedau gwag. Mae angen sicrhau bod polisïau'r dyfodol yn caniatáu hyblygrwydd ar gyfer ystod ehangach o ddefnyddiau a fyddai'n dderbyniol o fewn canol tref, yn unol â'r egwyddor canol trefi yn gyntaf a'r angen i greu lleoedd bywiog.
- 3.46 Nododd yr astudiaeth fanwerthu fod Bro Morgannwg yn cadw cyfran iach o wariant ar nwyddau cyfleustra, gydag 86.1% (£275.7 miliwn) o'r holl wariant cyfleustra (eitemau hanfodol bob dydd fel bwyd) gan drigolion y Fro yn cael ei wario mewn unedau manwerthu yn y Fro. Fodd bynnag, mae llawer o'r gwariant hwn yn digwydd mewn siopau y tu allan i'r canol yn hytrach na chanol trefi. Ar gyfer siopa cymharu (eitemau manwerthu nad ydynt yn cael eu prynu'n aml), mae'r Fro yn cadw ychydig dros hanner (50.3%) o'r holl wariant cymharu (£294.5 miliwn), gyda'r gollyngiadau allan o'r ardal yn cael eu cyfeirio'n bennaf tuag at Gaerdydd.
- 3.47 Canfu'r astudiaeth fod capasiti gofod llawr cyfleustra rhwng 4,282 metr sgwâr a 5,862 metr sgwâr (yn dibynnu ar y math o weithredwr), sydd oherwydd masnachu siopau presennol uwchben lefelau'r llinell sylfaen. Mewn termau ansoddol, nodwyd bod yna angen/capasiti cwsmeriaid am archfarchnad ganolig i fawr yng nghanol trefi Heol Holltwn y Barri, Penarth, a Llanilltud Fawr, yn unol â'r polisi canol trefi yn gyntaf.

Yr Amgylchedd Naturiol



- 3.48 Mae'r Fro yn dirwedd iseldir nodedig sy'n cynnwys llwyfandir calchfaen i raddau helaeth, a rennir gan sawl afon gan gynnwys Afon Elái, Afon Ddawan a Waycock. Mae amrywiaeth o ddefnyddiau tir gwledig yn nodweddu'r ardal, a atgyfnerthir gan wrychoedd trwchus, coetiroedd bychain mynych ac ardaloedd o goed, sy'n creu ymdeimlad o glydwch. Mae'r dirwedd yn dod i ben yn sydyn ar yr Arfordir Treftadaeth gyda chlogwyni fertigol. Wedi'u gwasgaru rhwng y clogwyni mae sawl traeth tywod a graean ar hyd yr arfordir.
- 3.49 Mae llawer o dirweddau'r Fro yn cael eu hadnabod drwy ddynodiad am eu safon uchel. Mae un Dirwedd o Ddiddordeb Arbennig ac Eithriadol yn bodoli'n gyfan gwbl o fewn y Fro ac un arall yn rhannol. Mae 6 Ardal Tirwedd Arbennig, ac mae arfordir gorllewinol y Fro yn cael ei gydnabod am ei phwysigrwydd cenedlaethol fel Arfordir Treftadaeth Morgannwg.
- 3.50 Mae'r cymysgedd o dirweddau arfordirol a chefn gwlad yn arwain at amrywiaeth fawr o gynefinoedd, rhai ohonynt yn eithaf prin megis y llyn mesotroffig, Pysgodlyn Mawr, yn Hensol a'r morlyn halwynog yn Aberddawan. Mae'r amrywiaeth hon hefyd yn golygu bod arfordir a chefn gwlad y Fro yn cynnal amrywiaeth gyfoethog o blanhigion ac anifeiliaid. Mae rhywogaethau prin yn bresennol, gan gynnwys y glöyn byw Brith y Gors Brown, y Pibydd Gwyrdd, Blodyn-ymenyn yr ŷd, y Sarth, y Berdysyn Gwisgi a'r Cardwenynen. Er bod maint llawer o'r cynefinoedd yn gymharol fach, mae rhai yn fwy helaeth, megis rhostir, glaswelltiroedd arfordirol a choetiroedd, ac mae hyd gwrychoedd hynafol ac ymylon caeau â'r sy'n llawn rhywogaethau yn sylweddol.

I gydnabod cynefinoedd cyfoethog y Fro, mae llawer o'i hardaloedd wedi'u dynodi am eu gwerth bioamrywiaeth gan ddynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol sy'n golygu ei bod yn un o'r ardaloedd cyfoethocaf o ran bioamrywiaeth a harddwch naturiol yn ne Cymru. Mae 2 safle yn y Fro wedi'u dynodi'n safleoedd Ewropeaidd o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd: Aber Afon Hafren, a nodir fel safle RAMSAR, Ardal Cadwraeth Arbennig, ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig; a Bae Dwnrhefn, sy'n cael ei nodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae Ardal Cadwraeth Arbennig Cynffig hefyd yn ymestyn i'r Fro yn y Dwyrain. Yn ogystal, mae yna amrywiaeth o ddynodiadau cenedlaethol a lleol gan gynnwys 27 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; dros 300 o Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur; 12 Safle o Bwysigrwydd Daearegol a Geomorffolegol Rhanbarthol a 3 Gwarchodfa Natur Leol. Mae'n bwysig diogelu'r ardaloedd



dynodedig hyn a, lle bo modd, manteisio ar gyfleoedd i greu rhwydweithiau ecolegol newydd.

- 3.51 Mae'r CDLI mabwysiedig yn nodi lletemau gwyrdd sy'n ceisio atal ymgyfuniad aneddiadau a chadw'r natur agored. Mae'r lletemau gwyrdd hyn wedi cael eu hadolygu yn unol â methodoleg ranbarthol ar gyfer adnabod lletemau gwyrdd. Ystyriwyd hefyd y dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig presennol i sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn briodol.

Iaith, Diwylliant, Treftadaeth ac Amrywiaeth

- 3.52 Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i hannog ym mhob cwr o Gymru. Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 11.5% o'r boblogaeth 3 oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg, sy'n gynydd o'i gymharu â Chyfrifiad 2011, lle roedd dim ond 10.8% o bobl 3 oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn groes i'r duedd a gafwyd ledled Cymru yn gyffredinol, lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 19% yn 2011 i 17.8% yn 2021.
- 3.53 Mae canran y bobl sy'n cofnodi eu bod yn dod o grŵp ethnig nad yw'n wyn wedi cynyddu yng Nghyfrifiad 2021 o'i gymharu â Chyfrifiad 2011, gyda 5.4% yn nodi eu bod yn perthyn i grŵp ethnig heblaw Gwyn, o'i gymharu â 4.4% yn 2011. Nododd Cyfrifiad 2021 fod 2.1% o'r boblogaeth yn nodi eu hethnigrwydd fel 'Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig, neu Asiaidd Cymreig', nododd 0.5% eu bod yn 'Ddu, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd', nododd 2.3% eu bod o 'Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog' a nododd 0.5% eu bod mewn 'grŵp ethnig arall'.
- 3.54 O ran ei threftadaeth ddiwylliannol, mae gan Fro Morgannwg tua 740 o adeiladau rhestredig, dros 100 o Henebion Cofrestredig, 39 o Ardaloedd Cadwraeth, 18 o ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol a 2 ardal sydd wedi'u nodi yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru.

Newid yn yr Hinsawdd a Pherygl Llifogydd



- 3.55 Yn 2019 roedd Bro Morgannwg yn cyfrif am oddeutu 5% o allyriadau carbon Cymru, gyda 1,113 ktCO₂. Oherwydd gostyngiadau mewn allyriadau diwydiannol, yn bennaf o ganlyniad i gau Gorsaf Bŵer Aberddawan, mae allyriadau wedi gostwng yn sylweddol i 550ktCO₂ yn 2023. Fodd bynnag, mae allyriadau yn parhau i fod yn uchel yn y Fro, ac mae'r allyriadau fesul pen o'r boblogaeth, sef 4.2tCO₂, yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 3.6tCO₂. Felly, er bod allyriadau wedi gostwng yn sylweddol, mae cau Gorsaf Bŵer Aberddawan yn 'fuddugoliaeth hawdd' ac mae angen mwy o ostyngiadau, anoddach efallai, dros gyfnod y Cynllun i sicrhau y gwneir cynnydd tuag at sero net. Yn 2023, y sectorau sy'n allyrru'r symiau mwyaf o garbon yw adeiladau (45%), trafnidiaeth (30%), diwydiant (14%) a chynhyrchu trydan (11%). Adeiladau bellach yw'r ffynhonnell fwyaf o allyriadau carbon yn y Fro ac mae gan 53% o stoc dai y Fro sgôr TPY o D neu'n waeth. Mae 38% o alw trydan y Fro yn cael ei ddiwallu gan gynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol, gyda phaneli solar ffotofoltäig wedi'u gosod ar y ddaear (84MW) a biomas (45MW) yn cyfrannu at hyn.
- 3.56 Fel awdurdod arfordirol bydd newid hinsawdd yn cael effaith ddramatig ar arfordir y Fro a'r cymunedau o fewn ardaloedd arfordirol oherwydd cynnydd yn lefel y môr a stormydd sy'n golygu bod yr arfordir yn fwy agored i lifogydd ac erydu arfordirol. Hefyd, mae ardaloedd o'r Fro yn agos at ardaloedd sydd eisoes mewn perygl o lifogydd, yn enwedig ardaloedd cyfagos yn y Barri, Dinas Powys a Phenarth. Mae Cofrestr Cymunedau mewn Perygl Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif bod tua 5,000 o eiddo preswyl yn y Fro mewn rhywfaint o berygl o lifogydd ar hyn o bryd⁵. Dengys amcanestyniadau cyffredinol ar gyfer y newid yn yr hinsawdd y bydd glaw amlach a dwysach yn fwy tebygol. Disgwylir y bydd digwyddiadau difrifol fel stormydd 2020 yn dod yn fwy cyffredin gydag achosion mwy difrifol ac aml o lifogydd mewn cartrefi, cymunedau a busnesau. Ar yr un pryd, mae llifogydd arfordirol yn fygythiad cynyddol oherwydd cynnydd cymedrig yn lefel y môr a chynnydd mewn tywydd stormus ac uchder tonnau. Bydd yr effeithiau hyn sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn cynyddu nifer yr eiddo, y seilwaith a'r gwasanaethau allweddol a fydd mewn perygl o lifogydd o bob ffynhonnell.

⁵ https://mapdata.llyw.cymru/layergroups/geonode:nrw_communities_at_risk_register



4 THEMÂU ALLWEDDOL, GWELEDIGAETH AC AMCANION Y CDLLN

THEMÂU ALLWEDDOL

- 4.1 Rôl y CDLIN yw darparu fframwaith polisi a fydd yn mynd i'r afael â'r materion defnydd tir y mae Bro Morgannwg a'i chymunedau yn eu hwynebu. O ystyried cyd-destun a nodweddion uchod y Fro, gan gynnwys materion allweddol ym maes polisi cenedlaethol a chynlluniau a strategaethau lleol a rhanbarthol eraill, yn ogystal ag adborth a gafwyd gan ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth baratoi'r cynllun, nodwyd y Themâu Allweddol canlynol.

Themâu Allweddol y CDLIN	
	Lliniaru ac Addasu i Newid Hinsawdd
Blaenoriaethu lliniaru ac addasu i Newid Hinsawdd, gan sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yn y Fro yn ymateb i'r achosion ac yn wydn i effeithiau Newid Hinsawdd.	
	Gwella Iechyd Meddyliol a Chorfforol a Llesiant
Gwella iechyd a lles ein trigolion trwy feithrin cymunedau llesol ac iach ar gyfer byw, gweithio ac ymweld â nhw, a lleihau anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol-economaidd mewn modd cynaliadwy.	
	Cartrefi i Bawb
Mae angen i'r cyflenwad tai allu ymateb i boblogaeth gynyddol yr awdurdod ond rhaid iddo hefyd fod yn briodol o ran math, deiliadaeth a lleoliad. Yn ogystal, rhaid cael darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy er mwyn darparu ar gyfer y rhai sydd mewn angen.	





Creu Lleoedd

Hwyluso'r gwaith o ddatblygu cymunedau addasadwy, hygyrch, cysylltiedig iawn sydd ag ymdeimlad cryf o hunaniaeth, yn cynnig ystod gynaliadwy o wasanaethau a chyfleusterau ac sydd â seilwaith atodol addas.



Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Gwarchod a gwella ansawdd, cysylltedd a gwydnwch amgylchedd naturiol a seilwaith rhwydwaith gwyrdd / glas y Fro a gwneud y gorau o'r cyfleoedd i gyflawni budd bioamrywiaeth net. Rhaid rheoli adnoddau naturiol, mwynau a gwastraff mewn ffordd gynaliadwy ym Mro Morgannwg er mwyn sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gan gynnwys defnyddio a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.



Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth

Cadw a gwella asedau diwylliannol a threftadaeth yr awdurdod, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd a gyflwynir gan hunaniaeth amgylcheddol a diwylliannol hanesyddol a naturiol y Fro.



Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog, a Chysylltiedig

Meithrin datblygiad cymunedau diogel a chydlynol sydd wedi'u cysylltu'n dda, a sicrhau bod yr holl brosesau ymgysylltu mor gynhwysol â phosibl, gan ganiatáu i bawb sy'n dymuno rhannu eu barn drwy gydol proses y CDLIN i wneud hynny.



Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy

Creu a hyrwyddo'r defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio, yn enwedig dulliau teithio llesol, tra'n lleihau'r angen i deithio ar yr un pryd.



Adeiladu Economi Lewyrchus a Gwyrdd

Hwyluso twf economaidd ledled yr awdurdod, gan sicrhau amrywiaeth a dewis o safleoedd cyflogaeth lleol a strategol a chyfleoedd gwaith mewn ymateb i anghenion cyflogaeth. Dylai'r cyfleoedd hyn allu addasu i newid a meithrin twf gweithlu medrus iawn.



- 4.2 Mae datblygiad elfennau craidd y CDLIN, sef y Weledigaeth, amcanion a pholisïau strategol a nodir yn yr adrannau canlynol wedi'i lywio gan y themâu allweddol hyn.

GWELEDIGAETH (2021 - 2036)

- 4.3 Mae gan y CDLIN rôl hanfodol i'w chwarae wrth hyrwyddo a darparu cymunedau cynaliadwy, bywiog a chynhwysol. Mewn ymateb i'r materion strategol a'r themâu allweddol, mae Gweledigaeth y CDLIN, ynghyd â'r 10 amcan strategol, yn cyfleu'r ffordd y bydd y Cyngor, drwy gynllunio defnydd tir, yn sicrhau bod datblygu yn y dyfodol yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r materion allweddol hyn. Mae'r Weledigaeth yn cefnogi'r cyfleoedd a'r uchelgeisiau ar gyfer Bro Morgannwg dros oes y cynllun.
- 4.4 Mae Gweledigaeth y CDLIN yn edrych ymlaen 15 mlynedd hyd at 2036 ac yn dangos sut y bydd twf yn cyfrannu at wneud y Fro yn lle iachach, cysylltiedig a chynaliadwy lle mae pobl eisïau byw a gweithio. Mae'n pennu'r cyfeiriad cyffredinol a ddisgrifir yn fanylach mewn amcanion gofodol mwy penodol, ac yn ffurfio'r cysylltiad rhwng y weledigaeth lefel uchel a'r strategaeth twf gofodol a'r polisïau strategol.

Gweledigaeth CDLIN Bro Morgannwg

Erbyn 2036:

Bydd y Cyngor wedi cyflawni ei darged o fod yn ddi-garbon erbyn 2030. Mae wedi mabwysiadu technegau arloesol a defnyddio adnoddau yn effeithlon i liniaru ei effaith ar yr amgylchedd, ac mae prosiectau di-garbon enghreifftiol gan gynnwys ysgolion a rhwydweithiau gwresogi ardal wedi'u gweithredu. Mae datblygu Parc Ynni Gwyrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn Aberddawan wedi sefydlu Bro Morgannwg fel canolfan ranbarthol ar gyfer arloesi ym maes ynni adnewyddadwy a gwyrdd a gweithgynhyrchu di-garbon. Mae'r holl ddatblygiadau ym Mro Morgannwg bellach wedi eu hadeiladu i'r safonau uchaf o ran dylunio a pherfformiad amgylcheddol, gan ymgorffori mesurau i liniaru ac addasu i effeithiau Newid yn yr Hinsawdd.

Mae Bro Morgannwg yn lle iach a chynhwysol i bawb, gyda mynediad teg at wasanaethau a chyfleusterau, yn gorfforol a digidol. Mae'r trigolion yn falch o le



maen nhw'n byw a gallant gael y cartrefi sydd eu hangen arnynt. Mae twf tai wedi darparu cartrefi sy'n darparu ar gyfer pawb, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy a thai pobl hŷn; gan gyfrannu tuag at gymunedau amrywiol a chydlynol lle gall trigolion gynnal eu hannibyniaeth.

Drwy greu lleoedd, mae lleoedd a gofodau yn ddiogel, yn hygyrch ac yn gymdeithasol gynhwysol. Mae datblygiadau yn parchu cymeriad lleol ac mae'r ymdeimlad o le yn cael ei werthfawrogi gan drigolion ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles. Cyflawnwyd gwelliannau cadarnhaol o ran lleihau bwch yr anghyfartaledd o ran ansawdd bywyd ac mae achosion iechyd gwael wedi'u lleihau i drigolion sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf drwy well mynediad at gyflogaeth, addysg, hyfforddiant, gwasanaethau a buddsoddiad yn yr amgylchedd adeiledig.

Mae'r Fro yn mwynhau rhwydwaith o fannau gwyrdd a glas cysylltiedig, aml-swyddogaethol a hygyrch, gan ddarparu ystod o fanteision hamdden ac iechyd gwell o fewn a rhwng trefi, pentrefi ac yng nghefn gwlad. Mae mwy o drigolion yn ymgymryd â ffyrdd iach a llesol o fyw. Mae buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd wedi cynhyrchu budd bioamrywiaeth net gyda chreu cynefinoedd newydd, cysylltedd gwell a phlannu yn darparu datrysiadau seiliedig ar natur ac yn cyfrannu at gydnerthedd ac addasu yn wyneb Newid Hinsawdd.

Mae'r Fro'n parhau i fod yn rhywle lle mae diwylliant ac amrywiaeth pobl, a rhinweddau unigryw ei chymunedau, yn cael eu cydnabod a'u dathlu. Mae creu lleoedd yn cefnogi ymdeimlad cryf o gymuned ac wedi cyfrannu at wella ansawdd bywyd pob cenhedlaeth. Mae trigolion ac ymwelwyr yn gallu cyrchu cyfleusterau lleol a lleoedd cynhwysol i gwrdd a chwarae ynddynt. Bydd datblygiadau newydd yn parchu cymeriad lleol y Fro, gan warchod ei hamgylchedd hanesyddol, naturiol ac adeiledig eithriadol. Mae treftadaeth hanesyddol bwysig y Fro yn parhau i gael ei gwarchod a'i gwella.

Mae Rhaglen Twf ac Adfywio'r Cyngor ar gyfer y Barri wedi llwyddo i drawsnewid y dref. Mae'r dref a chanolfannau manwerthu lleol yn lleoedd bywiog, tra bod y marina newydd yng Nglannau'r Barri ac adfywio Ynys y Barri yn cynnig twristiaeth gydol y flwyddyn. Mae amrywiaeth o gynlluniau ardaloedd cyhoeddus wedi gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol drwy'r dref.



Mae trefi'r Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth yn ganolfannau gwasanaeth cynaliadwy bywiog a deniadol sy'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu ystod amrywiol o wasanaethau a chyfleusterau i'w trigolion a'r rhai sy'n byw mewn pentrefi cyfagos. Mae canol trefi wedi addasu i adlewyrchu newidiadau mewn ymddygiad manwerthu a bellach yn gweithredu fel canolfannau aml-dddefnydd sy'n darparu mannau manwerthu, hamdden, adloniant, cymunedol a chyflogaeth.

Mae twf o fewn aneddiadau gwledig wedi darparu ar gyfer anghenion trigolion ac yn cefnogi cymunedau aml-genhedlaeth cytbwys sy'n cyfrannu at fywiogrwydd yr ardal wledig. Trwy fuddsoddi mewn teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a chysylltedd band eang mae'r fro wledig yn gefn gwlad byw a gweithiol sy'n cefnogi rhwydwaith o gymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus.

Mae cyflawni Metro De-ddwyrain Cymru yn golygu bod Bro Morgannwg bellach wedi'i chysylltu'n dda gan system drafnidiaeth integredig sy'n cefnogi twf economaidd a lleihad yn y defnydd o geir preifat o ganlyniad i hynny. Mae gan gymunedau fynediad at gysylltedd trafnidiaeth gwell yn lleol ac yn rhanbarthol, gyda thwf economaidd a thai yn cael ei ddarparu'n gynaliadwy er budd cymunedau. Mae rhwydweithiau teithio llesol gwell o fewn a rhwng trefi a phentrefi wedi creu cymdogaethau bywiog a hygyrch i drigolion sydd wedi eu cysylltu â'u haneddiadau gwledig cyfagos.

Mae gan y Fro economi leol ffyniannus gyda sylfaen fusnes gytbwys ac amrywiol. Mae twf cyflogaeth newydd ym Mharthau Menter Bro Tathan a Maes Awyr Caerdydd wedi denu buddsoddiad mewnol gan fusnesau sy'n seiliedig ar wybodaeth ac uwch-dechnoleg, gan greu cyflogaeth a hyfforddiant o ansawdd uchel. Mae gan y Fro weithlu medrus sy'n gallu ymaddasu. Mae darparu safleoedd cyflogaeth strategol a lleol, ochr yn ochr â chyfleoedd i fusnesau gwledig, arallgyfeirio amaethyddol a chysylltedd digidol, wedi galluogi busnesau presennol i dyfu a ffynnu ac mae wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cymudo allan o'r ardal.

Drwy fuddsoddi'n gryf mewn twristiaeth, hamdden, adloniant ac isadeiledd gwyrdd, mae Bro Morgannwg yn gyrchfan ymwelwyr gydol y flwyddyn. Mae rheoli sensitif a chynaliadwy ar ei hasedau adeileddig a naturiol gan gynnwys yr Arfordir Treftadaeth, Parciau Gwledig, traethau, cefn gwlad a threftadaeth hanesyddol wedi galluogi twristiaeth i ffynnu. Mae'r Fro yn denu ymwelwyr o bell ac mae



twristiaeth yn ffynhonnell bwysig o gyflogaeth leol, buddsoddiad, ac yn hwylusydd arallgyfeirio gwledig.

AMCANION STRATEGOL

4.5 Mae'r 10 amcan strategol isod yn ehangu gweledigaeth y CDLI yn 9 thema allweddol ar gyfer Bro Morgannwg. Mae'r amcanion hyn nid yn unig yn adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol, ond hefyd dyheadau'r Cyngor a rhanddeiliaid allweddol, ac mae'n dangos sut y bydd y CDLIN yn helpu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Amcan 1 - Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd

- Sicrhau'r defnydd effeithlon o adnoddau naturiol, hyrwyddo technegau dylunio ac adeiladu cynaliadwy o fewn datblygiadau newydd. Cefnogi mwy o gynhyrchu ynnio adnewyddadwy a charbon isel, gan gynnwys cynlluniau gwresogi ardaloedd a rhai wedi'u harwain gan y gymuned.
- Annog datblygiad sy'n lleihau'r angen i deithio mewn car ac annog pobl i arfer teithio llesol a defnyddio trafndiaeth gynaliadwy i leihau allyriadau a gwella ansawdd aer.
- Sicrhau bod yr holl ddatblygiadau a seilwaith newydd yn wydn o ran effeithiau sy'n deillio o'r Newid yn yr Hinsawdd yn y dyfodol. Cyfeirio datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd lle mae risg o lifogydd a/neu erydu arfordirol wedi'i nodi ac ymgorffori mesurau rheoli dŵr, mesurau cyfoethogi bioamrywiaeth a mesurau addasu.

Amcan 2 - Gwella Iechyd a Lles Meddyliol a Chorfforol

- Sicrhau bod pob man yn cynnig amgylcheddau cynhwysol a hygyrch ar gyfer pob oedran sy'n hwyluso rhyngweithio â natur a phobl eraill, a mynediad at gyfleusterau gofal iechyd angenrheidiol. Galluogi preswylwyr i gymryd rhan mewn ffyrdd o fyw actif, drwy ddarparu mynediad cyfleus i fannau agored a llwybrau teithio llesol ar gyfer hamdden, adloniant a gwaith.
- Galluogi darparu cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant ac adfywio lleol sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol.



Amcan 3 - Cartrefi i Bawb

- Sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn darparu tai o safon uchel sy'n cynnwys y cymysgedd, y ddeiliadaeth a'r math o gartrefi cywir sy'n ymateb i anghenion newidiol poblogaeth y Fro. Mae hyn yn cynnwys cartrefi sy'n fforddiadwy, hygyrch ac addasadwy i bobl o bob oed ac sy'n mynd i'r afael ag anghenion llety a nodwyd yn holl gymunedau'r Fro drwy bob cyfnod o'u bywydau.

Amcan 4 - Creu Lleoedd

- Drwy greu lleoedd, sicrhau y bydd pob datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at greu ymdeimlad o le. Bydd yr holl ddatblygiadau newydd wedi'u lleoli'n briodol ac yn cyfrannu tuag at greu lleoedd llesol, diogel, a hygyrch sy'n cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau. Bydd cymeriad y cymunedau presennol yn cael ei ddiogelu a'i wella drwy ddatblygu lleoedd sy'n parchu arbenigrwydd lleol a'r lleoliadau presennol.
- Hwyluso darpariaeth seilwaith cymunedol hygyrch sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion y gymuned, gan gynnwys iechyd o ansawdd uchel, addysg, hyfforddiant, a chyfleusterau a mannau cymunedol diwylliannol, cymdeithasol a hamdden.

Amcan 5 - Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

- Gwarchod a gwella ansawdd, cysylltedd a gwydnwch amgylchedd naturiol a seilwaith rhwydwaith gwyrdd / glas y Fro a gwneud y gorau o'r cyfleoedd i gyflawni budd bioamrywiaeth net. Blaenoriaethu tir llwyd a ddatblygwyd yn flaenorol ar gyfer datblygiadau newydd, gan gyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd o ddiddordeb gwarchod natur a diogelu'r amgylchedd naturiol sensitif rhag datblygiad amhriodol.
- Rhaid rheoli adnoddau naturiol, mwynau a gwastraff mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gan gynnwys defnyddio a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.



Amcan 6 - Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth

- Cydnabod gwerth treftadaeth adeiledig y Fro drwy wreiddio creu lleoedd yn y broses Gynllunio, er mwyn sicrhau bod cynigion datblygu yn amddiffyn amgylchedd adeiledig hanesyddol y Fro rhag newidiadau niweidiol. Sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwarchod a gwella rhinweddau deniadol asedau hanesyddol y Fro, yn ymateb yn briodol i'r cyd-destun unigryw lleol ac yn sicrhau safonau dylunio uchel.
- Cynnal a gwella cyfleusterau diwylliannol y Fro, a lle bo'n briodol sicrhau cyfleoedd ar gyfer cyfoethogi diwylliannol o fewn datblygiadau newydd, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, yr amgylchfyd cyhoeddus a thrwy ddarparu gofodau ac adeiladau cymunedol amlbwrpas.

Amcan 7 - Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog a Chysylltiedig

- Hwyluso adfywiad ffisegol, economaidd, a chymdeithasol, gan adlewyrchu anghenion a dyheadau cymunedau lleol, drwy ddarparu cartrefi newydd, cyflogaeth, a chysylltedd trafnidiaeth gwell.
- Galluogi arallgyfeirio o ran defnydd o fewn trefi a chanolfannau masnachol a gwasanaeth lleol i gynnig cymysgedd o ddefnyddiau manwerthu, hamdden, masnachol a chymunedol. Gwella teithio llesol a chysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus o fewn a rhwng trefi ac aneddiadau cyfagos.
- Darparu ar gyfer cymunedau gwledig hanfodol a bywiog tra'n gwarchod cefn gwlad trwy sicrhau twf mewn lleoliadau cynaliadwy, sy'n gysylltiedig â'r Hierarchaeth Aneddiadau, ochr yn ochr â darparu seilwaith ategol.

Amcan 8 - Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy

- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu cyfeirio at leoliadau sydd, neu a fydd, erbyn yr amser y cânt eu meddiannu, yn hawdd eu cyrraedd drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cynnig mwy o gyfleoedd i breswylwyr deithio'n llesol, drwy ymgorffori cyfleusterau teithio llesol ac annog newid modol tuag at fwy o ddefnydd o dtrafnidiaeth gynaliadwy.



- Dod o hyd i gyfleoedd i wneud y mwyaf o fuddsoddiad mewn trafndiaeth leol sy'n deillio o Fetro De-ddwyrain Cymru er mwyn cryfhau cysylltedd trafndiaeth gyhoeddus yn lleol ac yn rhanbarthol, darparu rheolaeth dros y rhwydwaith priffyrdd, lleihau dibyniaeth ar geir, a chynnig dewisiadau diogel ac effeithiol ar gyfer cerdded a beicio ochr yn ochr â gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus gwell.

Amcan 9 - Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd

- Darparu ar gyfer amrywiaeth a dewis o dir cyflogaeth o ansawdd da a chefnogi seilwaith i alluogi busnesau lleol i ehangu. Creu cyfleoedd ar gyfer mewnffuddsoddiad a galluogi economi'r Fro i ymateb i newidiadau mewn patrymau gwaith a chyflogaeth yn y dyfodol.
- Hyrwyddo Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan a safle'r hen orsaf bŵer yn Aberddawan fel meysydd cyflogaeth strategol pwysig, gan ddarparu swyddi o safon uchel a medrus, hyfforddiant a chyfleoedd addysg. Cefnogi arallgyfeirio'r economi wledig, gan alluogi cyfleoedd i ddarparu safleoedd cyflogaeth a busnes o fewn aneddiadau gwledig a hwyluso'r twf mewn mentrau gwledig.
- Hwyluso twf twristiaeth gynaliadwy, gan gydnabod ei gyfraniad at les economaidd y Fro. Galluogi gwell hamdden, adloniant, gweithgarwch economaidd, arallgyfeirio, a datblygu cynaliadwy.

Amcan 10 - Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy

- Creu cyrchfan twristiaeth deniadol gyda darlun positif i Fro Morgannwg, gan annog datblygu cynaliadwy a chyfleusterau o safon i wella profiad ymwelwyr a phreswylwyr.



5 Y STRATEGAETH A FFAFRIR

5.1 Mae strategaeth y CDLN yn nodi ardaloedd eang lle ceir datblygiadau newydd er mwyn cyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion a nodwyd yn gynharach yn y Cynllun. Lluniwyd y strategaeth gan roi ystyriaeth lawn i'r canlynol:

- Y cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ran polisi.
- Y materion cymdeithaso, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol sy'n berthnasol i Fro Morgannwg.
- Adroddiad Adolygu'r CDLI mabwysiedig.
- Y materion a nodwyd yn Adroddiadau Monitro Blynnyddol y CDLI mabwysiedig.
- Amrywiaeth o senarios twf poblogaeth, aelwydydd, anheddau a chyflogaeth.
- Asesiad diweddaraf o'r Farchnad Dai Leol.
- Yr Adolygiad Arfarnu Aneddiadau.
- Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac asesiad o'r Opsiynau Amgen.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cynnwys yn y Weledigaeth, y Materion a'r Amcanion, Opsiynau'r Strategaeth Ofodol ac Opsiynau Twf; a
- Thrafodaethau rhanbarthol ar lefel y twf yng nghyd-destun Cymru'r Dyfodol.

5.2 Mae'r deg amcan strategol a nodir yn Adran 4 wedi cael cryn ddylanwad ar ddatblygiad y strategaeth, sy'n ceisio taro cydbwysedd rhwng yr angen am dwf (Amcan 3 - Cartrefi i Bawb, Amcan 9 - Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd) a'r angen i warchod amgylchedd naturiol ac adeiledig unigryw Bro Morgannwg (Amcan 5 - Gwarchod a Gwellu'r Amgylchedd Naturiol, Amcan 6 - Coleddu Diwylliant a Threftadaeth).

5.3 Yn unol â datganiad y Cyngor ynghylch Argyfwng Hinsawdd, mae rôl cynllunio wrth liniaru ac ymaddasu i'r newid hinsawdd (Amcan 1) yn rhan annatod o'r CDLI Newydd. Lle bynnag y bo modd, mae'r strategaeth yn ceisio ffafrio aildddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen, yn osgoi ardaloedd lle ceir perygl llifogydd ac yn hyrwyddo ystod a dewis o safleoedd tai a chyflogaeth newydd mewn lleoliadau



cynaliadwy â mynediad da at gyflogaeth, trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a siopau (Amcan 8 - Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Egnïol a Chynaliadwy).

- 5.4 Mae creu lleoedd, drwy greu lleoedd gweithredol, diogel a hygyrch sy'n cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau, wrth galon y strategaeth (Amcan 4 – Creu Lleoedd). Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod y cynllun yn creu cymunedau a fydd yn gwella llesiant (Amcan 2 - Gwella Iechyd a Llesiant Meddyliol a Chorfforol). Bydd adfywio ac arallgyfeirio canol trefi yn unol ag egwyddorion canol trefi yn gyntaf yn rhan annatod o greu cymunedau bywiog (Amcan 7 - Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog a Chysylltiedig).
- 5.5 Yn ogystal â hyn, mae'r strategaeth yn cydnabod y manteision economaidd posibl a all ddeillio o hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy briodol (Amcan 10 – Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy), cryfhau'r economi leol drwy greu swyddi, cefnogi busnesau lleol, arallgyfeirio'r economi a sicrhau bod arian yn aros o fewn cymunedau.
- 5.6 Mae Strategaeth Twf Cynaliadwy y CDLIN yn cynnwys chwe elfen allweddol, fel a ganlyn:
1. Darparu lefel gynaliadwy o dwf tai a chyflogaeth a gefnogir gan seilwaith priodol i gyd-fynd â safle'r Fro o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
 2. Cydleoli tai, cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau newydd i leihau'r angen i deithio.
 3. Llywio datblygiadau'n bennaf at leoliadau a wasanaethir y dda gan orsafoedd rheilffordd presennol ac arfaethedig y rhan o Fetro De Cymru, ac mewn ardaloedd â chysylltiadau bws da.
 4. Caniatáu datblygiadau graddfa fach yn seiliedig ar dai fforddiadwy mewn aneddiadau y tu allan i'r Ardal Twf Strategol, ar raddfa sy'n gymesur â maint yr anheddiad.
 5. Cefnogi rôl maes awyr Caerdydd fel porth strategol ar gyfer cysylltiadau rhwngwladol.
 6. Caniatáu cyfleoedd adfywio ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac a danddefnyddiwyd, gan gynnwys yn Aberthaw a Dociau'r Barri



1. Darparu lefel gynaliadwy o dwf tai a chyflogaeth i gyd-fynd â safle'r Fro o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

- 5.7 Er mwyn cyflawni'r dyheadau sydd wedi'u cynnwys yn y Weledigaeth gyffredinol, bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni lefel gynaliadwy o dwf a fydd yn diwallu'r anghenion tai a chyflogaeth a nodwyd yn y dyfodol ac sy'n ategu dyheadau twf ehangach Rhanbarth De-ddwyrain Cymru fel y manylir yn Dyfodol Cymru. Felly, bydd y CDLIA yn darparu ar gyfer:
- Gofyniad tai o 7,890 o anheddau dros gyfnod y cynllun neu 526 o anheddau y flwyddyn, ynghyd â lwfans hyblygrwydd.
 - Dyraniad o 182 Ha o dir cyflogaeth ar draws ystod o safleoedd fel bo modd dod â 67.8 Ha ymlaen a darparu hyd at 5,338 o swyddi.
- 5.8 Mae lefel arfaethedig y twf yn seiliedig ar nifer y datblygiadau cyfartalog a gwblheir dros ddeng mlynedd cyntaf y cynllun mabwysiedig (526 o anheddau y flwyddyn). Mae hyn yn adlewyrchu amserlen briodol, sy'n cynnwys cyfnod lle bo nifer fach o ddatblygiadau'n cael eu cwblhau yn dilyn y dirwasgiad economaidd, a'r blynyddoedd ffyniannus mwy diweddar ar ôl mabwysiadu'r CDLI a darparu safleoedd wedi'u dyrannu. Dangoswyd bod y lefel hon o dwf yn gyflawnadwy ac fe'i hystyrir yn ddigon uchelgeisiol i adlewyrchu safle'r Fro yn ardal dwf genedlaethol Cymru'r Dyfodol a mynd i'r afael â'r angen dybryd am dai fforddiadwy, gan fod yn gyflawnadwy ar yr un pryd o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.
- 5.9 Bydd y lefel hon o dwf yn ceisio sicrhau cydbwysedd yn y boblogaeth drwy gryfhau'r poblogaethau oed gwaith ac oed ysgol i wrthbwysu'r boblogaeth sy'n heneiddio. Cyflawnir hyn drwy ddarparu ystod o gyfleoedd tai a chyflogaeth i annog preswylwyr presennol i fyw a gweithio yn y Fro (gan leihau allfudo ac allgymudo) yn ogystal ag annog preswylwyr newydd i fewnfudo, ar yr amod bod hynny ar raddfa sy'n cyd-fynd ag awdurdod cyfagos Caerdydd a Phrifddinas-Ranbarth ehangach Caerdydd, yn hytrach na'i bod yn cystadlu â'r rheiny.
- 5.10 Cydbwysir graddfa'r ddarpariaeth cyflogaeth â lefel y twf yn y boblogaeth er mwyn ceisio lleihau cymudo.



2. Cydleoli tai, cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau newydd i leihau'r angen i deithio.

- 5.11 Un o flaenoriaethau allweddol Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw dod â gwasanaethau i bobl er mwyn leihau'r angen i deithio a'r ddibyniaeth ar geir preifat. Bydd y strategaeth ofodol yn ceisio lleoli datblygiadau newydd mawr mewn mannau sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan wasanaethau a chyfleusterau yn unol â chanfyddiadau'r Adolygiad Gwerthuso Aneddiadau.
- 5.12 Mae'n rhaid i lefel y twf a gynigir yn yr aneddiadau fod yn gynaliadwy ac yn y lleoliadau cywir, gan roi sylw i rôl a swyddogaeth aneddiadau, yr Adolygiad Arfarnu Aneddiadau a chapasiti aneddiadau neilltuo i gynnwys twf pellach.
- 5.13 Mae gan y Fro amryw o barciau busnes a stadau diwydiannol sefydledig yn y Fro sy'n cynnig ystod o gyfleoedd cyflogaeth. Mae'r busnesau yn Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan yn darparu ystod o swyddi o ansawdd uchel, a rhagwelir y bydd cyfleoedd datblygu pellach yn cael eu darparu yn yr Ardal Fenter. Bydd datblygiadau tai newydd felly'n cael eu targedu at Sain Tathan a'r Rhws, fel cyfleoedd datblygu allweddol, er mwyn manteisio ar eu hagosrwydd at yr Ardal Fenter.
- 5.14 Er y bydd y cynllun yn ceisio alinio defnyddiau tir, efallai na fydd cydleoli defnyddiau yn briodol ym mhob ardal, a rhaid i gynigion ystyried y cyd-destun lleol. Mae rhai safleoedd cyflogaeth presennol yn y Dyffryn sydd mewn lleoliadau sy'n cael eu gwasanaethu'n wael gan drafnidiaeth gynaliadwy ac felly nid yw'r cynllun yn ceisio hyrwyddo tai newydd sylweddol neu ddatblygiadau eraill yn y lleoliadau hyn. I'r gwrthwyneb, efallai na fydd rhai cyflogaeth yn briodol mewn ardaloedd preswyl o safbwynt amwynder. Fodd bynnag, lle bo'n briodol, yr egwyddor eang yw y dylai'r strategaeth ofodol edrych i sicrhau bod tai newydd mewn mannau lle mae cyfleoedd cyflogaeth eisoes yn bodoli neu'n cael eu cynnig.
- 5.15 Mae canol trefi yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth ac, yn unol â'r egwyddor canol trefi yn gyntaf sydd wedi'i hymgorffori mewn polisi cynllunio cenedlaethol, dylid hyrwyddo datblygiadau newydd, gan gynnwys datblygiadau tai



graddfa fach a datblygiadau defnydd cymysg, yng nghanol trefi. Bydd agosrwydd canol trefi hefyd yn ystyriaeth wrth ddyrannu safleoedd tai mwy priodol, gyda safleoedd o fewn pellter cerdded a beicio o ganolfannau yn cael eu ffafrio lle mae safleoedd o'r fath ar gael, gan y bydd hyn yn hwyluso dewisiadau teithio mwy cynaliadwy.

- 5.16 Lle bo angen gwella'r seilwaith presennol er mwyn helpu i gynnwys datblygiadau newydd, defnyddir y broses rhwymedigaethau Adran 106 i sicrhau bod seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau'n cael eu sicrhau ar lefel briodol ar sail graddfa, math a lleoliad y datblygiad arfaethedig.

3. Llywio datblygiadau'n bennaf at leoliadau a wasanaethir y dda gan orsafoedd rheilffordd presennol ac arfaethedig y rhan o Fetro De Cymru, ac mewn ardaloedd â chysylltiadau bws da.

- 5.17 Er bod lleihau'r angen i deithio yn amcan polisi allweddol y CDLIN, cydnabyddir y bydd angen i bobl deithio ar gyfer gwaith, gwasanaethau a hamdden. Yn unol â'r hierarchaeth drafnidiaeth, mae strategaeth ofodol y CDLIN yn ceisio lleoli datblygiadau mewn mannau sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gynaliadwy.
- 5.18 Mae rheilffordd Bro Morgannwg yn croesi rhan ddeheuol y Fro, gan gysylltu Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr ag aneddiadau Penarth a Chogan, Dinas Powys, y Barri, y Rhws a Llanilltud Fawr. Ar hyn o bryd ceir pedwar gwasanaeth yr awr rhwng y Barri a Chaerdydd Canolog a gwasanaeth bob awr rhwng y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr, er bod disgwyl i amllder y gwasanaeth hwn gynyddu erbyn 2025. Mae llinellau cangen hefyd i Benarth ac Ynys y Barri. Mae targedu datblygiadau newydd i'r aneddiadau a wasanaethir gan y rhwydwaith rheilffyrdd yn rhan allweddol o'r strategaeth, gan y bydd yn hwyluso teithiau drwy ddulliau heblaw'r car.
- 5.19 Er mwyn helpu i lywio'r broses o ddewis safleoedd, mae Trafnidiaeth Cymru wedi cynhyrchu mapiau isocron amseroedd teithio, sy'n nodi pellteroedd cerdded a beicio bob 5 munud hyd at 20 munud oddi wrth bob un o'r gorsafoedd rheilffordd presennol yn y Fro.



- 5.20 Cwblhawyd astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer gorsaf newydd yn Sain Tathan yn 2022, a nododd bedwar lleoliad safle posibl ar gyfer gorsaf newydd i'r de o Sain Tathan. Byddai maint y datblygiad a gynigiwyd yn ardal ehangach Sain Tathan, gan gynnwys dau safle allweddol dan arweiniad preswyl a dyraniadau tai eraill, Parth Menter Bro Tathan a Pharc Ynni Gwyrdd arfaethedig Aberddawan yn cefnogi'r lefelau o gynhyrchu teithiau sy'n angenrheidiol i gefnogi'r achos busnes dros orsaf ac mae'r Cyngor yn gweithio'n weithredol gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ymrwymiad ar gyfer gorsaf newydd yn y lleoliad hwn.
- 5.21 Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft ar gyfer De-ddwyrain Cymru, gan ddatgan ei ymrwymiad i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer seilwaith rheilffyrdd ychwanegol a gwasanaethau cludo nwyddau a theithwyr yn Aberddawan / Sain Tathan. Mae cyflwyno gwasanaethau rheilffyrdd yn Sain Tathan yn cyd-fynd â'r amcanion rhanbarthol ar gyfer sefydlu rhwydwaith sy'n cyflawni newid moddol tuag at ffurfiau trafndiaeth mwy cynaliadwy ar gyfer teithwyr a nwyddau.
- 5.22 Fel y nodwyd yn yr Adolygiad Arfarnu Aneddiadau, mae tref y Bont-faen hefyd yn lleoliad cynaliadwy gyda stryd fawr lewyrchus sy'n cynnwys archfarchnad ac amrywiaeth o siopau, gwasanaethau a chyfleusterau eraill sy'n darparu ar gyfer anghenion bob dydd, gan leihau'r angen i deithio. Mae ganddi hefyd ysgolion cynradd ac uwchradd, canolfan hamdden a chyfleusterau ieuchyd. Er nad yw'r dref ar linell reilffordd, ceir cysylltiadau bws da rhyngddi ag aneddiadau eraill yn y Fro, yn ogystal â Chaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

4. Caniatáu datblygiadau graddfa fach yn seiliedig ar dai fforddiadwy mewn aneddiadau y tu allan i'r Ardal Twf Strategol, ar raddfa sy'n gymesur â maint yr anheddiad.

- 5.23 Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) 2023 yn nodi angen am 1,075 o dai fforddiadwy y flwyddyn dros y 5 mlynedd nesaf yn seiliedig ar y prif ragamcanion neu 1,114 yn seiliedig ar ragamcanion y CDLI. Mae ôl-groniad o angen wedi'i nodi ar draws pob ardal is-farchnad ym Mro Morgannwg ac mae'r problem yn ddifrifol mewn llawer o gymunedau.



- 5.24 Yn y Dyffryn gwledig, mae cyfleoedd datblygu yn gyfyngedig a all effeithio ar allu pobl iau a phobl o oedran gweithio i aros yn eu cymunedau lleol. Mae diffyg tai fforddiadwy yn ffactor allweddol wrth i drigolion presennol adael eu cymunedau lleol, ac yn cyfyngu ar allu'r rhai a allai fod wedi gadael yr ardal i ddychwelyd. Mae cadw pobl iau a phobl o oedran gweithio o fewn aneddiadau yn bwysig gan ei fod yn caniatáu i'r rhai hynny wneud hynny gan y bydd yn helpu i gynnal strwythur demograffig cytbwys a bydd yn cynorthwyo i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau lleol, gan gynnwys ysgolion.
- 5.25 Rhan allweddol o'r strategaeth felly fydd caniatáu datblygiadau seiliedig ar dai fforddiadwy o fewn y prif aneddiadau a'r mân aneddiadau gwledig hynny y tu allan i'r Ardal Twf Strategol, ar raddfa sy'n cyd-fynd â maint y gymuned y mae'n ei gwasanaethu, gyda nifer yr anheddau'n ddibynnol ar y cyd-destun lleol. Cynllun 'seiliedig ar dai fforddiadwy' yw cynllun lle byddai angen i isafswm o 50% o'r anheddau fod yn fforddiadwy, er y gallai hyn gynyddu i uchafswm o 100% os yw'r safle'n cael ei gynnig gan ddarparwydd tai fforddiadwy.

5. Cefnogi rôl maes awyr Caerdydd fel porth strategol ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol.

- 5.26 Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod bod Maes Awyr Caerdydd "yn rhan hanfodol o seilwaith trafndiaeth strategol Cymru. Mae'n borth rhyngwladol sy'n cysylltu Cymru â'r byd ac yn sbardun pwysig i economi Cymru." Mae strategaeth y CDLIN felly'n cydnabod pwysigrwydd Maes Awyr Caerdydd o safbwynt economaidd a thrafnidiaeth.
- 5.27 Mae'r maes awyr o fewn Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan. Mae'r Ardal Fenter wedi'i rhannu'n ddau safle – Ardal Ddatblygu Maes Awyr a Phorth Caerdydd, sydd yn union wrth ymyl y maes awyr, a safle Bro Tathan yn Sain Tathan. Bwriedir i'r safleoedd blaenllaw hyn sydd wedi'u lleoli'n strategol ysgogi buddsoddiad mewnol a chyfnerthu rôl Bro Morgannwg ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- 5.28 Mae Ardal Ddatblygu Maes Awyr a Phorth Caerdydd yn cynnwys dau safle ar wahân - Parc Busnes y Maes Awyr, i'r gogledd o Port Road, a'r safle cyflogaeth strategol i'r de o Port Road, a elwir yn Model Farm. Mae gan Goleg Caerdydd a'r



Fro ganiatâd cynllunio ar gyfer campws coleg ychwanegol ar ran o'r safle, ac mae Cynllun Meistr yn cael ei baratoi i gynorthwyo gyda chyflenwi'r tir sy'n weddill. Yn ôl yr Astudiaeth Tir Cyflogaeth, mae 61.05 Ha o dir ar gael o hyd ar draws rhannau gogleddol a deheuol y rhan hon o'r Ardal Fenter. Mae apêl am ddiffyg penderfyniad wedi'i gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) ar gyfer cais cynllunio amlinellol ar gyfer Parc Busnes B1, B2, B8 ar safle'r de (Model Farm). Mae'r Astudiaeth Tir Cyflogaeth yn argymhell y dylid cadw'r safle hwn at ddefnydd cyflogaeth ac mae'r safle wedi'i gario ymlaen i'r Cynllun Adneuo ar y sail hon. Fodd bynnag, bydd angen ystyried canlyniad yr apêl gynllunio pan fydd penderfyniad wedi'i wneud gan PEDW.

- 5.29 Mae Bro Tathan wedi derbyn buddsoddiad sylweddol hyd yma, gan gynnwys cwblhad diweddar Heol Fynediad y Gogledd, sy'n cynnig mynediad uniongyrchol i'r Ardal Fenter, gan wella cysylltedd. Mae'r safle hefyd yn elwa ar redfa 1,800m gwbl weithredol a gynhelir gan sifiliaid. Mae nifer o fusnesau adnabyddus, gan gynnwys Aston Martin Lagonda ac eCube Solutions wedi'u lleoli ar y safle. Erys ystod o gyfleoedd datblygu ar safle Bro Tathan ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau gan gynnwys B1, B2 a B8, yn ogystal â chyfle am westy. Nodwyd bod 66.7 hectar o dir net y gellir ei ddatblygu sy'n debygol o gael ei gyflawni o fewn cyfnod y cynllun, er bod tir ychwanegol sylweddol ar gael a fydd yn cael ei ddiogelu.
- 5.30 Cydnabyddir bod tensiwn rhwng amcan newid hinsawdd y CDLIN a'r bwriad i gefnogi Maes Awyr Caerdydd, ac ystyried bod allyriadau awyrennau yn cyfrannu'n sylweddol at newid hinsawdd yn fyd-eang. Cydnabyddir yr her hon yn Llwybr Newydd – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod maes awyr lleol ar gael yn rhoi cyfle i deithwyr sy'n byw yng Nghymru gael hedfan o safle sy'n nes at adref, gan leihau teithiau a allai fod wedi cael eu gwneud y tu allan i Gymru. Mae LIC yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a menter Jet Zero, yn ogystal â Maes Awyr Caerdydd, i leihau effeithiau hedfan ar yr amgylchedd.

6. Caniatáu cyfleoedd adfywio ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac a danddefnyddiwyd, gan gynnwys yn Aberthaw a Dociau'r Barri

- 5.31 Mae'r Strategaeth Twf Cynaliadwy yn diogelu tir yn hen Orsaf Bŵer Aberddawan fel Parc Ynni Gwyrdd. Mae Cynllun Meistr yn cael ei baratoi ar gyfer y safle ar hyn



o bryd ond gallai'r defnyddiau posibl ar ôl dymchwel yr orsaf bŵer ac adfer gynnwys:

- Cynhyrchu prosiectau ynni adnewyddadwy a gwyrdd a defnyddiau cyflogaeth cysylltiedig. Yn darparu cyfleuster storio batri i gefnogi'r prosiectau ynni gwyrdd.
- Yn cynhyrchu clwstwr gweithgynhyrchu di-garbon a fydd yn cynnwys cyfleusterau cynhyrchu hydrogen gwyrdd.
- Yn darparu canolfan arloesi ynni gwyrdd i hyrwyddo arloesi, twf, gwybodaeth a chyfleoedd i'r gymuned ryngweithio â dyfodol di-garbon Cymru.
- Yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal parc ecoleg bio-amrywiol a fydd yn cynnwys canolfan ymwelwyr, gan ddarparu cyfleusterau i'r gymuned leol.
- Creu'r amodau cywir i gefnogi datgarboneiddio diwydiannol a chyfleusterau giga-waith y dyfodol.

5.32 Mae adfywio safle'r hen orsaf bŵer yn Aberddawan yn cynnig cyfle unigryw i greu swyddi medrus iawn, gan wneud cyfraniad sylweddol at liniaru newid hinsawdd, yn unol ag amcanion y Cynllun. Cefnogir y cyfle adfywio sylweddol hwn drwy fframwaith polisi'r CDLIN, wedi'i lywio gan y Cynllun Meistr sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd.

Dociau'r Barri

5.33 Roedd y strategaeth ar gyfer y CDLI mabwysiedig yn canolbwyntio'n bennaf ar adfywio tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn hen Ddoc Rhif 1 yn y Barri fel safle strategol cymysg ei ddefnydd, a elwir yn lleol yn Lanfa'r Barri. Mae rhan breswyl y datblygiad wedi'i chwblhau i raddau helaeth, fel y mae defnyddiau eraill gan gynnwys ysgol gynradd newydd, archfarchnad a chanolfan ardal. Mae caniatâd cynllunio hefyd wedi'i roi ar gyfer campws newydd Coleg Caerdydd a'r Fro ar y tir sy'n weddill yn Hood Road.

5.34 Mae cynlluniau ar gyfer adfywio parhaus y Lanfa yn cynnwys ailddatblygu'r Mole ar gyfer fflatiau, parc llinol a chanolfan chwaraeon dŵr.



5.35 Yn ogystal, mae'r Associated British Ports (ABP) wedi paratoi Cynllun Meistr sy'n nodi cyfleoedd ailddatblygu yn y dyfodol ar dir o fewn eu perchnogaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Uwchraddio Loc y Fonesig Windsor, a gosod gatau loc newydd i fodloni anghenion yr holl longau sy'n defnyddio'r Doc.
- Ailddatblygu Ardal Dwf Creigiau Duon, at ddefnyddiau fel y gadwyn gyflenwi batris, uwchweithgynhyrchu, prosesu mwynau prin o'r ddaear, a gweithgynhyrchu biodanwydd y genhedlaeth nesaf.
- Hyb Twf Glân y Porthladd a fydd yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu di-garbon.

Ardal Twf Strategol


5.36 Mae'r Strategaeth yn ceisio hyrwyddo datblygiad yn yr Ardal Twf Strategol, ardal sy'n cynnwys y prif ganolfannau poblogaeth a'r aneddiadau trefol a wasanaethir gan ystod o gyfleusterau a gwasanaethau, ac sy'n hygyrch drwy amrywiaeth o ddulliau teithio. O fewn yr Ardal Twf Strategol, mae'r Barri yn anheddiad allweddol, ac aneddiadau canolfan wasanaeth Llanilltud Fawr, Penarth a'r Bont-faen yn cynnig cyfleoedd am dwf cynaliadwy. Mae prif aneddiadau Sili, Dinas Powys, Llandochau (Penarth), y Rhws a Sain Tathan hefyd wedi'u cynnwys o fewn yr Ardal Twf Strategol, gan fod y rhain yn lleoliadau cynaliadwy lle gellir alinio datblygiad preswyl newydd â defnyddiau eraill a lle ceir opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy eisoes neu arfaethedig, i leihau'r ange i deithio yn y car.

Diagram Allweddol

5.37 Mae'r diagram allweddol yn Ffigur 10 dangos Strategaeth y CDLIN ac yn dangos maint ardal Cyngor Bro Morgannwg ac ardal y CDLIN. Mae'r diagram allweddol hefyd yn dangos yr Ardal Twf Strategol, llwybrau trafnidiaeth strategol, lleoliadau allweddol i'w datblygu yn y dyfodol, hierarchaeth aneddiadau'r cynllun a'r rhyngberthnasau ag awdurdodau lleol cyfagos



Ffigur 10: Diagram Allweddol



6 FFRAMWAITH POLISI

- 6.1 Mae'r bennod ganlynol yn amlinellu fframwaith polisi Cynllun Adneuo'r CDLIN, sy'n cynnwys Polisiâu Strategol (gyda rhagddodiad SP) a Pholisiâu Rheoli Datblygu (gyda rhagddodiad thematig). Cyhoeddwyd y Polisiâu Strategol fel rhan o Strategaeth a Ffefrir y CDLIN ond maent wedi'u mireinio mewn ymateb i adborth y cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae'r polisiâu hyn yn ceisio cyflawni'r strategaeth a gwireddu Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun.
- 6.2 Mae'r Polisiâu Strategol yn cael eu cefnogi gan gyfres o Bolisiâu Rheoli Datblygu mwy manwl, sy'n ceisio llywio cynigion datblygu tuag at ganlyniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cadarnhaol, wrth leihau effeithiau negyddol. Maent yn cynnwys polisiâu sy'n dyrannu tir at ddefnyddiau penodol, gyda'r dyraniadau hyn hefyd yn cael eu nodi ar Fap Cynigion y CDLIN yn ogystal â pholisiâu i warchod tir. Mae'r polisiâu yn gysylltiedig a dylid eu hystyried gyda'i gilydd i ddeall cyfeiriad y CDLIN yn llawn.
- 6.3 Mae'r polisiâu wedi'u trefnu yn ôl pedair thema Polisi Cynllunio Cymru:
- Dewisiadau Strategol a Gofodol
 - Lleoedd Actif a Chymdeithasol
 - Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus
 - Lleoedd Unigryw a Naturiol



DEWISIADAU STRATEGOL A GOFODOL (DSG)

STRATEGAETH OFODOL

SP1 – STRATEGAETH TWF CYNALIADWY

Er mwyn cyflawni'r Strategaeth Twf Cynaliadwy ar gyfer Bro Morgannwg rhwng 2021 a 2036, bydd y Cynllun yn darparu ar gyfer y canlynol:

Tai

Darparu 7,890 o anheddau erbyn 2036, gan gynnwys o leiaf 3,070 o gartrefi fforddiadwy. Bydd prif ffocws twf tai yn y Fro o fewn yr Ardal Twf Strategol fel y'i nodir ar y Diagram Allweddol. Bydd datblygiadau tai newydd yn cael eu crynhoi yn y lleoliadau canlynol, sy'n cael eu gwasanaethu gan lwybrau trafndiaeth gyhoeddus presennol ac sy'n rhoi cyfle i wella cysylltedd trafndiaeth gynalia:

- Y Barri
- Penarth
- Llanilltud Fawr
- Y Bont-faen
- Dinas Powys
- Y Rhws
- Sain Tathan
- Llandochoau
- Sili

Y tu allan i'r Ardal Twf Strategol, bydd dyrannu safleoedd newydd yn cael eu cyfyngu i safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy ar raddfa fach mewn Prif Aneddiadau ac Aneddiadau Gwledig Bach priodol.

Cyflogaeth

Safleoedd cyflogaeth i gyflawni'r gofyniad tir cyflogaeth a nodwyd o 67.8ha a darparu hyd at 5,388 o swyddi. Bydd datblygiad cyflogaeth newydd yn canolbwyntio ar Safleoedd Cyflogaeth Mawr a Lleol ac Ardaloedd Cyfleoedd Adfywio Cyflogaeth fel y nodir ar y Diagram Allweddol.



SP1 – STRATEGAETH TWF CYNALIADWY

Seilwaith

Bydd seilwaith ychwanegol yn cael ei nodi i gefnogi graddfa'r twf lle bo angen.

- 6.4 Mae Polisi SP1 yn nodi'r fframwaith gofodol ar gyfer cyflawni'r lefelau a nodwyd o ran twf tai a chyflogaeth hyd at 2036 fel y nodir yn y Strategaeth Twf Cynaliadwy.

SP2 – HIERARCHAETH ANEDDIADAU

Bydd dosbarthiad eang datblygiad o fewn yr Ardal Twf Strategol yn cael ei siapio gan yr hierarchaeth aneddiadau ganlynol, gan adlewyrchu rôl a swyddogaeth lleoedd, ac yn cyfeirio twf at leoliadau a fydd yn darparu'r cyfleoedd mwyaf ar gyfer darparu tai i ddiwallu anghenion fforddiadwy, seilwaith cymunedol a gwell darpariaeth trafndiaeth gynaliadwy.

Hierarchaeth Aneddiadau'r Ardal Twf Strategol:

Anheddiad Allweddol: Y Barri.

Bydd y Barri yn parhau i fod yn ganolfannu datblygiad ym Mro Morgannwg yn y dyfodol. Fel y dref fwyaf yn y Fro, bydd twf yn y dyfodol yn cefnogi ei rôl fel y brif dref weinyddol sy'n darparu cysylltedd trafndiaeth da, gwasanaethau, cyflogaeth a manwerthu a hamdden i'w thrigolion a'r ardal ehangach.

Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth: Y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Penarth.

Mae'r rhain yn aneddiadau pwysig sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau. Yn gwasanaethu anghenion dyddiol eu trigolion, maent hefyd yn gweithredu fel hybiau pwysig i'r rhai sy'n byw mewn aneddiadau llai cyfagos. Bydd twf yn y dyfodol yn cefnogi'r rôl hon lle bydd lefel y datblygiad yn diwallu anghenion lleol yr ardal.

Prif Aneddiadau: Y Rhws, Sain Tathan, Sili, Llandochau (Penarth), Dinas Powys.

Bydd datblygiad o fewn yr aneddiadau hyn yn adlewyrchu'r rôl ategol sydd ganddynt mewn perthynas â'r Aneddiadau Allweddol a'r Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth, cysylltedd trafndiaeth a meysydd cyflogaeth.



SP2 – HIERARCHAETH ANEDDIADAU

Ardaloedd y Tu Allan i'r Ardal Twf Strategol:

Prif Aneddiadau: Gwenfô, Y Wig, Croes Cwrlwys

Aneddiadau Gwledig Bach: Aberddawan, Aberogwr, Aberthin, Corntwn, Craig Pen-Ilin, Ewenni, Fferm Goch, Llanbedr-y-Fro, Llancarfan, Llandŵ, Llan-faes, Llyswyrny, Pendaulwyn, Pen-Ilin, Sain Nicolas, Saint-y-brid, Tregolwyn, Tre-os, Tresigin, Tresimwn, Ystradowen.

Bydd cymeriad yr aneddiadau, gan gynnwys eu perthynas â'r cefn gwlad cyfagos a'u lleoliad ynddo, yn cael ei warchod a lle bo hynny'n bosibl yn cael ei wella. Bydd datblygiad yn y Prif Aneddiadau sydd y tu allan i'r Ardal Twf Strategol yn ogystal â'r Aneddiadau Gwledig Bach a nodwyd yn cael eu cyfyngu i ddefnydd effeithlon a chynaliadwy o adeiladau presennol, cyfleoedd mewnlenni, cynlluniau a arweinir gan dai fforddiadwy ar raddfa fach, a datblygiadau cysylltiedig â menter wledig / amaethyddiaeth.

At ddibenion y polisi hwn, diffinnir datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy ar raddfa fach fel datblygiadau sy'n darparu o leiaf 50% o dai fforddiadwy ar safleoedd â hyd at 25 o anheddau mewn Aneddiadau Gwledig Bach neu â hyd at 50 o anheddau mewn Prif Aneddiadau. Bydd disgwyl i'r math, graddfa a chymysgedd o dai fforddiadwy adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf, gan gynnwys tai arbenigol i bobl hŷn. Ni fydd cynigion nad ydynt yn bodloni'r isafswm darpariaeth tai fforddiadwy o 50% yn cael eu cefnogi.

Bydd yr holl aneddiadau a restrir yn yr hierarchaethau, o fewn a thu allan i'r Ardal Twf Strategol, yn cael ffin anheddiad. Mae pob ardal arall, gan gynnwys pentrefi a phentrefannau gwledig llai, y tu allan i'r ffiniau anheddiad diffiniedig hyn yn cael eu hystyried fel 'cefn gwlad' oni bai eu bod wedi'u nodi'n benodol ar gyfer defnyddiau eraill yn y cynllun.

- 6.5 Er mwyn sicrhau bod datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy sydd â'r mynediad gorau at amrywiaeth eang o wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth, wrth leihau'r angen i deithio, mae dosbarthiad twf yn cael ei arwain gan hierarchaeth aneddiadau o'r trefi a'r pentrefi ym Mro Morgannwg. Wrth sefydlu'r



Hierarchaeth Aneddiadau, mae sefyllfa pob anheddiad o fewn yr hierarchaeth wedi'i llywio gan asesiad o faint y boblogaeth, cysylltedd anheddiad, ac argaeledd cyflogaeth a gwasanaethau a chyfleusterau eraill fel y manylir yn BP5 Adolygiad Arfarnu Aneddiadau.

- 6.6 Mae'r hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi SP2 yn adlewyrchu rolau a swyddogaethau pob anheddiad a'r berthynas rhwng aneddiadau o fewn strategaeth ofodol gyffredinol y CDLIN.

Aneddiadau'r Ardal Twf Strategol

- 6.7 Mae'r Strategaeth yn cyfeirio twf i'r Aneddiadau Allweddol, yr Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth a'r Prif Aneddiadau sydd wedi'u lleoli yn yr Ardal Twf Strategol. Yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer adfywio cynaliadwy, cefnogi darpariaeth gwasanaethau lleol, ac annog defnyddio dulliau trafndiaeth cynaliadwy, bydd twf yn y dyfodol hefyd yn adlewyrchu eu rolau a'u nodweddion priodol yn ogystal â'u cyfyngiadau ffisegol neu amgylcheddol perthnasol.

Anheddiad Allweddol

- 6.8 Bydd Anheddiad Allweddol y Barri yn parhau i fod yn hyb pwysig ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd a chaiff ei gydnabod yn y Strategaeth fel y lleoliad mwyaf cynaliadwy er mwyn canolbwyntio cyfleoedd datblygu mawr newydd. Mae'r Barri wedi profi twf mawr, gan gynnwys ailddatblygiad defnydd cymysg Glannau'r Barri. Mae cyfleoedd ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau yn parhau o fewn ardal ehangach Glannau'r Barri ar sawl safle llai. Er mwyn diwallu'r angen sylweddol am dai fforddiadwy ac i ymateb i sefyllfa'r Barri fel Anheddiad Allweddol, mae angen nodi tai ychwanegol yn y dref gyda chefnogaeth amrywiaeth o ddefnyddiau ategol eraill.

Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth

- 6.9 Mae'r Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth, sef y Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr, i gyd yn wahanol o ran cymeriad ond maent yn cyflawni rolau tebyg. Er enghraifft, maent i gyd yn gartref i boblogaethau preswyl sylweddol, mae ganddynt ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus dda, cyfleoedd cyflogaeth lleol a chanol tref sefydledig, ac amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau diwylliannol, addysgol a chymunedol. Mae Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth yn gwasanaethu anghenion dyddiol eu trigolion ac yn gweithredu fel hybiau pwysig i'r rhai sy'n byw mewn aneddiadau bach cyfagos. Felly, mae'r strategaeth yn rhagweld y bydd yr aneddiadau hyn hefyd yn gweithredu fel canolbwyntiau ar gyfer twf ym Mro Morgannwg dros gyfnod y Cynllun.



Prif Aneddiadau

- 6.10 Diffinnir Dinas Powys, Llandochau (Penarth) a Sili fel Prif Aneddiadau ac maent yn darparu rôl ategol i'r Aneddiadau Allweddol a'r Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth gan eu bod yn darparu ar gyfer anghenion trigolion. Maent yn cynnwys nifer o wasanaethau a chyfleusterau allweddol, sy'n hanfodol i'w rôl fel cymunedau cynaliadwy, ac maent yn cael eu gwasanaethu'n dda gan wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd. Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnwys ysgolion cynradd, siopau cyfleustra bach, siopau bwyd a diod a chyfleoedd cyflogaeth.
- 6.11 Mae Sain Tathan a'r Rhws yn lleoliadau allweddol ar gyfer twf cyflogaeth yn yr Ardal Twf Strategol. Mae'r ddau anheddiad wedi'u nodi fel Prif Aneddiadau, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael. Byddai twf yn y dyfodol o fewn yr aneddiadau hyn yn cyd-fynd â'u rolau o fewn yr ardal twf rhanbarthol ehangach oherwydd eu bod yn agos i Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan a chynllun arfaethedig Parc Ynni Gwyrdd Aberddawan, yn ogystal â chynigion cysylltedd trafnidiaeth y presennol a'r dyfodol.

Aneddiadau y Tu Allan i'r Ardal Twf Strategol: Y Wig, Gwenfô a Chroes Cwrlwys

- 6.12 Mae aneddiadau'r Wig, Gwenfô a Chroes Cwrlwys wedi'u nodi fel Prif Aneddiadau fel rhan o'r Adolygiad Arfarnu Aneddiadau gan fod eu maint a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael ynddynt yn gymesur â Phrif Aneddiadau eraill ar raddfa debyg. Fodd bynnag, nid yw'r aneddiadau penodol hyn wedi'u cynnwys yn bwrpasol yn yr Ardal Twf Strategol gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn lleoliadau lle byddai twf ychwanegol sylweddol yn briodol.
- 6.13 Yn achos y Wig a Gwenfô, er bod eu rôl yn fwy cyfyngedig ac yn cael ei hadlewyrchu yn eu lefel o wasanaethau a hygyrchedd, maent yn cynnwys gwasanaethau ac amwynderau lleol sy'n gwasanaethu'r ardal ehangach megis darpariaeth ysgolion cynradd, felly mae'r aneddiadau hyn yn cyflawni swyddogaeth debyg i'r Prif Aneddiadau sydd wedi'u lleoli o fewn yr Ardal Twf Strategol.
- 6.14 Mewn perthynas â Chroes Cwrlwys, er ei fod wedi'i nodi o fewn yr hierarchaeth fel Prif Anheddiad, mae hyn yn bennaf o ganlyniad i ailddatblygu'r hen stiwdios ITV ar gyfer tai, sydd yn anochel wedi arwain at gynnydd yn ei rôl breswyl. Fodd bynnag, yn wahanol i aneddiadau eraill, mae nifer y gwasanaethau sydd ar gael yn gysylltiedig yn bennaf â'r manwerthu y tu allan i'r dref yng Nghroes Cwrlwys ac mae gan yr anheddiad ei hun ddiffyg cyfleusterau cymunedol fel ysgolion, neuaddau cymunedol a chyfleusterau gofal iechyd. Yn hyn o beth, er bod dynodi Croes Cwrlwys fel Prif Anheddiad yn cael ei gyfiawnhau yn unol â methodoleg yr Adolygiad Arfarnu Aneddiadau gan ei fod yn sgorio'n dda yn yr asesiad oherwydd



ei agosrwydd at y parc manwerthu y tu allan i'r dref a gwasanaethau bws rheolaidd, mae ei rôl a'i swyddogaeth yn wahanol. O ganlyniad, byddai datblygiad preswyl pellach yng Nghroes Cwrlwys yn gofyn i drigolion deithio i aneddiadau eraill ar gyfer llawer o amwynderau sylfaenol.

- 6.15 Mae'r papur Opsiynau Gofodol yn nodi bod cyfleoedd datblygu yng Nghroes Cwrlwys a Gwenfô yn cael eu cyfyngu'n sylweddol gan bresenoldeb tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (GMA) ar gyrion y ddau anheddiad.

Aneddiadau Gwledig Bach

- 6.16 Mae Aneddiadau Gwledig Bach y Fro wedi'u lleoli y tu allan i'r Ardal Twf Strategol. Mae'r mathau o wasanaethau a chyfleusterau sydd i'w cael fel arfer yn yr aneddiadau llai hyn yn cynnwys addoldai, neuaddau cymunedol, defnyddiau manwerthu ar raddfa fach a chyfleusterau hamdden ffurfiol. Mae nifer o'r aneddiadau gwledig llai fel Tregolwyn, Sain Nicolas a Fferm Goch yn cynnwys ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu dalgylch ehangach, tra bod eraill hefyd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol ar raddfa fach, naill ai o fewn yr aneddiadau neu gerllaw iddynt. Oherwydd y cysylltiadau swyddogaethol hyn rhwng aneddiadau gwledig, mae'n hanfodol sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau presennol yn cael eu diogelu, eu cefnogi neu eu gwella lle bo hynny'n briodol.
- 6.17 Er gwaethaf hyn, mae'n hanfodol i'r CDLIN gydbwyso'r twf mewn ffordd sy'n cefnogi anghenion cymunedau gwledig gydag amcanion cynaliadwyedd ehangach y cynllun, yn enwedig o ran ei gyfraniad tuag at gwrdd â'r heriau a achosir gan newid hinsawdd. O ganlyniad, mae Polisi SP2 yn nodi'r aneddiadau hynny yr ystyrir bod ganddynt ddigon o boblogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer twf ar raddfa fach heb iddo gael effaith niweidiol ar eu cymeriad presennol a'u hamgylchedd lleol.
- 6.18 Yn unol â pholisi cenedlaethol, o fewn yr aneddiadau hyn, bydd tai marchnad cyffredinol yn cael eu cyfyngu i gyfleoedd o fewn y ffiniau anheddiad diffiniedig, gan gynnwys datblygiad mewnlenwi ac addasu adeiladau presennol.

Safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy y tu allan i'r Ardal Twf Strategol

- 6.19 Mae dyraniadau tai fforddiadwy ar raddfa fach (hyd at 25 o anheddau mewn Aneddiadau Gwledig Bach a hyd at 50 o anheddau mewn Prif Aneddiadau y tu allan i'r Ardal Twf Strategol) wedi'u gwneud lle bydd angen o leiaf 50% o dai fforddiadwy. Mae'r safleoedd hyn wedi'u dyrannu o dan Bolisi HG4 ac maent wedi'u cynnwys o fewn y ffin anheddiad. Bydd galluogi elfen o dai marchnad agored mewn pentrefi gwledig yn hwyluso darparu tai fforddiadwy lle na fyddai fel arall yn hyfyw darparu cartrefi newydd a bydd yn cyfrannu at ddarparu cymunedau cymysg. Fodd



bynnag, yn hyn o beth, ni chaniateir cynigion nad ydynt yn gallu darparu o leiaf 50% o dai fforddiadwy.

- 6.20 O ystyried cymeriad amrywiol y pentrefi gwledig a nodwyd ym Mholisi SP2, wrth ystyried graddfa'r angen am dai fforddiadwy a gynigir, bydd y Cyngor yn ystyried addasrwydd y cynnig mewn perthynas â gwasanaethau a chyfleusterau presennol, argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus a'r effaith y byddai'r cynnig yn ei chael ar gymeriad a lleoliad y pentref. Yn hyn o beth, dylai cynigion gael eu harwain gan yr egwyddorion Creu Lleodedd a nodir ym Mholisi SP4, yn hytrach nag awydd i ddarparu uchafswm nifer yr anheddau a nodir ym y polisi.
- 6.21 Yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol, mae ffiniau anheddiad wedi'u llunio o amgylch pob un o'r trefi a'r pentrefi yn hierarchaeth aneddiadau y CDLIN i nodi maint y datblygiad adeiledig. Mae'r rhain wedi'u diffinio'n glir ar y Map Cynigion. Mae ffiniau anheddiad yn chwarae rhan bwysig wrth gyflawni datblygu cynaliadwy trwy annog datblygiad o fewn yr aneddiadau cynaliadwy a nodwyd yn Hierarchaeth y CDLI. Maent hefyd yn helpu i warchod y cefn gwlad cyfagos rhag datblygiad amhriodol ac felly'n helpu i gefnogi ac atgyfnerthu'r gwaith o gyflawni amcanion a strategaeth y Cynllun ac yn darparu mecanwaith polisi allweddol ar gyfer rheoli twf ym Mro Morgannwg.

DATBLYGU YNG NGHEFN GWLAD

SP3 – DATBLYGU YNG NGHEFN GWLAD

Bydd ardaloedd y tu allan i ffiniau anheddiad nad ydynt wedi'u dyrannu neu eu gwarchod ar gyfer defnydd penodol yn cael eu diffinio fel cefn gwlad. Mewn lleoliadau cefn gwlad, dim ond ar gyfer y defnyddiau canlynol y caniateir datblygu:

1. Datblygu sy'n gysylltiedig ag Amaethyddiaeth neu Goedwigaeth;
2. Safleoedd ag Eithriadau Tai Fforddiadwy (Polisi HG5);
3. Llety Sipsiwn a Theithwyr (Polisi GT1);
4. Twristiaeth a hamdden sy'n addas mewn lleoliadau cefn gwlad (Polisi SP15);
5. Arallgyfeirio Gwledig a defnyddiau cyflogaeth ar raddfa fach sy'n addas ar gyfer lleoliadau gwledig (Polisi EMP6);
6. Trawsnewid ac adnewyddu adeiladau gwledig presennol (Polisi HG8);



SP3 – DATBLYGU YNG NGHEFN GWLAD

7. Ailddatblygu neu ymestyn anheddau presennol (Polisi HG9);
8. Cynhyrchiant carbon isel ac ynni adnewyddadwy (Polisi CC4);
9. Tynnu a gweithio mwynau (Polisi'au MIN4);
10. Darparu cyfleusterau rheoli gwastraff (Polisi WA1); neu
11. Seilwaith hanfodol a darpariaeth cyfleustodau lle mae angen lleoliad cefn gwlad.

- 6.22 Mae'r Strategaeth Twf Gofodol yn ceisio canolbwyntio datblygiad o fewn ffiniau anheddiad presennol ac ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu neu eu gwarchod ar gyfer defnyddiau penodol, gan leihau'r angen i adeiladu yng nghefn gwlad agored. Serch hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cefn gwlad byw a bywiog, darparu ar gyfer cyflogaeth leol, cefnogi ffermio a busnesau gwledig, galluogi darparu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol a darparu ar gyfer defnyddiau na ellir eu lleoli o fewn anheddiad diffiniedig.
- 6.23 Mae Polisi SP3 yn nodi'r fframwaith polisi ar gyfer rheoli datblygu yng nghefn gwlad. At ddibenion y CDLIN, diffinnir 'cefn gwlad' fel tir y tu allan i ffiniau anheddiad diffiniedig y prif drefi a phentrefi a nodir yn hierarchaeth aneddiadau'r CDLI nad ydyw wedi'i ddatblygu at ddefnydd cyflogaeth neu wedi'i ddyrannu i'w ddatblygu yn y Cynllun.
- 6.24 Mae'r fframwaith hwn yn darparu'r cydbwysedd rhwng diogelu a gwarchod cymeriad cynhenid ardaloedd gwledig Bro Morgannwg, wrth alluogi datblygiad newydd sy'n cael ei ystyried yn briodol ar gyfer lleoliad gwledig. Bydd angen cyfiawnhad ar gynigion datblygu nad ydynt o fewn y categorïau a restrir ym Mholisi SP3 i nodi pam na ellir eu lleoli o fewn anheddiad diffiniedig.

FFINIAU ANHEDDIAD

SSC1 - DATBLYGU O FEWN FFINIAU ANHEDDIAD

Mae ffiniau anheddiad wedi'u diffinio o amgylch yr aneddiadau hynny a nodwyd o fewn hierarchaeth aneddiadau y CDLI fel y manylir yn y Polisi SP2. Caniateir cynigion ar gyfer datblygiad newydd o fewn y ffiniau anheddiad diffiniedig hyn pan fodlonir y meini prawf canlynol:



SSC1 - DATBLYGU O FEWN FFINIAU ANHEDDIAD

- 1 Mae'r cynnig ar raddfa sy'n briodol i faint yr anheddiad ac yn cyd-fynd â'i rôl a'i swyddogaeth;
- 2 Mae'n gydnaws â chynllun, dwysedd a golwg yr anheddiad presennol o ran maint, ffurf a'i leoliad uniongyrchol a'r amgylchedd ehangach;
- 3 Dangosir bod y cynnig yn darparu cyfleoedd ar gyfer dulliau trafnidiaeth cynaliadwy, gan gynnwys darpariaeth Teithio Llesol sy'n ddiogel, cyfleus a hygyrch;
- 4 Ni fyddai'n niweidio'r gwaith o ddarparu safle datblygu a ddyrannwyd;
- 5 Byddai'n gwneud defnydd effeithlon o dir neu adeiladau presennol;
- 6 Byddai'n blaenoriaethu'r defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol neu dir nas defnyddir yn ddigonol lle bo hynny'n bosibl;
- 7 Ni fyddai'n arwain at golli swm annerbyniol o fannau agored cyhoeddus, neu adeiladau/cyfleusterau cymunedol neu dwristiaeth;
- 8 Ni fyddai'n arwain at golli nodweddion naturiol neu adeiledig sy'n cyfrannu'n unigol neu'n gronnol at gymeriad yr anheddiad neu ei leoliad;
- 9 Ni fyddai'n effeithio'n annerbyniol ar amwynder a chymeriad yr ardal o ganlyniad i sŵn, llygredd, tagfeydd traffig a pharcio,
- 10 Mae'r cynnig yn elwa o'r ddarpariaeth seilwaith bresennol neu, lle bo angen, yn gwneud darpariaeth ar gyfer seilwaith newydd heb unrhyw effaith annerbyniol ar yr amgylchedd naturiol neu adeiledig.

- 6.25 Mae ffiniau anheddiad wedi'u llunio o amgylch yr Aneddiadau Allweddol, yr Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth, y Prif Aneddiadau a'r Aneddiadau Gwledig Bach ym Mro Morgannwg a nodwyd yn hierarchaeth y CDLIN (Polisi SP2). Mae ffiniau anheddiad yn diffinio'r ardaloedd lle byddai'r egwyddor o ddatblygu fel arfer yn dderbyniol, gan annog defnyddio ac ailddatblygu tir ac adeiladau yn effeithlon ac atal lledaeniad datblygiadau newydd yng nghefn gwlad agored.
- 6.26 Roedd ffiniau anheddiad yn diffinio maint y datblygiad adeiledig lle byddai datblygu fel arfer yn cael ei ganiatáu, ac ardaloedd o gefn gwlad ac ardaloedd o adeiladau mwy gwasgaredig, sy'n cael eu hystyried yn llai addas ar gyfer datblygiad newydd, a lle bydd dull mwy cyfyngol yn cael ei gymhwyso. At ddibenion y cynllun, diffinnir ardaloedd y tu allan i'r ffiniau diffiniedig nad ydynt wedi'u dyrannu neu eu gwarchod ar gyfer defnyddiau penodol fel 'cefn gwlad', lle bydd dull mwy cyfyngol yn cael ei gymhwyso, a bydd datblygiad yn cael ei gyfyngu i gynigion sy'n cael eu hystyried



yn addas ar gyfer lleoliad cefn gwlad, neu lle mae lleoliad cefn gwlad yn hanfodol at ddibenion gweithredol. Mae'r rhain wedi'u nodi ym Mholisi SP3.

- 6.27 Er mwyn sicrhau bod datblygiad newydd o fewn ffiniau anheddiad yn cael ei integreiddio'n llwyddiannus, bydd angen i gynigion ddangos eu bod yn ategu cynllun, graddfa, gwead, a golwg yr anheddiad presennol. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod graddfa a nifer datblygiadau o'r fath yn gymesur â maint yr anheddiad, a'r amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol sydd ar gael ar adeg y cais.

CREU LLEOEDD A DYLUNIO DA (CLIDD)

CREU LLEOEDD

SP4 - CREU LLEOEDD

Gall Creu Lleoedd llwyddiannus ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at ddatblygiad newydd. Bydd yn ofynnol i ddatblygiad ddilyn egwyddorion Creu Lleoedd trwy:

- 1 Sicrhau dyluniad cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu hynodrwydd, cymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol lleol;
- 2 Blaenoriaethu penderfynyddion iechyd a lles yn ystod y broses ddylunio;
- 3 Creu cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau a gofodau aml-swyddogaethol;
- 4 Cyfrannu at ardal gyhoeddus fywiog, ddiogel a chynhwysol sy'n annog Teithio Llesol, yn cefnogi defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ac yn lleihau dibyniaeth ar gar;
- 5 Integreiddio rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a mannau agored yn strategol i ddatblygiad, gan gyflawni manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac ecolegol;
- 6 Darparu amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaeth;
- 7 Lleoli datblygiad yn briodol lle mae cartrefi, gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn hygyrch ac wedi'u cysylltu'n dda ac wedi'u hintegreiddio â chymunedau presennol;
- 8 Datblygu dwysedd uchel lle bo hynny'n briodol, gan wneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a chefnogi defnyddiau cymysg; a
- 9 Gwarchod neu wella'r Amgylchedd Hanesyddol a'i leoliad.



SP4 - CREU LLEOEDD

Bydd angen Datganiadau Creu Lleoedd ar gyfer pob datblygiad mawr sy'n nodi sut mae'r cynnig yn cyd-fynd ag Egwyddorion Creu Lleoedd. Yn nhrefi'r Barri, y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth, dylai Datganiadau Creu Lleoedd hefyd ystyried y Cynlluniau Creu Lleoedd a fabwysiadwyd ar gyfer yr ardal.

- 6.28 Mae creu lleoedd yn gonglfaen i'r agenda gynllunio genedlaethol yng Nghymru a'r amcanion datblygu cynaliadwy sy'n sail iddi. Mae creu lleoedd yn ymwneud â llunio lleoedd o safon sydd o fudd i breswylwyr ac ymwelwyr trwy ymagwedd gyfannol at gynllunio, dylunio a rheoli datblygiad a gofodau. Mae'n broses sy'n ystyried cyd-destun, swyddogaeth a pherthnasoedd safle datblygu â'i amgylchoedd, gyda'r nod o greu lleoedd bywiog, cofiadwy a chymdeithasol.
- 6.29 Diffiniad Comisiwn Dylunio Cymru o greu lleoedd yw: "sicrhau bod pob datblygiad neu ymyriad newydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu neu wella amgylcheddau lle gall pobl, cymunedau, busnesau a natur ffynnu ynddynt" (Canllaw Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru 2020). Mae'n gofyn am ymagwedd gyfannol at ddatblygu sy'n ystyried y lle cyfan, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddefnyddiau tir unigol neu ddatblygiadau ar wahân i'w hamgylchoedd. Mae creu lleoedd yn cwmpasu'r amgylcheddau adeiledig a naturiol ac yn cynnwys ystyriaethau strategol ac ar lefel lleol. Dylai datblygiadau newydd ymateb yn gadarnhaol i gymeriad lleol a chyfrannu'n ystyrion at eu cyd-destun.





**Ffigur 11: Ffynhonnell Egwyddorion
Creu Lleodd: Comisiwn Dylunio Cymru**

- 6.30 Mae Polisi Strategol SP4 Creu Lleodd yn nodi'r ystyriaethau allweddol y mae'n rhaid i bob datblygiad newydd eu hystyried. Bydd gweithredu'r Egwyddorion Creu Lleodd yn sicrhau'r lles gorau posibl trwy ddatblygu cynaliadwy sy'n hyrwyddo ffyrdd o fyw egniol ac iach. Rhaid ystyried penderfyniadau iechyd a lles, fel y'u nodir o dan Bolisi SP5, hefyd fel blaenoriaeth o'r cam dylunio cynnar, a'u dangos yn glir gan gynigion datblygu. Dylai datblygiad newydd ymgorffori safonau dylunio o ansawdd uchel i sicrhau eu bod yn creu lleodd deniadol gyda hunaniaeth leol unigryw ac ardal gyhoeddus fywiog sy'n cynnig hygyrchedd i bawb, gan ganolbwyntio ar hybiau o ddatblygiadau defnydd cymysg sy'n gysylltiedig ac yn cael eu gwasanaethu'n dda gan Deithio Llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.



- 6.31 Dylai datblygiad yn y Fro gyfrannu at greu lleoedd sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau, gwasanaethau a chyfleusterau, lle gall pobl fyw, gweithio a mwynhau. Dylai datblygiadau tai gynnig amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaeth i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o anghenion a bod mewn lleoliadau cynaliadwy lle mae mynediad at amrywiaeth o ddefnyddiau. Mae cymysgedd o ddefnyddiau yn helpu i greu lleoedd sy'n ddeniadol ac yn gynaliadwy; gan gynnig rhyngweithiadau cadarnhaol rhwng pobl, busnesau a'r amgylchedd, ac yn lleihau'r angen i deithio. Bydd datblygu i ddwysedd uchel, lle bo hynny'n briodol, yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o dir, yn gwneud y mwyaf o botensial datblygu, yn gwella cysylltedd ac yn annog Teithio Llesol.
- 6.32 Mae mannau aml-swyddogaethol yn cynnwys mannau agored cyhoeddus, strydoedd neu adeiladau defnydd cymysg sy'n cynnig gofod diogel a chroesawgar i bobl rhyngweithio, cymdeithasu, gweithio, ymarfer corff neu ymlacio. Dylid integreiddio Seilwaith Gwyrdd i ddatblygiadau i wella ansawdd gweledol, ychwanegu gwerth amwynder, annog gweithgarwch corfforol a rhyngweithio â natur yn ogystal â darparu manteision draenio cynaliadwy a bioamrywiaeth.
- 6.33 Bydd datblygiad yn cael ei ffafrio lle mae cyfranogiad cymunedol ystyrllon wedi'i ddangos. Mae ymgysylltu â phobl leol lle gallant gyfrannu at gynigion datblygu yn werthfawr ar gyfer creu lleoedd gan ei fod yn creu ymdeimlad o berchnogaeth a pherthyn ymhlith cymunedau.
- 6.34 Rhaid i gynigion datblygu mawr⁶ gael eu cefnogi gan Ddatganiad Creu Lleoedd i ddangos yn glir sut y bydd cynigion ar gyfer datblygiad newydd yn cyflawni creu lleoedd. Dylai'r Datganiad Creu Lleoedd hwn fod yn rhan o'r Datganiad Dylunio a Mynediad a fydd yn ofyniad ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio mawr. Bydd Datganiadau Creu Lleoedd yn esbonio'r agweddau ar y datblygiad a'r mesurau a gymerir i sicrhau bod y cynnig yn cyd-fynd â'r Egwyddorion Creu Lleoedd. Dylid cynnwys tystiolaeth i ddangos sut mae pob Egwyddor Creu Lleoedd wedi'i bodloni.
- 6.35 Mae Polisi SP4 hefyd yn cydnabod y rôl y gall Cynlluniau Creu Lleoedd ei chael wrth nodi blaenoriaethau a dyheadau cymunedau lleol. Mae Cynlluniau Creu Lleoedd wedi'u paratoi ar gyfer trefi'r Barri, y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth, a phan fo datblygiadau'n cael eu cynnig o fewn ardaloedd a gwmpesir gan y Cynlluniau Creu Lleoedd, dylid ystyried sut y gall cynigion datblygu gyfrannu at gyflawni eu hamcanion.

⁶ Diffinnir datblygiad mawr yn erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012: 10 neu fwy o anheddau; neu bydd y datblygiad yn cael ei wneud ar safle sydd ag arwynebedd o 0.5 hectar, neu lle mae arwynebedd y llawr a fydd yn cael ei greu yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu, datblygiad a wneir ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy.



PGD1 - CREU LLEOEDD WEDI'U DYLUNIO'N DDA A CHYNHWYSOL

Rhaid i bob datblygiad gyflawni dylunio o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo lleoedd cynaliadwy iach a chynhwysol sy'n meithrin ymdeimlad cadarnhaol o le. Rhaid i ddatblygiad ddangos bod yr egwyddorion canlynol wedi'u hystyried:

- 1 Creu amgylcheddau diogel, hygyrch, integredig, cynhwysol a gweithredol sy'n gwneud defnydd effeithlon o dir ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer Teithio Llesol, ac yn hyrwyddo dewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy;
- 2 Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i leihau achosion salwch, gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy ddarparu amgylchedd byw iach sy'n cefnogi iechyd meddwl a chorfforol;
- 3 Ymgorffori datrysiadau dylunio ac adeiladu cynaliadwy i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd ynni a chyfrannu'n gadarnhaol tuag at wydnwch ac addasu i newid hinsawdd;
- 4 Gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad yr ardal, gan ymateb i'r cyddestun a'r cymeriad lleol trwy ffurfiau adeiladu a graddfa; deunyddiau a nodweddion, cymysgedd o ddefnyddiau, tirwedd, dwysedd, a chysylltedd strydoedd a mannau i greu a/neu wella dyluniad a chymeriad sy'n nodedig yn lleol;
- 5 Darparu mannau agored gwyrdd aml-swyddogaethol o ansawdd uchel a all ddarparu dewis ac amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys chwarae, sydd hefyd yn darparu gwell bioamrywiaeth, yn lliniaru llifogydd ac wedi'u dylunio i fod yn wydn i newid hinsawdd ac yn addasadwy dros amser;
- 6 Dangos y gellir lletya, datrys neu liniaru symudiadau traffig i'r datblygiad ac oddi yno i raddau derbyniol, a lle darperir mannau parcio ceir, rhaid eu hintegreiddio'n sensitif i'r datblygiad fel nad ydynt yn dominyddu cynllun y datblygiad;
- 7 Sicrhau nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol ar amwynder cyhoeddus a phreswyl, yn enwedig o ran preifatrwydd, goruchafiaeth, diogelwch, sŵn ac aflonyddwch;
- 8 Sicrhau bod mannau agored cyhoeddus, mannau amwynder preifat a mannau parcio beiciau a cheir yn unol â safonau'r Cyngor;
- 9 Darparu cyfleusterau a mannau wedi'u lleoli a'u dylunio'n briodol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff.



- 6.36 Dylai dylunio da greu lleoedd gwahanol sydd wedi'u dylunio o amgylch pobl, ac mae hynny'n creu amrywiaeth a dewis. Mae ganddo rôl sylfaenol wrth gyflawni datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, lliniaru effeithiau newid hinsawdd, helpu i greu economïau ffyniannus a chymunedau lleol amrywiol, bywiog a chynhwysol.
- 6.37 Mae Polisi PGD1 yn nodi'r egwyddorion allweddol y dylai datblygwyr eu hystyried o ran dyluniad, amwynderau a hygyrchedd a fydd yn cyfrannu ar y cyd at amgylcheddau deniadol, diogel a hygyrch. Nod cyffredinol y polisi yw sicrhau bod datblygiad newydd ar bob graddfa yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gymeriad lleol.
- 6.38 Dylai datblygiadau preswyl a masnachol newydd hefyd geisio creu lleoedd o ansawdd uchel o ran eu hardaloedd cyhoeddus, lle mae parcio a gwasanaethu yn anymwithgar, a lle mae'r pwyslais ar wynebau strydoedd gweithredol sy'n creu lleoedd diogel a chroesawgar. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i gynigion datblygu newydd ystyried yn llawn y cyd-destun a'r cymeriad y mae'r cynnig datblygu wedi'i leoli ynddo i sicrhau ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r lleoliad lleol gan gynnwys golygfeydd pwysig, ac sydd o raddfa, dwysedd a dyluniad priodol ar gyfer y lleoliad arfaethedig ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r amgylchedd lleol. Bydd darparu llwybrau diogel a chyfleus ar gyfer cerdded a beicio yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau iechyd sy'n gysylltiedig â ffactorau anweithgarwch corfforol ac allgáu cymdeithasol sy'n deillio o ddibyniaeth ar gar, mynediad gwael at wasanaethau a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus.
- 6.39 Dylai datblygwyr hefyd archwilio cyfleoedd ar gyfer ymgorffori mannau a nodweddion ffurfiol ac anffurfiol sy'n hwyluso chwarae plant, gan gynnwys "chwarae stryd" trwy, er enghraifft, mesurau arafu traffig gwell fel arwynebau a rennir a pharthau cartrefi sy'n darparu amgylcheddau gwell i gerddwyr a beiciau.
- 6.40 Mae'r Cyngor yn annog ymgeiswyr i geisio lleihau effeithiau andwyol ar iechyd ac anghydraddoldeb iechyd, ac i hyrwyddo iechyd a lles i bawb. Anogir cwrmpasu effeithiau posibl yn gynnar yn y broses gynllunio a dylunio a bydd yn rhoi'r cyfle gorau i ddatblygiad gyflawni amcanion y polisi hwn mewn ffordd effeithiol. Dylai ceisiadau cynllunio fynd i'r afael ag effaith y datblygiad arfaethedig ar iechyd a lles a dangos sut y byddai'r datblygiad yn cyfrannu at leihau achosion salwch, gwella iechyd, a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r Cyngor wedi paratoi Canllaw Cynllunio Atodol ar Greu Lleoedd Iach sy'n rhoi arweiniad ar arfer gorau ynghylch sut i ymgorffori mesurau a all gyfrannu tuag at iechyd a lles.
- 6.41 Bydd darparu nodweddion neu ddefnydd ar y cyd o gyfleusterau cymunedol ar gyfer anghenion gofal iechyd sy'n galluogi pobl i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn y gymuned leol yn cael eu ffafrio lle ystyriir ei fod yn briodol.



- 6.42 Dylid mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig ag effeithiau annerbyniol ar amwynderau preswyl yn ystod y broses ddylunio, yn enwedig pan gynigir datblygiadau defnydd cymysg. Yn aml, gellir goresgyn atebion i broblemau fel y gallu i edrych i mewn i eiddo cyfagos, a sŵn trwy ddylunio da.
- 6.43 Mae darparu mannau parcio ceir yn dylanwadu'n fawr ar y dewis a'r dull trafndiaeth yn ogystal â phatrwm datblygu. Bydd y Cyngor yn ceisio cyfyngu ar ddatblygiadau sy'n cynhyrchu lefel uchel o deithiau (e.e. swyddfeydd, siopau a defnyddiau hamdden) i leoliadau sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan drafndiaeth gyhoeddus. Ar ben hynny, bydd y ddarpariaeth ar gyfer parcio yn cael ei lleihau yn unol â gwelliannau i hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus. Mae safonau'r Cyngor wedi'u nodi yn y Canllaw Cynllunio Atodol ar Safonau Parcio.
- 6.44 Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo mabwysiadu cynlluniau teithio yn eang gan fusnesau, ysgolion, ysbytai, atyniadau twristaidd, datblygiadau preswyl mawr a defnyddiau sylweddol eraill sy'n achosi teithio. Mae'r rhain yn helpu i reoli'r rhwydwaith priffyrdd yn effeithlon ac yn hyrwyddo dulliau trafndiaeth amgen. Bydd yr angen am gynllun teithio yn cael ei nodi'n gynnar fel rhan o'r broses cyn ymgeisio neu drafodaethau cwmpasu gyda'r Cyngor.
- 6.45 Rhaid i ddatblygiadau newydd fynd i'r afael â'r angen i leihau'r defnydd o ynni a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel. Wrth gyflawni gofyniad tai, bydd yn ofynnol i bob datblygiad preswyl newydd gyfrannu tuag at ddarparu cymysgedd priodol o dai marchnad agored, tai fforddiadwy, llety arbenigol a chefnogi'r trawsnewid i ddi-garbon. Er enghraifft, trwy ymgorffori cynhyrchu ynni adnewyddadwy i wead adeiladau neu ddyluniadau sy'n atal gorboethi er mwyn osgoi'r angen am oeri adeiladau yn artiffisial.
- 6.46 Mae cynlluniau preswyl a masnachol mwy yn cyflwyno cyfle i ddarparu datblygiadau sy'n creu ymdeimlad o le, yn darparu amgylchedd hygyrch ac iach, ac yn atgyfnerthu neu'n gwella ardaloedd trefol. Er mwyn sicrhau creu mannau cyhoeddus o ansawdd uchel, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwyr safleoedd o'r fath baratoi uwchgynlluniau safle i ddangos sut mae'r cynnig yn cefnogi cyflawni egwyddorion creu lleoedd da a chreu lleoedd a mannau wedi'u dylunio'n dda.
- 6.47 Bydd y Cyngor yn annog defnyddio ei wasanaeth cynghori cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio fel bod materion sy'n ymwneud â dylunio a chreu lleoedd yn cael eu hystyried yn gynnar mewn ffordd integredig.



DWYSEDDAU DATBLYGIAD PRESWYL

PGD2 – DWYSEDDAU DATBLYGIAD PRESWYL

Ar safleoedd o 0.5 Ha neu uwch, caniateir cynigion datblygu preswyl o fewn yr Aneddiadau Allweddol, yr Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth a'r Prif Aneddiadau lle mae'r dwysedd preswyl yn isafswm o 35 annedd fesul hectar net. Mewn Aneddiadau Gwledig Bach, bydd angen isafswm dwysedd preswyl o 30 annedd fesul hectar net.

Bydd dwyseddau net uwch yn cael eu cefnogi lle mae'r datblygiad mewn lleoliad a wasanaethir gan drafnidiaeth gyhoeddus reolaidd a llwybrau Teithio Llesol, neu'n agos at wasanaethau a chyfleusterau.

Caniateir lefelau dwysedd is dim ond lle y gellir dangos:

- 1 Byddai datblygiad yn y dwyseddau a ragnodir yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad yr ardal gyfagos,
- 2 Mae angen dwyseddau llai oherwydd cyfyngiadau sylweddol ar y safle neu i gadw nodwedd naturiol neu hanesyddol a fyddai'n cyfrannu at amwynder lleol presennol neu yn y dyfodol; neu
- 3 Mae'r cynnig ar gyfer datblygiad cymysg lle mae defnydd preswyl yn elfen isradd o'r cynnig.

- 6.48 Bydd datblygiad preswyl lleol ym Mro Morgannwg yn ceisio defnyddio tir yn effeithlon, gan ddarparu anheddau sy'n bodloni anghenion tai presennol wrth warchod tir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Felly, bydd angen isafswm dwysedd preswyl o 35 o anheddau fesul hectar net ar gyfer datblygiad preswyl newydd o fewn Aneddiadau Allweddol, Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth a Phrif Aneddiadau Bro Morgannwg.
- 6.49 O fewn yr Aneddiadau Gwledig Bach ym Mro Morgannwg, caniateir datblygiad preswyl newydd ar ddwysedd llai o 30 annedd fesul hectar net. Mae hyn yn adlewyrchu natur sensitif sawl pentref gwledig a chymeriad ffurf adeiledig bresennol.
- 6.50 Mae ardal ddatblygu net ond yn cynnwys yr ardaloedd hynny a fydd yn cael eu datblygu ar gyfer tai a defnyddiau sy'n uniongyrchol gysylltiedig megis ffyrdd



mynediad o fewn y safle, gerddi preifat, meysydd parcio ceir, mannau agored a thirweddau achlysurol, ac ardaloedd chwarae i blant lle bo'u hangen.

- 6.51 Mae hyn yn wahanol i ddwysedd gros a ddefnyddir i ddiffinio nifer yr anheddau ar safle/ardal ddatblygu gan gynnwys prif ffyrdd dosbarthu a rhai lleol, ysgolion, eglwysi, ardaloedd siopa lleol, mannau agored ar gyfer ardal ehangach a chylchfannau tirwedd arwyddocaol a allai ddiffinio ffin y safle/ymyl y datblygiad. Wrth gyfrifo ardal ddatblygu net, bydd yn rhesymol diystyru ardaloedd sydd â chyfyngiadau sylweddol o fewn safle megis coetir i'w gadw, parth llifogydd, ardaloedd lliniaru ecoleg, nodweddion draenio cynaliadwy megis basnau arafu yn ogystal â seilwaith strategol arall.
- 6.52 Ni chaniateir datblygu islaw'r lefelau dwysedd preswyl penodedig oni bai ei fod yn dangos bod cyfyngiadau safle sylweddol sy'n atal datblygiad ar y lefelau penodedig neu lle byddai datblygiad ar y dwysedd sy'n ofynnol yn cael effaith andwyol ar gymeriad neu olwg yr ardal leol neu'n arwain at golli nodwedd bwysig o'r safle.
- 6.53 Yn unol â PCC, a Cymru'r Dyfodol,⁷, mae Polisi PGD2 yn cefnogi'r datblygiad preswyl ar ddwysedd uwch, yn enwedig pan fo'r cynigion hyn wedi'u lleoli mewn canolfannau trefol a ger nodau neu gyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus mawr a lle gall y rhain helpu i gefnogi gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Mewn lleoliadau o'r fath, bydd cynigion sy'n darparu dwyseddau preswyl o 50 annedd fesul hectar ac uwch yn cael eu hannog pan na fyddai hyn yn arwain at effaith andwyol ar gymeriad yr ardal nac yn tanseilio amcanion ehangach creu lleoedd ac amcanion lles y cynllun.

⁷ Cymru'r Dyfodol, Y Cynllun Cenedlaethol 2040, Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol, Tudalen 66



CREU LLEOEDD A GOFODAU IACH A CHYNHWYSOL

SP5 - CREU LLEOEDD A GOFODAU IACH A

Dylai pob datblygiad geisio creu lleoedd iach a chynhwysol sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella cydlyniant cymdeithasol. Cyflawnir hyn drwy:

- Sicrhau bod cynigion datblygu wedi'u dylunio i hwyluso amgylcheddau iach hygyrch i fynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd perthnasol yn gadarnhaol, yn enwedig mewn ymateb i anghenion iechyd lleol;
- Sicrhau bod pob man a datblygiad mor gynhwysol â phosibl, yn gallu addasu i amrywiaeth eang o anghenion sy'n newid a darparu ansawdd bywyd uchel;
- Galluogi cyfleoedd ar gyfer mynediad at amgylchedd bwyd iach;
- Cefnogi'r ddarpariaeth o gyfleusterau cymunedol a gofal iechyd newydd a gwell;
- Gwarchod a gwella iechyd a lles presennol y cyhoedd.


Er mwyn cyflawni hyn, mae'n ofynnol i ddatblygwyr gynnal asesiad sgrinio o'u cynnig yn y cam cyn ymgeisio i nodi effeithiau iechyd posibl eu datblygiad fel y nodir isod:

Math o Ddatblygiad	Datblygiadau Mawr - Rhestr Wirio Creu Lleoedd Iach	Datblygiadau Mawr - Rhestr Wirio Creu Lleoedd Iach
Preswyl	Rhwng 10 a 99 o anheddau neu arwynebedd o 0.5 hectar i 2 hectar	100 neu fwy o anheddau neu fwy na 2 hectar
Cyflogaeth/Masnachol Arall/Hamdden	Arwynebedd llawr adeiledig o 1,000m ² i 4,000m ²	Arwynebedd llawr adeiledig mwy na 4,000m ²

Bydd cynigion yn cael eu cefnogi lle y gellir dangos bod dyluniad y cynllun wedi'i lywio gan gasgliadau'r asesiad.



- 6.54 Mae iechyd a lles ein cymunedau yn hanfodol bwysig i gyflawni datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd hirdymor. Mae hyn yn cynnwys lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Yn allweddol i hyn mae sicrhau mynediad at wasanaethau a chyfleusterau o ansawdd da a galluogi pobl o bob oedran a chefnidir i fyw mewn amgylchedd a fydd yn eu cefnogi i fyw bywydau llawn, cynhyrchiol a ffyniannus.
- 6.55 Gall llawer o agweddau ar gynllunio gael effaith sylweddol ar iechyd. Yn benodol: tai o ansawdd da; ardal gyhoeddus wedi'i dylunio'n dda; trafnidiaeth gynaliadwy; cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant; a mynediad at hamdden, gweithgareddau diwylliannol a mannau gwyrdd. Gelwir y ffactorau hyn yn 'benderfynyddion iechyd ehangach' (Ffigur 19) ac maent yn aml y tu allan i reolaeth unigolyn i allu dylanwadu arnynt. Mae'r amgylchedd rydym yn byw, yn gweithio ac yn treulio amser hamdden ynddo yn chwarae rhan bwysig yn ein hiechyd a'n lles.



Ffigur 19: Ffynhonnell Penderfynyddion Iechyd Ehangach: Dahlgren a Whitehead (1991) R: Barton a Grant (2006)

- 6.56 Lleoedd a mannau iach yw'r rhai sydd wedi'u dylunio i safon uchel, gan ymgorffori nodweddion sy'n:
- Mynd i'r afael ag anghenion iechyd a lles pob defnyddiwr, yn unol ag egwyddorion creu lleoedd.
 - Galluogi mynediad cyfleus, aml-foddol i wasanaethau a chyfleusterau hanfodol ar gyfer pob math o daith.
 - Darparu seilwaith teithio llesol o ansawdd uchel a mannau agored hygyrch, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon.



- Cynnwys seilwaith gwyrdd a mannau ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, fel ardaloedd ar gyfer tyfu bwyd.
- Cynnig llety tai priodol o ansawdd uchel.
- Wedi'u dylunio mewn modd sy'n lleihau'r potensial am drosedd a thraffer.

- 6.57 Trwy integreiddio'r elfennau hyn, gall cynllunio ddylanwadu'n gadarnhaol ar benderfynyddion iechyd allweddol a chyfrannu at y broses o greu cymunedau iachach, mwy cynhwysol.
- 6.58 Lleodd cynhwysol yw'r rhai sy'n darparu mynediad cyfartal a chyfleoedd, gan alluogi pawb i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas a galluogi pobl i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau wrth i'w hanghenion newid. Gall addasiadau cymharol fach gael effaith sylweddol ar allu pobl i fwynhau eu hardal leol, megis ymgorffori goleuadau priodol i leihau'r ofn o drosedd, neu ddarparu lleoedd i bobl orffwys a chymdeithasu. Gall dylunio gofalus sicrhau bod lleoedd yn groesawgar i bob cenhedlaeth, gan ddileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag diwallu eu hanghenion neu fwynhau bywydau egniol.
- 6.59 Er mwyn sicrhau bod datblygiad newydd yn ymateb yn briodol i anghenion iechyd a lles, yn darparu amgylchedd sy'n cynyddu effeithiau cadarnhaol ar iechyd ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, dilyniar dull iechyd ym mhob polisi. Mae hyn yn sicrhau bod datblygiad newydd yn ystyried ei oblygiadau iechyd trwy geisio osgoi canlyniadau iechyd negyddol anfwriadol posibl a'u gwella lle bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn ymgorffori iechyd a lles fel mater polisi allweddol ar draws yr holl bolisiau perthnasol o fewn y cynllun ac mae'n cael ei ategu gan Bolisi SP5.
- 6.60 Er mwyn sicrhau bod datblygiadau newydd yn ystyried effeithiau posibl datblygiad ar iechyd, mae Polisi SP5 yn nodi'r gofynion i hyrwyddwyr safleoedd gynnal asesiad o'r datblygiad arfaethedig cyn cyflwyno cais cynllunio neu yn y cam cyn ymgeisio. Yn dibynnu ar fath a graddfa'r datblygiad, bydd gofyn i'r asesiad gynnwys naill ai sgrinio gan ddefnyddio Rhestr Wirio Iechyd a Lles y Cyngor, neu sgrinio ac yna Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) cyflym. Mae manylion y gofynion wedi'u nodi yng Nghanllaw Cynllunio Atodol Creu Lleoedd Iach y Cyngor.
- 6.61 Mae AEI cyflym fel arfer yn cynnwys ymchwiliad byr o effeithiau ar iechyd, gan gynnwys adolygiad llenyddiaeth byr o dystiolaeth feintiol ac ansoddol a chasglu gwybodaeth a thystiolaeth bellach gan randdeiliaid lleol gan gynnwys adrannau perthnasol y Cyngor, Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro ac Uned Asesu'r Effaith ar Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dylai'r sgrinio a/neu'r AEI cyflym hwn nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl tebygol cynnig datblygu ar iechyd a lles gwahanol grwpiau poblogaeth, ar benderfynyddion iechyd ehangach, ac ar anghydraddoldebau iechyd. Dylai'r argymhellion a nodwyd drwy'r broses hon, sy'n



nodi sut y gellid gwella effeithiau cadarnhaol ar iechyd ac osgoi neu liniaru effeithiau negyddol, lywio dyluniad datblygiad. Bydd cynigion sy'n ymgorffori mesurau sy'n cyfrannu tuag at greu amgylcheddau iach a hygyrch yn cael eu cefnogi.

- 6.62 Mae anghydraddoldebau iechyd yn bodoli ar draws Bro Morgannwg, yn ofodol a rhwng gwahanol grwpiau poblogaeth. Bydd cydymffurfiaeth â Pholisi SP5 yn sicrhau bod yr anghydraddoldebau iechyd hyn yn cael eu nodi a'u datrys lle bo'n bosibl. Mae setiau data sy'n nodi anghydraddoldebau yn cynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru⁸, a chyhoeddiadau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Dylid defnyddio'r rhain i lywio AElau. Cynhyrchwyd canllawiau⁹ ar gwblhau AElau gan Uned Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru.
- 6.63 Rôl arall y CDLIN yw cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a lles o fewn y gymuned, ac er nad yw Cyngor Bro Morgannwg yn darparu cyfleusterau gofal iechyd yn uniongyrchol, mae gan y Cyngor rôl alluogi allweddol. Yn hyn o beth, mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddarparu dealltwriaeth o gapasiti gwasanaethau lleol, newidiadau mewn darpariaeth gwasanaethau a'r angen am gyfleusterau ychwanegol lle mae datblygiad yn cael ei gynllunio.
- 6.64 Yn ogystal, lle mae datblygiadau newydd yn cynnwys darparu adeilad cymunedol newydd neu well, bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r Bwrdd Iechyd i archwilio a allai cyfleusterau o'r fath ddarparu cyfle i ddarparu gwasanaethau iechyd fel rhan o ofod cymunedol aml-ddefnydd fel y'i cefnogir o dan Bolisi CI4 Gwarchod a Gwella Cyfleusterau Cymunedol Presennol.
- 6.65 Anogir datblygwyr hefyd i ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd lleol yn y cam cyn ymgeisio er mwyn galluogi ystyriaeth briodol o ofynion seilwaith gofal iechyd. Dylid ystyried yr angen am gyfleusterau gofal iechyd, neu seilwaith arall sy'n galluogi iechyd fel lonydd beicio ar wahân neu gyfleusterau hamdden, yn unol â'r gofynion sy'n deillio o ddatblygiad newydd ac anghenion iechyd y boblogaeth leol. Mae hyn yn arbennig o angenrheidiol ar gyfer safleoedd mawr a allai fod yn raddol ac y gall y gofynion a grëwyd gan ddatblygiad newid yn ystod y cyfnod hwnnw.

⁸ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | LLYW.CYMRU

⁹ <https://icccgsib.co.uk/whiasu/>



LLEOEDD ACTIF A CHYMDEITHASOL

TWF TAI A CHYFLENWAD (TT)

SP6 - GOFYNIAD TAI

Er mwyn bodloni'r gofyniad tai a nodwyd o 7,890 o anheddau, cynigir darparu 8,660 o gartrefi yng Nghyfnod y Cynllun o 2021 i 2036. Mae'r nifer hwn yn cynnwys:

- 3,837 o anheddau o'r cyflenwad tir presennol
- 3,520 o anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd
- 1,303 o anheddau o ddatblygiadau mawr a bach annisgwyl

- 6.66 Nod strategaeth twf tai CDLIN yw darparu digon o dai i fodloni'r gofyniad a nodwyd dros gyfnod y cynllun. Mae'n sicrhau cymysgedd priodol o dai marchnad cyffredinol, cartrefi fforddiadwy, a llety arbenigol i ddiwallu anghenion unigolion sydd angen tai hygyrch neu wedi'u haddasu.
- 6.67 Mae Polisi SP6 yn nodi gofyniad tai o 7,890 o anheddau dros gyfnod y cynllun, sy'n cyfateb i 526 o unedau y flwyddyn. Er mwyn sicrhau hyblygrwydd a chefnogi'r gallu i gyflawni, mae'r Cynllun yn cynnwys gor-ddyraniad o 10%, gan wneud darpariaeth ar gyfer cyfanswm o 8,660 o anheddau. Bydd y ddarpariaeth dai hon yn cael ei chyflawni o'r ffynonellau cydran a restrir yn Nhabl 2.
- 6.68 Er mwyn bodloni'r ffigur gofynion tai hwn, mae'r Cyngor wedi ystyried y cyfraniad o safleoedd sydd wedi'u cwblhau ers Ebrill 1 2021, unedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd ac unedau gyda chaniatâd cynllunio, gan hefyd ystyried rhagdybiaeth am beidio â darparu. Gyda'i gilydd, byddai'r ffynonellau hyn yn cyfrannu 3,837 o anheddau tuag at fodloni'r gofynion tai. Mae rhagor o fanylion am y cyfraniad o bob ffynhonnell yn cael eu crynhoi yn Nhabl 2.
- 6.69 Mae ffynhonnell arall o dai yn deillio o ddatblygiadau annisgwyl, sef safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu'n benodol ar gyfer tai ond sy'n cael eu cyflwyno yn unol â'r cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill. Mae dadansoddiad o ddarpariaeth tai hanesyddol yn dangos bod safleoedd annisgwyl bach (safleoedd o lai na 10 annedd) ar gyfartaledd wedi darparu o gwmpas **53 o anheddau wedi'u cwblhau bob blwyddyn**, ac roedd safleoedd annisgwyl mawr (10 annedd neu fwy) wedi cyfrannu ar gyfartaledd **80 o anheddau y flwyddyn**. Yn gyffredinol, rhagwelir y gallai safleoedd annisgwyl gyfrannu **1,303 o anheddau** dros weddill cyfnod y cynllun.



- 6.70 Mae Tabl 2 hefyd yn cynnwys nifer yr anheddau sy'n cael eu dyrannu ar gyfer datblygiad preswyl ar safleoedd allweddol, safleoedd sydd wedi'u symud ymlaen sy'n cael eu hystyried fel rhai y gellid eu cyflawni, a dyraniadau tai eraill, gan gynnwys safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy. Gallai'r dyraniadau hyn ddarparu **3,520 o anheddau**. Mae rhagor o fanylion am ddadansoddiad y Cyngor o gyflenwad tir Bro Morgannwg wedi'u nodi ym Mhapur Cefndir Cyflenwad Tir Tai'r CDLIN.

Tabl 2: Cydrannau Cyflenwad Tai: Cyflenwad Tai a Gofyniad Tai			
	Cydran y Cyflenwad	Nifer yr Anheddau	Nodiadau
A	Wedi'u cwblhau 21/22 - 24/25	1,747	Yn cynnwys 1,562 o anheddau ar safleoedd mawr a 185 o anheddau ar safleoedd bach
B	Unedau sy'n cael eu hadeiladu 1 Ebrill 2025	313	Yn cynnwys Safleoedd Mawr 10 annedd >
C	Unedau o fewn caniatâd cynllunio	1,860	Yn cynnwys safleoedd sydd â chytundebau A106 yn yr arfaeth lle mae'n realistig y bydd y cytundeb yn cael ei lofnodi.
Ch	Lwfans peidio â darparu ar gyfer banc tir	-83	Tybir na fydd 5% o unedau sydd â chaniatâd cynllunio lle nad yw'r gwaith adeiladu eisoes wedi dechrau (1663 o unedau) yn cael eu darparu yn seiliedig ar gyfraddau darparu blaenorol
	Cyfanswm y Cyflenwad Presennol (A+B+C-Ch)	3,837	
D	Lwfans Safleoedd Annisgwyl Mawr (10 neu fwy o anheddau)	720	Yn seiliedig ar gyfraddau darparu yn y gorffennol dros gyfnod y cynllun CDLI mabwysiedig. Er mwyn osgoi cyfrif dwbl safleoedd annisgwyl mawr sydd eisoes o fewn y cyflenwad tir, mae'r lwfans hwn wedi'i ddiystyru o 2 flynedd gyntaf y cyflenwad tir ac wedi'i gymhwyso i'r 9 mlynedd dilynol sy'n weddill o'r cynllun (80 annedd x 9 mlynedd)
Dd	Lwfans Safleoedd Annisgwyl Bach	583	Yn seiliedig ar gyfraddau darparu yn y gorffennol. Mae'r lwfans hwn wedi'i gymhwyso i'r 11 mlynedd sy'n weddill o gyfnod y cynllun (53 annedd x 11 mlynedd)



Tabl 2: Cydrannau Cyflenwad Tai: Cyflenwad Tai a Gofyniad Tai			
	Cyfanswm y Iwfans annisgwyl (D+Dd)	1,303	
	Dyraniadau CDLIN	3,520	Safleoedd allweddol – 2,278 o unedau Dyraniadau tai newydd – 161 o unedau Safleoedd wedi'u symud ymlaen – 959 o unedau Safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy – 122 o unedau
	Darpariaeth Tai	8,660	

Dosbarthiad Gofodol Twf Tai

- 6.71 Mae'r tabl isod yn crynhoi dosbarthiad gofodol y gwahanol gydrannau o'r cyflenwad tir tai fel y maent yn ymwneud â Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLIN. Mae'r tabl yn dangos bod 1,747 o anheddau eisoes wedi'u hadeiladu ers dechrau cyfnod y cynllun ac y bydd y banc tir tai presennol yn cyfrannu at gyfran sylweddol o'r gofyniad tai a nodwyd. Mae dosbarthiad safleoedd annisgwyl ar draws yr hierarchaeth aneddiadau a ddangosir yn y tabl yn gynrychioliadol o dueddiadau hanesyddol sy'n dangos bod y rhan fwyaf o'r datblygiadau annisgwyl wedi dod o safleoedd yn y Barri a Chanolfannau Gwasanaeth y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth, ac mae'r Iwfans a ragwelir yn adlewyrchu'r duedd hon. Mae rhagor o fanylion am ddadansoddiad y Cyngor o dueddiadau annisgwyl wedi'u nodi ym Mhapur Cyflenwad Tir Tai y CDLIN.
- 6.72 Mae dosbarthiad gofodol y cyflenwad tir tai yn Nhabl 3 yn dangos bod dosbarthiad gofodol tai newydd yn cael ei gyfeirio yn unol â'r strategaeth twf gofodol (SP1), yn benodol i'r aneddiadau yn y Fro sy'n cael eu gwasanaethu orau gan gysylltedd trafndiaeth gyhoeddus ac sy'n cynnig amrywiaeth dda o wasanaethau a chyfleusterau. Mae'r Barri, fel Anheddiad Allweddol, yn darparu cyfran sylweddol o ddatblygiadau newydd sy'n gymesur â'i statws yn yr hierarchaeth a'i gymwysterau fel anheddiad cynaliadwy sy'n cael ei wasanaethu'n dda gan drafndiaeth gynaliadwy.
- 6.73 Mae'r Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth hefyd yn darparu cyfran briodol o'r datblygiad. Er bod y gyfran uchaf o ddatblygiad wedi'i nodi o fewn y Prif Aneddiadau o fewn yr Ardal Twf Strategol, dylid nodi bod pum anheddiad o fewn y categori hwn – Sain Tathan, Y Rhws, Dinas Powys, Llandochoau a Sili. Mae'r rhain yn aneddiadau sydd â chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus presennol ac



arfaethedig da, ond hefyd yn cael eu gwasanaethu'n dda gan gyfleoedd cyflogaeth gerllaw, gan alinio tai â chyflogaeth. Nodir mai dim ond cyfran fach o'r datblygiad sy'n debygol o ddigwydd y tu allan i'r Ardal Twf Strategol, gyda rhywfaint o'r datblygiad hwn yn ymwneud â chaniatâd cynllunio a roddir yn unol â'r strategaeth CDLI fabwysiedig.

Tabl 3: Dosbarthiad Gofodol Cyflenwad Tai (Ebrill 2025)

Cydrannau Cyflenwad Tai		Cyfan- swm	Hierarchaeth Aneddiadau				
			Anheddiad Allweddol, Y Barri	Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth	Prif Aneddiadau yn yr Ardal Twf Strategol	Aneddiadau Gwledig Bach a Phrif Aneddiadau y Tu Allan i'r Ardal Twf Strategol	Pentrefannau ac Aneddiadau Gwledig Llai
A	Safleoedd Annisgwyl Bach wedi'u Cwblhau 2021- 25	185	70	73	22	15	5
	Safleoedd Mawr (Annisgwyl) a Dyraniadau wedi'u Cwblhau 2021- 25	1,562	581	394	569	18	0
B	Unedau sy'n cael eu hadeiladu Ebrill 2025	313	70	163	63	17	0
C	Unedau gyda chaniatâd cynllunio gan gynnwys allowance	1,777	66	1,004	331	124	253



Tabl 3: Dosbarthiad Gofodol Cyflenwad Tai (Ebrill 2025)

	Cyflenwad tir presennol	3,837	787	1,634	985	174	258
Ch	Safleoedd CDLI wedi'u symud ymlaen	959	200	340	419	0	0
D	Dyraniadau Tai Allweddol	2,278	376	0	1,902	0	0
Dd	Dyraniadau eraill gan gynnwys Safleoedd a Arweinir gan Dai Fforddiadwy	283	110	0	51	122	0
	Safleoedd a ddyrannwyd	3,520	686	340	2,372	122	0
E	Safleoedd annisgwyl mawr (10>)	720	376	172	81	52	39
F	Safleoedd annisgwyl bach (<10)	583	304	139	65	42	32
	Cyfanswm Safleoedd Annisgwyl	1303	680	311	146	94	71
Ff	Cyfanswm Darpariaeth Tai	8,660	2,153	2,285	3,503	390	329



DARPARIAETH TAI

HG1 - HOUSING ALLOCATIONS

Er mwyn cyflawni twf strategol y cynllun a chyfrannu at fodloni'r gofyniad tai a nodir yn SP6, dyrennir tir ar gyfer tai yn y lleoliadau canlynol:

A. SAFLEOEDD ALLWEDDOL (POLISI HG1 KS1-5)

- 6.127 Mae'r Cyngor bob amser yn ffafrio darpariaeth tai fforddiadwy ar y safle ond mae'n cydnabod y bydd y gofyniad ar safleoedd llai yn aml yn gyfystyr â llai nag anheddau cyfan. Mewn amgylchiadau o'r fath, o ystyried maint bychan y datblygiad, mae'n briodol gofyn am gyfraniad ariannol sy'n gymesur â'r gofyniad gweddilliol, y gellir ei gronni a'i ddefnyddio i gyflawni tai fforddiadwy oddi ar y safle. Nodir dull y Cyngor o ymdrin â chyfraniadau ariannol (symiau gohiriedig) yn fanylach yn y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) mabwysiedig ar Dai Fforddiadwy. Caiff symiau gohiriedig eu cyfrifo gan ddefnyddio cost gyfatebol darpariaeth ar y safle ac fe'u defnyddir i gynorthwyo datblygu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion hysbys.



- 6.128 Lle dangosir bod amgylchiadau economaidd sicr sy'n effeithio ar ddarparu tai fforddiadwy e.e. pan fo amgylchiadau'r farchnad wedi newid neu pan fo gwerthoedd defnydd presennol yn atal rhag cyflawni'r targed polisi, gall y Cyngor drafod lefel, math, deiliadaeth a natur y ddarpariaeth ar y safle neu, lle y bo'n briodol, y ddarpariaeth oddi ar y safle. Mewn amgylchiadau lle byddai cyfraniad ariannol yn lle darparu tai fforddiadwy'n dderbyniol, y Cyngor fydd yn penderfynu at ba ddiben y byddai'n fwyaf priodol defnyddio'r arian hwn. Gallai hyn gynnwys darparu tai fforddiadwy ar dir ym mherchenogaeth y Cyngor neu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu welliannau i dai fforddiadwy presennol, neu gallai alluogi'r Cyngor i ddefnyddio'r arian i ddarparu tai fforddiadwy yn yr ardaloedd â'r angen mwyaf.
- 6.129 Defnyddir amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau cynllunio priodol i sicrhau bod y tai fforddiadwy a ddarperir drwy ddatblygiadau newydd yn aros yn fforddiadwy am byth. Nodir canllawiau manwl pellach ar weithredu'r polisi hwn yn CCA Tai Fforddiadwy'r Cyngor.

SAFLEOEDD A ARWEINIR GAN DAI FFORDDIADWY GWLEDIG

- 6.130 Yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol, mae strategaeth a pholisïau'r CDLIN yn ceisio gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer darparu tai fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys nodi safleoedd priodol a arweinir gan dai fforddiadwy a fydd yn darparu o leiaf 50% o dai fforddiadwy. Yn unol â hynny, mae Polisi HG4 yn nodi sawl safle sydd wedi'u lleoli o fewn Prif Aneddiadau y tu allan i'r Ardal Twf Strategol ac Aneddiadau Gwledig Bach sydd wedi bod yn destun arfarniadau hyfywedd safle-benodol lle dangoswyd y gall economeg datblygu'r safle gefnogi 50% o dai fforddiadwy.



HG4 - SAFLEOEDD A ARWEINIR GAN DAI FFORDDIADWY GWLEDIG

Mae'r safleoedd canlynol yn cael eu dyrannu fel safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy lle bydd gofyniad am ddarparu o leiaf 50% o dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion tai fforddiadwy y gymuned leol. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu cymysgedd o dai marchnad agored a fydd yn cyfrannu at anghenion marchnad dai penodol y gymuned.

Cyfeirnod y Safle	Anheddiad	Enw'r Safle	Cyfanswm yr unedau
HG4 (1)	Tregolwyn	Tir i'r dwyrain o Dregolwyn	25
HG4 (2)	Aberthin	Tir i'r gorllewin o Maendy Road	25
HG4 (3)	Y Wig	Tir yn Heol Fain	50
HG4 (4)	Fferm Goch	Tir i'r gogledd o Barc Busnes West Winds	22
			122

Bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut mae tai marchnad agored a thai fforddiadwy yn darparu ar gyfer anghenion tai lleol y gymuned o ran deiliadaeth, math a maint anheddau fel bod amrywiaeth o dai yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau yn y gymuned leol.

- 6.131 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tynnu sylw at y ffaith y dylai awdurdodau cynllunio nodi safleoedd lle gallai fod angen ymyriadau i ddarparu'r cyflenwad tai. Mae hefyd yn pwysleisio bod yn rhaid bod nifer ddigonol o safleoedd sy'n addas ar gyfer "*pob math o dai er mwyn diwallu anghenion dynodedig cymunedau... [a dylai awdurdodau cynllunio] hyrwyddo cymunedau deiliadaeth gymysg preswyl cynaliadwy gyda thai 'dirwysr', er enghraifft, tai sydd wedi'u hadeiladu'n unol â safonau Cartrefi Gydol Oes i alluogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain am hirach*"¹⁰.
- 6.132 Yn unol â hynny, er mwyn sicrhau bod datblygiadau newydd yn ymateb i'r galw uchel am eiddo llai, fel y nodwyd yn yr AFDL, rhoddir blaenoriaeth i gartrefi fforddiadwy sy'n fach i ganolig, fel arfer yn cynnwys un i dair ystafell wely. Roedd sylwadau a dderbyniwyd gan y gymuned leol drwy broses y CDLN hefyd yn tynnu sylw at awydd i ddatblygiadau tai newydd gynnig cyfleoedd i gael mynediad at gartrefi marchnad agored llai. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn ardaloedd

¹⁰ Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12, paragraff 4.2.13



gwledig y Fro, lle mae dewisiadau tai yn fwy cyfyngedig. Gall darparu cartrefi marchnad agored llai, mwy fforddiadwy helpu prynwyr tro cyntaf a galluogi preswylwyr hŷn i leihau i eiddo mwy hwylus yn eu hardal leol. Felly, bydd angen i safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy ddangos bod amrywiaeth briodol o anheddau fforddiadwy a marchnad agored wedi'u darparu.

- 6.133 Bydd yn ofynnol i safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy ddarparu o leiaf 50% o dai fforddiadwy, wedi'u sicrhau trwy gytundeb Adran 106. Ni fydd cynigion sy'n darparu llai na 50% o dai fforddiadwy yn dderbyniol, gan fod dyrannu'r safleoedd hyn wedi'i fwriadu'n benodol i ddiwallu anghenion a nodwyd mewn wardiau gwledig a fyddai fel arall yn anodd mynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, bydd cynigion sy'n darparu mwy na 50% o dai fforddiadwy, gan gynnwys lle mae'r safle yn cael ei gyflwyno gan ddarparwr tai cymdeithasol, yn cael eu cefnogi. Ym mhob achos, bydd unedau tai fforddiadwy ar safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy gwledig yn ddarostyngedig i bolisi gosod tai lleol i sicrhau eu bod ar gael i breswylwyr sydd â chysylltiad lleol yn y feddiannaeth gychwynol a'r feddiannaeth ddilynol.

EITHRIADAU TAI FFORDDIADWY

- 6.134 Mae'r AFDL yn tynnu sylw at y ffaith bod anghenion tai fforddiadwy yn bodoli ar draws yr awdurdod cyfan, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig, lle mae cyfle mwy cyfyngedig i ddarparu tai fforddiadwy o fewn ffiniau anheddiad diffiniedig. Er mwyn helpu i ddiwallu'r angen penodol hwn am dai gwledig, bydd y Cyngor yn cefnogi cynigion ar gyfer tai lleol fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig ar dir na fyddai fel arfer yn dderbyniol ar gyfer datblygu tai lle bodlonir y darpariaethau a gynhwysir ym Mholisi HG5.



HG5 - SAFLEOEDD AG EITHRIADAU TAI FFORDDIADWY

Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau tai fforddiadwy 100% ar raddfa fach yn cael eu caniatáu y tu allan i ffiniau anheddiad lle:

- 1 Mae gan y cynnig berthynas ffisegol neu weledol amlwg ag anheddiad diffiniedig y tu allan i'r Ardal Twf Strategol fel y nodir ym Mholisi SP2 ar Hierarchaeth Aneddiadau.**
- 2 Mae'r cynnig yn diwallu angen lleol a nodwyd na ellir ei ddiwallu o fewn ffiniau anheddiad a nodwyd;**
- 3 Byddai safle'r cynnig yn cynrychioli estyniad rhesymegol o'r anheddiad ac ni fyddai angen isrannu safle mwy mewn modd mympwyol;**
- 4 Mae'r datblygiad ar raddfa sy'n gydnaws â chynllun, dwysedd, gwead a golwg yr anheddiad presennol;**
- 5 Bydd yr annedd/aneddau arfaethedig o faint, deiliadaeth a dyluniad sy'n gymesur â'r angen a nodwyd am dai fforddiadwy, gan ystyried y tai fforddiadwy sydd eisoes wedi'u cynllunio yn yr ardal marchnad dai;**
- 6 Nid oes unrhyw dir sydd â gwerth hamdden, amwynder, amaethyddol neu dreftadaeth naturiol sylweddol yn cael ei golli; ac**
- 7 Mae mecanweithiau diogel ar waith i sicrhau y bydd yr eiddo yn parhau i fod yn fforddiadwy am byth ac ar gael yn unol â pholisi gosod tai lleol y Cyngor.**

6.135 Wrth geisio darparu cymunedau cynaliadwy, mae Strategaeth y CDLIN yn cyfeirio tai newydd i aneddiadau o fewn yr Ardal Twf Strategol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen tai fforddiadwy ar draws yr awdurdod cyfan, gan gynnwys o fewn wardiau mewn ardaloedd mwy gwledig y tu allan i'r Ardal Twf Strategol. Mae'r polisi hwn yn galluogi datblygu tai fforddiadwy ar raddfa fach yn yr ardaloedd hyn fel 'eithriadau' i bolisiâu tai cyffredinol y CDLIN.

6.136 Mae Polisi HG5 ond yn berthnasol i gynigion sy'n ymwneud ag aneddiadau sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Ardal Twf Strategol ac a nodwyd yn benodol yn yr Hierarchaeth Aneddiadau o dan Bolisi SP2. Mae hyn yn cynnwys Aneddiadau Gwledig Bach a Phrif Aneddiadau Gwenfô, Croes Cwrlwys, a'r Wig. Ni fydd safleoedd ag eithriad yn cael eu cefnogi mewn aneddiadau gwledig llai neu bentrefannau heb ffin anheddiad ddiffiniedig, gan nad oes gan y lleoliadau hyn yn gyffredinol y gwasanaethau a'r cyfleusterau angenrheidiol i gefnogi datblygiad



newydd. Ni fydd safleoedd ag eithriad ychwaith yn cael eu cefnogi o fewn yr Aneddiadau Allweddol, yr Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaeth, a'r Prif Aneddiadau sydd wedi'u lleoli o fewn yr Ardal Twf Strategol, gan fod yr aneddiadau mwy hyn fel arfer yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy trwy safleoedd a ddyrannwyd a datblygiadau annisgwyl o fewn ffiniau anheddiad diffiniedig.

- 6.137 Mae Polisi HG4 yn darparu ar gyfer safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy mewn lleoliadau y tu allan i'r Ardal Twf Strategol. Mae'r safleoedd hyn, sy'n cael eu dyrannu ar gyfer o leiaf 50% o dai fforddiadwy, wedi'u cynnwys o fewn ffin yr anheddiad. Mae safleoedd ag eithriad, fodd bynnag, wedi'u lleoli y tu allan i ffin yr anheddiad a disgwylir iddynt ddarparu 100% o dai fforddiadwy. Dim ond yn yr amgylchiadau hyn y mae datblygiad y tu allan i ffin yr anheddiad yn cael ei gyfiawnhau ar sail angen am dai fforddiadwy. Felly, ni fydd cynigion sy'n cynnwys tai marchnad agored fel modd o alluogi anghenion tai lleol fel arfer yn cael eu cefnogi, gan y disgwylir y bydd pob cynllun tai anghenion lleol yn cael ei ddarparu heb yr angen am groes-gymhorthdal marchnad.
- 6.138 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer anghenion cyffredinol a thai fforddiadwy arbenigol, megis tai i bobl hŷn, cynlluniau gofal ychwanegol, neu fyw â chymorth, lle gellir dangos y bydd y datblygiad yn parhau i fod yn fforddiadwy am byth.
- 6.139 At ddibenion y polisi hwn, bydd 'ar raddfa fach' yn gyffredinol yn golygu dim mwy na 10 annedd ar safleoedd sy'n ffinio ag Aneddiadau Gwledig Bach. Mewn Prif Aneddiadau y tu allan i'r Ardal Twf Strategol, gall cynigion ar gyfer mwy na 10 annedd fod yn dderbyniol lle bo angen er mwyn diwallu angen penodol a lle bo nifer yr anheddau yn gymesur â maint yr anheddiad. Wrth asesu graddfa a maint unrhyw dai anghenion lleol arfaethedig, dylid ystyried tai fforddiadwy sydd eisoes wedi'u cynllunio yn y ward neu'r ardal gyfagos, gan gynnwys safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio presennol a'r rhai a ddyrannwyd yn y CDLIN. Dylai maint a math y tai fforddiadwy a gynigir adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd yn yr ardal.
- 6.140 Wrth ystyried addasrwydd safle, mae Polisi HG5 yn ei gwneud yn ofynnol bod ffiniau'r safle yn dilyn ffiniau presennol; ni dderbynnir isrannu safleoedd mewn modd mympwyol. Yn yr un modd, ni fydd safleoedd mawr sy'n fwriadol isel o ran dwysedd i fodloni'r diffiniad o dai ar raddfa fach yn cael eu cefnogi. Rhaid i ddwyseddau datblygiad gyd-fynd â'r isafswm gofynnol a nodir ym Mholisi PGD2: Dwyseddau Datblygiad Preswyl.



- 6.141 Yn gyffredinol, bydd y Cyngor yn gofyn i dai fforddiadwy gael eu darparu gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, y Cyngor, neu'r gymuned ei hun – er enghraifft, trwy ymddiriedolaeth tir cymunedol. Ar gyfer datblygiadau a gynigir gan ddatblygwyr preifat, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r annedd/anheddau barhau i fod yn fforddiadwy am byth. Bydd hyn yn cael ei sicrhau trwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol, a fydd yn capio gwerth ailwerthu'r eiddo ar lefel fforddiadwy. Mae hyn yn sicrhau bod yr annedd o ddyluniad a graddfa sy'n parhau i fod yn fforddiadwy i'r gymuned ehangach.
- 6.142 Bydd angen polisi gosod tai lleol fel rhan o gytundeb cyfreithiol i sicrhau bod gan feddianwyr cychwynnol a meddianwyr dilynol gysylltiad lleol â'r ardal, gan helpu i gynnal cymunedau cynaliadwy, integredig.

TAI ARBENIGOL

HG6 – DARPARIAETH LLETY ARBENIGOL

Bydd y Cyngor yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu llety arbenigol i ddiwallu anghenion tai amrywiol poblogaeth Bro Morgannwg. Bydd cynigion ar gyfer tai arbenigol yn cael eu cefnogi lle:

- 1 Mae'r datblygiad yn ymateb i angen lleol a nodwyd, fel y dangosir gan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) diweddaraf, y Strategaeth Tai Pobl Hŷn, neu asesiadau anghenion perthnasol eraill;
- 2 Mae'r llety wedi'i gynllunio'n briodol i ddiwallu anghenion penodol y preswylwyr arfaethedig, gan gynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau, y rhai ag anghenion iechyd meddwl, a grwpiau agored i niwed eraill;
- 3 Mae'r datblygiad wedi'i leoli mewn lleoliad hygyrch a chynaliadwy, gyda mynediad da i drafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau iechyd, ac amwynderau lleol;
- 4 Mae'r datblygiad yn sicrhau integreiddio â'r gymuned ehangach ac yn hyrwyddo cymunedau cynhwysol, cymysg; ac
- 5 Mae'n cynnwys lefelau priodol o ofal a chymorth, lle bo angen, naill ai ar y safle neu drwy wasanaethau lleol sefydledig;



- 6.143 Mae darparu llety arbenigol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod anghenion tai yr holl breswylwyr ym Mro Morgannwg yn cael eu diwallu, yn enwedig y rhai sydd angen cymorth wedi'i deilwra oherwydd oedran, anabledd, neu wendidau eraill. Mae poblogaeth y Fro yn heneiddio, ac mae nifer y preswylwyr sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth yn cynyddu.
- 6.144 Mae llety arbenigol yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, tai gofal ychwanegol, cynlluniau byw â chymorth, cartrefi hygyrch i gadeiriau olwyn, a thai gyda gwasanaethau gofal integredig. Mae'r mathau hyn o dai yn galluogi unigolion i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach, lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a chyfrannu at greu cymunedau cynhwysol a gwydn. Bydd darparu tai arbenigol i'r rhai sydd eu hangen hefyd yn helpu i ryddhau tai anghenion cyffredinol i aelwydydd eraill.
- 6.145 Mae lleoli llety arbenigol mewn ardaloedd hygyrch gyda chysylltiadau trafndiaeth da ac agosrwydd at wasanaethau hanfodol yn hollbwysig i sicrhau bod preswylwyr yn gallu cynnal annibyniaeth a chymryd rhan mewn bywyd cymunedol. Mae Strategaeth Tai Pobl Hŷn y Cyngor, Creu Cartrefi a Chymdogaethau yn Ddiweddarach mewn Bywyd 2022-36, yn gosod gweledigaeth yng Nghyngor Bro Morgannwg sef: *"Sicrhau'r ansawdd bywyd gorau ar gyfer pobl hŷn i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl yn ddiweddarach mewn bywyd. Golyga hyn ddarparu amrywiaeth o lety sy'n galluogi pobl hŷn i fyw bywydau boddhaus a mwynhau iechyd da mewn cartrefi deniadol sy'n diwallu eu hanghenion ac yn caniatáu iddynt gadw eu hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio."* Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu yn Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bro Oed-Gyfeillgar.
- 6.146 Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, darparwyr gofal, a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno cynlluniau priodol. Fodd bynnag, byddai'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i ddarparu unrhyw gynlluniau llety arbenigol preifat. Bydd disgwyl i gynigion ddangos sut maent yn ymateb i anghenion lleol a nodwyd a chydymffurfio â safonau dylunio a hygyrchedd perthnasol.

TAI AMLFEDDIANNAETH

- 6.147 Mae tai amlfeddiannaeth yn eiddo sy'n cael eu meddiannu gan aelwydydd nad ydynt yn gysylltiedig sy'n rhannu un neu fwy o gyfleusterau fel ystafell ymolchi neu gegin. Gall tai amlfeddiannaeth ddarparu llety defnyddiol, ond mewn llawer o achosion nid oedd yr eiddo a'r ardaloedd y maent ynddynt wedi'u cynllunio'n wreiddiol ar gyfer defnydd preswyl mor ddwys.



- 6.148 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd uwch yn nifer y tai amlfeddiannaeth yn rhannau trefol y Fro, yn enwedig yn y Barri, a disgwylir y bydd y niferoedd yn cynyddu ymhellach oherwydd yr argyfwng tai a'r galw cynyddol am lety person sengl. Gall gor-grynodiad o dai amlfeddiannaeth mewn ardal newid ei chymeriad, cymysgedd poblogaeth a chynyddu'r galw am gyfleusterau a gwasanaethau ac effeithio ar amwynder preswyl.
- 6.149 Yn unol â hynny, mae Polisi HG6 yn ceisio rheoli cynigion ar gyfer addasu adeiladau neu newid defnydd eiddo preswyl presennol mewn modd sy'n gynaliadwy ac nad yw'n arwain at grynodiadau niweidiol o dai amlfeddiannaeth, gan sicrhau nad yw amwynder preswyl a'r amgylchedd yn cael eu heffeithio'n andwyol.

HG7 - TAI AMLFEDDIANNAETH

Caniateir cynigion ar gyfer newid o Ddosbarth Defnydd C3 (anhedd-dy) i C4 (Tai Amlfeddiannaeth) neu Sui Generis (Tŷ Amlfeddiannaeth mawr gyda mwy na chwech o bobl), neu ddwysáu'r defnydd o C4 i Sui Generis, neu adeiladu tŷ amlfeddiannaeth newydd dim ond lle:

- 1 Na fyddai tai amlfeddiannaeth yn cynrychioli 10% neu fwy o eiddo preswyl o fewn radiws o 50 metr i eiddo'r cais, neu lle mae eiddo'r cais yn gwthio'r crynodiad i 10% neu fwy;**
- 2 Na fyddai'n arwain at unrhyw eiddo preswyl (defnydd C3) yn cael ei 'frechdanu' rhwng dau dŷ amlfeddiannaeth;**
- 3 Ar strydoedd bach, ni fydd cynigion yn cael eu cefnogi lle byddai'n creu gor-grynodiad anghymesur o dai amlfeddiannaeth;**
- 4 Byddai graddfa a dwysedd y defnydd yn gydnaws â'r adeilad presennol a'r defnyddiau cyfagos.**

Bydd cynigion tai amlfeddiannaeth a fyddai'n arwain at dorri'r trothwyon uchod ond yn cael eu caniatáu os oes amgylchiadau eithriadol neu ystyriaethau perthnasol eraill sy'n amlwg yn gorbwyso unrhyw bryderon ynghylch crynodiadau tai amlfeddiannaeth.



- 6.150 Mae Polisi HG7 yn berthnasol i newid defnydd annedd bresennol i naill ai dŷ amlfeddiannaeth bach o hyd at chwech o bobl, sydd o fewn Dosbarth Defnydd C4, neu dŷ amlfeddiannaeth mawr gyda mwy na chwech o bobl (sui generis). Mae hefyd yn berthnasol i dai amlfeddiannaeth presennol lle mae'r defnydd yn dwysáu (er enghraifft trwy ymestyn tŷ amlfeddiannaeth i chwech neu lai o bobl i ddarparu ar gyfer mwy na chwech o bobl, gan y byddai hyn yn newid defnydd o C4 i sui generis). Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i dai amlfeddiannaeth sydd wedi'u hadeiladu o'r newydd, waeth beth fo'u maint.
- 6.151 Mae'r polisi yn diffinio trothwyon y byddai crynodiad uwchlaw hynny o dai amlfeddiannaeth yn cael ei ystyried i fod yn grynodiad andwyol. Mae hyn yn cynnwys y 'prawf brechdan', sy'n ceisio atal datblygu tai amlfeddiannaeth newydd os byddai'n arwain at eiddo preswyl yn cael ei frechdanu rhwng dau dŷ amlfeddiannaeth cyfagos sy'n wynebu'r un ffordd, a 'phrawf radiws' sy'n gosod y lefel uchaf o dai amlfeddiannaeth o fewn radiws 50 metr ar 10% o'r holl aelwydydd. Cyfrifir y radiws 50 metr o bwynt canolog safle'r cais a byddai'n cynnwys unrhyw eiddo preswyl mewn dosbarth defnydd C3, C4 neu sui generis (Tŷ Amlfeddiannaeth mawr) y mae ei gwrtil o fewn radiws 50 metr.
- 6.152 Mae rhai ardaloedd sy'n cynnwys strydoedd bach lle byddai crynodiad tai amlfeddiannaeth o bosibl yn cael effaith fwy niweidiol. Ar strydoedd â 10 neu lai o anheddau ar draws dwy ochr y stryd, ystyrir bod 2 dŷ amlfeddiannaeth yn derfyn priodol y byddai niwed yn cael ei achosi uwchlaw'r terfyn hwnnw. Ar strydoedd bach â rhwng 11 a 34 o anheddau, dylid cyfyngu tai amlfeddiannaeth i ddim mwy nag 20% o eiddo preswyl ar y stryd (ar draws dwy ochr y stryd). Byddai angen i gynigion ar strydoedd sydd â 35 neu fwy o eiddo fodloni maen prawf 1 a 2 yn unig.
- 6.153 Rhaid i'r adeilad a gynigir i'w addasu fod yn addas i'w ddefnyddio fel tŷ amlfeddiannaeth heb fod angen estyniadau neu newidiadau sylweddol a fyddai'n newid ei gymeriad neu ei olwg. Rhaid i'r addasiad fod yn gydnaws â'r adeilad a'r ardal gyfagos o ran dwysedd a graddfa, gan y gall adeiladau gorlawn arwain at safonau byw is. Er mwyn atal amodau byw cyfyng, disgwylir i gynigion tai amlfeddiannaeth ddilyn y Safonau Gofod a nodir yn Safonau Diogelwch Tân ac Amwynder Trwyddedau Tai Amlfeddiannaeth (2014) y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, ni waeth a oes angen trwydded ar yr eiddo o dan y Ddeddf Tai.¹¹ Rhaid i dai amlfeddiannaeth hefyd ddarparu gofod amwynder preifat priodol, yn unol â'r safonau a nodir yng Nghyllunio Atodol Datblygiadau Preswyl a Deiliaid Tai mabwysiedig y Cyngor.

¹¹ <https://www.srs.wales/Documents/Housing/Fire-Safety-and-Amenity-Standards.pdf>



- 6.154 Efallai y bydd rhai amgylchiadau eithriadol lle mae tŷ amlfeddiannaeth arfaethedig yn fwy nag un neu fwy o'r trothwyon a nodwyd ond lle mae ystyriaethau eraill yn gorbwyso'r gor-grynodiad posibl, neu efallai y bydd angen dull mwy hyblyg. Gall hyn gynnwys amgylchiadau lle mae eiddo yn eiddo gwag hirdymor, ac mae'n annhebygol y byddai defnydd C3 yn cael ei ddwyn ymlaen yn rhinwedd natur yr adeilad neu hyfywedd. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd angen datganiad sy'n nodi cyfiawnhad cadarn dros gynnig tŷ amlfeddiannaeth. Dylai hyn gynnwys tystiolaeth farchnata sy'n dangos bod yr eiddo wedi'i hysbysebu i'w werthu fel annedd breswyl am bris rhesymol am o leiaf 12 mis.

ADDASU AC ADNEWYDDU ADEILADAU GWLEDIG

HG8 - ADDASU AC ADNEWYDDU ADEILADAU GWLEDIG

Bydd cynigion ar gyfer addasu neu adnewyddu adeiladau gwledig presennol at ddefnydd menter wledig, twristiaeth, cymunedol neu breswyl yn dderbyniol lle:

- 1 Na fyddai addasu adeilad gwledig presennol yn achosi'r angen am adeilad newydd; a**
- 2 Gellir ailddefnyddio heb ailadeiladu, ymestyn neu newid sylweddol sy'n effeithio'n annerbyniol ar olwg a chymeriad gwledig yr adeilad neu ei leoliad**

Bydd cynigion ar gyfer addasu neu adnewyddu adeiladau gwledig presennol yn cael eu caniatáu dim ond lle:

- 3 Mae'r adeilad wedi'i farchnata'n briodol ar gyfer defnyddiau eraill megis arallgyfeirio ffermydd, busnes, cymuned, twristiaeth, neu ddefnyddiau hamdden a dangoswyd nad yw defnyddiau amgen o'r fath yn hyfyw;**
- 4 Mae'r adeilad yn hygyrch trwy drafnidiaeth gyhoeddus reolaidd, a llwybrau Teithio Llesol diogel; ac**
- 5 Mae lleoliad yr adeilad yn gynaliadwy o ran mynediad at wasanaethau lleol a chyfleusterau cymunedol.**

Er mwyn sicrhau bod cymeriad a golwg yr adeilad yn cael ei gadw yn y tymor hir, gall y Cyngor geisio tynnu'n ôl hawliau datblygiad a ganiateir i gyfyngu ar estyniadau neu newidiadau i'r eiddo yn y dyfodol.



- 6.155 Gyda newidiadau mewn arferion ffermio, nid oes angen llawer o adeiladau gwledig mwyach ar gyfer eu diben gwreiddiol. Yn ardaloedd gwledig y Fro, mae rhai o'r adeiladau hyn yn ychwanegu at gymeriad cefn gwlad a hynodrwydd lleol. Lle y bo'n bosibl, mae'r Cyngor yn dymuno gweld adeiladau gwledig, yn enwedig y rhai hynny sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, yn cael eu cadw. Byddai'n well gan y Cyngor i'r adeiladau hyn gael eu datblygu ar gyfer defnyddiau amgen sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at economi wledig Bro Morgannwg yn unol â pholisi cenedlaethol.
- 6.156 I sicrhau bod addasiadau'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr economi wledig, mae Maen Prawf 3 yn gofyn i gynigion ar gyfer defnydd preswyl gael eu cefnogi gan dystiolaeth farchnata briodol i ddangos bod yr adeilad wedi'i farchnata ar gyfer defnyddiau amgen eraill am 12 mis o leiaf gan asiant eiddo lleol. Gallai gwybodaeth gan yr asiant neu'r ymgeisydd ynghylch galw am ddefnyddiau amgen fod ar ffurf adroddiad marchnata neu ohebiaeth gan yr asiant eiddo perthnasol. Dylai'r math o wybodaeth sy'n cael ei chadw gynnwys y canlynol:
- Hyd y cyfnod nad yw'r adeilad gwledig wedi'i ddefnyddio at ddibenion amaethyddol;
 - Y mathau o ddefnyddiau y mae'r adeilad gwledig wedi'i farchnata ar eu cyfer, beth oedd yn rhan o'r strategaeth farchnata a'i hyd; a
 - Faint o ddiddordeb oedd yn yr adeilad gwledig yn ystod y cyfnod marchnata – dylai hyn roi manylion am nifer yr ymholiadau, y math o ddefnyddiau a geisiwyd, ac os yw'n hysbys, y rheswm am beidio â dilyn ymholiadau cychwynnol.
- 6.157 Er gwaethaf y dewisiadau hyn, mae'r cynigion mwyaf cyffredin ym Mro Morgannwg ar gyfer addasu adeiladau gwledig traddodiadol ar gyfer defnydd preswyl. Gall y fath gynigion arwain at batrwm gwasgaredig o anheddau sy'n achosi teithiau newydd a hwy i aneddiadau a gwasanaethau a rhoi pwysau ychwanegol ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol yn aml mewn lleoliadau ynysig. Mae Maen Prawf 4 felly yn nodi y bydd defnydd preswyl ond yn dderbyniol mewn lleoliadau sy'n cael eu gwasanaethu'n gyfleus gan drafnidiaeth gyhoeddus reolaidd ac sydd â llwybrau diogel a hygyrch i gerddwyr a beiciau sy'n eu cysylltu â gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Bydd hyn yn sicrhau na fyddai datblygiad yn arwain at feddianwyr yn dibynnu'n ormodol ar gerbyd modur preifat.
- 6.158 Mewn lleoliadau gwledig sy'n fwy ynysig lle na fyddai datblygiad preswyl fel arall yn dderbyniol, bydd cynigion am addasiadau preswyl yn gyfyngedig i lety i dwristiaid a chaiff amodau meddiannaeth eu gorfodi er mwyn atal meddiannaeth breswyl hirdymor.



- 6.159 Nid yw pob adeilad gwledig o reidrwydd yn addas i'w addasu, a dylid ystyried y pwyntiau canlynol wrth benderfynu a ddylid addasu adeilad yng nghefn gwlad i ddefnydd preswyl. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol.
- Dim ond adeiladau o faint digonol i ddarparu ar gyfer y defnydd amgen arfaethedig fydd yn cael eu hystyried yn dderbyniol. Ar gyfer addasiadau preswyl, rhaid i adeiladau fod ag isafswm ôl troed o 40m² ac ni ddylai fod angen estyniadau i fodloni'r gofynion maint angenrheidiol.
 - Ni chaniateir addasu strwythurau dros dro.
 - Ni chaniateir addasiadau preswyl i adeiladau a gafodd ganiatâd cynllunio fel strwythurau newydd ar gyfer defnydd arall, gan y byddai caniatâd o'r fath wedi bod yn seiliedig ar yr adeilad yn parhau â'r un defnydd â'r un a ddisodlodd.
- 6.160 Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i leoliad adeiladau gwledig wrth eu haddasu ac ni cheir cynnwys estyniadau na newidiadau a fyddai'n newid cymeriad yr adeilad yn ei hanfod gan gynnwys ei leoliad yn y dirwedd wledig. Bydd unrhyw waith ailfodelu sylweddol o'r adeilad ei hun neu ei leoliad mewn modd na fyddai'n cynnal nac yn gwella ei gymeriad gwledig presennol, yn annhebygol o gael ei ystyried yn ffafriol. Pan roddir caniatâd, bydd y Cyngor yn tynnu hawliau datblygiad a ganiateir yn ôl i gyfyngu ar estyniadau neu newidiadau i'r eiddo yn y dyfodol i sicrhau bod cymeriad a golwg yr adeilad yn cael ei gadw yn y tymor hir.
- 6.161 Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Canllaw Cynllunio Atodol ar Addasu Adeiladau Gwledig, sy'n nodi'r ystyriaethau wrth gynnig defnyddiau amgen i adeiladau gwledig.



ANHEDDAU AMNEWID, ESTYNIADAU PRESWYL A RHANDAI YNG NGHEFN GWLAD

- 6.162 Mae anheddau amnewid, estyniadau preswyl a darpariaeth llety atodol yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r holl ddatblygiadau newydd yn y Fro. Mewn lleoliad cefn gwlad, mae'n bwysig bod cynigion o'r fath wedi'u dylunio'n dda gan y gall cynigion rhy fawr a gwael niweidio cymeriad yr eiddo a'r dirwedd leol, yn unigol ac yn gronol. Mae Polisi HG9 yn nodi'r meini prawf ar gyfer asesu penderfyniadau ar gynigion o'r fath mewn lleoliad cefn gwlad.

HG9 - ANHEDDAU AMNEWID, ESTYNIADAU PRESWYL A RHANDAI YNG NGHEFN GWLAD

Caniateir cynigion ar gyfer disodli annedd bresennol yng nghefn gwlad lle:

- 1 Byddai'r cynnig yn cydymffurfio â gofynion Polisi CC2 - Rhagdybiaeth yn erbyn Dymchwel;
- 2 Mae gan yr annedd ddefnydd preswyl cyfreithiol sefydledig;
- 3 Na fyddai'n arwain at golli annedd sy'n cyfrannu'n sylweddol at gymeriad gwledig yr ardal, oni bai y gellir dangos yn gyntaf bod yr adeilad yn saerïol simsan, a bod atgyweiriadau'n economaidd anhyfyw;
- 4 Na fyddai'r cynnig yn gweddu â'r amgylchedd adeiledig a naturiol cyfagos, oherwydd ei raddfa, ei leoliad, ei ddyluniad, ei ddeunyddiau, ei dirwedd a'i olwg allanol, ac na fyddai'n cael unrhyw effaith sylweddol fwy ar y dirwedd; ac
- 5 Mae'r annedd arfaethedig o fewn cwrtil presennol yr anhedd-dy gwreiddiol ac nid oes angen estyniad annerbyniol i'r cwrtil preswyl presennol.

Caniateir estyniadau i anheddau yng nghefn gwlad, os na fydd yr estyniad arfaethedig:

- 6 Yn anghymesur o ran maint o'i gymharu â'r annedd gwreiddiol;
- 7 Yn effeithio mewn modd annerbyniol ar gymeriad yr annedd presennol neu ei gyfraniad at gymeriad gwledig; nac
- 8 Yn cael effaith sylweddol fwy ar y dirwedd.



HG9 - ANHEDDAU AMNEWID, ESTYNIADAU PRESWYL A RHANDAI YNG NGHEFN GWLAD

Caniateir cynigion ar gyfer rhandai preswyl lle byddai'r rhandy:

- 9 Yn dibynnu'n rhannol ar y brif annedd ar gyfer cyfleusterau;**
- 10 Yn gallu dychwelyd i ran o'r brif annedd unwaith y bydd yr angen am y rhandy wedi mynd;**
- 11 Yn dderbyniol o ran maint a graddfa ac yn amlwg yn ategol ac yn weledol israddol i'r brif annedd;**
- 12 Wedi'i leoli o fewn cwrtil presennol y brif annedd ac ni chynigir gardd ar wahân, mynedfa i gerbydau, neu faes parcio ar wahân; ac**
- 13 O fewn yr un perchnogaeth â'r prif eiddo gyda meddiannaeth yn y dyfodol yn gysylltiedig â pherchnogaeth lesiannol y brif annedd trwy gyfrwng amod, cytundeb A106 neu Ymgymeriad Unochrog.**

- 6.163 Dylid ystyried cynigion ar gyfer anheddau amnewid yn ofalus bob amser. Mewn llawer o achosion, bydd yr adeilad presennol yn addas i'w gadw, ei ymestyn a'i addasu, a dylid ei gadw yn unol â Pholisi CC3 ar y rhagdybiaeth yn erbyn dymchwel. Mae Polisi CC3 yn nodi y gellir cyfiawnhau adeilad newydd ar sail cadernid strwythurol lle na fyddai'n ymarferol nac yn ariannol hyfyw ailddefnyddio'r adeilad presennol, neu lle gellir cyfiawnhau y gellid cyflawni manteision mewn perthynas â lleihau carbon ymgorfforedig a gwella effeithlonrwydd thermol o'i gymharu â'r annedd wreiddiol.
- 6.164 Lle gellir cyfiawnhau adeilad newydd o dan Bolisi CC3, rhaid dangos hefyd bod gan yr annedd wreiddiol ddefnydd sefydledig ac nad yw'n wag. Bydd disodli annedd na all ddangos defnydd preswyl parhaus yn cael ei drin fel cynnig ar gyfer annedd newydd. Disgwylir y bydd unrhyw annedd amnewid wedi'i lleoli o fewn cwrtil yr eiddo presennol ac ni ddylai arwain at estyniad annerbyniol o'r cwrtil hwnnw.
- 6.165 Disgwylir y bydd adeiladu annedd newydd yn lle hen un yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr amgylchedd lleol ac na fydd yn cael unrhyw effaith sylweddol fwy ar y dirwedd na'r annedd y mae'n ei disodli. Yn hyn o beth, ni ddylai'r annedd newydd fod yn anghymesur o ran maint i'r annedd y mae'n ei disodli, nac ychwaith fod ar raddfa a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar gymeriad preswyl eiddo yn yr ardal. Hefyd, dylai dyluniad a deunyddiau allanol yr annedd newydd weddu â'r amgylchedd lleol. Yn ogystal, gellir gosod amodau cynllunio er mwyn cyfyngu ar



hawliau datblygiad a ganiateir ynghylch estyniadau a newidiadau ychwanegol. Bwriedir hyn er mwyn galluogi'r Cyngor i gadw rheolaeth dros estyniadau a newidiadau bychain yn y dyfodol i'r annedd newydd sydd angen bod yn sensitif o ystyried y lleoliad gwledig.

- 6.166 Mae gan estyniadau i anheddau presennol yng nghefn gwlad y potensial i newid cymeriad annedd yn sylweddol a chynyddu effaith ffisegol datblygiad ar y dirwedd. Caiff estyniadau o'r fath eu rheoli'n llym o ran eu graddfa, dyluniad a golwg i adlewyrchu eu lleoliad gwledig, ac mae'r polisi yn ceisio cadw cymeriad gwledig anheddau a lliniaru effaith ffisegol estyniadau o'r fath ar y dirwedd gyfagos.
- 6.167 Cynigir rhandai preswyl yn gyffredinol i ganiatáu i aelodau o'r teulu fyw gyda'u teulu, gyda rhywfaint o annibyniaeth. Gallai hyn fod yn berthynas oedrannus neu agored i niwed neu aelod iau o'r aelwyd, sy'n dymuno aros gartref neu ddychwelyd adref. Gall rhandai hefyd ddarparu llety i weithiwr yn yr annedd, i gynnig rhywfaint o annibyniaeth o fewn yr aelwyd. Yn hyn o beth, mae rhandy preswyl yn ategol i'r brif annedd o fewn y cwrtil preswyl, yn yr un modd ag y byddai estyniad i'r annedd, ac felly bydd angen i ymgeiswyr ddarparu datganiad ysgrifenedig i esbonio beth yw pwrpas y rhandy, gan bwy y bydd yn cael ei ddefnyddio a'u perthynas â phreswylwyr y prif dŷ.
- 6.168 Bydd y cynllun, y dyluniad a'r berthynas ffisegol rhwng y tŷ a'r rhandy arfaethedig yn ystyriaethau pwysig wrth benderfynu ar gynigion, yn ogystal â maint a graddfa'r llety i'w ddarparu. Yn hyn o beth, rhaid i randai gael eu dylunio a'u defnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn ategol i'r annedd bresennol ac na ellir eu defnyddio fel annedd annibynnol; yn llai o ran graddfa na'r annedd bresennol; a rhaid iddynt rannu'r un ardd, maes parcio a mynedfa â'r brif annedd. Ni ddylai llety preswyl ategol fod â'r amrywiaeth lawn o gyfleusterau neu gael ei gynllunio yn y fath fodd a fyddai'n ei alluogi i gael ei feddiannu fel annedd annibynnol. Dylai cynigion gael eu cynllunio i adlewyrchu'n llym anghenion hanfodol a nodwyd y preswilydd.
- 6.169 Er mwyn sicrhau bod rhandai yn aros fel y cyfryw ac nad ydynt yn cael eu gwerthu, eu gosod neu eu defnyddio fel anheddau annibynnol, bydd meddiannaeth yn cael ei gyfyngu drwy amod neu rywmedigaeth gynllunio. Bydd defnyddio amodau o'r fath yn sicrhau nad yw rhandai'n cael eu defnyddio fel anheddau mewn lleoliadau fel yng nghefn gwlad lle byddai annedd newydd fel arall yn cael ei ganiatáu o dan bolisi arferol y CDLIN.



LLETY SIPSIWN A THEITHWYR (STh)

SP9 - DARPARIAETH SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR

Er mwyn diwallu'r angen a nodwyd am Lety Sipsiwn a Theithwyr ac i ganiatáu ar gyfer ehangu posibl aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol, dyrennir y safle canlynol gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer darparu 7 llain:

1. Tir yn Llan-gan

- 6.170 Dylid ystyried anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ochr yn ochr ag anghenion tai'r gymuned gyfan. Mae Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu gwarchod gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac mae dyletswydd ar y Cyngor i geisio dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da o ran hil ym mhopeth y mae'n ei wneud.
- 6.171 Mae Deddf Tai Cymru (2014) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr drwy baratoi'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh). Mae awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i ddyletswydd gyfreithiol i arfer eu swyddogaethau i ddarparu lleiniau cartrefi symudol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn yr ALISTh.
- 6.172 Cymeradwywyd yr ALISTh diweddaraf (a wnaed yn 2022), gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2024. Nododd yr angen am 9 llain breswyl yn y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2026 a 2 lain arall yng ngweddill cyfnod y cynllun CDLIN, gan roi cyfanswm angen o 11 o leiniau tan ddiwedd cyfnod y cynllun.
- 6.173 Ers cyhoeddi'r ALISTh, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer darparu pedwar cae ar draws dau safle a oedd wedi'u dosbarthu fel rhai anawdurdodedig ar adeg yr ALISTh. Ar ben hynny, bu newid perchnogaeth ar un o'r safleoedd hefyd, sydd wedi arwain at newid ym mhroffil oedran plant. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn yr angen i 7 llain erbyn diwedd cyfnod y cynllun hyd at 2036. Mae'r angen am 7 llain yn cynnwys un aelwyd sy'n byw mewn tai brics a mortar ar hyn o bryd ac mae'r angen yn y dyfodol yn deillio o chwech o blant sy'n byw ar leiniau awdurdodedig presennol a fydd yn dod yn oedolion erbyn diwedd cyfnod y cynllun ac felly efallai y bydd angen eu lleiniau eu hunain arnynt.
- 6.174 Wrth gyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol o ddiwallu'r angen a nodwyd, mae Polisi SP9 yn symud y dyraniad safleoedd CDLI presennol yn Llan-gan ymlaen. Mae'r safle hwn o fewn perchnogaeth y Cyngor ac mae rhan o'r safle yn cael ei feddiannu



gan breswlydd hirsefydlog o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Fel dyraniad presennol, mae'r egwyddor o ddefnyddio'r safle fel safle Sipsiwn a Theithwyr wedi'i sefydlu'n dda. Mae gan y safle 0.76 Ha gapasiti i ddarparu ar gyfer 7 llain yn unol â'r safonau a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar ddylunio safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cyllid o bryd i'w gilydd i awdurdodau lleol ar gyfer datblygu safleoedd newydd, estyniadau i safleoedd awdurdodau lleol ac adnewyddu safleoedd presennol awdurdodau lleol drwy Gronfa Safleoedd Cyfalaf. Gellid defnyddio'r Gronfa hon i ddarparu lleiniau ychwanegol i ddiwallu anghenion yn y dyfodol wrth iddynt godi.

- 6.175 Yn ogystal â'r dyraniad yn Llan-gan, bydd y Cyngor yn cefnogi aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu eu hanghenion llety naill ai'n breifat neu drwy ddulliau a arweinir gan y gymuned fel Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol lle mae safleoedd yn cyd-fynd â'r meini prawf a nodir ym Mholisi GT1 Llety Sipsiwn a Theithwyr.
- 6.176 O ran darpariaeth trafndiaeth ym Mro Morgannwg, mae'r ALISTh yn nodi nad oes angen darparu safle tramwy yn y Fro yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol. Ystyrir bod darpariaeth trafndiaeth yn fater rhanbarthol ac felly mae darpariaeth trafndiaeth yn cael ei hystyried yn weithredol ar sail ranbarthol.



GT1 - LLETY SIPSIWN A THEITHWYR

Bydd cynigion ar gyfer darparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd neu estyniadau i'r rhai presennol yn cael eu cefnogi pan fyddant yn cydymffurfio â'r meini prawf canlynol:

- 1 Mae'r safle yn rhesymol hygyrch i wasanaethau a chyfleusterau hanfodol fel gofal iechyd, addysg, cyflogaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- 2 Gellir darparu mynediad diogel a phriodol i gerbydau o'r rhwydwaith priffyrdd, ac mae cynllun y safle yn cynnig darpariaeth ddigonol ar gyfer parcio, troi, gwasanaethu a cherbydau'r gwasanaethau brys.
- 3 Mae'r safle wedi'i ddylunio yn unol â Chanllawiau a Chylchlythyrau perthnasol Llywodraeth Cymru.
- 4 Mae graddfa'r safle yn gymesur ag anghenion a ddangosir yr ymgeisydd ac i'r amgylchedd a'r lleoliadau lleol.
- 5 Ni fyddai'r datblygiad yn cael effeithiau andwyol ar amwynder cymunedau lleol neu breswylwyr y safle.
- 6 Mae gwasanaethau digonol ar gael ar y safle ar gyfer cyflenwad dŵr, draenio, carthffosiaeth, pŵer a gwaredu gwastraff neu gellir eu darparu'n briodol heb achosi effeithiau amgylcheddol annerbyniol.
- 7 Ni fydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad a golwg y dirwedd ac mae wedi'i ddylunio'n sensitif i liniaru unrhyw effaith ar ei amgylchedd.

Bydd amodau cynllunio yn cael eu defnyddio i reoli natur a lefel defnyddiau amhreswyl ar y safle.

- 6.177 Mae canllawiau cenedlaethol yn cydnabod yr angen am bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf yn y cynllun datblygu i lywio'r gwaith o benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Dylai polisiâu o'r fath gadw at bolisi cynllunio cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol, a bod yn deg, yn rhesymol, yn realistig ac yn effeithiol wrth ddarparu safleoedd.
- 6.178 Mae Polisi GT1 yn nodi'r meini prawf ar gyfer asesu cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd ac estyniadau i safleoedd presennol. Mae'r meini prawf a nodir yn y polisi yn ceisio cydbwysu anghenion y gymuned Sipsiwn a



Theithwyr â buddiannau'r gymuned sydd wedi ymgartrefu ar y safle a'r amgylchedd. Bydd safleoedd sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd sydd â mynediad da i wasanaethau a seilwaith lleol yn hyrwyddo integreiddio ac yn galluogi mynediad at addysg, gofal iechyd a chyfleoedd cyflogaeth.

- 6.179 Ffefrir i safleoedd gael eu dwyn ymlaen o fewn aneddiadau, ond rhoddir ystyriaeth i safleoedd ar gyrion aneddiadau lle byddai'r datblygiad arfaethedig yn cynrychioli estyniad rhesymegol i ffurf a phatrwm datblygiad adeiledig o fewn ffin yr anheddiad. Dim ond lle nad oes safleoedd addas o fewn neu ar gyrion aneddiadau y bydd lleoliadau cefn gwlad yn cael eu hystyried, yn amodol ar fodloni'r meini prawf polisi.
- 6.180 Gall y Cyngor osod amodau cynllunio i reoli defnyddiau busnes ac adeiladau cysylltiedig ar y safle i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ategol i ddefnydd preswyl. Yn hyn o beth a lle bo'n berthnasol, dylai ceisiadau cynllunio gael eu hategu gan fanylion unrhyw gynigion ar gyfer storio cyfarpar ac offer sy'n gysylltiedig â gweithgareddau busnes y rhai sy'n byw ar y safle.

TRAFNIDIAETH (TR)

SP10 - TRAFNIDIAETH GYNALIADWY

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â Gweledigaeth ac Amcanion y CDLIN, mae'r Cynllun yn annog newid moddol tuag at ddulliau trafndiaeth cynaliadwy a chynyddu cyfleoedd Teithio Llesol. Rhaid i ddatblygiad newydd gefnogi gwell rhwydwaith trafndiaeth sy'n cynyddu cyfran y teithiau sy'n cael eu gwneud trwy ddulliau trafndiaeth cynaliadwy.

Cyflawnir hyn drwy:

- 1 Lleoli datblygiadau newydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch lle mae amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau o fewn pellter cerdded a beicio.
- 2 Sicrhau bod datblygiad newydd yn cael ei integreiddio â Llwybrau Teithio Llesol presennol sy'n darparu profiad teithio diogel, cynhwysol a dymunol, yn cyfrannu at eu hehangu ac yn gwella cysylltedd o fewn a rhwng trefi, pentrefi ac aneddiadau gwledig cyfagos.
- 3 Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u dylunio i annog cerdded, beicio a defnydd o drafndiaeth gyhoeddus fel dewisiadau amgen i ddefnyddio ceir preifat, yn ogystal ag annog opsiynau fel hybiau symudedd a defnydd ceir a rennir.



SP10 - TRAFNIDIAETH GYNALIADWY

- 4 Mabwysiadu lefelau priodol o ddarpariaeth parcio ceir a beiciau, gan adlewyrchu amcanion y cynllun i leihau teithiau ceir yn unol â safonau parcio mabwysiedig y Cyngor
- 5 Gwellu hygyrchedd i bawb a chysylltedd â chyfleusterau trafndiaeth gynaliadwy.
- 6 Darparu gwasanaethau a chyfleusterau trafndiaeth newydd neu well lle bo hynny'n briodol.
- 7 Cefnogi a hwyluso'r gwaith o gyflawni Metro De Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
- 8 Diogelu hen linellau rheilffordd ar gyfer y posibilrwydd o adfer gwasanaethau neu lwybrau Teithio Llesol amgen.
- 9 Darparu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer Cerbydau Allyriadau Isel lawn mewn lleoliadau priodol.

Fel y bo'n briodol, bydd angen i gynigion datblygu newydd ddarparu Datganiadau Trafnidiaeth, Aseidiadau Trafnidiaeth a Chynlluniau Teithio i sicrhau dewis teithio a chyfleoedd cynaliadwy ar gyfer teithio.

Bydd disgwyl i ddatblygiadau newydd y rhagwelir eu bod yn cael effaith andwyol ar y rhwydwaith trafndiaeth gyfrannu tuag at gapasiti a mesurau lliniaru. Bydd angen i gynigion sy'n gofyn am seilwaith trafndiaeth newydd wneud cyfraniad ariannol cymesur.

- 6.181 Mae'r Fro yn cael ei gwasanaethu'n dda gan rwydwaith priffyrdd strategol helaeth, sy'n cysylltu aneddiadau ar draws y Fro ac yn darparu cysylltiadau ag ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos. Fodd bynnag, cydnabyddir bod rhannau o'r rhwydwaith priffyrdd strategol yn profi tagfeydd ar oriau brig, gan arwain at oedi. Er mwyn lliniaru'r pwysau ar y rhwydwaith priffyrdd strategol, mae angen gwelliannau i wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus a'r seilwaith cerdded a beicio i annog cyfranogiad mewn Teithio Llesol (cerdded a beicio) yn enwedig ar gyfer teithiau byrrach o fewn trefi a phentrefi'r Fro a rhyngddynt.
- 6.182 Rhan allweddol o'r strategaeth yw lleoli datblygiad mewn ardaloedd sy'n gynaliadwy neu y gellir eu gwneud yn gynaliadwy trwy annog cymysgedd o ddefnyddiau o fewn datblygiad, gan gyfyngu'r angen i deithio, lle bynnag y bo modd, a chynnig dewis gwirioneddol o ddulliau trafndiaeth cynaliadwy. Trwy leihau'r ddibyniaeth ar ddefnydd ceir preifat, bydd patrymau defnydd tir o'r fath



hefyd yn helpu i liniaru bygythiad cynyddol newid hinsawdd trwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

- 6.183 Yng ngoleuni'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12) a'r targed a gynhwysir yn Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 o sicrhau bod 45% o deithiau yn cael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio erbyn 2040, mae'n hanfodol i'r CDLIN gynnwys polisi strategol uchelgeisiol sy'n mynd i'r afael â dewisiadau teithio cynaliadwy ym Mro Morgannwg. Yn yr un modd, mae Strategaeth Drafnidiaeth Ddrafft De-ddwyrain Cymru P-RC yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn seilwaith i greu rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy integredig i hwyluso newid moddol o ddefnyddio ceir preifat.
- 6.184 Felly, mae Polisi SP10 yn nodi dull y cynllun ar gyfer annog defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy, gan gyfarwyddo y bydd yn ofynnol i bob cynnig datblygu newydd gyfrannu at greu rhwydwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy, diogel, integredig a chysylltiedig. Dylid bodloni hyn o fewn a thu allan i'r ardal ddatblygu a dylai cynigion ddangos y bydd darpariaeth trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â chynlluniau datblygu yn briodol, o ran dewis moddol a capasiti'r rhwydwaith priffyrdd i ddarparu ar gyfer teithiau ychwanegol.
- 6.185 Dylai Teithio Llesol fod y dewis cyntaf naturiol ar gyfer teithiau byr, bob dydd. Yn unol â hynny, dylai pob datblygiad newydd flaenoriaethu cerdded a beicio o'r camau dylunio cynharaf. Ar ben hynny, dylai cynigion datblygu hefyd ystyried cysylltedd trwy drafnidiaeth gyhoeddus. Rhaid i gynigion gynnwys manylion ar sut maent yn cysylltu ag ardaloedd presennol a nodi cyfleoedd i wella cysylltiadau Teithio Llesol ac integreiddio â darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol a phosibl yn y dyfodol.
- 6.186 Dylai datblygwyr ddangos bod y ddarpariaeth trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'u cynigion yn briodol, o ran dewis moddol a capasiti'r rhwydwaith priffyrdd i ddarparu ar gyfer teithiau ychwanegol ar draws pob dull. Os yw datblygiadau newydd yn debygol o gael effaith andwyol ar y rhwydwaith trafnidiaeth cyfagos, bydd yn ofynnol iddynt gyfrannu tuag at well capasiti a mesurau lliniaru.
- 6.187 Pan fo datblygiadau newydd yn debygol o arwain at effeithiau sylweddol ar drafnidiaeth, rhaid eu cefnogi gan Ddatganiadau Trafnidiaeth, Asesiadau Trafnidiaeth a Chynlluniau Teithio, fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd cynaliadwy ar gyfer teithio yn unol â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru.
- 6.188 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu safonau uchafswm lleoedd parcio, gyda'r canllawiau yn cydnabod bod darpariaeth parcio yn ddylanwad mawr ar y dewis a'r



dulliau trafnidiaeth a'r patrwm datblygu. Gall lle a sut mae ceir wedi'u parcio fod yn ffactor mawr o ran ansawdd lle a dylid cymryd agwedd a arweinir gan ddylunio at ddarparu mannau parcio, sy'n sicrhau bod lefel briodol o fannau parcio yn cael ei hintegreiddio mewn ffordd nad yw'n dominyddu'r datblygiad. Wrth bennu'r lefelau cywir o leoedd parcio, bydd y Cyngor yn ystyried y galw disgwylidig o'r math o dai a gynigir, y meddianwyr tebygol, dyluniad yr ardal gyhoeddus a'r briffordd, yr atebion dylunio parcio arfaethedig ac unrhyw gyfyngiadau lleol.

TR1 - CYNIGION TRAFNIDIAETH

Er mwyn gwarchod cynlluniau trafnidiaeth mawr arfaethedig rhag datblygu a fyddai'n atal eu gweithredu, mae tir yn cael ei ddiogelu ar gyfer y cynigion trafnidiaeth strategol canlynol:

Llwybrau Teithio Llesol

- 1 Y Barri i Ddinas Powys.
- 2 Sili i Cosmeston.
- 3 Weycock Cross i Faes Awyr Caerdydd.

Cynlluniau Trafnidiaeth Gyhoeddus

- 4 Cyfnewidfa drafnidiaeth Sain Tathan.
- 5 Cyfnewidfa drafnidiaeth Cogan.

Dim ond os na fyddai'n niweidio darparu ac ehangu cyfleusterau y caniateir datblygu ar dir sydd wedi'i ddiogelu.

Gwelliannau Priffyrdd

Er mwyn lliniaru effaith datblygiad ar y rhwydwaith priffyrdd, nodwyd y gwelliannau strategol canlynol i briffyrdd

- 6 Cylchfan Weycock Cross, y Barri.
- 7 Cyffordd Gileston Road, Sain Tathan.
- 8 Cyffordd Pen Y Turnpike/Leckwith Road, Llandough

Rhaid i'r holl welliannau i briffyrdd hefyd ddarparu gwelliannau amlwg i gerdded a beicio fel rhan o unrhyw gynllun.

Efallai y bydd angen gwaith lliniaru priffyrdd arall ar ffurf coridor neu gyffyrdd hefyd ar sail safle-benodol.



- 6.189 Mae PCC yn nodi y dylai cynlluniau datblygu nodi a, lle bo angen, diogelu ardaloedd ar gyfer seilwaith trafnidiaeth yn y dyfodol, a lle nad yw'r union leoliad yn hysbys, diogelu'r llain o dir sy'n angenrheidiol ar gyfer y cynnig.

Teithio Llesol

- 6.190 Mae tri chynllun Teithio Llesol sydd â'r nod o wella cysylltedd cerdded a beicio rhwng aneddiadau yn yr Ardal Twf Strategol wedi'u nodi. Mae'r tri chynllun wedi'u cynnwys ar Fap Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor.
- 6.191 Mae'r cynllun rhwng Cylchfan Biglis yn y Barri a Dinas Powys wedi cyrraedd y cam dylunio terfynol, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024. Cyflwynwyd cais cynllunio llawn ar gyfer llwybr cerdded a beicio a rennir yn 2025.
- 6.192 Cafodd cynllun 1.6 milltir rhwng Sili a Cosmeston ganiatâd cynllunio ym mis Hydref 2025.
- 6.193 Roedd y cynllun rhwng Weycock Cross yn y Barri a Chylchfan Cynffon y Ddraig ger Maes Awyr Caerdydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022. Bydd datblygiad HG1 KS1 Tir yng Ngogledd-orllewin y Barri yn darparu rhan o'r llwybr 1.7 milltir, ar hyd blaen y safle.

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Cyfnewidfa drafnidiaeth Sain Tathan

- 6.194 Cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb ragarweiniol gan y Cyngor ym mis Mai 2022¹² i ddeall y potensial ar gyfer gorsaf reilffordd newydd ar Linell Bro Morgannwg. Ystyriodd yr astudiaeth hon 5 lleoliad posibl ar hyd y llinell i'r de o Sain Tathan, gyda'r lleoliad canolog (Adran C) yn cael ei ystyried fel y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer yr orsaf o ystyried ei agosrwydd at Sain Tathan (gan gynnwys dyraniadau tai CDLIN) a'r potensial ar gyfer cysylltedd cerdded a beicio. Yn unol â hynny, mae tir wedi cael ei ddiogelu i warchod y tir rhag datblygiad a allai amharu ar ddarparu gorsaf newydd i wasanaethu Sain Tathan, sy'n cynnwys tir sy'n gysylltiedig â'r dyraniad tai allweddol HG1 KS5 Tir i'r gorllewin o Sain Tathan. Yr ardal hon fyddai'r lleoliad a ffeirir gan y Cyngor ar gyfer gorsaf newydd sy'n darparu cyfle ar gyfer

¹² <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Transport/Transport-Studies/St-Athan-Train-Station-Feasibility-Study-May-2022.pdf>



cyfleusterau parcio a theithio a datblygiad masnachol sy'n ategol i gyfnewidfa drafnidiaeth ac mae hefyd yn cynnwys cysylltiadau cerdded a beicio gwell i Sain Tathan. Bydd angen i'r gyfnewidfa drafnidiaeth ddarparu mannau i fysiau, mannau parcio tacsis a mannau parcio beiciau. Darperir mynediad i'r safle fel rhan o'r trefniadau mynedfa trwy gyffordd â signalau ar gyfer y Tir i'r Gorllewin o Sain Tathan (HG1 KS5).

- 6.195 Yn ogystal â'r ardal a ddyrannwyd o dan Bolisi HG1 KS5, a fydd yn darparu cam cyntaf cyfnewidfa drafnidiaeth, mae tir i'r dwyrain hefyd wedi'i ddiogelu i alluogi ehangu cyfleusterau parcio a theithio yn y dyfodol pe bai angen tir ychwanegol.

Cyfnewidfa drafnidiaeth Cogan

- 6.196 Mae Trafnidiaeth Cymru wedi nodi bod gan Orsaf Cogan botensial ar gyfer gwell cyfnewidfa drafnidiaeth aml-foddol, gan gynnwys cysylltiadau Teithio Llesol a phlatform trên ychwanegol i wasanaethu rheilffordd Penarth. Diogelir tir ger gorsaf Cogan ac ar ochr ddwyreiniol Windsor Road ger llinell Cangen Penarth. Bydd union leoliad y plattform ychwanegol yn cael ei bennu fel rhan o'r gwaith dichonoldeb parhaus.

Gwelliannau i Briffyrdd

- 6.197 Mae Asesiad Cludiant Strategol (ACS) wedi'i baratoi i ystyried effaith gyfunol datblygiadau a gynigir fel rhan o RLDP ar rwydwaith priffyrdd strategol y Fro. Mae'r ACS yn defnyddio Model Cludiant De-ddwyrain Cymru Trafnidiaeth Cymru (SEWTM) i ystyried sefyllfa sylfaenol o ran capasiti priffyrdd ar hyn o bryd ac fel y rhagwelir yn 2036, a sefyllfa lle mae twf o safleoedd RLDP wedi'i ystyried. Mae'r ACS yn nodi bod angen cymedrol priffyrdd strategol lle mae gan RLDP effaith sylweddol ar gyfanwaith oedi'r cyfuniadau. Mae tri chyfuniad wedi'u nodi ar gyfer cymedrol o fewn yr ACS ac mae disgwyl i safleoedd sydd ag effaith gyfunol ar y cyfuniadau hyn wneud cyfraniad cyfrannol tuag at gymedrol priffyrdd strategol, fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Seilwaith.

Cylchfan Weycock Cross, Y Barri

- 6.198 Mae Cylchfan Weycock Cross yn ffurfio'r crossover rhwng yr A4226, B4266, a Weycock Road, gan ddarparu cysylltiad allweddol rhwng Y Barri, yr A48, a rwydwaith priffyrdd strategol ehangach Bro Morgannwg. Mae angen cynyddu capasiti'r cylchfan a gwella'r llif. Y dewisiadau y gellir eu hystyried yw ehangu mewn targed ar gyrraeddffannau'r A4050 a'r A4226 gyda newidiadau mewn marciau llwybrau lleol i wella lled y fynediad, darparu lonydd mynediad estynedig, a chynyddu capasiti'r cylchredd, neu signalau rhannol neu cyflawn. Mae lluniadau hygyrchedd yn dangos y gellir cynnwys croesfan gerddwyr a beicwyr newydd ar



goesyn cynghorol y ddeheuol a bod modd cynnal neu wella llwybrau teithio gweithredol ar hyd prif lonydd dymuniad, gan gynnwys y llwybr posib o'r cylchfan i Faes Awyr Caerdydd yn y dyfodol. Bydd y gwelliannau yn gaeth i ddyluniad manwl, gan gynnwys archwiliad diogelwch ffordd.

Cyffordd Gileston Road, Sainathan

- 6.199 Mae'r cyffordd hwn yn groesffordd strôc-safle wedi'i leoli ym marn croesfan y B4265 a'r Gileston Road. Mae'r cyffordd yn ffurfio rhan o'r prif lwybr rhwng Llanilltud Fawr a Sainathan, gan ddarparu mynediad i'r A4226 a rhwydwaith ffyrdd strategol ehangach Bro Morgannwg. Mae'r cynllun strôc-safle yn cysylltu dau gyffordd blaenoriaeth swyddogaethol bach sy'n gwasanaethu Gileston a Sainathan, ac ar hyn o bryd mae'n gweithredu o dan reolaeth blaenoriaeth.
- 6.200 Mae angen cynyddu capasiti a gwella diogelwch y cyffordd o ganlyniad i safleoedd CDLIN. Y dewis a ffafrir ar gyfer lliniaru yw uwchraddio'r cyffordd i reolaeth signalau, gan gynnwys gwelliannau i deithio gweithredol. Er bod y cofdy rhyfel presennol yn cynrychioli cyfyngiad dylunio, mae lle i lyfnhau lled y mynedfa a chynyddu hyd lonydd ymagwedd o fewn terfynau'r ffordd a fabwysiadwyd ac gyda thrae o Dir Fferm Eglwys Gorllewinol. Bydd y gwelliannau yn destun dyluniad manwl, gan gynnwys archwiliad diogelwch ffordd.

Cyffordd Pen Y Turnpike/ Leckwith Road, Llandough

- 6.201 Mae hwn yn gyffordd T flaenoriaeth wedi'i leoli ar y croestoriad rhwng Heol Leckwith Road a Pen-y-Turnpike. Mae'n darparu cysylltiad rhwng de-orllewin Caerdydd a Bae Caerdydd ac mae'n rhan o lwybr lleol a ddefnyddir yn aml i osgoi tagfeydd yng nghyffordd Merrie Harrier a Baron's Court. Mae'r cyffordd wedi cael ei nodi ar gyfer lliniaru oherwydd ei gapasiti cyfyngedig a'i rôl wrth hwyluso traffig i ac o Gaerdydd sy'n gysylltiedig â safleoedd CDLIN. Y lliniaru posibl yw troi'r gyffordd flaenoriaeth yn groesffordd â goleuadau traffig. Byddai'r goleuadau'n rheoli llif traffig ac yn dyrannu amser gwyrdd yn fwy teg ar draws y canghennau. Mae dyluniad dichonoldeb yn cynnwys llinell stop cylchdatblyg uwch ar bob agos. Bydd y gwelliannau yn destun dyluniad manwl, gan gynnwys archwiliad diogelwch ffyrdd.



CANOLFANNAU MANWERTHU, MASNACHOL A GWASANAETH (MMG)

SP11 - HIERARCHAETH CANOLFANNAU MANWERTHU, MASNACHOL A GWASANAETH

Mae hierarchaeth y Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth ym Mro Morgannwg fel a ganlyn:

Canol Trefi - Y Barri (Heol Holltwn), Penarth, Y Bont-faen

Canolfannau Ardal - Stryd Fawr y Barri, Llanilltud Fawr

Canolfannau Lleol

Y Barri: Main Street, Tregatwg; Vere Street, Tregatwg; Park Crescent; Barry Road, ger Tregatwg; Heol Holltwn Uchaf

Dinas Powys: Cardiff Road; Canol Pentref Dinas Powys.

Penarth: Cornerswell Road

Y Rhws: Fontygary Road

Sain Tathan: Y Sgwâr

Canolfannau Cymdogaeth - Y Barri: Bron-y-Môr; Cwm Talwg; Canolfan Gibbonsdown; Park Road.

Dinas Powys: Camms Corner; Castle Court/The Parade

Llanilltud Fawr: Crawshay Drive; Trebefered

Penarth: Pill Street; Tennyson Road

Y canolfannau a nodwyd uchod yw'r lleoliadau a ffeirir ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys manwerthu, hamdden, swyddfa, llety ymwelwyr a chyfleusterau preswyl a chymunedol priodol. Rhaid i gynigion datblygu fod yn unol â rôl ddiffiniedig pob canolfan.

Dylai datblygiad newydd o fewn y Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth gyd-fynd â rôl ddiffiniedig pob canolfan o fewn yr hierarchaeth a chefnogi'r bywiogrwydd a'r hyfywedd a chynyddu nifer yr ymwelwyr o fewn y canolfannau.



- 6.202 Mae rôl canol trefi traddodiadol fel canolfannau manwerthu yn newid a bydd eu hadfywio yn y dyfodol yn cynnwys ailbwrpasu, creu canolfannau amlswyddogaethol, masnachol a gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Er mwyn cydnabod yr angen i symud i ffwrdd o rôl manwerthu draddodiadol Canol Trefi ac yn unol â Pholisi Canol Trefi yn Gyntaf Cymru'r Dyfodol, mae Polisi SP11 yn mabwysiadu dull mwy hyblyg o ddefnyddiau nad ydynt yn fanwerthu i greu cymysgedd o fanwerthu, masnachol, hamdden a phreswyl. Er mwyn cynnal hyfywedd a bywiogrwydd hirdymor canolfannau manwerthu'r Fro, bydd y cynllun yn ceisio eu galluogi i esblygu'n ganolfannau amlswyddogaethol sy'n cynnwys amrywiaeth eang o fanwerthu, hamdden a gwasanaethau sy'n gweithredu fel lleoedd a mannau ar gyfer cymdeithasu, gweithio, astudio a mwynhau.
- 6.203 Bydd cynigion datblygu mewn Canolfannau yn cymhwyso'r Egwyddorion Creu Lleoedd a nodir ym Mholisi SP4, gan sicrhau bod Canolfannau yn ddeniadol, yn ddiogel ac yn groesawgar. Bydd canolfannau yn hygyrch i bawb ac yn blaenoriaethu trafndiaeth gynaliadwy; byddant yn cael eu gwasanaethu'n dda gan seilwaith Teithio Llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu â'r aneddiadau cyfagos.
- 6.204 Mae canolfannau yn cael eu hystyried yn lleoedd cynaliadwy i fyw a lle bo'n briodol gallent ymgorffori datblygiad preswyl newydd ar raddfa fach trwy, er enghraifft, addasu lloriau uchaf. Dylent hefyd gynnwys mannau gwyrdd agored amlswyddogaethol i wella amwynder, ansawdd gweledol a darparu manteision amgylcheddol ac iechyd.
- 6.205 Mae'r Barri (Heol Holltwn), Penarth a'r Bont-faen yn cael eu nodi fel Canol Trefi ar frig yr hierarchaeth manwerthu oherwydd eu nifer fawr a'u hamrywiaeth ehangaf o fanwerthu, hamdden a gwasanaethau. Mae canol trefi yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu manwerthu a gwasanaethau wrth iddynt wasanaethu cymunedau cyfagos ac ehangach, sydd wedi'u cysylltu'n dda gan dtrafnidiaeth gynaliadwy. Mae amrywiaeth a nifer yr unedau manwerthu, hamdden a gwasanaethau ac arwyddocâd eu rôl ehangach yn cynyddu wrth i Ganolfannau symud i fyny trwy'r hierarchaeth o Ganolfannau Cymdogaeth, Canol Pentrefi, Canolfannau Ardal a Chanol Trefi.
- 6.206 Mae sawl ardal manwerthu arall y tu allan i'r dref ac ar gyrion y canol ym Mro Morgannwg nad ydynt yn rhan o'r hierarchaeth manwerthu. Bydd cynigion ar gyfer datblygiad manwerthu newydd neu ofod llawr ychwanegol yn yr ardaloedd manwerthu hyn yn cael eu hasesu yn erbyn Polisi RSC2.



SP12 - DARPARIAETH GOFOD LLAWR MANWERTHU

Er mwyn sicrhau bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad parhaus canolfannau manwerthu, masnachol a gwasanaeth Bro Morgannwg, bydd y cynllun yn caniatáu ar gyfer darparu hyd at 5,862 metr sgwâr (net) o ofod llawr cyfleustra a hyd at 679 metr sgwâr (net) o ofod llawr cymharol.

Bydd y dyraniadau canlynol yn cyfrannu at ddarparu'r ddarpariaeth gofod llawr cyfleustra:

- 1 Tir yn Church Farm, Sain Tathan – hyd at 1,858 metr sgwâr
- 2 Tir yn Bridge House Farm, Llan-faes, Llanilltud Fawr – 1,251 metr sgwâr

Dylai unrhyw ofod llawr manwerthu cyfleustra a chymharol ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddarperir gan y safleoedd a nodwyd gael ei gyfeirio tuag at ganol y dref a'r canolfannau ardal a amlinellir ym Mholisi SP11. Bydd cynnwys gofod llawr manwerthu fel rhan o gymysgedd o ddefnyddiau ar safleoedd a ddyrannwyd hefyd yn cael ei gefnogi.

- 6.207 Mae darpariaeth manwerthu ym Mro Morgannwg wedi'i chanolbwyntio'n fawr yng nghanol tref y Barri a chanolfannau ardal Penarth, y Bont-faen a Llanilltud Fawr. Nodweddir yr ardaloedd manwerthu hyn gan amrywiaeth o fanwerthwyr lleol a chenedlaethol ac maent yn gwasanaethu dalgylchoedd cymharol fawr. At hynny, mae canolfannau lleol a chymdogaeth yn cynnig gwasanaeth lleol pwysig i'w dalgylchoedd uniongyrchol ac yn darparu cyfleoedd o ran lleihau teithiau ceir.
- 6.208 Mae Astudiaeth Manwerthu a Hamdden ddiweddaraf Bro Morgannwg (Mehefin 2023) yn darparu angen meintiol wedi'i ddiweddarau ac asesiad ansoddol o ddefnyddiau cyfleustra (bwyd), nwyddau cymharol (dillad, eitemau electronig ac ati), a hamdden canol tref fel bariau, caffis a bwytai ledled yr awdurdod. Nododd yr astudiaeth, dros gyfnod y cynllun hyd at 2036, bod capasiti ansoddol ar gyfer rhwng 4,282 a 5,862 metr sgwâr net o ofod llawr manwerthu bwyd cyfleustra, yn dibynnu ar y math o ddarparwr nwyddau cyfleustra. Mae capasiti hefyd ar gyfer rhwng 432 metr sgwâr net a 679 metr sgwâr net o ofod llawr cymharol, yn dibynnu ar natur y nwyddau cymharol. Yn ofodol, mae'r astudiaeth yn nodi'r potensial ar gyfer manwerthu bwyd cyfleustra ychwanegol yng nghanolfannau manwerthu'r Barri, Penarth a Llanilltud Fawr. Mae'r adroddiad yn argymhell y byddai hyn yn arwain at welliannau ym mywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau hyn, gan hefyd gydnabod angen ansoddol cyffredinol i annog amrywiaeth o ddefnyddiau o fewn prif ganolfannau manwerthu tref ac ardal y Fro.



- 6.209 Ers i'r astudiaeth hon gael ei chynnal, cyflwynwyd cais am 1,251 metr sgwâr o ofod llawr cyfleustra newydd ar gyfer siop fwyd dosbarth A1 yn Bridge House Farm, Llan-faes, ger Llanilltud Fawr. Roedd penderfyniad gan y pwyllgor cynllunio i'w gymeradwyo, yn amodol ar gymeradwyo cytundeb Adran 106, ond mae Gweinidogion Cymru wedi cael eu galw i mewn i benderfynu. Fodd bynnag, bydd dyrannu'r tir hwn yn dibynnu ar ganlyniad y galw i mewn hwn, pan fydd penderfyniad wedi'i gyhoeddi gan y Gweinidog. Yn ogystal, dyrennir hyd at 1,858 metr sgwâr o ofod llawr cyfleustra ychwanegol fel rhan o'r dyraniad preswyl defnydd cymysg yn Church Farm, Sain Tathan (mae Polisi HG1 KS4 yn cyfeirio at hyn). Bydd y ddarpariaeth hon o ofod llawr manwerthu ychwanegol ger Canolfan Leol Sain Tathan yn lleihau'r angen i breswylwyr presennol a newydd deithio i aneddiadau eraill i ddiwallu eu hanghenion.
- 6.210 Dylai'r gofod llawr cyfleustra sy'n weddill, ynghyd â darpariaeth manwerthu gymharol, gael ei ddarparu trwy gyfleoedd yng nghanol trefi a chanolfannau ardal presennol, gan gynnwys cynlluniau adfywio, yn unol â'r polisi Canol Trefi yn Gyntaf.
- 6.211 Anogir integreiddio gofod llawr manwerthu o fewn datblygiadau defnydd cymysg ar safleoedd a ddyrannwyd hefyd yn unol ag egwyddorion creu lleoedd. Gall darpariaeth manwerthu wella ymarferoldeb ac atyniad safle trwy ddarparu gwasanaethau ac amwynderau hygyrch i drigolion, gan leihau'r angen i bobl deithio. Dylid dylunio defnyddiau manwerthu i ategu'r cymysgedd ehangach o ddefnyddiau ac ymateb ar raddfa briodol i gefnogi anghenion lleol.



RCS1 - CANOLFANNAU MANWERTHU, MASNACHOL A GWASANAETH GWYDN

Bydd cynigion datblygu, gan gynnwys y rhai a nodwyd trwy Gynlluniau Creu Lleoedd, sy'n gwella bywiogrwydd, egni ac atyniad Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth yn cael eu cefnogi.

Bydd cynigion sy'n ymwneud â newid defnydd ar lefel y llawr gwaelod o ddefnydd manwerthu A1 yn cael eu caniatáu lle byddai'r cynnig:

- 1 Yn cefnogi bywiogrwydd ac egni canol y dref trwy gynyddu nifer yr ymwelwyr a gweithgarwch economaidd;**
- 2 Yn gydnaws â defnyddiau cyfagos a chymeriad masnachol y ganolfan;**
- 3 Yn osgoi achosi effeithiau amwynder andwyol;**
- 4 Yn darparu wyneb gweithredol; ac**
- 5 Yn osgoi gor-grynhoi defnyddiau nad ydynt yn fanwerthu a fyddai'n tansellio swyddogaeth fanwerthu'r ganolfan.**

Rhaid i gynigion ar gyfer A3 Siopau Tecawê Poeth hefyd gydymffurfio â Pholisi RCS3.

Bydd defnyddiau preswyl a defnyddiau ategol eraill yng nghanol y dref sydd uwchlaw lefel y llawr gwaelod yn cael eu cefnogi, ar yr amod nad ydynt yn arwain at effeithiau annerbyniol ar weithrediad defnyddiau llawr gwaelod neu amwynder meddianwyr presennol a/neu arfaethedig.

- 6.212 Mae Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth y Fro yn fwy nag ardaloedd manwerthu dynodedig; mae'r canolfannau'n dal i fod yn ganolbwyntiau pwysig i gymunedau ac, yn fwyfwy, maent yn dod yn lleoedd i fyw ynddynt, yn ganolfannau gweithgarwch cymunedol a diwylliannol, yn ffocws i wasanaethau cyhoeddus megis iechedd ac addysg, ac yn lleoliad i fannau cydweithio. Fodd bynnag, mae materion sy'n wynebu'r sector manwerthu wedi effeithio ar y lleoedd hyn ac mae'n amlwg bod angen dull newydd. Mae'r gofyniad am ddull newydd yn cael ei ystyried fel cyfle i ail-lunio Canolfannau'r Fro i fod yn gyrchfannau mwy cadarn, deinamig a deniadol. Mae Polisi RCS1 yn ceisio creu canolfannau sy'n cynnal cymysgedd o ddefnyddiau ategol, sydd â'r egwyddorion Creu Lleoedd yn sail iddynt ac sy'n cyflawni'r fethodoleg Canol Trefi yn Gyntaf.
- 6.213 Ar y llawr gwaelod, defnyddiau priodol ar gyfer Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth fydd y rhai sy'n cefnogi eu bywiogrwydd, eu hegini a'u



hatyniad. Byddai'r defnyddiau hyn yn ategu cymeriad y ganolfan bresennol, yn cynnal wynebau deniadol ac yn cynhyrchu gweithgarwch gan gerddwyr a gallant gynnwys siopau (A1), gwasanaethau ariannol a phroffesiynol (A2), mathau penodol o fwyd a diod (A3), swyddfeydd (B1), gwestai (C1), sefydliadau addysgol ac amhreswyl eraill (D1) a hamdden (D2). Os oes angen hwyluso defnydd priodol, ystyrir y byddai uno adeiladau neu rannu adeilad yn rhannol yn cael ei ganiatáu o dan y polisi hwn. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gynhyrchu cyfres o Gynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer ei drefi. Pwrpas y rhain yw i'r Cyngor weithio ar y cyd â chymunedau. Pan fo Cynlluniau Creu Lleoedd yn cynnwys cynigion datblygu sy'n cynorthwyo gwella eu hardal leol berthnasol yn gynaliadwy, byddai'r cynigion hyn hefyd yn cael eu cefnogi. Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i siopau tecawê poeth, sy'n cael eu cwrmpasu gan Bolisi RCS3.

6.214 Rhaid cyfiawnhau newidiadau dosbarth defnydd mewn Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth gyda thystiolaeth bod yr eiddo wedi bod yn wag am gyfnod parhaus a hirdymor a bod marchnata rhagweithiol wedi'i gynnal gan asiant eiddo am o leiaf 12 mis mewn ymdrech i sicrhau tenantiaid. Dylai'r adroddiad marchnata gynnwys:

- Manylion y defnydd presennol neu'r defnydd blaenorol os yw'n wag;
- Hyd yr amser y mae'r uned wedi bod yn wag, os yw'n berthnasol;
- Y math o ddefnydd y mae'r uned wedi'i marchnata ar ei gyfer, beth oedd yn rhan o'r strategaeth farchnata a'i hyd;
- Faint o ddiddordeb oedd yn yr uned yn ystod y cyfnod marchnata – dylai hyn roi manylion am nifer yr ymholiadau, y math o ddefnyddiau a geisiwyd, ac os yw'n hysbys, y rheswm am beidio â dilyn ymholiadau cychwynnol.

6.215 Gall defnyddiau preswyl mewn Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth mewn rhai achosion helpu i wella cynaliadwyedd a hyfywedd cyffredinol canolfan, fodd bynnag, gall colli unedau ar lefel y llawr gwaelod i ddefnyddiau preswyl ddarnio canolfan, effeithio ar ei hatyniad a lleihau gweithgarwch yn ystod y dydd. O ganlyniad, dim ond uwchlaw lefel y llawr gwaelod y bydd defnyddiau preswyl yn cael eu cefnogi lle mae hyn yn dderbyniol o ran amwynder.



RCS2 – MANWERTHU AR GYRION Y CANOL A'R TU ALLAN I'R DREF

Mae ardaloedd manwerthu presennol ar gyrion y canol a'r tu allan i'r dref wedi'u nodi yn y lleoliadau canlynol:

Ar Gyrion y Canol:

- 1 Glannau'r Barri, y Barri;
- 2 Glannau'r Dociau, y Barri;
- 3 Palmerston, y Barri;
- 4 Pencoedtre, y Barri;
- 5 Parc Highlight, y Barri;
- 6 Terra Nova Way, Penarth;

Y Tu Allan i'r Dref:

- 7 Parc Manwerthu Cwrlwys, Croes Cwrlwys
- 8 Parc Manwerthu Brooklands Terrace, Croes Cwrlwys
- 9 Parc Manwerthu Valegate, Croes Cwrlwys
- 10 Parc Manwerthu Heol Penarth

Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y caniateir cynigion ar gyfer defnyddiau A1, A2 neu A3 newydd ar safleoedd newydd neu ardaloedd manwerthu presennol mewn lleoliadau ar gyrion y canol a'r tu allan i'r dref, gan gynnwys newidiadau defnydd, estyniadau, uno neu isrannu unedau presennol neu ddiwygiadau i amodau cynllunio presennol sy'n ymwneud â gwerthu nwyddau:

- 1 Gellir dangos bod angen ychwanegol am y cynnig na ellir ei ddarparu o fewn canolfan fanwerthu, fasnachol a gwasanaeth bresennol; ac
- 2 Ni fyddai'r cynnig, naill ai'n unigol nac yn gronol gyda datblygiadau diweddar neu arfaethedig eraill, yn cael effaith annerbyniol ar fasnach, trosiant, bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau manwerthu, masnachol a gwasanaeth.
- 3 Byddai'r cynnig yn gwasanaethu anghenion lleol mewn cymdogaeth neu bentref gwledig.

- 6.216 Mae hierarchaeth Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth Bro Morgannwg yn cynnwys y canolfannau tref, ardal, lleol a chymdogaeth a nodwyd ym Mholisi SP11 ac mae'n eithrio unrhyw barciau manwerthu ar gyrion y canol neu'r tu allan i'r dref ym Mro Morgannwg. Felly, mae polisi RCS2 Manwerthu ar



Gyrion y Canol a'r Tu Allan i'r Dref yn berthnasol i gynigion datblygu yn y canolfannau hyn.

- 6.217 Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu a masnachol newydd mewn ardaloedd manwerthu ar gyrion y canol a'r tu allan i'r dref yn cael eu rheoli'n llym yn unol â pholisi cenedlaethol, i gefnogi canolfannau sefydledig presennol yn hierarchaeth y Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth.
- 6.218 Mae Polisi RCS2 yn nodi'r meini prawf y bydd cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu a masnachol newydd mewn lleoliadau ar gyrion y canol a'r tu allan i'r dref yn cael eu hasesu yn unol â'r polisi cenedlaethol. Mae'r polisi yn berthnasol i bob cynnig sy'n creu gofod llawr ychwanegol ar gyfer manwerthu (A1), gwasanaethau ariannol a phroffesiynol (A2), bwyd a diod (A3). Mae hefyd yn berthnasol i bob cais, gan gynnwys newidiadau defnydd, estyniadau, isrannu / uno unedau presennol, lloriau mesanîn ac amrywiadau i amodau cynllunio perthnasol. Nod y polisi yw cadw a gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canolfannau trefi, ardal, lleol a chymdogaeth presennol yn ogystal â hyrwyddo cymunedau cynaliadwy a phatrymau teithio cynaliadwy.
- 6.219 Bydd angen i gynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu neu fasnachol newydd y tu allan i'r canolfannau sydd wedi'u cynnwys yn yr hierarchaeth ddangos eu bod wedi bodloni'r prawf dilyniannol y cyfeirir ato yn y polisi cynllunio cenedlaethol. Bydd angen i ddatblygwyr ddangos bod yr holl opsiynau posibl yng nghanol y dref wedi'u hasesu'n drylwyr gan ddefnyddio'r dull dilyniannol cyn y bydd safleoedd ar gyrion a'r tu allan i'r canol yn cael eu hystyried ar gyfer defnyddiau allweddol yng nghanol y dref. Mae'r dull hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr a manwerthwyr fod yn hyblyg ac arloesol ynghylch ffurf, dyluniad a graddfa'r datblygiad arfaethedig a faint o leoedd parcio a ddarperir, gan deilwra'r rhain i addasu i amgylchiadau lleol.
- 6.220 Cydnabyddir na fydd cynigion ar raddfa fach, fel siop fach sy'n gwasanaethu cymdogaeth leol neu bentref gwledig, neu siop fferm fach, yn niweidiol i fywiogrwydd a hyfywedd Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu cefnogi o dan y polisi gan y byddant yn helpu i gynnal cymunedau a lleihau'r angen i drigolion deithio i ardaloedd ac aneddiadau eraill ar gyfer amwynderau sylfaenol.
- 6.221 Pan roddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad manwerthu neu fasnachol newydd ar gyrion a'r tu allan i'r canol, gellir gosod amodau i reoli natur a graddfa'r gweithgaredd manwerthu neu fasnachol ac i leihau unrhyw effaith bosibl ar y canolfannau presennol o fewn hierarchaeth y Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth.



SIOPAU TECAWÊ POETH

RCS3 - SIOPAU TECAWÊ POETH

Er mwyn hyrwyddo cymunedau iachach a gwarchod hyfywedd ac atyniad canolfannau manwerthu, masnachol a gwasanaeth a chymdogaethau lleol, dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y bydd cynigion ar gyfer A3 Siopau Tecawê Poeth newydd yn cael eu caniatáu:

- 1 Mae'r cynnig o fewn canolfan fanwerthu, fasnachol a gwasanaeth neu barc manwerthu ar gyrion y canol neu'r tu allan i'r canol ac nid yw'n achosi nac yn gwaethygu gor-grynodiad o ddefnyddiau A3 siopau tecawê poeth yn y ganolfan honno. Mae gor-grynodiad pan fo mwy na'r gyfran benodol o unedau a ganiateir fel siopau tecawê poeth ym mhob canolfan fanwerthu ddiffiniedig, yn unol â'r cyfrannau canlynol:

- Canolfannau Tref ac Ardal – 6%
- Pob math arall o ganolfan fanwerthu gyda chyfanswm o dros 20 o unedau – 10%
- Pob math arall o ganolfan fanwerthu gyda chyfanswm o rhwng 10 a 20 o unedau – 20%
- Pob math arall o ganolfan fanwerthu gyda chyfanswm o dan 10 o unedau – 30%

- 2 Nid yw'r cynnig yn arwain at glystyru annerbyniol o siopau tecawê poeth, a ddiffinnir fel dim mwy na dwy uned tecawê gyfagos ac o leiaf 3 uned nad ydynt yn siopau tecawê A3 yn gwahanu clystyrau.

- 3 Nid yw'r cynnig yn niweidio amwynder, cymeriad, hyfywedd nac atyniad yr ardal a'r gymdogaeth gyfagos.

Ni fydd cynnig ar gyfer Mannau Bwyd Poeth A3 newydd y tu allan i'r ardaloedd manwerthu a ddiffiniwyd uchod yn dderbyniol.

- 6.222 Cydnabyddir bod gan gynnal nifer o sefydliadau tecawê poeth sy'n gwerthu bwydydd sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr y potensial i effeithio ar iechyd trigolion, yn groes i Amcan 2 y CDLIN i wella iechyd meddwl a chorfforol. Gall cyfyngu ar nifer a lleoliad y sefydliadau hyn helpu i wella dewisiadau prydau bwyd



ac iechyd cyffredinol y boblogaeth. Gall gor-grynodiad o ddefnydd A3 siopau tecawê poeth mewn canolfannau diffiniedig hefyd niweidio bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad y ganolfan yn sylweddol.

- 6.223 Gall siopau tecawê poeth niweidio amwynder ac atyniad ardaloedd o fewn a thu allan i ganolfannau manwerthu, gan achosi drewdod, sbwriel a sŵn gyda'r nos yn ogystal ag effeithio ar ddiogelwch parcio a phrifyrdd.
- 6.224 Mae Papur Cefndir Siopau Tecawê Poeth y Cyngor wedi nodi nifer sylweddol o siopau tecawê poeth ym Mro Morgannwg, yn bennaf yn y Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth. Mae siopau tecawê poeth hefyd i'w cael yn amlach o fewn yr aneddiadau mwy, gyda chrynodiadau penodol yn y Barri, yn enwedig mewn ardaloedd a nodwyd fel rhai sydd o fewn yr 20% o gymunedau â'r amddifadedd mwyaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC).
- 6.225 Mae tystiolaeth o glystyrau presennol o siopau tecawê poeth mewn aneddiadau ym Mro Morgannwg ac mae'n bwysig bod siopau tecawê poeth yn cael eu rheoli mewn modd nad yw'n niweidio bywiogrwydd yr ardal. Y canolfannau trefi ac ardaloedd y cyfeirir atynt yn y Polisi yw'r canolfannau hynny a bennir ym Mholisi SP11 - Hierarchaeth Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth.
- 6.226 Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei baratoi sy'n nodi eglurhad pellach ar sut y bydd siopau tecawê poeth A3 yn cael eu diffinio a sut y bydd y polisi hwn yn cael ei roi ar waith yn ymarferol.



SEILWAITH CYMUNEDOL (SC)

SP13 - SEILWAITH CYMUNEDOL A RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO

Lle bo hynny'n briodol ac o ystyried hyfywedd datblygu, bydd y Cyngor yn sicrhau seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd a gwell sy'n briodol i raddfa, math a lleoliad datblygiadau arfaethedig gan ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio. Gall seilwaith cymunedol gynnwys darparu, gwella a chynnal a chadw hirdymor:

- Tai fforddiadwy ac arbenigol.
- Darpariaeth a chyfleusterau addysgol.
- Cyfleusterau Iaith Gymraeg
- Seilwaith trafnidiaeth a chyfleusterau ar gyfer cerddwyr, beicwyr, trafnidiaeth gyhoeddus, a thraffig cerbydol.
- Man agored cyhoeddus.
- Mannau Tyfu Cymunedol fel rhandiroedd
- Seilwaith gwyrdd.
- Celf gyhoeddus.
- Cyfleusterau hamdden a chwaraeon.
- Gwella Bioamrywiaeth.
- Cyfleusterau cymunedol.
- Cyfleusterau gofal iechyd.
- Seilwaith gwasanaeth a chyfleustodau, gan gynnwys seilwaith digidol.
- Gwarchod a gwella'r amgylchedd megis atal llifogydd, adfywio canol trefi, rheoli llygredd neu adnewyddu hanesyddol.
- Cyfleusterau rheoli ailgylchu a gwastraff; a
- Chyfluoedd cyflogaeth a chyfleusterau ategol gan gynnwys hybiau gwaith a hyfforddiant.
- • Lleddfu Pwysau Hamddenol Estuari Hafren.

Rhaid darparu seilwaith newydd neu well mewn modd amserol a chydgyssylltiedig i ddiwallu anghenion cymunedau presennol ac arfaethedig cyn neu o ddechrau'r camau perthnasol o ddatblygu.



- 6.227 Gall datblygiadau newydd greu galw ychwanegol am wasanaethau a chyfleusterau a allai effeithio ar eu gallu i ddiwallu anghenion y gymuned. Mae darparu seilwaith newydd, yn ogystal â diogelu, gwella, cynnal a chadw hirdymor a defnydd effeithlon o seilwaith presennol yn ganolog i sicrhau bod pob datblygiad newydd a gynigir o fewn cyfnod y Cynllun yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth y Cynllun o greu cymunedau cynaliadwy. Felly, mae darparu seilwaith angenrheidiol yn amserol sy'n cefnogi ac yn lliniaru effaith datblygiad newydd yn hanfodol.
- 6.228 Mae ansawdd, hygyrchedd ac amrywiaeth y seilwaith cymunedol sydd ar gael i fodloni anghenion datblygiadau newydd yn hanfodol i greu cymunedau cynaliadwy. Mae Polisi SP13 yn nodi'r gofynion ar gyfer sicrhau bod pob datblygiad newydd ym Mro Morgannwg yn cael eu cefnogi gan wasanaethau a chyfleusterau priodol i ddiwallu eu hanghenion ac anghenion y gymuned bresennol, er mwyn creu cymunedau diogel, cynaliadwy, iach a chymysg y gellir byw ynddynt. Gallai hyn fod drwy welliannau i gyfleusterau presennol neu drwy ddarparu seilwaith newydd.
- 6.229 Wrth ystyried yr anghenion seilwaith a gynhyrchir gan ddatblygiadau, bydd hyn yn cael ei ystyried yn ôl y math o ddatblygiad a gynigir, yr amgylchiadau a'r anghenion lleol sy'n deillio o'r datblygiad a'r hyn y mae'n rhesymol disgwyl i'r datblygwr ei ddarparu o ystyried y polisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei nodi yng Nghanllaw Cynllunio Atodol y Cyngor ar Rwymedigaethau Cynllunio.
- 6.230 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y Cyngor yn annog datblygwyr i ddarparu cyfleusterau a seilwaith ar y safle i wasanaethau meddianwyr y datblygiad yn y dyfodol. Lle bydd hyn yn wir, bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu hystyried wrth gyfrifo swm unrhyw gyfraniadau oddi ar y safle. Pan ystyrir bod datblygiad yn diwallu ei holl anghenion ar y safle ac yn lliniaru ei effeithiau drwy gyfraniadau digonol ar y safle, mae'n annhebygol y ceisir unrhyw gyfraniadau ariannol ychwanegol.
- 6.231 Pan fônt yn bodloni'r profion polisi, (h.y. yn angenrheidiol; yn berthnasol i'r gwaith cynllunio; yn berthnasol i'r datblygiad sydd i'w ganiatáu; bod modd eu gorfodi; yn fanwl gywir ac yn rhesymol ym mhob ffordd arall), bydd y Cyngor yn defnyddio amodau cynllunio yn hytrach na Rhwymedigaethau Cynllunio i sicrhau'r seilwaith cymunedol angenrheidiol sydd ei angen o ganlyniad i'r datblygiad (Polisi Cynllunio Cymru a Chylchlythyr 16/2014 'Defnydd o Amodau ar gyfer Rheoli Datblygiadau').
- 6.232 Mae cytundebau Adran 106 yn wirfoddol ac angen cydweithrediad y datblygwr i'w cyflawni. Fodd bynnag, pan fo datblygwr yn methu â dangos sut y gall liniaru'n ddigonol effeithiau ei ddatblygiad, naill ai drwy rwymedigaethau cynllunio neu fesurau eraill, mae'n debygol y gwrthodir y cais.



MAN AGORED A HAMDDEN

CI1 – DARPARIAETH MANNAU AGORED

Bydd yn ofynnol i bob datblygiad preswyl newydd sydd â chynnydd net o 10 neu fwy o anheddau gynnig mannau agored defnyddiol, hygyrch sydd wedi'u dylunio'n dda yn unol â'r safonau isafswm mannau agored meincnod canlynol fesul 1000 o bobl:

- 0.55Ha o fannau chwarae (12.4 metr sgwâr fesul annedd)
- 2.2Ha o fannau agored ychwanegol gan gynnwys darpariaeth mannau tyfu cymunedol, mannau chwaraeon awyr agored a mannau agored anffurfiol (49.8 metr sgwâr fesul annedd)

Ar gyfer datblygiadau masnachol mawr (1 Ha neu fwy neu ofod llawr o 1,000 metr sgwâr), dylid darparu 6 metr sgwâr fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn.

Fel arfer, bydd angen darparu mannau agored ar y safle fel rhan o gynigion datblygu newydd. Lle nad yw'n ymarferol gwneud darpariaeth ar y safle, bydd angen darpariaeth briodol oddi ar y safle neu gyfraniadau ariannol ar gyfer gwelliannau i gyfleusterau presennol yn lle mannau chwarae, darpariaeth chwaraeon awyr agored neu fannau gwyrdd amwynder ar y safle.

Bydd angen cyflwyno Strategaeth Mannau Agored ar gyfer pob datblygiad tai a masnachol sy'n bodloni'r trothwyon.

- 6.233 Bydd disgwyl i ddatblygiad preswyl newydd ym Mro Morgannwg ddarparu lefelau priodol ar gyfer mannau agored ffurfiol ac anffurfiol, yn unol â'r safonau a nodwyd. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safonau Meysydd Chwarae Cymru a dderbynnir yn eang ar gyfer darparu mannau chwarae. Ar gyfer mannau agored eraill, a all gynnwys darpariaeth chwaraeon awyr agored, mannau gwyrdd ffurfiol ac anffurfiol ac ardaloedd tyfu cymunedol, nodir targed cyfunol yn seiliedig ar Safonau Meysydd Chwarae Cymru ar gyfer mathau eraill o fannau agored. Dylai'r ddarpariaeth ar y safle gael ei harwain gan ddylunio yn hytrach na safonau ac mae'n rhaid i'r math o ddarpariaeth i gyrraedd y targed hwn ymateb i'r cyd-destun lleol a mynd i'r afael ag



anghenion lleol a nodwyd ar gyfer mathau penodol o fannau agored, gan ystyried canfyddiadau'r Papur Cefndir Mannau Agored.

- 6.234 Bydd cymhwyso'r safonau hyn yn sicrhau y bydd datblygiad newydd yn darparu digon o fannau agored ar gyfer preswylwyr y dyfodol ac ni fydd yn rhoi baich ychwanegol ar lefelau presennol o ddarpariaeth. Bydd y safonau'n cael eu cymhwyso i bob datblygiad preswyl newydd sydd â chynnydd net o 10 neu fwy o anheddau, gan gynnwys datblygiadau preswyl sydd wedi'u hadeiladu o'r newydd, cynlluniau ailddatblygu, addasiadau a datblygiadau defnydd cymysg sy'n cynnwys tai.
- 6.235 Dylid cynllunio mannau agored hefyd i fod yn gynhwysol, yn ddiogel ac yn groesawgar i bob oedran a chefnidir, gan gynnwys preswylwyr hŷn, a menywod a merched, a dylid eu cynllunio mewn modd sy'n meithrin cydlyniant cymunedol ac yn lleihau'r potensial ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd canllawiau ar sut i weithredu'r dull hwn yn cael eu nodi yn y Canllaw Cynllunio Atodol ar Ddarpariaeth Mannau Agored.
- 6.236 Bydd angen i ddatblygiadau masnachol mawr hefyd ddarparu lefelau priodol o fannau agored cyhoeddus i gyfrannu at les gweithwyr ac amwynder lleol.
- 6.237 Fel arfer, bydd angen darpariaeth ar y safle er mwyn gwasanaethu'r preswylwyr a'r cyflogeion newydd hynny a fydd yn cynhyrchu'r galw cynyddol. Lle nad yw'n bosibl darparu cyfleusterau ychwanegol ar y safle, er enghraifft o ganlyniad i gyfyngiadau safle neu natur y datblygiad a gynigir, gall darpariaeth oddi ar y safle neu gyfraniadau ariannol tuag at wella neu gynnal cyfleusterau presennol neu fynediad at gyfleusterau presennol yn y cyffiniau fod yn briodol. Mae'n rhaid i unrhyw ddarpariaeth amgen oddi ar y safle a gytunir gael ei lleoli o fewn pellter cerdded diogel a rhwydd i'r datblygiad arfaethedig. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda datblygwyr i gytuno ar y ffordd fwyaf priodol o fodloni'r safonau a dderbyniwyd a chynnal lefel a chydbwysedd boddhaol o ddarpariaeth pe bai amgylchiadau o'r fath yn codi.
- 6.238 Mae cynnal a chadw mannau agored a chyfleusterau hamdden ffurfiol yn y dyfodol yn hanfodol i sicrhau bod cyfleusterau diogel o ansawdd uchel ar gael i ddefnyddwyr lleol yn y tymor hir. Bydd y Cyngor yn sicrhau trefniadau cynnal a chadw priodol yn y dyfodol trwy amodau neu rwymedigaethau cynllunio trwy gytundeb adran 106 i sicrhau bod yr holl gyfleusterau a ddarperir yn cael eu cynnal a'u cadw mewn modd priodol.
- 6.239 Yn achos datblygiadau preswyl, mae'n rhaid hefyd sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer mannau amwynder preifat megis gerddi, terasau to a balconïau, er mwyn diwallu anghenion uniongyrchol preswylwyr am le storio, lle sychu dillad a lle i fynd



yn achlysurol i fwynhau eu heiddo mewn preifatrwydd. Ceir rhagor o fanylion am ddarpariaeth Mannau Amwynder yn y Canllaw Cynllunio Atodol Datblygiadau Preswyl a Deiliaid Tai, a darperir manylion am gymhwyso'r safonau mannau agored yn y Canllaw Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio.

CI2 - GWARCHOD MANNAU AGORED PRESENNOL

Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y bydd cynigion ar gyfer datblygiadau ar fannau agored o fewn aneddiadau yn cael eu caniatáu:

- 1 Byddai faint o fannau agored sy'n weddill yn y gymdogaeth yn dal i fod yn ddigonol i wasanaethu anghenion lleol; ac**
- 2 Nid oes gan y safle unrhyw werth sylweddol fel adnodd hamdden, ardal o amwynder gweledol neu ased seilwaith gwyrdd.**

6.240 Mae mannau agored cyhoeddus yn rhan bwysig o gymeriad unigryw cymunedau yn y Fro, gan ddarparu ardaloedd ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau hamdden yn ogystal â gwneud ardaloedd deniadol i fyw, a chefnogi lles corfforol a meddyliol. Yn gynyddol, mae mannau agored o fewn aneddiadau presennol dan bwysau gan ddatblygu ac mae'n bwysig, lle bo'n briodol, bod y mannau agored hynny sydd â gwerth hamdden neu amwynder gweledol sylweddol yn cael eu diogelu, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae diffyg mannau agored o'u cymharu â Safonau Meysydd Chwarae Cymru ar gyfer darparu mannau agored.

6.241 Mae Polisi CI2 yn berthnasol i bob man agored ar safleoedd heb eu dyrannu o fewn ffin anheddiad ddiffiniedig. Diffinnir y teipolegau mannau agored y mae'n berthnasol iddynt yn NCT 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored, gyda hyn yn cynnwys cyfleusterau ffurfiol fel parciau a gerddi cyhoeddus, rhandiroedd, cyfleusterau chwaraeon awyr agored a darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, yn ogystal â mannau agored mwy anffurfiol fel mannau gwyrdd amwynder a mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol.

CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

6.242 Mae cyfleusterau cymunedol fel neuaddau cymunedol, llyfrgelloedd, ysgolion a chanolfannau hamdden yn hanfodol i les cymdeithasol a chorfforol trigolion ac yn elfennau allweddol o gynnal hyfywedd a bywiogrwydd bywyd cymunedol mewn aneddiadau trefol a gwledig.



CI3 – CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL NEWYDD

Dyrennir tir ar gyfer datblygu cyfleusterau cymunedol newydd yn:

- 1 Tir yng Ngerddi Clare, Y Bont-faen (Addysg)**
- 2 Ysgol Gynradd Sain Tathan, Sain Tathan (Addysg)**
- 3 Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Y Barri (Addysg)**
- 4 Lower Cosmeston Farm, Penarth (Addysg)**
- 5 Upper Cosmeston Farm, Penarth (Addysg, Gofod Cymunedol)**

Yn ogystal, mae tir wedi'i ddiogelu ar gyfer defnydd cymunedol posibl ar y safle canlynol:

- 6 Tir i'r de o'r rheilffordd, Sain Tathan**

- 6.243 Mae Polisi CI3 yn dyrannu tir ar gyfer darparu cyfleusterau addysg newydd a gwell yn y Bont-faen, Sain Tathan, Y Barri, a Cosmeston, mewn ymateb i'r galw cynyddol am leoedd ysgol yn y cymunedau hyn.
- 6.244 Mae tir yng Ngerddi Clare, y Bont-faen, wedi'i ddyrannu ar gyfer adleoli ac ehangu Ysgol Iolo Morganwg, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sydd ar hyn o bryd wedi'i lleoli mewn adeilad Fictoraidd ar safle cyfyngedig yn y Bont-faen. Mae'r ysgol bresennol yn cynnig hyd at 210 o leoedd; fodd bynnag, mae'r campws newydd wedi'i glustnodi i ddyblu capasiti i 420 o ddisgyblion, ochr yn ochr â chynnydd yn y ddarpariaeth feithrin.
- 6.245 Er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol am leoedd ysgol yn Sain Tathan ac i wella cyfleusterau presennol, dyrennir Ysgol Gynradd Sain Tathan ar gyfer ailddatblygu ac ehangu ar safle'r ysgol bresennol. Bydd angen darn bach o dir ychwanegol o'r dyraniad Safle Allweddol yn Church Farm, Sain Tathan (HG1 KS4), er mwyn hwyluso darparu'r ysgol. Efallai y bydd angen gwell mynediad hefyd.
- 6.246 Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Ebrill 2024 ar gyfer ailddatblygu Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, gyda'r nod o foderneiddio cyfleusterau a chynyddu capasiti. Bydd yr ailddatblygiad, a fydd yn digwydd ar y safle presennol, yn cynyddu lleoedd myfyrwyr o 813 i 1,050.
- 6.247 Mae tir hefyd wedi'i ddyrannu ar gyfer ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd yn Lower Cosmeston Farm ger Penarth, a fydd yn gwasanaethu fel ail safle ar gyfer ysgol arbennig Ysgol y Deri. Derbyniodd yr ysgol newydd, a fydd yn



cael ei galw'n Ysgol Llyn Derw, ganiatâd cynllunio yn 2023, ac mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau.

- 6.248 Fel rhan o ddatblygiad Upper Cosmeston Farm sy'n gyfagos, gwneir darpariaeth ar gyfer ysgol gynradd a man cymunedol o fewn y caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl 576 o unedau, fel y cyfeirir ato ym Mholisi HG1 (10). Mae'r caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i gymeradwyo, yn amodol ar lofnodi cytundeb Adran 106. Bydd y cytundeb hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r tir gael ei drosglwyddo i'r Cyngor mewn cyflwr glân yn ystod camau cynnar y datblygiad, ynghyd â chyfraniad ariannol tuag at ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol. Mae angen cadw adeilad fferm presennol ar y safle at ddefnydd cymunedol hefyd.
- 6.249 Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Bro Morgannwg 2022–2032 yn nodi cynnydd a ragwelir yn y galw am leoedd ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, o ganlyniad i gapasiti ehangach ar lefel ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Byddai angen ystyried darpariaeth ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn dilyn gwerthusiad o ddigonolrwydd y galw. Mae unrhyw ddatblygiad a ragwelir yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet ac achos busnes a'r rhaglen amlinellol strategol. Mae'r CDLIN wedi diogelu tir ar gyfer cyfleusterau cymunedol ychwanegol ar dir i'r de o'r rheilffordd yn Sain Tathan, a allai gynnwys darpariaeth ysgol cyfrwng Cymraeg newydd. Bydd angen gwelliannau i gysylltiadau teithio llesol, gan gynnwys cyflwyno pont droed i gerddwyr a beicwyr ar draws y rheilffordd, a gwell cysylltiadau ag aneddiadau cyfagos.
- 6.250 Mae'r rhestr o gyfleusterau cymunedol newydd ym Mholisi CI3 yn ymwneud ag ysgolion a seilwaith cymunedol arall sydd wedi'u hadeiladu o'r newydd. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a bydd angen estyniadau a gwelliannau i ysgolion ac adeiladau cymunedol presennol o ganlyniad i ddatblygiad newydd. Pan fo cynigion o'r fath yn gysylltiedig â gofynion datblygu a chapasiti cynyddol, byddant yn cael eu hariannu'n rhannol drwy gytundebau Adran 106 yn unol â Pholisi SP13 a'r CCA Rhwymedigaethau Cynllunio.

CI4 - GWARCHOD A GWELLA CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL PRESENNOL

Bydd cynigion ar gyfer cyfleusterau cymunedol newydd neu gynigion sy'n ceisio cadw, gwella neu gynnal cyfleusterau cymunedol presennol yn cael eu cefnogi. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleusterau cymunedol aml-ddefnydd, gan gynnwys cyd-leoli gofal iechyd, ysgolion, llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden.



CI4 - GWARCHOD A GWELLA CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL PRESENNOL

Bydd cynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau cymunedol (gan gynnwys safleoedd a ddefnyddiwyd ddiwethaf ar gyfer gweithgareddau o'r fath) ond yn cael eu caniatáu os dangosir:

- 1 Mae'r cyfleuster yn ychwanegol at anghenion y gymuned; neu**
- 2 Bydd cyfleuster amgen sydd man lleiaf o'r un ansawdd a graddfa i ddiwallu anghenion cymunedol yn cael ei ddarparu yn yr ardal leol; neu**
- 3 Nid yw'n economaidd hyfyw, dichonol nac ymarferol mwyach i gadw'r adeilad neu'r safle at ddefnyddiau cymunedol amgen; ac**
- 4 Mae pob ymdrech resymol wedi'i gwneud i gadw'r cyfleuster, gan gynnwys tystiolaeth i gadarnhau bod yr eiddo neu'r safle wedi cael ei farchnata'n weithredol ac yn gadarnhaol am gyfnod o 12 mis o leiaf gyda thelerau masnachol rhesymol, ac nad oes unrhyw ddiddordeb realistig yn ei gadw ar gyfer y defnydd presennol neu ddefnydd cymunedol amgen.**

Bydd cynigion sy'n ceisio cadw, gwella neu ailddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys datblygiad ategol priodol a allai wneud darpariaeth o'r fath yn economaidd hyfyw, yn cael eu cefnogi.

- 6.251 Mae cyfleusterau cymunedol yn chwarae rôl bwysig wrth ddod â'r gymuned at ei gilydd ac yn cefnogi iechyd, lles cymdeithasol a lles diwylliannol. Fel y cyfryw, mae'n bwysig bod cyfleusterau cymunedol yn cael eu diogelu rhag colli cyfleusterau a gwasanaethau gwerthfawr yn ddiangen, yn enwedig lle byddai hyn yn lleihau gallu unrhyw gymuned i ddiwallu ei hanghenion o ddydd i ddydd.
- 6.252 At ddibenion y polisi hwn, mae gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:
- Canolfannau cymunedol a neuaddau pentref
 - Cyfleusterau addysg a phlant
 - Cyfleusterau diwylliannol; gan gynnwys darpariaeth gelfyddydol, amgueddfeydd, lleoliadau cyngherddau a theatrau
 - Hamdden masnachol; gan gynnwys sinemâu a thafarndai
 - Addoldai, mynwentydd ac amlogsfeydd
 - Gwasanaethau cyhoeddus eraill fel llyfrgelloedd, swyddfeydd post, a chanolfannau ailgylchu a gwastraff y cartref



- Mannau'r sector gwirfoddol a chymunedol a mannau anffurfiol ar gyfer gweithgareddau

- 6.253 O ystyried bod darparu gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol yn rhan bwysig o weledigaeth y Cyngor ar gyfer cynnal cymunedau cynaliadwy, mae polisi C14 yn ceisio sicrhau bod colli cyfleuster cymunedol yn barhaol yn digwydd dim ond pan nad oes eu hangen mwyach, nad ydynt yn economaidd hyfyw, neu lle maent yn cael eu disodli'n foddhaol.
- 6.254 Efallai y bydd amgylchiadau hefyd lle mae colli cyfleuster cymunedol yn rhan o gynnig ehangach i ad-drefnu neu wella'r ddarpariaeth o wasanaethau lleol. Bydd y Cyngor fel arfer yn cefnogi cynigion sy'n cynnwys gwaredu tir neu adeiladau dros ben lle dangosir ei bod yn hanfodol ariannu cyfleuster cymunedol newydd neu well mewn lleoliad arall o fewn yr ardal leol. Mewn achosion o'r fath, rhaid i gynigion gael eu cefnogi gan dystiolaeth i ddangos na fyddai colli'r cyfleuster yn effeithio'n negyddol ar faint ac ansawdd neu hygyrchedd y cyfleusterau presennol.
- 6.255 Bydd y Cyngor hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau cymunedol aml-dddefnydd sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymunedol hygyrch fel hamdden, gofal iechyd, addysg, mannau cyfarfod cymunedol a gwasanaethau cymunedol hanfodol eraill. Gall cyfleusterau o'r fath helpu i leihau'r galw am orfod teithio, hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, a hwyluso darparu cyfleusterau cymunedol yn effeithiol gan sawl sefydliad.
- 6.256 Bydd y Cyngor yn gweithio'n gadarnhaol gyda chymunedau lleol a mudiadau gwirfoddol, i gefnogi cynigion sy'n cadw, gwella neu ailddefnyddio seilwaith cymdeithasol a chymunedol, ac unrhyw ddatblygiad ategol priodol a allai wneud darpariaeth o'r fath yn economaidd hyfyw. Gall hyn gynnwys arallgyfeirio cyfleusterau presennol i wella hygyrchedd gwasanaethau i'r gymuned neu gynyddu hyfywedd hirdymor, er enghraifft trwy leoli siop neu swyddfa bost yn y dafarn leol i ddarparu gwasanaeth deuol i'r gymuned, lle gall hyn atal colli cyfleuster.
- 6.257 Pan fydd colli cyfleuster yn cael ei gynnig ar sail hyfywedd ariannol, bydd angen i hyn gael ei gefnogi gan gofnodion ariannol y busnes, fel arfer am y 3 blynedd flaenorol. Bydd angen tystiolaeth farchnata briodol sy'n dangos bod ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i farchnata'r eiddo ar werth y defnydd presennol am o leiaf 12 mis yn olynol cyn i'r cais gael ei wneud. Bydd angen prisiad proffesiynol annibynnol pan ystyrir bod y cyfleuster wedi'i farchnata am bris gor-chwyddedig neu amhriodol. Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r ymholiadau sy'n deillio o hysbysebu, cynigion sy'n deillio o hynny a pham y cawsant eu diystyru.



- 6.258 Ym mhob achos lle mae cynnig ar gyfer colli cyfleuster a gwasanaeth cymunedol, rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynir i gefnogi'r cais gynnwys manylion ymgynghori â'r gymuned leol a grwpiau cymunedol perthnasol.

CI5 - DARPARIAETH MYNVENTYDD AC AMLOSGFEYDD

Mae tir wedi'i ddiogelu ar gyfer ymestyn Mynwent Porthceri, Y Barri, fel y dangosir ar y Map Cynigion.

Bydd cynigion ar gyfer darparu tir claddu neu amlosgfeydd ychwanegol yn cael eu cefnogi yn yr amgylchiadau canlynol:

- 1 Mae angen cyfleusterau ychwanegol yn ardal y cyngor tref neu gyngor cymuned.**
- 2 Mae'r safle wedi'i leoli yn agos at lwybrau trafndiaeth gyhoeddus ac mae'n darparu digon o leoedd parcio ar y safle i ateb y galw brig.**
- 3 Dangosir na fyddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar ffynonellau dŵr daear na pherygl llifogydd ac y gellir lliniaru unrhyw ffynonellau posibl o halogiad.**
- 4 Nid yw'r cynnig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (Graddau 1, 2 a 3a), nac ar ardaloedd pwysig ar gyfer bioamrywiaeth, tirwedd, archaeoleg a daeareg; ac**
- 5 Ni fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar amwynderau meddianwyr cyfagos oherwydd sŵn, llygredd, preifatrwydd ac ymwithgarwch gweledol, ac ni fyddai'n effeithio ar ddiogelwch priffyrdd.**

Bydd disgwyl i gynigion ar gyfer amlosgfa newydd fodloni gofynion Adran 5 Deddf Amlogi 1902 mewn perthynas â lleoliad yr amlosgfa.

- 6.259 Dylai cynigion ar gyfer cyfleusterau mynwent neu amlosgfa newydd gael eu lleoli mewn lleoliad cynaliadwy. Er y byddai lleoliadau y tu allan i ffin anheddiad ddiffiniedig yn dderbyniol mewn egwyddor, dylai safleoedd gael mynediad da i'r rhwydwaith ffyrdd yn ogystal â llwybrau trafndiaeth gyhoeddus, er mwyn galluogi mynediad hawdd i alarwyr ac ymwelwyr.
- 6.260 Yn ogystal â'r effaith bosibl ar amwynder defnyddiau cyfagos, rhaid i gynlluniau sicrhau bod cynigion ar gyfer mynwentydd, gan gynnwys ymestyn cyfleusterau



presennol, yn rhoi ystyriaeth benodol i berygl llifogydd, materion llygredd dŵr daear, unrhyw halogiad tir presennol, a (fel y bo'n briodol) gofynion Deddf Amlosgi 1902.



TWF ECONOMAIDD A CHYFLOGAETH

- 6.261 Mae'r CDLI yn ceisio addasu i amgylchiadau economaidd newidiol ym Mro Morgannwg a natur newidiol cyflogaeth dros amser drwy ddarparu ystod amrywiol o safleoedd cyflogaeth newydd a diogelu ardaloedd cyflogaeth presennol.
- 6.262 Er mwyn sicrhau bod digon o dir ar gael i ddiwallu anghenion cyflogaeth leol, comisiynodd y Cyngor Astudiaeth Tir Cyflogaeth (2022), i ddarparu asesiad o'r cyflenwad presennol o dir cyflogaeth ac ardaloedd cyflogaeth, ac i nodi anghenion tir cyflogaeth yn y dyfodol dros gyfnod y cynllun yng nghyd-destun rhanbarth ehangach de-ddwyrain Cymru.
- 6.263 Tynnodd yr astudiaeth sylw at y ffaith bod gweithgarwch economaidd y Fro yn bennaf o fewn y sectorau diwydiannol a gweithgynhyrchu, sy'n canolbwyntio'n ofodol o gwmpas 3 ardal farchnad y Barri, Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan (Sain Tathan) a'r Fro Wledig (Llanilltud Fawr, y Bont-faen, Llandŵ a chynlluniau arallgyfeirio gwledig llai yn bennaf).
- 6.264 O ran angen tir cyflogaeth yn y dyfodol, mae'r astudiaeth wedi nodi angen am 67.8 hectar o dir cyflogaeth dros gyfnod y cynllun. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod digon o dir cyflogaeth i ddiwallu angen cyflogaeth dros gyfnod y cynllun, a bod gan y ddarpariaeth hon y potensial i gefnogi tua 5,338 o swyddi ychwanegol.
- 6.265 Er mwyn diwallu'r angen tir cyflogaeth a ragwelir o 67.8 hectar net, mae Polisi SP14 Twf Cyflogaeth yn gwneud darpariaeth ar gyfer 182 hectar net o dir, sy'n adlewyrchu'r cyflenwad tir cyflogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac sy'n debygol, yn realistig, o gael ei ddatblygu o fewn cyfnod y cynllun. Mae cyfran fawr o'r cyflenwad presennol i'w gweld yn bennaf yn Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan ac ar Gyffordd 34 yr M4, gyda thir ychwanegol wedi'i nodi mewn ardaloedd cyflogaeth leol yn y Barri a Llandŵ.

SP14 - TWF CYFLOGAETH

Er mwyn cefnogi twf swyddi a ffyniant economaidd ar draws Bro Morgannwg dros gyfnod y cynllun ac i ddiwallu'r anghenion tir cyflogaeth a ragwelir o 67.8 hectar o dir cyflogaeth, a darparu hyd at 5,338 o swyddi, darperir 182 hectar net o dir cyflogaeth ar gyfer defnyddiau cyflogaeth B1 (Swyddfa a Diwydiant Ysgafn), B2 (Diwydiannau Cyffredinol) a B8 (Dosbarthu a Storio) yn y lleoliadau cyflogaeth mawr a lleol canlynol:



Dyraniadau Cyflogaeth Mawr*:

1. Tir i'r dwyrain o Faes Awyr Caerdydd, y Rhws (16.4 hectar net)
2. Tir i'r de o Port Road (Model Farm), Y Rhws (44.75 hectar net)
3. Parc Awyrofod a Busnes Bro Tathan (66.7 hectar net)
4. Tir i'r de o Gyffordd 34 yr M4, Hensol (36.23 hectar net)

Dyraniadau Cyflogaeth Lleol:

5. Ystad Fasnachu'r Iwerydd, y Barri (1.59 hectar net)
6. Parc Windmill, Hayes Road, y Barri (3.6 hectar net)
7. Parc Busnes y Fro, Llandŵ (10.9 hectar net)
8. Tir yn Ystad Fasnach Llandŵ (1.85 hectar net)

*Efallai y bydd defnyddiau ategol nad ydynt yn rhai dosbarth B yn cael eu caniatáu lle byddai'r rhain yn darparu gwasanaethau cefnogol i fusnesau a chyflogaethion presennol ac yn y dyfodol.

- 6.266 Mae Polisi SP14 yn nodi'r ddarpariaeth tir cyflogaeth gofodol ar gyfer Bro Morgannwg dros gyfnod y cynllun, sy'n cynnwys hierarchaeth o safleoedd cyflogaeth strategol a lleol sydd wedi'u lleoli'n dda i'r 3 ardal farchnad cyflogaeth allweddol a nodwyd yn yr Astudiaeth Tir Cyflogaeth, ac sy'n darparu hyblygrwydd a dewis i fodloni gofynion tir cyflogaeth y Fro dros gyfnod y Cynllun.

Dyraniadau Cyflogaeth Mawr

- 6.267 Mae'r hierarchaeth tir cyflogaeth yn cynnwys pedwar safle strategol ym Mharc Awyrofod a Busnes Bro Tathan, tir i'r dwyrain o Barc Busnes Maes Awyr Caerdydd a thir i'r de o Port Road (Model Farm) sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan, a'r tir i'r de o Gyffordd 34 yr M4. Mae eu safle fel safleoedd cyflogaeth mawr o fewn yr hierarchaeth cyflogaeth yn adlewyrchu eu pwysigrwydd fel ardaloedd allweddol o fuddsoddiad a chyfleoedd cyflogaeth yn y Fro.
- 6.268 Gwelir bod **Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan** yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer datblygu awyrofod a gweithgynhyrchu uwch, ymchwil a datblygu ac arloesi ym Mro Morgannwg. Gan adeiladu ar sylfaen sgiliau bresennol Maes Awyr Caerdydd, British Airways Maintenance Cardiff, a datblygiadau mwy diweddar yn Ardal Fenter Bro Tathan, cydnabyddir eu pwysigrwydd i'r rhanbarth ehangach yng



Nghymru'r Dyfodol, y Cynllun Cenedlaethol, sy'n nodi Maes Awyr Caerdydd fel un o bedwar Porth Strategol i Gymru (Polisi 10 – Cysylltedd Mewnol), gan nodi:

"Mae Maes Awyr Caerdydd yn rhan hanfodol o seilwaith trafnidiaeth strategol Cymru. Mae'n borth rhyngwladol sy'n cysylltu Cymru â'r byd ac mae'n sbardun pwysig o fewn economi Cymru. Mae Maes Awyr Caerdydd wedi'i leoli yn Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan sy'n cynnig cyfleoedd i fuddsoddi yn y safle a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r Ardal Fenter yn cynnig amrywiaeth ehangach o safleoedd datblygu ac adeiladau busnes, gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu cyfleusterau pwrpasol neu i fuddsoddi yn yr adeiladau cyfredol." (Cymru'r Dyfodol, tudalen 82)

- 6.269 Mae'r **tir i'r dwyrain o Faes Awyr Caerdydd** yn eiddo i Lywodraeth Cymru a Chyngor Bro Morgannwg yn bennaf. Mae'r safle wedi'i ddyrannu ar gyfer cyflogaeth defnydd cymysg. Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer campws coleg ar 2.7 hectar o dir i'r de-ddwyrain o Barc Busnes presennol y Maes Awyr. Mae'r Cyngor yn paratoi uwchgynllun ar gyfer defnyddio gweddill y safle fel parc busnes.
- 6.270 Mae'r **tir i'r de o Port Road (Model Farm) y Rhws** ar hyn o bryd yn destun apêl am ddiffyg dyfarniad ar gais cynllunio amlinellol ar gyfer defnydd B1, B2, B8. Os caniateir yr apêl, disgwylir i'r safle ddarparu 1.7 miliwn troedfedd sgwâr o swyddfeydd Dosbarth B1, B2 a B8, diwydiannol ysgafn ac unedau warws a dosbarthu, ochr yn ochr â gwaith parcio, tirlunio, seilwaith draenio a chyfoethogi bioamrywiaeth sy'n cynnwys tir ar gyfer ehangu Parc Gwledig Porthceri i'r de. Mae agosrwydd y safle at Faes Awyr Caerdydd a Bro Tathan ochr yn ochr â datblygiad Coleg Caerdydd a'r Fro yn gyfle i ddatblygu'r ardal yn glwstwr busnes o ansawdd uchel.
- 6.271 Mae **Bro Tathan (Sain Tathan)** ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r safle yn cynnwys nifer o barthau datblygu gyda mynediad uniongyrchol i redfa weithredol gyda chymorth ochr yr awyr. Mae'r safle cyfan wedi'i warchod fel safle cyflogaeth presennol dan Bolisi EMP3 (4), gan fod rhannau o'r safle wedi'u hailddatblygu at ddefnydd cyflogaeth. Yn ogystal, mae nifer o barseli ar gael i'w datblygu ar draws y safle ehangach. Mae'r safle cyfan yn 338 hectar ond rhagwelir y bydd 66.7 hectar yn cael ei ddatblygu o fewn cyfnod y cynllun, gan adlewyrchu ardaloedd sydd â chaniatâd cynllunio a chais am 48.5 hectar o dir cyflogaeth net yn y parth dwyreiniol, sy'n aros am benderfyniad ar hyn o bryd. Nododd Astudiaeth Tir Cyflogaeth y Cyngor nad oes cyfleusterau ategol ar gael i'r rheini a gyflogir ym Mro Tathan, felly mae Polisi SP14 yn caniatáu darparu defnyddiau ategol i gefnogi'r rheini a gyflogir yn y prif safleoedd cyflogaeth.



- 6.272 Mae'r **tir i'r de o Gyffordd 34 yr M4** yn cael ei feddiannu gan Renishaw PLC, a brynodd y safle yn 2011. Mae eiddo presennol Renishaw wedi'i warchod fel safle cyflogaeth presennol dan Bolisi EMP3 (6). Mae tir ychwanegol i'r gogledd a'r dwyrain sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer cyflogaeth newydd. Mae ei safle strategol ger traffordd yr M4 yn cyflwyno cyfle i Fro Morgannwg ddatblygu busnesau diwydiannol a logisteg ar raddfa strategol. Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol yn 2016 ar gyfer hyd at 151,060 metr sgwâr o ddefnyddiau Dosbarth B1, B2 a B8; Gwesty/Canolfan Hyfforddi Breswyl (Dosbarth C1/C2); a hyd at 1,300 metr sgwâr o ddefnyddiau ategol o fewn Dosbarthiadau A1, A2, A3; ochr yn ochr â 30.5 hectar o seilwaith gwyrdd, ac mae cais i amrywio'r amod i ymestyn yr amser ar gyfer cyflwyno materion a gadwyd yn ôl yn aros am benderfyniad ar hyn o bryd.

Dyraniadau Cyflogaeth Lleol

- 6.273 Mae dyraniadau cyflogaeth lleol yn cynnwys 17.9 hectar (net) arall o dir at ddefnyddiau B1, B2 a B8 ac fe'u dyrennir i sicrhau bod ystod a dewis priodol o dir ar gael i gefnogi twf economaidd lleol. Yn gyffredinol, mae'r safleoedd hyn o fewn, neu'n ffinio ag, ardaloedd cyflogaeth presennol sy'n cefnogi amrywiaeth o ddefnyddiau cyflogaeth, ac yn darparu cyfleoedd i fusnesau bach lleol a busnesau newydd, yn galluogi busnesau sefydledig i ehangu, ac yn ardaloedd deniadol ar gyfer buddsoddiad busnesau lleol.
- 6.274 Mae cynnal banc tir o safleoedd, yn enwedig lle gellir lletya sectorau twf, yn hanfodol i lwyddiant mentrau a buddsoddiad datblygu economaidd yr ardaloedd. Felly, er mwyn diogelu eu statws fel safleoedd cyflogaeth pwysig, ni chaniateir cynigion ar gyfer defnyddiau amgen ar y dyraniadau safleoedd cyflogaeth strategol a lleol a nodwyd ym Mholisi SP14 at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth.

EMP1 - ARDALOEDD CYFLE ADFYWIO CYFLOGAETH

Bydd cynigion ar gyfer ailddatblygu a gwella tir ac eiddo presennol ar gyfer B1, B2 a B8 a chynigion cyflogaeth a seilwaith sy'n gysylltiedig â charbon isel a di-garbon yn cael eu cefnogi yn:

- 1 Hen Orsaf Bŵer Aberddawan**
- 2 Tir ym Mhorthladd y Barri**

- 6.275 Mae Polisi EMP1 yn nodi dwy Ardal Cyfle Adfywio Cyflogaeth yn hen Orsaf Bŵer Aberddawan a Phorthladd Gweithredol Dociau'r Barri, y mae'r cynllun yn eu hystyried yn ardaloedd pwysig ar gyfer cefnogi amcanion y CDLIN o fynd i'r afael



â newid hinsawdd a gwyrddu economi'r Fro, gan hwyluso'r twf mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a busnesau.

- 6.276 Mae'r tir yn **hen Orsaf Bŵer Aberddawan** yn cael ei ddyrannu ar gyfer Parc Ynni Gwyrdd, Cyflogaeth ac Arloesi i gefnogi datgarboneiddio ac arloesi diwydiannol. Mae'r safle o arwyddocâd rhanbarthol gyda rôl strategol yn natblygiad economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a nodwyd fel Ardal Dwf Genedlaethol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd. Bydd y safle yn sefydlu Bro Morgannwg fel canolfan ranbarthol ar gyfer arloesi mewn ynni adnewyddadwy a gwyrdd a gweithgynhyrchu di-garbon. Bydd y Parc Ynni Gwyrdd, Cyflogaeth ac Arloesi yn gyfle adfywio pwysig, gan alluogi darparu swyddi medrus, hyfforddiant ac addysg o ansawdd uchel, ynghyd â gwneud cyfraniad sylweddol tuag at liniaru newid hinsawdd. Bydd datblygu'r safle yn galluogi cyfleoedd ar gyfer gwella tirwedd, rhwydweithiau seilwaith gwyrdd, budd net mewn bioamrywiaeth a dylunio adfywiol.
- 6.277 Bydd yr ailddatblygiad yn cynnwys ystod o ddefnyddiau ynni a chyflogaeth, gan gynnwys:
- Defnyddiau sy'n cefnogi'r gwaith o gynhyrchu ac arloesi ynni adnewyddadwy a gwyrdd (gan gynnwys potensial ar gyfer arloesiadau llanw, solar a hydrogen), a chefnogi seilwaith trydan;
 - Defnyddiau cyflogaeth (defnyddiau B1, B2 a B8) megis gweithgynhyrchu gwerth uchel a di-garbon;
 - Cyfleusterau storio ynni a batris storio hirdymor i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu ac arloesi ynni adnewyddadwy a gwyrdd;
 - Canolfan arloesi ynni gwyrdd i hyrwyddo arloesedd, twf, gwybodaeth a rhyngweithio cymunedol â dyfodol carbon sero Cymru;
 - Parc ecoleg bioamrywiol a chanolfan ymwelwyr, sy'n darparu cyfleusterau i'r gymuned leol;
 - Cyfleusterau a gwasanaethau ategol ar raddfa fach i gefnogi ymwelwyr a gweithwyr ar y safle; a
 - Chyfraniad tuag at yr economi gylchol gan gynnwys ailgylchu.
- 6.278 Bydd y safle yn cael ei ddarparu fesul cam, a rhagwelir y bydd cam cyntaf yn cael ei ddatblygu o fewn cyfnod y cynllun, gyda gwaith adfer a lliniaru llifogydd priodol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen hyblygrwydd o ran graddfa ac amserlenni'r ddarpariaeth er mwyn ymateb i ofynion y farchnad wrth iddynt ddod i'r amlwg, ac i fanteisio ar y cyfleoedd y mae Aberddawan yn eu cyflwyno i ddenu buddsoddiad rhanbarthol.
- 6.279 Rhaid i'r gwaith o uwch-gynllunio'r safle gael ei lywio gan ymgysylltu rhanddeiliaid â busnesau lleol, y gymuned ac awdurdodau rheoleiddio gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru.



- 6.280 Dylid paratoi uwchgynllun dangosol ar gyfer y safle yn ei gyfanrwydd, ar y cyd â chais cynllunio ar gyfer unrhyw gam cyntaf o ddatblygiad defnydd terfynol i ddangos ymagwedd gynhwysfawr at y safle.
- 6.281 Rhaid i ddatblygiad ar y safle gydymffurfio â'r egwyddorion uwch-gynllunio canlynol, sy'n cael eu hystyried yn allweddol i gyflawni adfywiad llwyddiannus yr hen safle diwydiannol i ganolfan ynni gwyrdd, cyflogaeth ac arloesi:
- Dylai'r cynllun, graddfa a dyluniad ddarparu cyd-destun ac amgylchedd o ansawdd uchel ar gyfer y safle, cymunedau preswyl cyfagos gan gynnwys Dwyrain Aberddawan a Sain Tathan, a defnyddwyr Arfordir Treftadaeth Morgannwg.
 - Dylai'r datblygiad ddangos sut mae'r SoDdGA Arfordir Dwyrain Aberddawan cyfagos yn cael ei ddiogelu, ei gefnogi neu, lle y bo'n bosib, ei wella. Dylai'r datblygiad gynnwys byffer priodol rhwng datblygiad adeiledig a'r SoDdGA.
 - Dylai'r datblygiad ddatblygu cynllun safle sy'n ystyried seilwaith ac amgylchedd presennol y safle, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r twmpath lludw tanwydd maluriedig, y ddolen reilffordd a'r is-orsafoedd trydanol.
 - Dylai Strategaeth Bioamrywiaeth/Ecoleg gynnal a gwella cysylltedd ecosystemau a darparu budd net i fioamrywiaeth.
 - Rhaid asesu risg llifogydd a darparu mesurau lliniaru priodol i gefnogi pob cam o'r datblygiad sy'n dod ymlaen, yn unol ag Asesiad Canlyniadau Llifogydd.
 - Dylai'r datblygiad greu cynllun effeithlon sy'n gwneud yn fawr o'r tir sydd ar gael, ac yn creu diffiniadau clir rhwng mannau preifat a chyhoeddus.
 - Oherwydd ei ddefnydd diwydiannol yn y gorffennol, rhaid adfer y safle i'r safon sy'n ofynnol cyn pob cam o ddatblygiad sy'n dod ymlaen.
 - Dylid creu strategaeth tirwedd a thir cyhoeddus o ansawdd uchel i gefnogi bioamrywiaeth, trafnidiaeth gynaliadwy ac ymateb i gymeriad tirwedd amgylchynol a lleoliad y safle.
 - Dylai'r datblygiad wneud yn fawr o gyfleoedd ar gyfer mynediad trafnidiaeth gynaliadwy gan gynnwys defnyddio'r ddolen reilffordd bresennol, os yw'n bosib.
 - Dylai'r datblygiad integreiddio rhwydwaith seilwaith gwyrdd (SG) sy'n ymgorffori mesurau lliniaru risg llifogydd / systemau draenio cynaliadwy (SDCau) ledled y safle ac yn darparu rhwydwaith o ardaloedd preifat a chyhoeddus o fannau gwyrdd ac ardaloedd hamdden.



- Dylai'r datblygiad ymateb i ganlyniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau.

- 6.282 Mae **Porthladd y Barri**, sy'n eiddo i Gymdeithas Porthladdoedd Prydain hefyd yn cael ei nodi fel Ardal Cyfle Adfywio Cyflogaeth. Mae cyfleusterau porthladd yn seilwaith rhanbarthol ac yn ased economaidd pwysig yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru, ac fe'u cydnabyddir felly yng Nghymru'r Dyfodol sy'n nodi, *"Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ystyried rôl y porthladdoedd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol a sefydlu fframweithiau i gefnogi eu gweithrediad ac, o bosib, helpu i'w hehangu"*. Yn y Fro, mae Porthladd y Barri yn ffynhonnell werthfawr o gyflogaeth leol ac mae wedi bod yn ganolbwynt adfywio i'r Barri gydag ailddatblygu Glannau'r Barri ar gyfer tai, manwerthu a hamdden.
- 6.283 Mae'r cynlluniau ar gyfer Porthladd y Barri yn cynrychioli'r cam nesaf yn y broses o adfywio Dociau'r Barri ac mae'n canolbwyntio ar wella rôl economaidd y dociau yn y dyfodol. Mae nodi'r ardal fel Ardal Cyfle Adfywio Cyflogaeth yn adlewyrchu gweledigaeth a dyheadau Cymdeithas Porthladdoedd Prydain sydd wedi'u cynnwys yn ei strategaeth hirdymor *Porthladdoedd y Dyfodol: Y Barri*. Mae hyn yn nodi'r ardaloedd cyflogaeth a'r tir porthladd gweithredol yn Noc Rhif 2 hyd at 2035, ac yn canolbwyntio ar ddatblygu'r porthladd o amgylch sectorau carbon isel a digarbon ochr yn ochr â defnyddiau diwydiannol traddodiadol sy'n gysylltiedig â'r môr.
- 6.284 Bydd Ardal Cyfle Adfywio Cyflogaeth Porthladd y Barri yn cynnwys defnyddiau B1, B2, B8, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a seilwaith twf glân sy'n dod i'r amlwg. Gall defnyddiau posib ar y porthladd gynnwys gweithgynhyrchu cemegol, cynhyrchu ynni gwyrdd, cyfleusterau dal carbon, cynhyrchu hydrogen, cynhyrchu solar ffotofoltäig a thyrbinau gwynt ar y Porthladd. Er mwyn addasu i newid hinsawdd, bydd angen i ddatblygiad newydd yn y porthladd hefyd ymgorffori'r mesurau angenrheidiol i fynd i'r afael â risg llifogydd.
- 6.285 Y gobaith yw y bydd y twf yn y sector ynni adnewyddadwy yn Aberddawan a Dociau'r Barri yn creu swyddi newydd medrus ac yn rhoi hwb sylweddol i'r economi. Yn unol â hynny, mae Polisi SP14 yn cefnogi twf y sectorau hyn ochr yn ochr â chyflogaeth B1, B2 a B8.

EMP2 - Y WEINYDDIAETH AMDDIFFYN SAIN TATHAN

Bydd datblygiad newydd o fewn neu'n gyfagos i Weinyddiaeth Amddiffyn Sain Tathan, y dangosir ei fod yn angenrheidiol at ddibenion amddiffyn a diogelwch gweithredol, ac sy'n helpu i wella neu gynnal eu gallu gweithredol, yn cael ei gefnogi mewn egwyddor.



Ni fydd cynigion ar gyfer datblygiad nad yw'n ddatblygiad milwrol neu nad yw'n gysylltiedig ag amddiffyn o fewn neu yn yr ardaloedd o gwmpas safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cael eu cefnogi lle byddai'n effeithio'n andwyol ar weithrediadau neu allu milwrol, oni bai y gellir dangos nad oes angen amddiffyn na milwrol ar gyfer y safle mwyach.

- 6.286 Mae Polisi EMP2 yn cefnogi datblygiad o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn Sain Tathan lle mae'n ofynnol at ddibenion gweithredol, fel y'i diffinnir ar y Map Polisiâu. Yn yr un modd, caniateir cynigion o fewn neu ar dir sy'n union gyfagos i'r Weinyddiaeth Amddiffyn Sain Tathan dim ond lle na fyddai'r cynigion hyn yn effeithio'n andwyol ar, nac yn cyfaddawdu, defnydd yr ardal at ei dibenion gweithredol.
- 6.287 Mae parth diogelu statudol sy'n gysylltiedig â'r Weinyddiaeth Amddiffyn Sain Tathan wedi'i nodi ar y map cyfyngiadau. Mae'r parth diogelu hwn wedi'i gynllunio i gadw gallu gweithredol trwy sicrhau bod datblygiad a allai gyfaddawdu neu gyfyngu ar weithrediad offer technegol sy'n sylfaenol i wasanaethau traffig awyr yn destun ymgynghoriad.
- 6.288 Mae asedau technegol sy'n hwyluso rheoli traffig awyr, yn bennaf radar, llywio a systemau cyfathrebu yn cael eu diogelu i gyfyngu ar effaith datblygu ar eu gallu a'u gweithrediad. Gall yr uchder, y màs, a'r deunyddiau a ddefnyddir i orffen datblygiad i gyd fod yn ffactorau wrth asesu effaith cynllun penodol. Gall datblygiadau sy'n ymgorffori systemau ynni adnewyddadwy fod yn bryder arbennig o ystyried eu potensial i ddarparu ehangder mawr o fetel ar uchder, er enghraifft lle mae cynigion yn cynnwys tyrbîn gwynt neu system solar ffotofoltäig wedi'i osod ar do.
- 6.289 Pan nad yw safle neu ased y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'i ddiogelu bellach yn weithredol, ac mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cadarnhau nad oes angen amddiffyn mwyach, gellir adolygu'r dynodiad diogelu. Hyd nes y derbynnir cadarnhad o'r fath, bydd cyfyngiadau diogelu yn parhau i fod mewn grym.



AMDDIFFYN SAFLEOEDD AC EIDDO CYFLOGAETH PRESENNOL

EMP3 - AMDDIFFYN SAFLEOEDD AC EIDDO CYFLOGAETH PRESENNOL

Mae'r hierarchaeth ganlynol o safleoedd cyflogaeth presennol yn cael eu diogelu ar gyfer defnyddiau cyflogaeth B1, B2 a B8, a byddant yn cael eu diogelu rhag datblygiad a fyddai'n peryglu eu rôl a'u swyddogaeth.

Safleoedd Cyflogaeth Mawr

- 1 Porthladd Gweithredol, Dociau'r Barri, y Barri
- 2 Y Cyfadeilad Cemegol, Y Barri
- 3 Parc Busnes Maes Awyr Caerdydd, y Rhws
- 4 Parc Busnes Awyrofod Bro Tathan, Sain Tathan
- 5 Gwaith Sment Aberddawan
- 6 Renishaw, Cyffordd 34, M4

Safleoedd Cyflogaeth Eilaidd

- 7 Ystad Fasnachu'r Iwerydd, Y Barri
- 8 Ystad Ddiwydiannol Tŷ Verlon, Y Barri
- 9 Ystad Fasnachol Llandochau, Llandochau (Penarth)
- 10 Ystad Ddiwydiannol West Point, Llandochau (Penarth)
- 11 Parc Busnes y Fro, Llandŵ

Safleoedd Cyflogaeth Lleol Allweddol

- 12 Ystad Fasnachu Palmerston, Y Barri
- 13 Ystad Ddiwydiannol Sully Moors Road, Y Barri
- 14 Parc Busnes Heol Caerdydd, Y Barri
- 15 St Hilary Court, Croes Cwrlwys
- 16 Parc Busnes Treftadaeth, Llanilltud Fawr
- 17 Ystad Fasnachu Llandŵ, Llandŵ
- 18 Parc Busnes Dyffryn, Llandŵ
- 19 Ystad Ddiwydiannol West Winds, Llan-gan
- 20 De Llandŵ, Llandŵ

- 6.290 Mae Polisi EMP3 yn nodi hierarchaeth Bro Morgannwg o safleoedd cyflogaeth presennol, sydd wedi'i sefydlu drwy asesiad o safleoedd cyflogaeth a fanylir yn Astudiaeth Tir Cyflogaeth y Cyngor (2023). Mae'r hierarchaeth hon yn adlewyrchu rôl a swyddogaeth pob maes cyflogaeth o fewn yr economi leol ac ehangach. Er



bod yr Astudiaeth Tir Cyflogaeth wedi canolbwyntio ar ardaloedd cyflogaeth presennol, roedd yr astudiaeth hefyd yn cydnabod rôl eiddo cyflogaeth mewn mannau eraill yn y Fro, ac felly mae hyn yn cael ei adlewyrchu o fewn hierarchaeth safleoedd cyflogaeth y CDLN, y diffinnir rôl a swyddogaeth pob categori isod:

- **Safleoedd Cyflogaeth Mawr** - mae'r rhain yn ardaloedd datblygu allweddol o raddfa a lleoliad digonol sy'n denu unigolion a buddsoddiad o ddalgylch eang, ac fel arfer maent yn cael eu defnyddio gan gwmnïau mawr enwog sy'n nodweddion o'r marchnadoedd cenedlaethol/rhyngwladol.
- **Safleoedd Cyflogaeth Eilaidd** - mae gan y rhain fel arfer amrywiaeth o ddefnyddiau cyflogaeth ac maent yn tueddu i ddenu unigolion a buddsoddiad o fewn Bro Morgannwg. Efallai y bydd presenoldeb bach o gwmnïau cenedlaethol o fewn y stadau hyn hefyd, ond busnesau lleol mwy sefydledig sy'n tueddu i fod amlycaf.
- **Safleoedd Cyflogaeth Lleol Allweddol** - mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth lleol pwysig a nodweddir gan fentrau bach a chanolig lleol a busnesau newydd, gan ddarparu lle yn aml i ganiatáu i'r busnesau hyn dyfu ac ehangu yn y tymor byr-canolig.
- **Safleoedd Cyflogaeth Cymdogaeth** – mae'r rhain yn darparu cyfleoedd cyflogaeth i aelodau o'r cymunedau cyfagos. Mae'r safleoedd hyn fel arfer yn fach o ran maint ac yn tueddu i wasanaethu'r ardal uniongyrchol.
- **Eiddo Eraill mewn Defnydd Cyflogaeth** - y tu allan i'r prif ardaloedd cyflogaeth mae llawer o fusnesau presennol ar draws yr awdurdod. Mae'r rhain yn cynnwys swyddfeydd mewn canolfannau manwerthu, gweithdai, stiwdios, a busnesau gwledig bach sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr i economi'r Fro.

6.291 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod prif swyddogaeth y safleoedd fel ardal gyflogaeth bwysig ar gyfer cyflogaeth leol a mewnfuddsoddiad yn cael eu diogelu, a bod defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth neu ddefnyddiau ategol yn cael eu rheoli'n ofalus fel y nodir ym Mholisi EMP3.



EMP4 - CYNIGION NAD YDYNT YN YMWNEUD Â CHYFLOGAETH AR ARDALOEDD AC EIDDO CYFLOGAETH PRESENNOL

Bydd cynigion datblygu ar safleoedd ac eiddo cyflogaeth presennol a nodwyd ym Mholisi EMP2 yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau canlynol:

Ar Safleoedd Cyflogaeth Mawr ac Ardaloedd Cyfle Adfywio Cyflogaeth :

Bydd defnyddiau nad ydynt yn B1, B2 a B8 yn cael eu cyfyngu i wasanaethau neu gyfleusterau ategol sy'n gysylltiedig â defnydd cyflogaeth presennol neu arfaethedig a fyddai'n gwasanaethu cyflogaethion ar y safle cyflogaeth ehangach lle:

- 1 Gellir dangos yn glir bod y defnydd arfaethedig yn ategol i brif weithrediadau busnes presennol neu arfaethedig; neu
- 2 Byddai'r defnydd yn ategol i ddefnyddiau cyfagos, rôl a gweithrediad y safle cyflogaeth, ac mae ar raddfa a fyddai'n cefnogi'r busnesau/lleoliad presennol;
- 3 Ni fyddai'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar amwynder na'r amgylchedd; ac
- 4 Ni fydd graddfa na math y defnydd ategol yn effeithio ar fywiogrwydd na hyfwedd canol trefi presennol.

Ar Safleoedd Cyflogaeth Eilaidd, Allweddol a Chymdogaeth a Safleoedd ac Eiddo Eraill mewn Defnydd Cyflogaeth:

Bydd cynigion ar gyfer defnyddiau cyflogaeth nad ydynt yn B1, B2 a B8 ond yn cael eu cefnogi mewn amgylchiadau lle gellir bodloni'r holl feini prawf canlynol:

- 5 Mae'r cynnig ar gyfer defnydd ategol neu sui generis ac mae'n bodloni meini prawf A1- A4 uchod, neu
- 6 Dangosir nad oes galw rhesymol neu realistig am gadw'r tir neu'r eiddo presennol ar gyfer defnyddiau cyflogaeth B1, B2 a B8; neu
- 7 Bydd budd cymunedol sylweddol sy'n gorbwyso colli'r safle/eiddo cyflogaeth, er enghraifft drwy wella amwynder i ddefnyddiau cyfagos neu welliannau amgylcheddol, ac



EMP4 - CYNIGION NAD YDYNT YN YMWNEUD Â CHYFLOGAETH AR ARDALOEDD AC EIDDO CYFLOGAETH PRESENNOL

- 8 Ni fyddai'r cynnig, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynigion eraill, yn arwain at newid sylweddol yn natur y safle cyflogaeth, nac yn peryglu gweithrediadau defnyddiau presennol neu gyfagos, ac ni fyddai'n cael effaith annerbyniol ar amwynder na'r amgylchedd.**

- 6.292 Tynnodd Astudiaeth Tir Cyflogaeth y Cyngor (2023) sylw at y ffaith bod amodau'r farchnad ym Mro Morgannwg ar gyfer tir cyflogaeth yn esblygu, gan nodi bod galw cryf yn yr ardaloedd cyflogaeth presennol ar gyfer adeiladau diwydiannol, gyda galw am unedau bach a chanolig. Mae'r astudiaeth hefyd yn nodi twf cynyddol mewn cynlluniau cyflogaeth B1/B2/B8 gwledig, a phrinder posib o swyddfeydd rhydd-ddaliadol o fewn yr awdurdod. O ystyried canfyddiadau'r astudiaeth, mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn hanfodol sicrhau bod lles yr economi leol ac ehangach yn ddiogel ar gyfer yr hirdymor.
- 6.293 Yn unol â hynny, mae Polisi EMP4 yn ceisio diogelu rôl a swyddogaeth safleoedd ac eiddo cyflogaeth presennol rhag colli eu swyddogaeth gyflogaeth, neu erydiad graddol ohoni, trwy dresmasu gan ddefnyddiau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth. Mae'r ymagwedd a nodir yn y polisi hwn yn berthnasol yn gyfartal i eiddo busnes presennol neu wag sydd naill ai mewn defnydd cyflogaeth neu mewn defnydd cyflogaeth diwethaf, lle mae'r defnydd yn dod o fewn Dosbarth Defnydd B1, B2 a B8 o'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.
- 6.294 Pan gynigir cynigion ar gyfer defnyddiau ydynt yn ymwneud â chyflogaeth, rhoddir ystyriaeth i rôl a swyddogaeth y safle cyflogaeth o fewn yr hierarchaeth cyflogaeth, effaith gronol defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth presennol ar rôl a swyddogaeth y safle cyflogaeth, a/neu amwynder cyfagos fel y nodir isod:

Safleoedd Cyflogaeth Mawr ac Ardaloedd Cyfle Adfywio Cyflogaeth

- 6.295 Er y bydd y newid defnydd i ddefnyddiau nad ydynt yn ddosbarth B ar safleoedd mawr yn cael ei wrthwynebu, cydnabyddir bod nifer gyfyngedig o ddefnyddiau nad ydynt yn ddefnyddiau B1, B2 a B8 y gellid eu hystyried yn dderbyniol ar safleoedd cyflogaeth mawr, gan y byddent yn darparu gwasanaeth i gyflogeion a'u cleientiaid, ac yn cyfrannu at effeithlonrwydd y safle cyflogaeth. Gall defnyddiau sy'n wirioneddol ategol gynnwys cownteri masnach, campfeydd, caffis bach, meithrinfeydd gofal plant, neu ganolfannau hyfforddi, sy'n darparu gwasanaeth i gyflogeion lleol neu ddefnyddwyr y safle cyflogaeth presennol.



- 6.296 Wrth ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer cynigion ategol ar safleoedd cyflogaeth mawr, ac ardal cyfle adfywio, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos bod y cynnig yn bodloni meini prawf 1-4 Polisi EMP4. Ym mhob achos, bydd y Cyngor yn ystyried a fyddai'r cynnig yn darparu budd ategol i'r ardal gyflogaeth ac yn cefnogi anghenion y cyflogaeth, ac na fyddai'n gwrthdaro â gweithrediad y safle fel ardal gyflogaeth fawr ac amwynder cyffredinol.

Safleoedd Cyflogaeth Eilaidd, Safleoedd Cyflogaeth Lleol Allweddol a Safleoedd Cyflogaeth Cymdogaeth ac Eiddo Eraill mewn Defnydd Cyflogaeth

- 6.297 Er mai blaenoriaeth y Cyngor yw diogelu colli defnyddiau cyflogaeth, cydnabyddir, yn ogystal â defnyddiau ategol priodol, y gallai fod achosion lle gallai fod yn briodol caniatáu ailddatblygu neu newid defnydd i fusnes nad yw'n fusnes dosbarth B. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Cyngor yn ystyried cynigion yn unol â meini prawf 5-8 Polisi EMP4, y prif ystyriaeth bob amser fydd sicrhau na fyddai'r defnydd arfaethedig, nad yw'n ddosbarth B, yn tanseilio rôl a swyddogaeth y safle neu'r eiddo cyflogaeth. Gall hyn gynnwys cynigion a fyddai'n gwneud defnydd buddiol o eiddo neu safleoedd gwag, a fyddai'n galluogi cyfleoedd cyflogaeth amgen, neu lle byddai newid defnydd yn darparu gwell amwynder neu fuddion amgylcheddol dros y defnydd busnes presennol.
- 6.298 Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ar gyfer y cyfiawnhad dros ddefnyddiau amgen fel y nodir dan Bolisi EMP4. Bydd y math o dystiolaeth sydd ei hangen yn amrywio, yn dibynnu ar y defnydd a'r amgylchiadau unigol, ond gall gynnwys manylion pam nad yw'r tir neu'r eiddo bellach yn cael ei ddefnyddio, a thystiolaeth i ddangos bod ymdrechion priodol a rhesymol wedi'u gwneud i'w farchnata i'w werthu neu ei brydlesu ar gyfer ei ddefnydd presennol.
- 6.299 Pan gynigir defnyddiau nad ydynt yn rhai Dosbarth B, bydd y Cyngor yn gofyn i'r ymgeiswyr ddangos:
- Nad yw'r safle/eiddo bellach yn addas nac yn rhesymol addas i'w ailddatblygu at ddibenion cyflogaeth.
 - Bod y safle/eiddo wedi'i farchnata'n rhagweithiol at ddibenion cyflogaeth am gyfnod rhesymol (e.e., o leiaf 12 mis) ar gyfradd farchnad resymol (h.y. rhent, neu werth cyfalaf) fel y'i cefnogir trwy strategaeth ac ymgyrch farchnata ffurfiol wedi'i dogfennu, neu
 - Bydd budd cymunedol sylweddol sy'n gorbwyso'r effaith o golli'r safle/eiddo cyflogaeth, megis gwell amwynder i ddefnyddiau cyfagos neu welliannau amgylcheddol.



6.300 Gallai gwybodaeth gan yr asiant neu'r ymgeisydd ynghylch galw fod ar ffurf adroddiad marchnata neu ohebiaeth gan yr asiant eiddo perthnasol. Gallai'r math o wybodaeth gynnwys y canlynol:

- Manylion y meddianwyr presennol, os oes unrhyw rai.
- Os yn briodol, cyfnod yr amser y bu eiddo neu safle'n wag.
- Math y defnydd y marchnatwyd yr eiddo/safle ar ei gyfer, a pha strategaeth farchnata a fabwysiadwyd ac am ba hyd.
- Lefel y diddordeb yn y safle yn ystod y cyfnod – dylai hyn nodi nifer yr ymholiadau, math y defnydd y ceisiwyd amdani, ac, os yn hysbys, y rheswm pam na wnaed mwy ar ôl yr ymholiad gwreiddiol;
- A gaiff preswylwyr presennol eu hadleoli i adeiladau eraill addas ei hwyluso.

6.301 Yn ogystal, efallai y bydd achlysuron hefyd i fusnes presennol neu arfaethedig weithredu allfa werthu ategol, fel cownteri masnach neu allfeydd ffatri sy'n gwasanaethu'r cyhoedd ehangach. Dim ond lle mae'r gweithrediadau'n uniongyrchol gysylltiedig â'r busnes presennol neu arfaethedig ac o raddfa a math sy'n briodol i'r busnes y caniateir cynigion o'r fath. Pan fo cynigion ar gyfer allfeydd siopau ffatri, bydd yr holl nwyddau a werthir yn cael eu cyfyngu i'r rheini a weithgynhyrchir ar y safle. Bydd cynigion nad ydynt yn bodloni'r amodau hyn yn cael eu penderfynu yn erbyn cynigion manwerthu arferol, ac yn cael eu hasesu yn unol â pholisïau manwerthu'r cynllun.

EMP5 - CYNIGION CYFLOGAETH NEWYDD O FEWN ANEDDIADAU

Bydd cynigion ar gyfer defnyddiau cyflogaeth newydd y tu allan i'r ardaloedd cyflogaeth sydd wedi'u dyrannu neu sydd eisoes yn bodoli a nodir ym Mholisi EMP2 ond yn cael eu caniatáu lle:

- 1 Mae'r cynnig o fewn anheddiad presennol, ac mae'r math o ddefnydd cyflogaeth yn ategol i'w leoliad a'i ddefnyddiau cyfagos;**
- 2 Ni ellir lletya'r datblygiad arfaethedig ar safle cyflogaeth a ddyrannwyd neu sy'n bodoli eisoes;**
- 3 Nid oes unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr ardal gyfagos, rhwydwaith priffyrdd ac amwynder preswyl.**

Bydd cynigion ar gyfer datblygu sy'n gysylltiedig â swyddfeydd mewn canolfan fanwerthu, fasnachol neu wasanaeth bresennol a nodir ym Mholisi SP11 yn cael eu cefnogi lle mae'r datblygiad yn cyd-fynd â Pholisi RCS1.



- 6.302 Mae Polisi EMP3 yn nodi hierarchaeth o safleoedd cyflogaeth o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol, y mae'r Cyngor yn ystyried y bydd yn darparu hyblygrwydd dewis, i ddiwallu anghenion cyflogaeth y Fro dros gyfnod y cynllun. Mae'r safleoedd wedi'u lleoli'n dda i ganolfannau cyflogaeth presennol, ac yn bennaf dyma'r ardaloedd lle mae datblygiad cyflogaeth newydd wedi digwydd yn hanesyddol.
- 6.303 Mae'r cynllun yn cydnabod bod yna achlysuron lle efallai na fydd yn briodol i gynigion cyflogaeth newydd gael eu lletya ar safleoedd cyflogaeth presennol, megis gweithio gartref a busnesau ar raddfa fach. Mae Polisi EMP5 yn cefnogi cyfleoedd sy'n galluogi busnesau newydd i ddatblygu ar safleoedd heb eu dyrannu o fewn ffiniau aneddiadau presennol.

CYFLOGAETH AC ARALLGYFEIRIO YNG NGHEFN GWLAD

EMP6 - DEFNYDDIAU CYFLOGAETH AC ARALLGYFEIRIO NEWYDD YNG NGHEFN GWLAD

Gall cynigion ar gyfer dulliau arallgyfeirio newydd yng nghefn gwlad, gan gynnwys cyfleusterau twristiaeth, a defnyddiau cyflogaeth B1, B2 a B8 yng nghefn gwlad y tu allan i ffiniau aneddiadau diffiniedig neu ardaloedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi EMP3 fod yn briodol pan fo'r cynnig ar gyfer:

- Aildefnyddio neu addasu adeilad gwledig presennol ar y cyd â menter wledig neu gynllun arallgyfeirio fferm;
- Eiddo cyflogaeth adeilad newydd ar raddfa fach sydd â chysylltiad da ag anheddiad gwledig, neu sydd o fewn neu yn union wrth ymyl cyfadeilad fferm presennol;
- Defnyddiau cyflogaeth lle mae lleoliad cefn gwlad yn hanfodol ar gyfer y gofynion gweithredol na ellir eu bodloni ar ardal gyflogaeth bresennol;
- Cynigion twristiaeth a hamdden cynaliadwy effaith isel.

Caniateir cynigion ar gyfer y defnyddiau uchod dim ond lle:

- 1 Mae angen profedig am y datblygiad mewn lleoliad gwledig;
- 2 Mae'r cynnig ar raddfa briodol ar gyfer y lleoliad;
- 3 Ni fyddai'r cynnig yn niweidio amwynder a chymeriad yr ardal neu'r dirwedd gyfagos (gan gynnwys effeithiau gweledol, sŵn, arogl, dyluniad, ac ymddangosiad) nac yn peryglu diogelwch priffyrdd naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â datblygiadau eraill; a



EMP6 - DEFNYDDIAU CYFLOGAETH AC ARALLGYFEIRIO NEWYDD YNG NGHEFN GWLAD

4 Rhaid i ddyluniad unrhyw adeilad newydd at ddibenion cyflogaeth fod yn briodol i'w swyddogaeth arfaethedig.

- 6.304 Mae'r Astudiaeth Tir Cyflogaeth (2023) yn tynnu sylw at y ffaith bod galw mawr am adeiladau B1, B2 a B8 yng nghefn gwlad y Fro y tu hwnt i'r fenter wledig draddodiadol ac arallgyfeirio busnesau amaethyddol presennol. Felly, mae polisi EMP6 yn ceisio hwyluso cyfleoedd ar gyfer datblygu cyflogaeth wledig newydd a galluogi busnesau gwledig presennol i ehangu ac addasu i greu economïau gwledig cynaliadwy ac amrywiol.
- 6.305 Yn unol â hynny, cefnogir datblygiadau cyflogaeth (dosbarthiadau defnydd B) yng nghefn gwlad pan fo'r rhain yn cynnwys naill ai addasu adeiladau gwledig presennol, neu os ydynt wedi'u lleoli'n dda i anheddiad gwledig presennol, neu pan fo'r cynnig yn cynnwys ymestyn neu adleoli busnes sy'n bodoli eisoes, a lle mae graddfa a math y defnyddiau busnes yn gymesur â lleoliad gwledig.
- 6.306 Wrth ystyried cynigion datblygu ar gyfer arallgyfeirio ffermydd a defnyddiau busnes gwledig, dylid ystyried yn y lle cyntaf ailddefnyddio adeiladau presennol. Os nad yw hyn yn bosib, gellir ystyried adeilad newydd wedi'i gynllunio'n sensitif o fewn cyfadeilad presennol y fferm. Ar gyfer cynigion sy'n ymwneud ag addasu adeiladau gwledig presennol, dylai adeiladau fod yn gallu darparu ar gyfer y defnydd busnes arfaethedig, ac felly bydd ceisiadau yn cael eu hystyried yn erbyn Polisi HG8 Addasu ac Adnewyddu Adeiladau Gwledig a chanllaw cynllunio atodol cysylltiedig.
- 6.307 Pan fo'r cynnig ar gyfer un o'r defnyddiau a nodir yn rhan gyntaf y polisi, rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o angen gwirioneddol am y datblygiad mewn lleoliad gwledig, gan gynnwys cyfiawnhad pam na ellir ei ddarparu mewn aneddiadau diffiniedig neu ardaloedd cyflogaeth o safbwynt gweithredol neu leoliadol.
- 6.308 Rhaid i raddfa'r datblygiad fod yn gymesur â'i leoliad, gan osgoi gorddatblygu neu ddwysáu a fyddai'n niweidiol i'r cymeriad gwledig. Yn unol â hynny, dylid cyfyngu graddfa cynigion busnes gwledig i'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer y defnydd arfaethedig. Bydd hyn yn cael ei asesu o ran maint (gan gynnwys arwynebedd llawr ond hefyd cyfaint a màs) a dylai ymgeiswyr esbonio pam mae angen adeiladau arfaethedig fel y'u cynigir. Ni ddylai cynigion arwain at niwed annerbyniol i amwynder trigolion cyfagos neu gymeriad y dirwedd. Mae hyn yn cynnwys ystyried effaith weledol, sŵn, arogl a dyluniad. Rhaid cynnal diogelwch priffyrdd hefyd, a bydd effeithiau cronol gyda datblygiadau eraill yn cael eu hasesu.



- 6.309 Rhaid i adeiladau newydd gael eu dylunio i weddu i'w defnydd arfaethedig wrth barchu'r cyd-destun gwledig. Mae hyn yn cynnwys lleoliad, deunyddiau a ffurf briodol sy'n adlewyrchu cymeriad lleol ac yn lleihau ymyrraeth weledol.
- 6.310 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen lleoli rhai diwydiannau, oherwydd natur eu gweithgareddau, i ffwrdd o ardaloedd cyflogaeth cyffredinol sefydledig a rhywfaint o bellter o ardaloedd preswyl er mwyn osgoi effeithiau negyddol. Mae nifer o'r safleoedd cyflogaeth presennol yn rhydd o gyfyngiadau lleoliad o'r fath, gan gynnwys Ystad Fasnachu'r Iwerydd, y Porthladd Gweithredol yn Nociau'r Barri ac Ystad Ddiwydiannol Llandŵ, a dylid ymchwilio i'r tir sydd ar gael yn yr ardaloedd hyn yn y lle cyntaf. Yn unol â'r prawf dilyniannol a argymhellir yn NCT 23 - Datblygu Economaidd (2014), ar gyfer cynigion o'r fath, bydd angen i'r Cyngor fod yn fodlon bod dull dilyniannol wedi'i gymryd i nodi'r safle, a bod pob opsiwn posib wedi'i archwilio sy'n dangos y gellir cyfiawnhau'r lleoliad arfaethedig a'i fod yn opsiwn priodol wrth ystyried manteision posib y cynnig ac anghenion y busnes a gynigwyd.

TWRISTIAETH

SP15 - TWRISTIAETH GYNALIADWY

Caiff cynigion sy'n hyrwyddo Bro Morgannwg fel cyrchfan ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy eu ffafrio. Dylai cynigion datblygu gyfrannu at ddelwedd gadarnhaol y Fro fel cyrchfan ddeniadol a chynaliadwy i dwristiaid trwy:

- 1 Hyrwyddo cyfleoedd i ymwelwyr gymryd rhan mewn mathau o dwristiaeth sy'n cael effaith isel ar yr amgylchedd;
- 2 Diogelu a gwella atyniadau twristiaeth a chyfleusterau hamdden presennol;
- 3 Gwella economi ymwelwyr, denu buddsoddiad lleol, darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol a chyfrannu at arallgyfeirio gwledig;
- 4 Nodi a diogelu hunaniaeth leol, amgylchedd adeiledig a naturiol, unigryw y Fro fel asedau i dwristiaeth;
- 5 Darparu amrywiaeth o gyfleoedd twristiaeth, yn enwedig trwy gyfleusterau trwy gydol y flwyddyn ac ystod o lety ymwelwyr wedi'u lleoli'n briodol; ac
- 6 Annog ymweliadau twristiaeth i gael eu gwneud gan ddulliau trafndiaeth gweithredol a chynaliadwy.



SP15 - TWRISTIAETH GYNALIADWY

- 6.311 Mae lleoliad arfordirol a gwledig y Fro, ynghyd â'i diwylliant cyfoethog a'i hamgylchedd hanesyddol, yn asedau gwerthfawr ar gyfer twristiaeth a hamdden. Mae atyniadau fel Arfordir Treftadaeth Morgannwg, Bae Whitmore, Ynys y Barri a Phenarth, yn ogystal â'i lleoliad yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru yn gwneud Bro Morgannwg yn gyrchfan deniadol i ymwelwyr dydd, yn ogystal â'r rheini sy'n dymuno aros am gyfnod hwy.
- 6.312 Mae asedau twristiaeth y Fro yn ffynhonnell werthfawr o gyflogaeth leol, gan gyflogi bron 3,000 o bobl a chynhyrchu tua £327 miliwn o wariant ymwelwyr yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.
- 6.313 Mae Polisi SP15 yn ceisio cefnogi'r broses o ddarparu cyfleusterau twristiaeth newydd a gwell, wrth bwysleisio'r pwysigrwydd i hyn gael ei wneud mewn modd cynaliadwy, fel bod yr asedau twristiaeth naturiol ac adeiledig yn cael eu cynnal er mwynhad cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y CDLN yn darparu fframwaith polisi sy'n annog buddsoddiad newydd mewn cyfleusterau twristiaeth a hamdden sydd wedi'u lleoli'n briodol, ac yn ceisio diogelu a gwella cyfleusterau er budd trigolion, ymwelwyr a'r economi leol.

NEWID HINSAWDD A PHONTIO TUAG AT SERO NET

SP16 - MESURAU LLINIARU AC ADDASU I NEWID HINSAWDD

Dylai pob cynnig datblygu fynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd trwy:

- 1 Gyfrannu at ddatgarboneiddio a defnydd effeithlon o dir wrth ei leoli, ei ddylunio, ei adeiladu, cyfuno defnyddiau a thrwy ddilyn egwyddorion creu lleoedd;
- 2 Hyrwyddo egwyddorion economi gylchol trwy flaenoriaethu ailddefnyddio adeiladau presennol ac adeiladu adeiladau gwydn y mae modd eu haddasu;
- 3 Gwneud yn fawr o effeithlonrwydd adnoddau a thechnegau adeiladu cynaliadwy, gan gynnwys dod o hyd i ddeunyddiau yn lleol;
- 4 Defnyddio egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy, ac yn achos datblygiad preswyl newydd a chyflawni allyriadau sero net gweithredol;
- 5 Gwneud yn fawr o'r cyfleoedd ar gyfer atafaelu carbon o seilwaith gwyrdd;



SP16 - MESURAU LLINIARU AC ADDASU I NEWID HINSAWDD

- 6 Gwneud yn fawr o'r cyfleoedd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy, yn benodol mewn ardaloedd chwilio lleol;
- 7 Hyrwyddo'r gwaith o fanteisio i'r eithaf ar opsiynau cyflenwi a dosbarthu ynni, gan gynnwys darparu rhwydweithiau gwres ardal;
- 8 Hyrwyddo cysgodi ac oeri trefol trwy ddarparu seilwaith gwyrdd;
- 9 Gwneud yn fawr o effeithlonrwydd dŵr, a lleihau effeithiau andwyol ar ansawdd adnoddau dŵr; a
- 10 Chyfarwyddo datblygiad i ffwrdd o ardaloedd a nodwyd fel rhai sydd mewn perygl o lifogydd a/neu erydu arfordirol, a sicrhau bod datblygiadau newydd yn rheoli dŵr ffo yn briodol trwy gymhwyso systemau draenio cynaliadwy ac atebion sy'n seiliedig ar natur.

- 6.314 Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi datgan argyfwng hinsawdd. Er na all y system gynllunio ar ei phen ei hun fynd i'r afael â holl effeithiau newid hinsawdd, gall y CDLIN wneud cyfraniad ystyrlon at liniaru ei achosion. Gellir cyflawni hyn trwy'r broses creu lleoedd a thrwy hyrwyddo datblygiad sy'n lleihau allyriadau yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Rhaid ystyried effeithiau newid hinsawdd hefyd, megis cynnydd yn lefel y môr, hinsawdd gynhesach, patrymau tywydd sy'n newid, a digwyddiadau tywydd eithafol amlach, a mynd i'r afael â nhw trwy ddylunio meddylgar.
- 6.315 Mae Polisi SP16, ynghyd â'i bolisiâu ategol, yn nodi'r ardaloedd allweddol lle gall y system gynllunio helpu i liniaru achosion newid hinsawdd a chefnogi'r gwaith o addasu i'w effeithiau. Fodd bynnag, mae ymatebion i newid hinsawdd yn eang eu cwrpas, ac yn croestorri â sawl maes polisi cynllunio, gan gynnwys seilwaith gwyrdd, trafndiaeth gynaliadwy, a chreu lleoedd. Yn unol â hynny, mae'r CDLIN yn darparu polisiâu manwl drwyddo draw sydd, gyda'i gilydd, yn sicrhau bod ystyriaethau newid hinsawdd yn cael eu hintegreiddio'n llawn i'r broses gynllunio. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth hyrwyddo newid moddol, lleoli datblygiadau newydd mewn ardaloedd sy'n lleihau'r angen i deithio, a lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, y mae pob un ohonynt yn ganolog i gyflawni Strategaeth y CDLIN. Mae'r materion penodol yr ymdrinnir â nhw gan Bolisi SP16 yn cael eu hehangu isod.
- 6.316 Bydd yn rhaid i ddatblygiadau newydd ystyried y canlynol i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd:



- **Lliniaru:** Sicrhau bod cwmpas y cynigion datblygu, a'r dylunio ac adeiladu canlyniadol yn lleihau allyriadau carbon, gan gynnwys trwy gymryd mesurau i leihau'r defnydd o ynni; ac
- **Addasu:** Sicrhau bod datblygiad yn wydn i newidiadau rhagamcanol i batrymau tywydd, gan gynnwys digwyddiadau tywydd mwy eithafol. Byddai hyn yn cynnwys lleoli datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd o risg llifogydd ac ystyried gorboethi.

- 6.317 Mae meini prawf 2 a 3 yn ceisio sicrhau dwysedd adnoddau mewn ailddatblygu a datblygiadau newydd. Mae maen prawf B yn blaenoriaethu aildddefnyddio adeiladau presennol i gyfrif am eu carbon ymgorfforedig. Fodd bynnag, cydnabyddir nad dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfyngu ar allyriadau carbon bob amser, yn enwedig lle gallai adeilad newydd fod â chymwysterau cynaliadwyedd sylweddol uwch. Mae maen prawf 3 wedi'i ategu gan yr angen i gyfyngu ar garbon mewn datblygiadau newydd. Darperir mwy o fanylion ar ofynion y ddau feini prawf yn y Polisi CC1, sy'n cyfyngu ar allyriad carbon ar dai newydd ac yn ceisio Asesiadau Carbon Bywyd Cyfan¹³ i wneud carbon yn ystyriaeth wrth asesu disodli adeiladau presennol.
- 6.318 Mae sero net yn ofynnol ar gyfer datblygiadau preswyl newydd gan Bolisi CC1. Mae'r polisi hwn yn cynnwys sylfaen dystiolaeth sy'n dangos bod hyn yn economaidd hyfyr ac yn dechnegol ymarferol. Mae'r ymyrraeth hon yn sicrhau bod blaenoriaethau allweddol y CDLIN yn cael eu bodloni; bod tai mawr eu hangen yn cael eu darparu ac effeithiau ar yr hinsawdd yn cael eu lliniaru.
- 6.319 Mae Polisi 17 Cymru'r Dyfodol yn nodi bod angen rhoi pwysau sylweddol i'r angen i gynhyrchu 70% o drydan Cymru o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030, ac ers cyhoeddi Cymru'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o 100% erbyn 2035. Mae gan Fro Morgannwg rôl i'w chwarae wrth gyflawni'r targedau hyn. Er mwyn helpu i hwyluso'r gwaith o ddefnyddio ynni adnewyddadwy, mae Asesiad Ynni Adnewyddadwy wedi'i gwblhau, sy'n cynnwys nodi meysydd chwilio penodol ym Mro Morgannwg, lle mae solar a gwynt yn cael eu cyfyngu lleiaf.
- 6.320 Mae Polisi CC4 yn darparu polisi manwl ar gyfer asesu datblygiadau solar a gwynt. Yn unol ag hierarchaeth y polisi cynllunio cenedlaethol, caniateir Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) yn ddarostyngedig i Bolisiau 17 a 18 Cymru'r

¹³ Asesiad Carbon Oes Gyfan RICS ar y Cwmpas Adeiladu: sut, pam a beth nesaf? | Cylchgrawn | RICS



Dyfodol. Ar hyn o bryd, byddai datblygiadau ynni adnewyddadwy sy'n cynhyrchu 10-350MW yn gymwys fel DAC¹⁴.

- 6.321 Mae dichonoldeb rhwydweithiau gwres wedi'u hystyried fel rhan o baratoi'r CDLIN a thrwy waith ar y Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL). Er nad oes rhwydweithiau gwres yn bodoli ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd cynigion yn cael eu nodi yn ystod cyfnod y CDLIN. Byddai unrhyw rwydwaith gwres newydd yn dibynnu ar ddatblygiad newydd i ddarparu cysylltiadau, a gall y rhain gynorthwyo'r achos, neu ddarparu'r ysgogiad ar gyfer datblygu rhwydwaith gwres. Felly, mae SP16 yn cefnogi'r egwyddor o ddatblygu rhwydweithiau gwres ac mae Polisi CC5 yn darparu gofynion manwl, gan sicrhau nad yw cyfleoedd i hwyluso neu gysylltu â rhwydweithiau gwres yn cael eu hesgeuluso.

- 6.322 Mae ardaloedd yn y Fro mewn perygl o lifogydd o'r môr ac afonydd, ac mae Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd wedi'i gynnal mewn cydweithrediad ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth i roi trosolwg cynhwysfawr o'r risg llifogydd yn neddwyrain Cymru. Bydd yn rhaid i gynigion datblygu sicrhau cydymffurfiaeth â NCT15 (2025), er mwyn sicrhau nad yw datblygiad yn cael ei ganiatáu mewn lleoliadau lle mae lefel annerbyniol o risg llifogydd.

- 6.323 Mae risg llifogydd afonydd yn effeithio ar sawl cymuned yn y Fro, mewn ardaloedd gwledig a rhannau o aneddiadau mwy y Bont-faen, Dinas Powys a dwyrain y Barri. Dim ond rhai o'r ardaloedd hyn sy'n elwa o fod o fewn Parthau Amddiffyn NCT15, ac mae ardaloedd eraill heb unrhyw amddiffyniad sylweddol. Mae dwyrain y Barri hefyd mewn perygl o lifogydd o'r môr.

- 6.324 Mae rhannau o Ddociau'r Barri a Gorsaf Bêr Aberddawan mewn perygl o lifogydd llanw ac afonol ac nid ydynt o fewn Parthau Amddiffyn NCT15 a nodwyd. Felly, bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth bellach i oblygiadau llifogydd yn y lleoliadau hyn er mwyn i ddatblygiad fod yn dderbyniol.

¹⁴ Ar gyfer ynni gwynt ar y tir nid oes trothwy uchaf (h.y. 350MW ar gyfer pob math arall o ddatblygu ynni adnewyddadwy).



DATBLYGIADAU CARBON SERO NET

CC1 - DATBLYGIADAU CARBON SERO NET PRESWYL GWEITHREDOL

Bydd angen cynigion ar gyfer un neu fwy o anheddau newydd i gyflawni allyriadau gweithredol carbon sero net trwy:

- 1 Ddilyn egwyddorion yr Hierarchaeth Ynni ar gyfer Cynllunio, blaenoriaethu gostyngiad yn y galw am ynni a gwell effeithlonrwydd ynni.
- 2 Cyflawni'r safonau canlynol mewn anheddau unigol fel y'u cyfrifir gan ddefnyddio model perfformiad ynni a nodwyd:
O fabwysiadu'r CDLIN i 31 Mawrth 2030
 - i. Galw gwresogi gofod yn llai na neu'n hafal i 40kWh/m²/y flwyddyn;
 - ii. Dwysedd defnydd ynni yn llai na neu'n hafal i 75kWh/m²/y flwyddyn; ac

O 1 Ebrill 2030 ymlaen

 - i. Galw gwresogi gofod yn llai na neu'n hafal i 15kWh/m²/y flwyddyn;
 - ii. Dwysedd defnydd ynni yn llai na neu'n hafal i 40kWh/m²/y flwyddyn; a
- 3 Darparu cynhyrchu trydan adnewyddadwy ar y safle gydag allbwn sy'n cyfateb i o leiaf defnydd blynyddol o ynni'r datblygiad, fel y'i cyfrifir gan ddefnyddio model perfformiad ynni.

Pan ddangosir nad yw'r defnydd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle i gyd-fynd â chyfanswm y defnydd o ynni yn dechnegol ymarferol, dylid dilyn yr hierarchaeth ganlynol:

- Dylid gwneud yn fawr o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gymaint â phosib; a/neu
- Greu cysylltiad â rhwydwaith ynni ardal carbon isel presennol neu arfaethedig (yn unol â Pholisi CC4); neu
- Lle nad yw hyn yn bosib, dylid gwrthbwysu'r ynni gweddilliol (y swm y mae cyfanswm y galw am ynni yn fwy na'r ynni adnewyddadwy a



CC1 - DATBLYGIADAU CARBON SERO NET PRESWYL GWEITHREDOL

gynhyrchir) gan gyfraniad at gronfa Prosiect Sero'r Cyngor cyn belled ag y mae hyfywedd economaidd yn caniatáu.

Bydd tystiolaeth o gydymffurfiaeth yn cael ei nodi mewn Adroddiad Ynni.

- 6.325 Mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a gyhoeddwyd ym Mro Morgannwg, bydd Polisi CC1 yn ei gwneud yn ofynnol i anheddau newydd ragori ar y Rheoliadau Adeiladu cyfredol a byddant yn darparu cartrefi sy'n sero net mewn gweithrediad. Dylai'r dull o gyflawni hyn gyd-fynd â'r Hierarchaeth Ynni ar gyfer Cynllunio, sy'n gofyn am wella safonau gwneuthuriad, effeithlonrwydd ynni a lleihau gofynion gwresogi gofod, cyn gosod ynni adnewyddadwy ac yna gwrthbwysu ynni gweddilliol os oes angen. Dyma'r dull mwyaf cynaliadwy, a bydd yn gwneud cyfraniad pwysig at fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella tegwch cymdeithasol.
- 6.326 Er mwyn cydymffurfio â'r polisi, bydd angen i bob annedd fodloni dau fetrig. Y cyntaf yw 'galw gwresogi gofod,' sef faint o ynni gwres sydd ei angen i wresogi cartref neu adeilad dros flwyddyn ac sy'n cael ei fynegi mewn kWh/m²/y flwyddyn. Mae'n fesur o effeithlonrwydd thermol yr adeilad a'i ofyniad cudd i ddefnyddio ynni gwres cyn i effeithlonrwydd y system wresogi gael ei gymhwyso. Yr ail fetrig yw Dwysedd Defnydd Ynni (DDY), sy'n mesur yr holl ynni a ddefnyddir gan adeilad, wedi'i gyfrifo trwy rannu cyfanswm defnydd ynni'r adeilad â'i arwynebedd llawr.
- 6.327 Nodir dull graddol ar gyfer y targedau ar gyfer galw gwresogi gofod a dwysedd defnydd ynni er mwyn caniatáu i'r diwydiant datblygu wella sgiliau ac i gadwyni cyflenwi ymateb i gyfeiriad y polisi. Mae'r targedau uchaf yn y cyfnod hyd at 1 Ebrill 2030 yn cyfateb i Safon Adeiladu Newydd AECB CarbonLite (galw gwresogi gofod sy'n llai na neu'n hafal i 40kWh/m²/y flwyddyn a DDY sy'n llai na neu'n hafal i 75kWh/m²/y flwyddyn) ac maent hefyd yn adlewyrchu safon sylfaenol adeiladu sero net Tai ar y Cyd, y mae Cyngor Bro Morgannwg a nifer o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi ymrwymo iddi fel safon ofynnol ar gyfer darparu cartrefi fforddiadwy sero net yng Nghymru.
- 6.328 Bydd y targedau ar gyfer galw gwresogi gofod a DDY yn dod yn fwy llym ar gyfer ceisiadau am anheddau newydd wedi'u dilysu o 1 Ebrill 2030. Ar y pwynt hwn, bydd angen i anheddau newydd fodloni safonau'r Fenter Trawsnewid Ynni Isel (MTYI) (galw gwresogi gofod sy'n llai na neu'n hafal i 15kWh/m²/y flwyddyn a DDY sy'n llai na neu'n hafal i 40kWh/m²/y flwyddyn).
- 6.329 Bydd y polisi yn berthnasol i bob cais am anheddau sydd wedi'u hadeiladu o'r newydd, ond ni fydd yn berthnasol i addasiadau.



- 6.330 Er mwyn penderfynu ar gydymffurfiaeth â'r polisi, rhaid cyfrifo'r defnydd o ynni gweithredol gan ddefnyddio model perfformiad ynni addas a gymeradwywyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig o fewn y fersiwn ddiweddaraf o Asesiad Carbon Oes Gyfan ar gyfer yr Amgylchedd Adeiledig. Bydd rhagor o fanylion am hyn yn cael eu cynnwys wrth gefnogi Canllaw Cynllunio Atodol Adeiladau Sero Net.
- 6.331 Dylai adeiladau newydd gyfrannu at y cynnydd sylweddol mewn ynni adnewyddadwy a gynhyrchir sydd ei angen rhwng nawr a 2050. Y ffordd fwyaf cadarn o gyflawni'r amcan cyffredinol o gydbwyso cyfanswm y defnydd o ynni a chyfanswm yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yw i ddatblygiadau newydd geisio cyflawni'r cydbwysedd hwn ar lefel y safle. Mae gan hyn hefyd y fantais o gynhyrchu trydan 'am ddim' yn agos at ei bwynt defnydd, gan helpu i sicrhau arbedion cost ynni sylweddol i breswylwyr a meddianwyr adeiladau. Paneli solar yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle. O'u cyfuno â systemau storio ynni batri, gall paneli solar hefyd leihau'r galw brig ar y grid trydan, trwy ganiatáu i ynni gael ei storio a'i ryddhau pan fydd y galw ar ei uchaf.
- 6.332 Yn unol â Maen Prawf 3, gall fod rhai amgylchiadau lle nad yw'n dechnegol ymarferol cynhyrchu digon o ynni i wrthbwysu'r defnydd o ynni. Gall hyn fod yn wir mewn rhai datblygiadau gwastad gyda gofod to cyfyngedig. Pan ddangoswyd yn gadarn nad yw'n bosib darparu lefel o ynni adnewyddadwy sy'n cydymffurfio â pholisi ar y safle, bydd angen gwrthbwysu hyn trwy wneud cyfraniad priodol i Gronfa Prosiect Sero'r Cyngor i ariannu gweithgareddau datgarboneiddio priodol eraill. Darperir rhagor o fanylion yn y Canllaw Cynllunio Atodol.

CC2 - RHAGDYBIAETH YN ERBYN DYMCHWEL

Bydd cynigion ar gyfer dymchwel ac ailosod adeilad annibynnol yn dderbyniol dim ond yn yr achosion canlynol:

- 1 Mae'r adeilad a gynigir i'w ddymchwel yn anniogel yn adeileddol i'r graddau nad yw'n ymarferol nac yn hyfyw i'w atgyweirio, ei adnewyddu, ei ailddefnyddio neu ei ailbwrpasu; neu**
- 2 Mae manteision cyhoeddus sylweddol na ellid eu cyflawni trwy atgyweirio, adnewyddu, ailddefnyddio, neu ailbwrpasu; neu**
- 3 Byddai atgyweirio, adnewyddu, ailddefnyddio, neu ailbwrpasu'r adeilad yn debygol o arwain at garbon ymgorfforedig sy'n gyfartal neu'n uwch newydd ei gynhyrchu nag os yw'r adeilad yn cael ei ddymchwel ac adeilad newydd yn cael ei adeiladu; neu**



- 4 Byddai atgyweirio, adnewyddu, ailddefnyddio, neu ailwrpasu'r adeilad yn creu adeilad gydag effeithlonrwydd thermol mor wael y byddai, ar sail cylch bywyd cyfan, yn golygu y byddai datrysiad carbon net is yn deillio o ddymchwel ac ailadeiladu.**

Dylid cyfiawnhau cydymffurfiaeth â Meini Prawf 1 a 2 mewn Datganiad Dymchwel. Dylid cyfiawnhau cydymffurfiaeth â Meini Prawf 3 a 4 yn Adroddiad Ynni'r safle.

Lle bo cyfiawnhad dros ddymchwel, dylai datblygiad newydd adfer ac ailddefnyddio deunydd gwastraff o'r dymchweliad ar safleoedd lle bynnag y bo modd.

- 6.333 Er mwyn osgoi gwastraffu carbon ymgorfforedig mewn adeiladau presennol ac osgoi creu carbon ymgorfforedig newydd mewn adeiladau newydd, mae rhagdybiaeth o blaid atgyweirio, adnewyddu, ailddefnyddio ac ailwrpasu adeiladau presennol yn hytrach na'u dymchwel. Dylai cynigion sy'n arwain at ddymchwel adeilad (yn gyfan gwbl neu ran sylweddol ohono) gynnwys cyfiawnhad llawn dros y dymchwel. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i adeiladau annibynnol ac nid adeiladau ategol o fewn cwrtil adeiladau mwy, fel garej ar wahân.
- 6.334 Rhaid cyflwyno cyfiawnhad cryf wrth ddangos cydymffurfiaeth â Maen Prawf 1. Rhaid i hyn gynnwys gwybodaeth fanwl am gyflwr yr adeilad a honiadau wedi'u profi na fyddai cyflwr yr adeilad yn addas i'w atgyweirio, ei adnewyddu, ei ailddefnyddio na'i ailwrpasu. Byddai cydymffurfio â Maen Prawf 2 ond yn gyflawnadwy lle mae cyfiawnhad sylweddol dros ddatblygiad. Er enghraifft, pe bai adeilad segur bach wedi'i leoli mewn lleoliad cynaliadwy iawn, a phe bai'n cael ei ddymchwel byddai'n rhoi cyfle ar gyfer adfywio ar raddfa fawr neu ddatblygiad tai fforddiadwy.
- 6.335 Er mwyn dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth â Maen Prawf 3 a 4, dylid cyflwyno Asesiadau Carbon Oes Gyfan (ACOG) sy'n cael eu cyfrifo drwy fethodolegau ACOG a gydnabyddir yn genedlaethol. Dylai'r rhain gymharu carbon cylch bywyd disgwylidig yr adeilad i'w ddisodli a'r adeilad newydd. Yn gynhenid, dylai'r adeilad newydd fod yn garbon isel. Mae'r polisi yn berthnasol pan gynigir dymchwel adeiladau o unrhyw ddefnydd arfaethedig neu bresennol.
- 6.336 Er mwyn cyfyngu ar garbon wrth gaffael deunyddiau, a dilyn egwyddorion economi gylchol, dylai adeiladau newydd ailddefnyddio deunyddiau a adferwyd o unrhyw ddymchweliad a ganiateir.



DATBLYGIADAU YNNI ADNEWYDDADWY A CHARBON ISEL

CC3 - ARDALOEDD CHWILIO LLEOL AR GYFER YNNI ADNEWYDDADWY

Mae ardaloedd chwilio lleol ar gyfer ynni solar a gwynt wedi'u nodi ar y Map Cynigion. Yn yr ardaloedd hyn, caniateir cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n dod o dan y trothwy ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn amodol ar gydymffurfio â'r maen prawf a nodir ym Mholisi CC4: Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy, Carbon Isel a Di-garbon.

- 6.337 Mae Asesiad Ynni Adnewyddadwy (2023) (AYA) y Cyngor yn darparu asesiad o botensial ynni adnewyddadwy ym Mro Morgannwg yn unol â Chynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Pecyn Cymorth i gynllunwyr (Medi 2015).
- 6.338 Mae'n darparu asesiad lefel uchel o adnoddau ynni gwynt a solar ym Mro Morgannwg ac yn nodi sawl safle, a elwir yn 'ardaloedd chwilio' lle mae'r potensial ar gyfer datblygu ar ei fwyaf, sy'n cael eu harddangos ar y Map Cynigion. Mae'r ymarfer hwn wedi cydnabod adnoddau gwynt a solar sylweddol ac mae 20 o'r safleoedd mwyaf ar gyfer gwynt a solar wedi'u nodi. Ar draws y safleoedd hyn, gellid cynhyrchu 783 MW o ynni adnewyddadwy o gynhyrchu ynni solar a 104 MW o gynhyrchu ynni gwynt.
- 6.339 O'i gyfuno â'r capasiti ynni adnewyddadwy gosodedig a ddefnyddiwyd ar adeg yr AYA, byddai hyn yn gyfystyr â 993 MW yn cael ei ddefnyddio yn y Fro. Mae'r AYA yn cyflwyno'r safleoedd gwynt i Asesiad Coch, Oren, Gwyrdd, oherwydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â defnyddio gwynt. Nid oedd yr AYA yn ystyried biomas nac unrhyw dechnolegau annibynnol eraill gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol ar raddfa yn y Fro.
- 6.340 Byddai gan y defnydd o wynt a solar ar y tir a nodwyd y potensial i leihau'r CO₂ a gynhyrchir rhwng 171,700 a 187,937 tCO₂e (gyda gwahaniaeth o 16,237 tCO₂e wedi'i greu gan amrywiadau ym maint y tyrbîn gwynt arfaethedig). Ar y pen isaf, mae'r swm hwn o CO₂ yn debyg i'r swm a gynhyrchir gan 23,000 o gartrefi neu'n fras, y Barri gyfan. Felly, mae potensial ar gyfer gostyngiadau sylweddol mewn carbon trwy ddatblygu'r ardaloedd lleiaf cyfyngedig yn unig.
- 6.341 Fel ardaloedd chwilio eang, mae'r ardaloedd a nodwyd yn darparu arwydd o botensial ynni adnewyddadwy yn unig, yn hytrach nag ardaloedd penodol o dir wedi'i ddiogelu ar gyfer datblygu. Mae'r ardaloedd chwilio wedi'u nodi drwy fapio'r adnodd ynni posib (yn seiliedig ar uchder a chyfeiriad y tir) a thrwy gael gwared ar



ardaloedd sydd â chyfyngiadau allweddol i ddatblygu ynni adnewyddadwy, megis SoDdGA, llifogydd a thir gorau a mwyaf amlbwyrpas.

- 6.342 O fewn yr 'ardaloedd chwilio lleol' a nodwyd, bydd angen mireinio ymhellach i nodi cyfleoedd penodol ar gyfer cynigion datblygu manwl ac i ystyried eu derbynioldeb a'u capasiti ynni adnewyddadwy cyflawnadwy. Bydd angen i gynigion manwl ddangos nad oes ganddynt unrhyw effeithiau annerbyniol ar dir cyfagos o ran eu heffaith ar amwynder, asedau treftadaeth a'r amgylchedd ehangach. Bydd angen i gynigion hefyd gydymffurfio â gofynion polisïau perthnasol eraill y Cynllun, yn benodol Polisi CC4 (Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy, Carbon Isel a Di-garbon).

Targedau ar gyfer Defnyddio Ynni Adnewyddadwy

- 6.343 Trwy ystyried polisi cenedlaethol ar ddatgarboneiddio, y defnydd presennol, a'r defnydd trydan a ragwelir, mae'r AYA yn gwneud argymhellion ar dargedau ar gyfer defnyddio ynni adnewyddadwy yn y Fro hyd at 2036. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn dargedau uchelgeisiol ond cyraeddadwy yn y cyd-destun y maent yn cael eu gwneud. Mae'r AYA yn gwneud rhagfynegiad ar faint o drydan y byddai'r Fro yn ei ddefnyddio fel cyfran o boblogaeth Cymru, a'i nod yw gwneud 70% o hyn o ynni adnewyddadwy, yn unol â'r targedau cenedlaethol. Y canlyniad yw y rhagwelir yn 2036 y byddai galw am drydan y Fro yn 837.09 GWh, a byddai 70% o hyn yn 585.964 GWh. Ar adeg yr AYA, roedd 127.6 GWh o ynni adnewyddadwy naill ai wedi'i ddefnyddio neu wedi'i symud ymlaen yn y broses o gael ei ddatblygu. Felly, mae targed o **458.4 GWh** wedi'i osod i sicrhau bod y 70% o'r defnydd disgwyliedig yn 2036 yn cael ei fodloni. Mae'n bwysig nodi bod y targed hwn yn isafswm a bydd angen defnydd sy'n rhagori ar hyn i gyrraedd uchelgeisiau sero net.

CC4 - CYNHYRCHU YNNI ADNEWYDDADWY, CARBON ISEL A DI-GARBON

Caniateir cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy annomestig, ynni carbon isel a di-garbon, a'u seilwaith cysylltiedig, gan gynnwys systemau storio ynni, lle gellir dangos bod:

- 1 Dull dilyniannol o ddewis safle wedi'i ddilyn i ddangos bod unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol, llai niweidiol, wedi'u hystyried;
- 2 Nid oes unrhyw effeithiau cronus annerbyniol ar y cyd â datblygiad presennol neu ddatblygiad sydd wedi cael caniatâd;
- 3 Mae cynigion yn gwneud darpariaeth ar gyfer adfer y tir yn briodol ac ôl-ofal y tir ar gyfer ei aildddefnyddio'n fuddiol yn y dyfodol; ac
- 4 Nid oes unrhyw effeithiau annerbyniol ar fuddiannau:



CC4 - CYNHYRCHU YNNI ADNEWYDDADWY, CARBON ISEL A DI-GARBON

- Y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas;
- Diogelwch hedfan;
- Systemau trydanol, radio neu gyfathrebu eraill;
- Pwysigrwydd tirwedd;
- Treftadaeth naturiol a diwylliannol;
- Cadwraeth natur;
- Arfordir Treftadaeth Morgannwg;
- Amwynder preswyl; a
- Chadwraeth pridd.

Bydd ystyriaeth ffafriol yn cael ei roi i gynigion sy'n darparu cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a / neu gynhyrchu gwres o fewn y gymuned leol.

- 6.344 Caiff cynigion ar gyfer datblygiadau ynni ar raddfa fawr eu dosbarthu fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ac fe'u pennir gan Weinidogion Cymru. Mae datblygiadau ynni ar raddfa fawr yn cynnwys:
- Pob safle ynni gwynt a gynhyrchir ar y tir dros 10 megawat; a
 - Safleoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy eraill gyda phŵer cynhyrchu rhwng 10 a 350 megawat.
- 6.345 Blaenoriaeth ofodol Cymru'r Dyfodol yw i ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr gael eu cyfeirio tuag at Ardaloedd Ynni Gwynt a Aseswyd Ymlaen Llaw (fel y dangosir ar y map cysylltiedig yng Nghymru'r Dyfodol). Nid oes unrhyw Ardaloedd Ynni Gwynt a Aseswyd Ymlaen Llaw wedi'u nodi yn y Fro.
- 6.346 Awdurdodau cynllunio lleol sy'n penderfynu ar gynigion islaw'r trothwy ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, a byddai Polisi CC5 yn berthnasol ochr yn ochr â pholisïau eraill y Cynllun a pholisïau cenedlaethol perthnasol wrth benderfynu a yw datblygiad yn dderbyniol. Bydd Polisi C54 (a pholisïau rheoli datblygu ategol) yn cynorthwyo'r Cyngor i drosglwyddo i system ynni carbon isel, ddatganoledig sy'n gweithio i'w unigolion, ei gymunedau a'i fusnesau trwy annog prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel a di-garbon, wrth ddiogelu asedau pwysicaf y Fro.
- 6.347 Mae sicrhau bod datblygiadau adnewyddadwy yn cael eu defnyddio yn y lleoliadau gorau yn bwysig ar gyfer mwyafu cynhyrchiant a chyfyngu ar niwed. Felly, mae



angen dull dilyniannol. Dylid nodi'r safleoedd chwilio fel man cychwyn gan mai nhw yw'r lleiaf cyfyngedig, a dylid cyfiawnhau datblygiad y tu allan i'r rhain, gyda chapasiti grid yn ffactor posib. Y tu hwnt i'r ardaloedd hyn, dylid blaenoriaethu'r ardaloedd lleiaf cyfyngedig, a'r lleoliadau sydd â'r effaith leiaf ar y dirwedd.

- 6.348 Mewn ardaloedd o werth tirwedd uchel fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig, gall tyrbinau gwynt unigol neu ffermydd solar fod yn dderbyniol lle maent wedi'u lleoli i leihau effeithiau amgylcheddol. Dros amser, gall effeithiau cronus yr adeileddau hyn gael effeithiau annerbyniol ar ansawdd gweledol yr ardal ehangach. Yn unol â hynny, fel arfer, bydd yn ofynnol i gynigwyr datblygiadau ag effeithiau sylweddol ar y dirwedd gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol i ddangos sut maent wedi ystyried yr effeithiau hyn, gan gynnwys unrhyw effeithiau tirwedd cronus gyda datblygiadau presennol neu ddatblygiadau a ganiateir. Dylai'r angen am Asesiadau gael ei sefydlu yn gynnar yn y broses, a byddai'r gofyniad am un yn ôl disgrisiwn y Cyngor.
- 6.349 Mae technolegau storio ynni, gan gynnwys systemau batris storio, yn caniatáu i drydan dros ben gael ei storio a'i ddefnyddio pan fo angen, gan hwyluso'r defnydd o ynni adnewyddadwy yn lle tanwydd ffosil. Dylai cynigion geisio gwneud y defnydd gorau o'r seilwaith presennol, lle y bo hynny'n bosib, ac ymgysylltu â darparwyr seilwaith priodol yn gynnar yn y gwaith o ddylunio cynlluniau o'r fath.
- 6.350 Ar bob graddfa, bydd angen ystyried yn ofalus effeithiau andwyol tebygol a allai godi o'r cynnig. O ran lliniaru, mae angen i gynlluniau fod wedi'u cynllunio'n dda, adlewyrchu amgylchiadau lleol a dangos sut mae unrhyw effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, ar adnoddau ac economaidd wedi'u lleihau trwy ddewis safleoedd, dylunio, adeiladu a gweithredu yn ofalus, ynghyd â mesurau eraill. Yn hyn o beth, wrth ystyried effaith y nodweddion a'r cyfyngiadau hynny a restrir ym Mholisi CC4 ar fuddiannau, bydd angen i gynigion ynni adnewyddadwy hefyd roi sylw dyledus i ofynion polisïau ehangach y Cynllun, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â seilwaith gwyrdd, tirwedd a bioamrywiaeth.

CC5 - HYRWYDDO RHWYDWEITHIAU GWRES

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sefydlu rhwydweithiau gwres a bydd cynigion datblygu sy'n eu hyrwyddo yn cael eu ffafrio, gan ganiatáu cydymffurfio â pholisïau ehangach y Cynllun. Lle y bo angen, rhaid ystyried rhwydweithiau gwres yn unol â'r maen prawf canlynol.

Cyflenwi Gwres

- 1 Rhaid i ddatblygiad newydd sy'n debygol o gynhyrchu gwres gwastraff ystyried dichonoldeb dod yn ffynhonnell wres ar gyfer rhwydwaith gwres.**



CC5 - HYRWYDDO RHWYDWEITHIAU GWRES

Galw am Wres

- 2 Lle mae rhwydweithiau gwres yn bodoli, rhaid i gynigion datblygu ar gyfer unrhyw adeilad newydd ystyried cysylltiad â nhw yn llawn. Rhaid cyfiawnhau penderfyniad i beidio â chysylltu yn llawn, gan gyfathrebu'r materion dichonoldeb technegol neu hyfywedd sy'n gwahardd cysylltiad.
- 3 Lle nad oes rhwydweithiau gwres, rhaid i gynigion datblygu ar gyfer dros 100 o anheddau neu 10,000 metr sgwâr ystyried dichonoldeb technegol a hyfywedd ariannol creu rhwydwaith.

Diogelu Ardal Flaenoriaeth at y Dyfodol

- 4 O fewn y Barri, rhaid i safleoedd sydd â llwyth gwres mawr (er enghraifft, ysgolion, colegau, canolfannau gofal iechyd) ddiogelu eu hunain at y dyfodol er mwyn peidio â pheryglu unrhyw gysylltiad yn y dyfodol.

Pan fo'n ofynnol gan y Polisi hwn, rhaid ystyried rhwydweithiau gwres o fewn Datganiadau Ynni.

- 6.351 Mae Strategaeth Gwres i Gymru¹⁵ yn nodi rhwydweithiau gwres fel dull effeithlon a fforddiadwy o ddatgarboneiddio gwres, ac mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhwydweithiau gwres mewn egwyddor lle bynnag y bo'n hyfyw. Mae'r CYAL yn nodi y bydd rhwydweithiau gwres system ynni'r dyfodol wedi'u modelu yn darparu 7% o wres y Fro erbyn 2050. Byddai hyn yn gyfystyr â 97 GWh, y gellid ei adlewyrchu trwy ddau rwydwaith canolig neu un rwydwaith mawr.
- 6.352 Mae'r polisi yn nodi bod rhwydweithiau gwres a'u seilwaith cefnogol yn cael eu cefnogi ledled y Fro mewn egwyddor. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i unrhyw rwydwaith gwres gydymffurfio â pholisi ehangach y Cynllun, yn enwedig mewn perthynas â'r effaith ar ddefnyddiau cyfagos. Pan fydd datblygiad yn cael ei gynniig a allai arwain at wres gwastraff, fel canolfannau data neu adeiladau diwydiannol,

¹⁵ [Strategaeth Gwres i Gymru \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)



mae'r polisi yn ceisio sicrhau bod y rhagolygon o greu cyflenwad ar gyfer rhwydwaith gwres yn cael eu hystyried. Nid yw'r gwres gweddilliol hwn o fudd ar ei ben ei hun, ond gellid ei allforio trwy rwydwaith gwres ar gyfer refeniw ychwanegol ac, ar yr un pryd, hwyluso rhwydwaith gwres. Er mwyn helpu i hwyluso'r galw am rwydweithiau gwres, mae'r polisi hefyd yn ceisio sicrhau bod cysylltiad neu fod greu cysylltiad yn cael ei ystyried lle cynigir datblygiadau a fydd â llwyth gwres mawr. Mae cysylltu â'r Cyngor i ddeall statws unrhyw rwydwaith/rwydweithiau gwres, ac a oes cyfleoedd ar gyfer cysylltu neu greu cysylltiad, yn rhan annatod o ystyried dichonoldeb technegol rhwydwaith.

- 6.353 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'r Barri fel ardal flaenoriaeth ar gyfer defnyddio rhwydwaith gwres gan fod gan y dref nodweddion a allai hwyluso rhwydwaith gwres. Mae gan y Barri sawl ffynhonnell wres bosib o ddefnyddiau diwydiannol, ac efallai y bydd cyfleoedd i ddefnyddio dŵr o'r Dociau hefyd yn bodoli. Mae hefyd yn anheddiad â thrwch o boblogaeth gyda llwyth gwres sylweddol, gan gynnwys nifer o adeiladau mwy wedi'u clystru ym mhen gorllewinol Heol Holltwn ac o gwmpas y Glannau. Er mwyn sicrhau bod yr achos dros rwydwaith gwres yn y Barri yn cael ei wella, ac nad yw cyfleoedd ar gyfer cysylltiad yn y dyfodol yn cael eu colli, mae'r polisi yn ceisio sicrhau na fyddai adeiladau newydd sydd â llwyth gwres uchel fel colegau, ysgolion ac archfarchnadoedd yn peryglu unrhyw gysylltiad yn y dyfodol.

CC6 - AMDDIFFYNFEYDD ARFORDIROL A RHEOLI TRAETHLIN

Bydd cynigion ar gyfer amddiffynfeydd arfordirol newydd, neu gynnal neu wella amddiffynfeydd arfordirol presennol yn cael eu cefnogi pan fyddant:

- 1 Yn gynnal neu'n gwella cyfanrwydd adeileddol a pherfformiad amddiffynfeydd presennol rhag erydu arfordirol a llifogydd;
- 2 Yn gyson ag amcanion y Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT) perthnasol a strategaethau lleol ar gyfer rheoli perygl llifogydd;
- 3 Yn osgoi effeithiau andwyol sylweddol ar gynefinoedd, rhywogaethau a chymeriad tirwedd dynodedig;
- 4 Yn defnyddio technegau a deunyddiau sy'n sensitif i'r amgylchedd lle y bo hynny'n bosib; ac
- 5 Yn ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur lle y bo hynny'n briodol.

- 6.354 Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin (CRhTau) yn ddogfennau anstatudol sy'n llywio penderfyniadau rheoli arfordirol hirdymor, gan gynnwys amddiffynfeydd arfordirol. Mae CRhTau yn asesu risgiau arfordirol ac yn argymhell dulliau



cynaliadwy ar gyfer rheoli risgiau llifogydd ac erydiad, gan lywio awdurdodau lleol a datblygwyr ar sut i gynllunio ar gyfer newid arfordirol.

- 6.355 Cwmpesir Bro Morgannwg gan ddau o'r Cynlluniau Rheoli Traethlin (CRhT2) ail genhedlaeth. Mae CRhT2 o Drwyn Larnog i Benrhyn Santes Ann yn cwmpasu dros 460km o arfordir o Drwyn Larnog ym Mro Morgannwg i Benrhyn Santes Ann yn Sir Benfro, a CRhT2 Aber Afon Hafren sy'n cwmpasu rhannau uchaf Aber Afon Hafren ar ochr Cymru a Lloegr. Mae'r CRhT yn nodi polisïau a champau gweithredu cyffredinol ar gyfer rheoli newid ar hyd yr arfordir, ac wedi'i lunio i ystyried effaith hirdymor bosib cynnydd yn lefelau'r môr o ganlyniad i newid hinsawdd.
- 6.356 Mae Polisi CC6 yn adlewyrchu'r dull rhagofalus cyffredinol ac yn eirioli y dylai unrhyw waith amddiffyn arfordirol gydymffurfio â'r cynigion a nodwyd yn y CRhT2au. Bydd angen i gynigion ar gyfer amddiffynfeydd arfordirol neu gynigion eraill o fewn lleoliad arfordirol hefyd ymgorffori mesurau priodol i osgoi erydu arfordirol cynyddol a lliniaru risgiau llifogydd posib.

RHEOLI GWASTRAFF CYNALIADWY

- 6.357 Mae'r prif ffrydiau gwastraff sy'n codi ym Mro Morgannwg yn deillio o wastraff a gasglwyd gan awdurdodau trefol neu leol (gan gynnwys cartrefi); gwastraff masnachol a diwydiannol; gwastraff adeiladu, cloddio a dymchwel; a gwastraff peryglus. Mae rheoli gwastraff yng Nghymru wedi newid yn sylweddol dros yr ugain mlynedd diwethaf gyda gostyngiad sylweddol yn y gwastraff sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi a chynnydd mewn ailgylchu.

SP17 - RHEOLI GWASTRAFF CYNALIADWY

Bydd rheoli gwastraff yn gynaliadwy yn cael ei hwyluso trwy:

- 1 Hyrwyddo a chefnogi cyfleusterau, mesurau a strategaethau rheoli gwastraff cynaliadwy ychwanegol yn unol â'r hierarchaeth wastraff ac egwyddorion y man gosod priodol agosaf a hunangynhaliath.**
- 2 Cefnogi'r economi gylchol trwy annog lleihau cynhyrchu gwastraff a defnyddio deunyddiau wedi'u hailddefnyddio a'u hailgylchu yng nghanau dylunio, adeiladu a dymchwel datblygiad.**
- 3 Sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer rheoli, didoli, storio a chasglu gwastraff yn gynaliadwy ym mhob datblygiad newydd.**



SP17 - RHEOLI GWASTRAFF CYNALIADWY

Ystyrir bod y lleoliadau canlynol yn addas ar gyfer datblygu datrysiadau rheoli gwastraff mewn adeiladau:

- Ystad Fasnachu'r Iwerydd.
- Porthladd Gweithredol Dociau'r Barri.
- Ystad Fasnach Llandŵ.
- Ar safleoedd diwydiannol B2 a B8 addas sy'n bodoli eisoes ac a ddyrannwyd.

Bydd darparu cyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy yn yr awyr agored ar safleoedd diwydiannol priodol Dosbarth B2 neu B8, safleoedd gwaith mwynau gweithredol neu anweithredol, tir diffaith neu adeiladau adfeiliedig neu o fewn cyfadeiladau fferm presennol neu wrth eu hymyl, hefyd yn dderbyniol lle nad ydynt yn gwrthdaro â defnyddiau cyfagos presennol neu arfaethedig.

- 6.358 Yn unol â'r strategaeth wastraff genedlaethol 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', bydd y Cyngor yn ystyried cynigion yn unol â 'hierarchaeth wastraff,' sy'n graddio opsiynau atal a rheoli gwastraff yn seiliedig ar yr hyn sydd orau i'r amgylchedd. Y flaenoriaeth uchaf yn yr hierarchaeth yw atal gwastraff yn y lle cyntaf. Ar ôl hyn, os creir gwastraff, dylid rhoi blaenoriaeth i'w baratoi i'w aildddefnyddio, yna ailgylchu, yna adfer arall (e.e., ynni), a'r opsiwn terfynol yw gwaredu (e.e. tirlenwi neu losgi heb adfer ynni).
- 6.359 Mae Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 21 ar Wastraff yn nodi y dylid ystyried sut mae cynigion ar gyfer gwastraff, sy'n dod o dan Erthygl 16 o'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig, yn cyd-fynd â'r egwyddor 'y man gosod priodol agosaf'. Mae'r dull hwn yn ei gwneud yn ofynnol i wastraff gael ei waredu neu ei adfer mewn cyfleusterau priodol yn agos at y man lle caiff ei gynhyrchu, er mwyn lleihau'r effeithiau amgylcheddol niweidiol sy'n gysylltiedig â'i gludo. Mae darparu rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff yn y Fro a'r rhanbarth ehangach yn hanfodol i hyn ac i sicrhau hunangynhaliaeth.
- 6.360 Rhaid ystyried yr economi gylchol yng nghyd-destun datblygiad newydd, sy'n anelu at gadw deunyddiau, cynhyrchion a chydannau mewn defnydd cyhyd â phosib. Mae'r dull hwn yn hwyluso arbedion cost ac yn cyd-fynd â'r hierarchaeth wastraff trwy aildddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu deunyddiau.



- 6.361 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi gwastraff fel maes polisi sy'n gofyn am ddull cydgyssylltiedig fel rhan o'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) a rhoddir ystyriaeth i unrhyw dystiolaeth ranbarthol sy'n dod i'r amlwg fel rhan o'r broses o baratoi'r cynllun. Mae NCT 21 yn cydnabod bod Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn darparu asesiad strategol o wastraff, ond bydd angen monitro ar sail ranbarthol. Mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff diweddaraf ar gyfer de-ddwyrain Cymru (Ebrill 2016) yn dod i'r casgliad nad oes angen capasiti tirlenwi ychwanegol yn y ranbarth ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cynghori y dylid asesu'n ofalus unrhyw gynigion newydd ar gyfer trin gwastraff preswyl pellach, i sicrhau nad yw gorddarpariaeth yn digwydd yn y ranbarth. Felly, nid oes angen penodol am gyfleusterau rheoli gwastraff newydd wedi'i nodi ar hyn o bryd ar lefel ranbarthol.
- 6.362 Fel yr Awdurdod Cynllunio Gwastraff, mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i gasglu a gwaredu gwastraff trefol (cartref) ac i gynllunio defnydd tir mewn perthynas â rheoli gwastraff. Mae'r Fro yn aelod o Brosiect Gwyrdd, partneriaeth gyda phedwar awdurdod lleol arall (Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy a Chasnewydd) sydd â chontract hirdymor gyda Viridor Waste Management i drin gwastraff trefol gweddilliol yng nghyfleuster ynni o wastraff, Parc Trident, yng Nghaerdydd. Mae dwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) yn y Fro wedi'u lleoli ar Ystad Fasnachu'r Iwerydd yn y Barri, ac ar Ystad Fasnachu Llandŵ yn Llandŵ.
- 6.363 Mae Ystadau Masnachu'r Iwerydd a Llandŵ, yn ogystal â phorthladd gweithredol Dociau'r Barri, yn cael eu hystyried yn lleoliadau priodol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff mewn adeiladau. Mae Ystad Fasnachu'r Iwerydd wedi gweld datblygiad diweddar o gyfleuster adfer adnoddau, yn ogystal â siop aildddefnyddio ar dir ger y CAGC bresennol. Yn unol â Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff Bro Morgannwg (2022-2032), mae cynigion i ddisodli'r CAGC bresennol yn Llandŵ gyda chyfleuster modern newydd, yn ogystal â datblygu ail siop aildddefnyddio.
- 6.364 Er mwyn darparu rhagor o hyblygrwydd, mae'r polisi hefyd yn nodi safleoedd cyflogaeth 'diwydiannol cyffredinol' Dosbarth B2 a 'storio a dosbarthu' Dosbarth B8, fel lleoliadau a allai fod yn addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ychwanegol mewn adeiladau.
- 6.365 Ar gyfer cyfleusterau awyr agored, mae'r cynllun yn hwyluso eu darpariaeth trwy nodi lleoliadau addas lle gallai cyfleusterau o'r fath fod yn dderbyniol a lle na fyddent yn gwrthdaro â defnyddiau cyfagos.



WA1 - ASESU CYNIGION RHEOLI GWASTRAFF

Development proposals for waste management facilities will be permitted where:

- 1 The proposal is supported by an appropriate waste planning assessment;**
- 2 The proposal has regard to the waste hierarchy and proximity principle;**
- 3 It is demonstrated that the development would not result in unacceptable harm to health, the environment or to the amenity of neighbouring land uses; and**
- 4 Where the principal road network has adequate capacity, or improvements to ensure adequate capacity can be readily and economically provided, to accommodate the transport movements associated with the proposal.**

Proposals for waste management facilities that accord with the locations set out in Policy SP17 will be favoured.

- 6.366 Rhagwelir y bydd ceisiadau yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd. Mae ceisiadau yn debygol o gynnwys gwaredu, prosesu, ailgylchu a throsglwyddo gwastraff.
- 6.367 Mae Polisi WA1 yn nodi meini prawf y caiff yr holl geisiadau ar gyfer trin, prosesu, storio a dosbarthu gwastraff eu hasesu yn eu herbyn, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chyfleusterau rheoli gwastraff newydd ac estyniadau i weithrediadau presennol.
- 6.368 Yn unol â'r polisi cenedlaethol, bydd yn ofynnol i bob cais am gyfleusterau rheoli gwastraff gynnwys Asesiad Cynllunio Gwastraff (ACG). Dylai'r wybodaeth a gynhwysir yn yr ACG fod yn briodol ac yn gymesur â natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig, a chynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Mae rhagor o fanylion ynghylch Asesiadau Cynllunio Gwastraff wedi'u cynnwys yn Atodiad B o NCT 21 (2014).
- 6.369 Fel rhan o'r Asesiad Cynllunio Gwastraff, dylai cynigion ddangos bod y broses drin yn adlewyrchu trefn flaenoriaeth yr hierarchaeth wastraff cyn belled ag y bo modd. Bydd ystyriaeth o'r hierarchaeth yn cael ei gosod yn erbyn yr ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach sy'n berthnasol i'r cynnig. Yn unol â'r polisi cenedlaethol, rhoddir sylw hefyd i'r modd y mae cynigion wedi



ystyried ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion 'Y Man Gosod Priodol Agosaf' a 'Hunangynhaliaeth'.

- 6.370 Bydd angen i gynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ddangos na fyddant yn arwain at niwed annerbyniol i bobl, tir, seilwaith, a'r amgylchedd naturiol. Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ddarparu tystiolaeth ar sut mae gofynion Polisi WA1 wedi'u bodloni, ochr yn ochr â pholisïau perthnasol eraill y Cynllun. Wrth asesu cynigion o'r fath, ymgynghorir â Chyfoeth Naturiol Cymru a chaiff amodau eu gosod ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd a/neu gytundebau cyfreithiol a geisir i sicrhau mesurau diogelwch a rheolaethau amgylcheddol digonol.
- 6.371 Mae Polisi WA1 yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion gael capasiti priffyrdd digonol i ddarparu ar gyfer y symudiadau trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'r datblygiad. Felly, bydd angen sefydlu'r effaith ar y briffordd a, lle y bo'n briodol, efallai y bydd yn ofynnol i ddatblygwyr gynnal Asesiad Trafnidiaeth yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig.

ADNODDAU MWYNOL

- 6.372 Mae cynllunio cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol wneud darpariaeth ar gyfer isafswm banc tir o 10 mlynedd ar gyfer cerrig mâl a 7 mlynedd ar gyfer tywod a graean tir trwy gydol y 15 mlynedd llawn cyfnod cynllun datblygu, ac i hyrwyddo rheoli agregau yn gynaliadwy.

SP18 - DARPARU MWYNAU YN GYNALIADWY

Bydd yr angen lleol a rhanbarthol am ddarparu cyflenwad parhaus o fwynau yn cael ei gyflawni trwy:

- 1 Gynnal o leiaf 10 mlynedd o fanc tir o gerrig mâl trwy gydol cyfnod y cynllun.
- 2 Ffaffio cynigion sy'n hyrwyddo defnydd cynaliadwy o fwynau ac yn annog y defnydd o adnoddau eilaidd ac amgen.
- 3 Diogelu adnoddau hysbys o dywodfaen, calchfaen, tywod a graean (lle mae'r rhain y tu allan i aneddiadau) rhag datblygiad parhaus a fyddai'n eu sterileiddio'n ddiangen neu'n rhwystro eu hechdynnu yn y dyfodol; a
- 4 Diogelu pennau rheilffyrdd i ganiatáu ar gyfer cludo mwynau o bosib trwy ddulliau cynaliadwy a chyfleusterau glanfa ar gyfer glanio tywod a graean morol lle y bo hynny'n briodol.



- 6.373 Cyhoeddwyd yr 2il Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol Mwynau ar gyfer ardal de Cymru, y cyfeirir ato'n gyffredin fel DTRh2, gan Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (GARhD) ym mis Medi 2020. Mae Atodiad B o'r DTRh yn cynnwys argymhellion a chanllawiau penodol ar gyfer pob Awdurdod Cynllunio Lleol.
- 6.374 Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Prif Swyddog Cynllunio Llywodraeth Cymru llythyr Eglurhad Polisi i gywiro gwall rhifyddol o fewn DTRh2. Nododd y llythyr eglurhad mai'r dosraniad ar gyfer Bro Morgannwg yw 17.05 miliwn tonnall o gerrig mât dros 25 mlynedd. Mae banc tir presennol o 18.73 miliwn tonnall o gerrig mât (ar 31 Rhagfyr 2016), y mae'r cyfan ohono'n ymwneud â Chalchfaen Carbonifferaidd. Nid oes dosraniad na banc tir ar gyfer tywod a graean a enillwyd o'r tir. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad, o ystyried yr ychydig o warged o gronfeydd cerrig mât a ganiateir presennol a'r diffyg cynhyrchu tywod a graean ym Mro Morgannwg, nad oes angen nodi unrhyw ddyraniadau pellach yn benodol o fewn y CDLIN.
- 6.375 Mae'r DTRh2 yn ei gwneud yn ofynnol i Ddatganiadau o Gydweithredu Is-ranbarthol (DGIR) gael eu paratoi gan yr holl ACLlau cyfansoddol gyda phob isranbarth DTRh. Mae Bro Morgannwg ynghyd â Phen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn rhan o is-ranbarth Dinas Caerdydd. Mae'r datganiad sefyllfa diweddaraf ar gyfer yr is-ranbarth hwn (Gorffennaf 2022) yn nodi, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau yn y rhanbarth, gan gynnwys Bro Morgannwg, yn gallu bodloni eu dosraniad ar gyfer cerrig mât, mae diffyg o 7.475 miliwn tonnall (Mt) yng Nghaerdydd a fyddai'n gofyn am ddyraniad CDLIN ychwanegol.
- 6.376 Er nad yw'r Lanfa yn Nociau'r Barri wedi cael ei defnyddio ar gyfer glanio tywod a graean morol ers 2005, cydnabyddir bod hwn yn llwybr cyflenwi posib o adnodd tywod a graean i'r rhanbarth. Felly, mae safle'r lanfa wedi'i ddiogelu ar y Map Cynigion a bydd angen i gynigion yn y dyfodol ystyried yr effaith bosib ar lanio tywod a graean morol yn Nociau'r Barri. Nid yw diogelu'r lanfa yn atal ei defnyddio i lanio nwyddau eraill ac nid yw'n effeithio ar hawliau datblygu a ganiateir. Dylid diogelu pennau rheilffyrdd hefyd i ddarparu ar gyfer ystod lawn o opsiynau trafniadaeth gynaliadwy.



MIN1 - DATBLYGIAD MEWN ARDALOEDD DIOGELU MWYNAU

Mae adnoddau mwynol hysbys o dywodfaen, tywod, graean a chalchfaen wedi eu diogelu fel a ddangosir ar y Map Cynigion. Caiff datblygiad newydd ei ganiatáu mewn ardal o adnoddau mwynol hysbys dim ond os dangoswyd yn gyntaf:

- 1 Y gellir echdynnu unrhyw gronfeydd mwynau yn economaidd cyn dechrau'r datblygiad; neu
- 2 Byddai echdynnu yn cael effaith annerbyniol ar ystyriaethau amgylcheddol neu amwynderol; neu
- 3 Ni fyddai gan y datblygiad unrhyw effaith arwyddocaol ar y posibilrwydd o weithio'r adnodd oherwydd ei natur neu ei faint; neu
- 4 Mae'r adnodd dan sylw o ansawdd neu o faint gwael.

- 6.377 Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, mae'r CDLIN yn diogelu adnoddau mwynol cyfyngedig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u nodi ar y Map Cynigion ac maent wedi'u diogelu rhag datblygiad parhaol a allai sterileiddio neu rwystro eu hechdynnu yn y dyfodol. Ni ddylai nodi'r ardaloedd hyn ar y Map Cynigion awgrymu y bydd yr ardaloedd hyn byth yn cael eu gweithio, a dylid nodi hefyd nad yw eu nodi yn rhoi unrhyw ganiatâd/ddyraniad ar gyfer echdynnu yn y dyfodol.
- 6.378 Dylid ystyried y rheswm dros yr ardal a ddiogelir (h.y. budd hirdymor posib yr adnodd dan sylw) mewn perthynas â'r angen am ddatblygiad ac unrhyw ddadleuon economaidd byrdymor.
- 6.379 Yn ogystal, bydd cynigion datblygu ar raddfa fach, er enghraifft mewnlenni cyfyngedig, datblygiad gan ddeiliaid tai neu ddatblygiad amaethyddol, yn aml yn cael eu caniatáu o fewn ardaloedd a ddiogelir, er y bydd gofyn iddynt yn gyntaf ddangos na fyddent yn peryglu ecsploetio'r adnodd a ddiogelir yn y dyfodol.
- 6.380 Ceir rhagor o fanylion am weithredu'r Polisi yng Nghanllaw Cynllunio Atodol Diogelu Mwynau y Cyngor.

MIN2 - PARTHAU CLUSTOGI CHWARELI

Mae parthau clustogi wedi'u nodi o gwmpas safleoedd gweithio mwynau. O fewn y parthau clustogi a nodwyd, caniateir cynigion ar gyfer datblygiad newydd dim ond pan ddangosir:



- 1 Na fyddai'r cynnig yn cyfyngu ar weithrediadau'r safle mwynau; neu**
- 2 Mae'r cynnig o fewn ardal adeiledig bresennol sydd eisoes yn tresmasu i'r parth clustogi.**

- 6.381 Mae gweithrediad gweithfeydd mwynau yn aml yn gwrthdaro â defnyddiau tir eraill a gall effeithiau fel sŵn, llwch a dirgryniad effeithio'n sylweddol ar amwynderau lleol. Yn yr un modd, gall datblygiad ger gweithfeydd mwynau gyfyngu'n ddifrifol ar allu adnoddau mwynol i gael eu gweithio. Er mwyn darparu ardaloedd o amddiffyniad o gwmpas gweithfeydd mwynau, mae parthau clustogi wedi'u nodi i leihau'r gwrthdaro rhwng y gweithrediad mwynau a defnyddiau tir sensitif eraill fel ardaloedd preswyl, ysbytai ac ysgolion. O fewn y parth clustogi, ni ddylai fod echdynnu mwynau newydd na datblygiad sensitif newydd, ac eithrio lle byddai safle'r datblygiad newydd wedi'i leoli o fewn ardal adeiledig bresennol sydd eisoes yn tresmasu i'r parth clustogi. Gall datblygiadau llai sensitif eraill fel diwydiant neu gyflogaeth fod yn dderbyniol lle gellir dangos na fyddai cynigion o'r fath yn cael effaith annerbyniol ar weithrediadau'r gwaith mwynau.
- 6.382 Yn unol â NCTM1, mae'r parthau clustogi ar gyfer chwareli creigiau caled wedi'u diffinio gan ffin pellter o 200 metr o'r safle mwynau ac fe'u dangosir ar y Map Cynigion. Yn unol â hynny, pan fo cais am estyniad i chwarel, ystyrir fel arfer bod parth clustogi'r chwarel yn ymestyn 200m o ffin yr estyniad, oni bai bod cyfiawnhad fel arall wedi'i roi fel rhan o ystyriaeth y cynnig hwnnw.

MIN3 - SAFLEOEDD MWYNAU SEGUR

Bydd y Cyngor yn atal echdynnu mwynau pellach ar safleoedd mwynau segur drwy gyflwyno gorchmynion gwahardd ar y safleoedd mwynau canlynol lle mae'n fodlon bod ailddechrau ennill a gweithio mwynau neu ddyddodi gwastraff mwynau i unrhyw raddau sylweddol yn annhebygol:

- 1 Chwarel Beaupre (Long Grove), Saint Hilari;**
- 2 Chwarel Cnap Twt, Castell Alun.**
- 3 Chwarel Cosmeston, Penarth;**
- 4 Chwarel Cross Common, Dinas Powys;**
- 5 Chwarel Downswood, Penarth;**
- 6 Gwaith Brics Trelái (rhennir y safle â Chaerdydd);**
- 7 Chwarel Larnog;**
- 8 Chwarel Saint Andras, Saint Andras;**
- 9 Chwarel Southerndown Road.**



Gan fod y cronfeydd segur yn Argoed Isha, Llansanwyr wedi eu hasesu fel rhai sydd â photensial i gael eu hailweithio yn y dyfodol, ni fydd y Cyngor yn ceisio cyflwyno gorchymyn gwahardd ar y safle hwn.

- 6.383 Yn ogystal â safleoedd chwareli gweithredol, ceir sawl safle mwynau anweithredol a segur ers amser maith ym Mro Morgannwg lle na fu gweithio mwynau am gyfnod o fwy na 10 mlynedd. Mae'r rhain i'w gweld ar y Map Cynigion.
- 6.384 Mae llawer o'r safleoedd wedi adfywio'n naturiol, wedi cael eu rhoi i ddefnyddiau amgen neu wedi'u cyfyngu gan ddatblygiad cyfagos. Er enghraifft, llenwodd Chwarel Cosmeston â dŵr i ddyfnder o fwy nag 20 metr pan ddaeth chwarela i ben yn y 1960au ac ers hynny mae wedi cael ei hymgorffori ym Mharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston; mae Chwarel Larnog a Chwarel Southerndown Road wedi cael eu defnyddio fel safleoedd gwaredu gwastraff; ac mae Gwaith Brics Trelái (a rennir â Chaerdydd) wedi cael ei orchuddio i raddau helaeth gan Ffordd Gyswllt Trelái.
- 6.385 Bydd y Cyngor yn ceisio atal echdynnu adnoddau pellach ar y safleoedd a restrir ym Mholisi MIN3 er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â'u gwaith yn y dyfodol, a bydd yn ceisio sicrhau bod gwaith adfer yn cael ei wneud lle y bo hynny'n briodol, fodd bynnag, cydnabyddir bod y mwyafrif o'r chwareli a restrir eisoes wedi adfywio'n naturiol neu'n cael eu defnyddio mewn ffyrdd amgen a fydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn negyddu'r angen am unrhyw waith adfer pellach. Bydd adfer ac ôl-dddefnyddio felly yn dibynnu yn bennaf ar adfywio naturiol at ddibenion cadwraeth natur/ecolegol.
- 6.386 Ystyrir y gellid ailweithio'r cronfeydd yn Chwarel Argoed Isha, Llansanwyr, yn y dyfodol yn amodol ar gymeradwyo cynllun gweithfeydd newydd.
- 6.387 SoDdGA daearegol yw'r chwarel yng Nghnap Twt, Castell Alun. Mae adran 28G o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i "gymryd camau rhesymol, yn gyson ag arfer swyddogaethau'r Awdurdod yn briodol, i ddatblygu ymhellach y broses o warchod a chyfoethogi'r fflora, ffawna neu'r nodweddion daearegol neu ffisiograffig am fod y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig." Gan fod nodweddion o ddiddordeb y safle yn wyneb y graig, ystyrir na ddylid gwneud unrhyw waith adfer oni bai a hyd nes y bydd cynigion o'r fath wedi'u cymeradwyo gan Gyfoeth Naturiol Cymru.



MIN4 – GWEITHIO MWYNAU CYNALIADWY

Bydd cynigion sy'n blaenoriaethu'r defnydd o ddeunydd wedi'i ailgylchu ac agregau eilaidd cyn datblygu ffynonellau newydd o ddeunyddiau sylfaenol yn cael eu ffafrio lle nad yw hyn yn cael effaith annerbyniol ar amwynder na'r amgylchedd.

Dim ond pan fo angen cenedlaethol, rhanbarthol neu leol profedig am y mwynau y caniateir cynigion ar gyfer echdynnu mwynau gwreiddiol newydd a lle:

- 1 Mae unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd naturiol yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru i lefel dderbyniol, ac mae'r cynigion yn cynnwys, lle y bo hynny'n briodol, mesurau i gyfoethogi'r amgylchedd naturiol.
- 2 Dim ond lle byddai unrhyw effeithiau andwyol ar dreftadaeth adeiledig a diwylliannol yn cael eu lliniaru i lefel dderbyniol, a'u gwella lle bynnag y bo modd, y byddai'r datblygiad yn dderbyniol.
- 3 Nid yw effeithiau ar amwynder trigolion a chymunedau lleol yn annerbyniol o ran sŵn, iechyd, ansawdd aer, dirgryniad, effaith weledol, darpariaeth mynediad a thraffig.
- 4 Mae effeithiau ar ddaear, hydroleg a hydroddaeareg, gan gynnwys sefydlogrwydd tir a chyflenwadau dŵr, yn dderbyniol.
- 5 Mae tystiolaeth glir na fydd unrhyw golled annerbyniol o dir amaethyddol o DTA gradd 1, 2, a 3a.
- 6 Mae mwynau yn cael eu cludo drwy'r dulliau mwyaf cynaliadwy, ac mae'r potensial i gludo mwynau drwy ddulliau heblaw ar y ffordd wedi'i asesu'n ddigonol.
- 7 Mae darpariaeth ar gyfer adfer y tir yn raddol ac yn derfynol i safon uchel ac i ôl-ddefnydd buddiol a chynaliadwy, gan gynnwys rheoli hirdymor ar ôl cau; a
- 8 Phan ystyriwyd cyfleoedd ar gyfer aildddefnyddio ac ailgylchu gwastraff mwynol, a lle nad oes unrhyw ddeunyddiau amgen ymarferol y gellir eu darparu ar lai o gost i'r amgylchedd.

- 6.388 Bydd Polisi MIN4 yn berthnasol i weithfeydd newydd, estyniadau i weithfeydd presennol, ac wrth ailweithio neu ailagor hen weithfeydd, a bydd yn cael ei ddefnyddio i ystyried ceisiadau ar gyfer gweithio pob math o fwynau.



- 6.389 O ystyried y banc tir presennol o gronfeydd y mae ganddynt ganiatâd cynllunio mewn safleoedd gwaith mwynau presennol ym Mro Morgannwg, nid oes gofyn i'r Cynllun ddyrannu ardaloedd ychwanegol ar gyfer echdynnu calchfaen. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall banc tir cronfeydd newid dros oes y CDLIN. Roedd gwerthiannau cerrig mâl ym Mro Morgannwg yn fwy na'r ffigur dosrannu blynyddol ar gyfer 2022, fodd bynnag, yng nghyd-destun de Cymru yn gyffredinol, roedd gwerthiannau oddeutu 63% o gyfanswm y dosraniad blynyddol a gyfrifwyd ar gyfer y rhanbarth. Cynyddodd gwerthiannau cerrig mâl yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru gan 310,000 tonnall rhwng 2020 a 2021 ond yna gostyngodd gan 190,000 tonnall rhwng 2021 a 2022. Er nad oes ffigur unigol ar gyfer Bro Morgannwg ar gael oherwydd cyfrinachedd masnachol, dangosodd ffigurau cyfunol ar gyfer Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg ostyngiad o 360,000 tonnall mewn gwerthiannau rhwng 2021 a 2022. Os bydd lefelau allbwn yn dychwelyd i'r lefelau blaenorol a bod y banc tir yn cael ei ddisbyddu'n gyflymach nag a ragwelwyd, mae'r polisi hwn yn caniatáu i'r Cynllun ymateb i newidiadau o'r fath mewn amgylchiadau dros gyfnod y Cynllun ac yn darparu fframwaith ar gyfer ystyried cynigion ar gyfer safleoedd gweithio mwynau newydd neu estynedig.
- 6.390 Bydd cynigion sy'n blaenoriaethu'r defnydd o ddeunydd wedi'i ailgylchu ac agregau eilaidd cyn datblygu ffynonellau newydd o ddeunyddiau sylfaenol yn cael eu ffafrio. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen newid patrwm cyflenwi mwynau o ffynonellau sylfaenol i ddewisiadau amgen mwy cynaliadwy, ac y byddai gorddarparu deunydd sylfaenol o ganlyniad i ganiatâd i geisiadau sy'n bodoli, a rhoi caniatâd i geisiadau newydd, yn annog defnydd anghynaliadwy o adnoddau. Felly, dim ond pan ellir dangos nad oes unrhyw ddeunydd amgen ymarferol y gellir ei ddarparu ar lai o gost amgylcheddol, a phan fo diffyg wedi'i nodi mewn cronfeydd y gellir ei gyfiawnhau, y caniateir echdynnu mwynau gwreiddiol newydd yn ogystal â banc tir y cronfeydd a ganiateir fel arfer (NCTM1 Paragraff 34). Er mwyn sicrhau bod aflonyddwch ar y tir yn cael ei gadw i'r lleiafswm, bydd disgwyl datblygiad graddol ac adfer graddol lle bynnag y bo modd, er y cydnabyddir y gall cyfleoedd fod yn gyfyngedig ar gyfer gweithrediadau creigiau caled gyda hyd oes hir.
- 6.391 Pan fo tir y tu allan i ffin anheddiad diffiniedig yn cael ei ddyrannu at ddefnydd newydd neu ei warchod at ei ddefnydd presennol, fel sy'n digwydd gyda nifer o safleoedd cyflogaeth ar draws y Fro, nid yw'r rhain yn cael eu hystyried yn gefn gwlad at ddibenion y polisi hwn. Bydd darparu cyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth priodol, safleoedd gwaith mwynau, tir diffaith neu gyfadeiladau fferm adfeiliedig, fel y nodir ym Mholisi SP17, hefyd yn dderbyniol mewn egwyddor.



SEILWAITH GWYRDD

- 6.392 Mae seilwaith gwyrdd (SG) yn rhwydwaith o fannau gwyrdd amlswyddogaeth, trefol a gwledig, a all ddarparu ystod eang o fuddion amgylcheddol ac ansawdd byw i gymunedau lleol. Nid term arall ar gyfer man agored confensiynol yw SG. Mae'n cynnwys parciau, mannau agored, caeau chwarae, coetiroedd, ond hefyd coed stryd, rhandiroedd, gerddi preifat, toeau a waliau gwyrdd, systemau draenio cynaliadwy (SDCau) a phriddoedd. Mae hefyd yn cynnwys afonydd, nentydd, camlesi a chyrrff dŵr eraill, a elwir weithiau'n 'seilwaith glas'. Mae SG yn helpu i gefnogi bioamrywiaeth ac yn gwneud cyfraniad pwysig at ansawdd yr amgylchedd, ac mae ganddo rôl bwysig i'w chwarae o bosib wrth liniaru effeithiau digwyddiadau tywydd eithafol, yn enwedig tywydd poeth estynedig. Mae mynediad at fannau gwyrdd deniadol, sydd wedi'u cynnal yn dda fel parciau a gerddi, parciau gwledig ac ardaloedd bywyd gwyllt, yn cefnogi iechyd a lles corfforol a meddyliol.

SP19 - SEILWAITH GWYRDD

Bydd cynigion datblygu yn ymgorffori mesurau sy'n diogelu ac yn gwella darpariaeth seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol o ansawdd uchel. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i gynigion datblygu:

- 1 Ymgorffori seilwaith gwyrdd presennol yn y broses ddylunio, gan fanteisio ar gyfleoedd a gyflwynir gan asedau presennol a darpar asedau, trwy ddilyn egwyddorion creu lleoedd.**
- 2 Diogelu a gwella cysylltedd rhwng asedau seilwaith gwyrdd presennol.**
- 3 Cyflawni budd net bioamrywiaeth drwy ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys y Safonau Adeiladu â Natur, lle y bo hynny'n bosib;**
- 4 Diogelu tirweddau sydd wedi'u dynodi ar gyfer eu harwyddocâd daearegol, naturiol, gweledol, hanesyddol neu ddiwylliannol;**
- 5 Darparu mannau agored, gan gynnwys mannau chwarae, mannau gwyrdd amwynder a mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol;**
- 6 Hwyluso amgylcheddau sy'n hyrwyddo iechyd a lles meddyliol a chorfforol;**
- 7 Darparu oeri a chysgodi trefol;**
- 8 Integreiddio darpariaeth seilwaith gwyrdd â systemau draenio cynaliadwy; a**



SP19 - SEILWAITH GWYRDD

9 Chefnogi'r ddarpariaeth o fannau tyfu cymunedol gan gynnwys rhandiroedd a pherllannau cymunedol.

- 6.393 Mae'r amrywiaeth eang o dirweddau naturiol, cynefinoedd bioamrywiaeth, mannau gwyrdd, ardaloedd arfordirol a gwledig, ochr yn ochr â'r rhwydwaith o lwybrau troed a llwybrau ceffylau yn yr ardal yn cael ei ystyried fel un o'r rhesymau pam mae'r Fro yn lle mor ddeniadol i fyw ynddo ac ymweld ag ef.
- 6.394 Mae sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chyfoethogi, gwytnwch ecosystemau, a gwneud yn fawr o'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd yn hanfodol wrth ymateb i'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur a ddatganwyd. Mae Polisi SP19 yn ceisio nodi lle y dylai cynigion datblygu ddiogelu, gwella a chynnal seilwaith gwyrdd presennol, a sicrhau bod darpariaeth seilwaith gwyrdd ar draws Bro Morgannwg yn gyfannol, ac yn darparu manteision lluosog ar draws ystod eang o swyddogaethau.
- 6.395 Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG) wedi'i gwblhau i hwyluso dull cadarn a rhagweithiol o wella bioamrywiaeth, cynyddu gwytnwch ecolegol a gwella canlyniadau lles. Mae'r asesiad yn nodi cyfleoedd strategol allweddol lle gallai adfer, cynnal a chadw, creu a chysylltu nodweddion a swyddogaethau gwyrdd ddarparu'r manteision mwyaf arwyddocaol. Mae'r ASG wedi llywio'r gwaith o uwchgynllunio'r dyraniadau Safle Allweddol (cyfeirir at HG1 KS).
- 6.396 Dylid ystyried y polisi hwn ochr yn ochr â SP20 ar Fioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau, sy'n gofyn i ddatblygiadau ddarparu budd bioamrywiaeth net ar y safle, diogelu nodweddion presennol a mwy o gysylltedd ar y safle. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gadw coridorau bywyd gwyllt presennol a hwyluso cysylltiadau newydd trwy fanteisio ar gyfleoedd safle-benodol. Wrth nodi cyfleoedd, mae safle a'i gyd-destun o'i gwmpas yn ystyriaethau allweddol, ochr yn ochr â'r ASG.
- 6.397 Mae darparu mannau gwyrdd amlswyddogaethol yn rhan annatod o ddarparu seilwaith gwyrdd cyfannol. Dylai darparu seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol greu mannau cydlynol sydd: yn caniatáu hamdden ac ymlacio; hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol; hwyluso cyfleoedd dysgu; cefnogi cysylltedd a chynefin bywyd gwyllt; rheoli adnoddau dŵr; lliniaru ac addasu i newid hinsawdd; gwella cynhyrchu bwyd lleol; a chefnogi treftadaeth a diwylliant. Gall hefyd chwarae rhan bwysig wrth ddenu twf economaidd a buddsoddiad, cynyddu buddion tir ac eiddo, hyrwyddo twristiaeth, a chynyddu cynhyrchiant busnes.
- 6.398 Gall atebion sy'n seiliedig ar natur fod yn offeryn gwerthfawr wrth greu datblygiadau cynaliadwy a gwydn. Gall integreiddio nodweddion megis plannu coed, tirlunio a



mannau gwyrdd naturiol hygyrch, wneud cyfraniad sylweddol at ddarparu seilwaith gwyrdd, cefnogi bioamrywiaeth, lliniaru effeithiau newid hinsawdd a chyfrannu at greu cymunedau mwy cynaliadwy ac sy'n braf byw ynddynt. Yn ogystal, bydd angen i ddatblygiadau newydd ddarparu cynlluniau SDCau, a dylid integreiddio'r rhain â nodweddion seilwaith gwyrdd eraill.

- 6.399 Mae Adeiladu gyda Safonau Natur¹⁶ yn darparu fframwaith o safonau arfer gorau sydd, at ei gilydd, yn diffinio meincnod o seilwaith gwyrdd da a sut i'w gyflawni. Mae'r safonau hyn yn darparu meincnod o arfer da a dylid eu cymhwyso i bob datblygiad fel rhestr wirio ansawdd, mewn ffordd sy'n gymesur â natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig.
- 6.400 Wrth ddarparu seilwaith gwyrdd newydd a gwell, mae'n hanfodol cydlynu darpariaeth seilwaith, fel bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn paratoi Cynllun Seilwaith Gwyrdd, a fydd yn nodi'r asedau seilwaith gwyrdd, a'r gwahanol bartneriaid sy'n ymwneud â darparu mannau gwyrdd. Bydd yn cynnwys gweledigaeth, tystiolaeth gefndir, argymhellion, a chynllun gweithredu.
- 6.401 Bydd datblygiad yn cael ei gyfeirio i ffwrdd o ardaloedd sydd â gwerth ecolegol uchel, a bydd cyfyngiadau i ble y gall twf ddigwydd. Ni ddylid ystyried SG ac yn enwedig ardaloedd o werth ecolegol uchel yn unig fel terfynau sy'n cyfyngu ar dwf. Yn hytrach, dylid ei ystyried fel ased seilwaith a all dyfu ei hun, gyda'r bwriad o gyflymu adferiad natur. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy fanteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan seilwaith gwyrdd presennol, a cheisio dylanwadu ar dirfeddianwyr i'w reoli'n strategol gyda gwell darpariaeth mewn golwg. Bydd yr ardaloedd o werth ecolegol uchel a nodwyd yn y CDLI Newydd yn sail i hyn, a dylid blaenoriaethu tir sy'n agos at y rhain er mwyn gwneud yn fawr o'r ddarpariaeth, yn unol â Strategaeth SG y Cyngor.

CADWRAETH NATUR A BIOAMRYWIAETH

- 6.402 Mae bioamrywiaeth gyfoethog ac amrywiol Bro Morgannwg yn cefnogi ystod eang o gynefinoedd a rhywogaethau bywyd gwyllt sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw ac ymdeimlad o le. Mae'r asedau hyn yn cynnwys safleoedd ac ardaloedd o bwysigrwydd Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol, yn ogystal â thirweddau pwysig, coetiroedd ac arfordir helaeth sy'n cynnwys Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

¹⁶ <https://www.buildingwithnature.org.uk/>



SP20 - BIOAMRYWIAETH A GWYDNWCH ECOSYSTEMAU

Bydd bioamrywiaeth ym Mro Morgannwg yn cael ei gwarchod, ei chynnal a'i chyfoethogi. Rhaid i bob cynnig datblygu ddangos sut y byddant yn cyfrannu at gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth, a gwytnwch a chysylltedd ecosystemau. Rhaid i gynigion ar gyfer datblygiad newydd:

- 1 Osgoi ardaloedd o werth ecolegol uchel.
- 2 Cynnwys arolwg ecolegol ac asesiad o effeithiau tebygol y cynnig ar fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau'r safle datblygu. Mae'n rhaid i'r arolwg a'r asesiad fod yn gymesur â natur a graddfa gwerth ecolegol y safle a natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig.
- 3 Dangos drwy gymhwyso'r dull fesul cam y bu budd net cyffredinol i fioamrywiaeth yn gymesur â natur a graddfa'r datblygiad.
- 4 Sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir yn rhyngwladol ac yn y DU yn cael eu gwarchod yn unol â gofynion statudol.
- 5 Diogelu cyfanrwydd safleoedd dynodedig lleol a rhanbarthol anstatudol gan sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u rheoli'n briodol.
- 6 Ymgorffori seilwaith gwyrdd presennol yn y camau dylunio cynnar, sy'n diogelu ac yn gwella nodweddion presennol y safle ac yn gwella cysylltedd y rhwydwaith ecolegol.
- 7 Eu bod wedi'u cynllunio i osgoi cyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol a, lle y bo angen, cynnwys cynigion i ddileu, lleihau a lliniaru effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau. Cynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur yn y datblygiad i gefnogi bioamrywiaeth ac adeiladu gwydnwch ecosystemau o fewn y safle a'r ardal ehangach.
- 8 Gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal a chadw a rheoli buddiannau cadwraeth natur presennol a newydd eu creu, yn gymesur â natur a graddfa'r datblygiad.

Pan ystyrir bod datblygiad yn briodol ac nad yw darparu atebion sy'n seiliedig ar natur ar y safle yn ymarferol neu'n ddigonol, defnyddir rhwymedigaethau a/neu amodau cynllunio i sicrhau a chynnal cynefinoedd a mesurau cyfadferol oddi ar y safle sy'n gysylltiedig yn swyddogaethol â'r asedau o fewn y safle, ac sy'n cyfrannu at y blaenoriaethau adfer natur lleol ehangach.



SP20 - BIOAMRYWIAETH A GWYDNWCH ECOSYSTEMAU

Dim ond pan y gellir dangos bod yr angen am y datblygiad yn drech na bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau neu bwysigrwydd daearegol y safle y caniateir datblygu ar safleoedd anstatudol rhanbarthol neu leol eraill neu goridorau bywyd gwyllt sydd â gwerth bioamrywiaeth, neu ddatblygu sy'n effeithio'n andwyol arnynt, ac y gellir dangos na ellir lleoli'r datblygiad yn rhesymol mewn man arall.

- 6.403 Mae Polisi SP20 Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau yn cydnabod pwysigrwydd asedau naturiol Bro Morgannwg, ac yn ceisio sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod, eu cynnal a'u gwella nid yn unig am eu gwerth cadwraeth natur cynhenid, ond hefyd ar gyfer y manteision cymdeithasol, economaidd a chymunedol ehangach y maent yn eu darparu.
- 6.404 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau well (Dyletswydd Adran 6) ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd hon yn gofyn bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru wrth arfer eu swyddogaethau geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth drwy sicrhau nad yw datblygiad yn achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau rhywogaethau, a rhaid iddynt ddarparu budd net i fioamrywiaeth a gwell gwytnwch ecosystemau.
- 6.405 Felly, bydd angen i ddatblygu ddangos y gellir cyflawni budd net i fioamrywiaeth. Gellir cyflawni budd net ar gyfer bioamrywiaeth drwy ystod o gamau gweithredu sy'n amrywio o greu cynefinoedd a/neu drefniadau rheoli hirdymor sy'n cyfoethogi cynefinoedd diraddiedig presennol, neu gynefinoedd lled-naturiol, a gwella gwytnwch ecosystemau. Rhaid i fanteision fod yn hirdymor, yn fesuradwy, yn ddangosadwy, ac yn bennaf ar y safle. Dylid cyflawni gwelliannau bioamrywiaeth yn dilyn y dull fesul cam o osgoi yn gyntaf, yna lleihau, gyda lliniaru fel dewis olaf ar gyfer gwneud iawn am unrhyw effaith negyddol. Lle nad yw'n bosib cyflawni lliniaru a gwella ar y safle, rhaid cyfadfer oddi ar y safle i sicrhau budd net bioamrywiaeth.
- 6.406 Mae rhwydweithiau o gynefinoedd naturiol a seilwaith gwyrdd yn darparu adnodd ecolegol gwerthfawr. Maent yn cysylltu safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth ac yn darparu cerrig camu ar gyfer mudo, gwasgaru a chyfnwied genetig rhywogaethau o fewn yr amgylchedd ehangach. Er mwyn osgoi darnio ac ynysu cynefinoedd naturiol, mae'n hanfodol bod rhwydweithiau o'r fath yn cael eu diogelu rhag datblygiad amhriodol a, lle y bo'n bosib, eu cyfoethogi. Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd y Cyngor yn nodi'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd ym Mro Morgannwg ac



mae'n cynnwys gweledigaeth, argymhellion a chynllun gweithredu ar sut y gellir ymestyn a gwella seilwaith gwyrdd yn y Fro.

- 6.407 Gall dyluniad sensitif a dewis lleoliad datblygiad newydd gael effaith gadarnhaol ar dreftadaeth adeiledig a naturiol y Fro. Yn yr un modd, bydd angen i ddatblygiadau newydd leihau eu heffaith ar systemau naturiol, tirweddau, rhywogaethau a chynefinoedd a, lle y bo'n briodol, roi cyfleoedd i greu cynefinoedd newydd neu wella cynefinoedd mewn ffordd sensitif. Dylid ystyried Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) Partneriaeth Natur y Fro ac unrhyw gyfleoedd sy'n bodoli i gefnogi'r camau gweithredu a nodwyd.
- 6.408 Pan fo angen cynllun rheoli, dylai hyn nodi'r cynigion rheoli ar unwaith a pharhaus ar gyfer y safle, y trefniadau monitro yn y dyfodol a'r dulliau cyllido sydd ar gael i gyflawni amcanion y cynllun rheoli. Dylai'r cynllun gynnwys manylion yr amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau budd net i fioamrywiaeth o fewn amserlen mor fyr â phosib.
- 6.409 Mae Rhywogaethau Estron Goresgynnol (RhEG) yn anifeiliaid, planhigion estron neu organebau eraill a all ledaenu ac achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi ac iechyd. Rhaid i gynigion datblygu gael eu cynllunio a'u rhoi ar waith i osgoi lledaenu neu gyflwyno RhEG, a phan gwyddys bod RhEG yn bodoli neu yr amheuir eu bod yn bresennol ar safle, rhaid i geisiadau cynllunio gynnwys arolwg ac asesiad risg a gynhaliwyd gan weithiwr proffesiynol cymwys sy'n darparu manylion am sut y bydd y RhEG yn cael eu rheoli, eu dileu neu eu cyfyngu yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu.
- 6.410 Cefnogir Polisi SP20 gan SP13 Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio a SP19 Seilwaith Gwyrdd. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad newydd ddarparu seilwaith cymunedol newydd gan gynnwys Seilwaith Gwyrdd a nodweddion sy'n cefnogi budd bioamrywiaeth net ac i ymgorffori Seilwaith Gwyrdd yn y drefn honno.
- 6.411 Mae rhai ardaloedd yn nwyrain Bro Morgannwg o fewn 300m i AGA/Ramsar Aber Afon Hafren, y pellter y mae effeithiau aflonyddwch gweledol a sŵn sylweddol i adar cymwys yn debygol o ddigwydd. Fel yr argymhellwyd gan Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, er mwyn lleihau'r potensial ar gyfer aflonyddwch gweledol a sŵn, dylid cynnal unrhyw waith adeiladu ar safleoedd newydd o fewn 300m i AGA/Ramsar Aber Afon Hafren yn ystod misoedd yr haf, pan na fydd poblogaethau cymwys yn y safle yn bresennol. Os na ellir amseru hyn i osgoi'r tymor di-fridio, bydd angen cynnal asesiadau effaith sŵn i sicrhau na fydd lefelau sŵn mewn derbynyddion sensitif yn aflonyddgar. Bydd angen sgrinio priodol ar gyfer gwaith adeiladu o fewn 300m i unrhyw glwydfannau llanw uchel sefydledig neu ardaloedd chwilota bwyd allweddol o fewn neu y tu allan i'r



AGA/Ramsar. Os ystyrir bod y cynefinoedd presennol yn addas, dylid cynnal arolygon adar nad ydynt yn bridio o barseli tir cyfagos heb eu datblygu i sefydlu a yw'r rhain yn gysylltiedig yn swyddogaethol â'r AGA/Ramsar ac os deuir i'r casgliad mai dyna'r achos, dylai mesurau lliniaru hefyd fod yn berthnasol i'r ardaloedd hyn.

ARDALOEDD TIRWEDD ARBENNIG

DNP1 - ARDALOEDD TIRWEDD ARBENNIG

Mae'r ardaloedd canlynol wedi'u dynodi'n Ardaloedd Tirwedd Arbennig:

- 1 Castell Alun;
- 2 Dyffryn Ddawan Uchaf ac Isaf;
- 3 Dyffryn Elái a llethrau'r grib;
- 4 Nant Llancarfan;
- 5 Basn Dyffryn a llethrau'r grib;
- 6 Basn Cwrt-yr-Ala.

O fewn yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig a nodwyd uchod, caniateir cynigion datblygu lle dangosir na fyddent yn achosi unrhyw niwed annerbyniol i gymeriad tirwedd pwysig yr ardal.

- 6.412 Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) wedi'u dynodi i warchod ardaloedd ym Mro Morgannwg sy'n bwysig oherwydd eu harwyddocâd daearegol, naturiol, gweledol, hanesyddol neu ddiwylliannol.¹⁷ Mae'r ardaloedd hyn wedi'u nodi drwy ddefnyddio methodoleg a ddyfeisiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru gynt (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) mewn cydweithrediad â chonsortium o awdurdodau lleol yn ne-ddwyrain Cymru¹⁸, sy'n defnyddio data LANDMAP. Mae'r broses yn caniatáu i wybodaeth am y dirwedd gael ei chasglu, ei threfnu a'i gwerthuso i set ddata genedlaethol gyson, o ran ansawdd.
- 6.413 Mae manylion yr ATAau a nodwyd wedi'u cynnwys ym Mhapur Cefndir Dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig Bro Morgannwg.

¹⁷ Dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig (Ebrill 2008) RhGLIT

¹⁸ Datblygu Meini Prawf ar gyfer Dynodi Ardal Tirwedd Arbennig ar gyfer Awdurdodau Lleol De-ddwyrain Cymru (Gorffennaf 2007)



- 6.414 Nid yw dynodi ATAau o angenrheidrwydd yn atal datblygu ond yn hytrach, sicrhau, lle mae datblygiad yn cael ei dderbyn, bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i elfennau dylunio'r cynnig megis y safle, cyfeiriadaeth, cynllun, a thirwedd, er mwyn sicrhau bod y rhinweddau a'r nodweddion arbennig y mae'r ATAau wedi'u dynodi ar eu cyfer yn cael eu diogelu.
- 6.415 Bydd angen i gynigion datblygu o fewn ATAau ystyried yn llawn effaith y cynnig ar y CLG drwy gyflwyno Asesiad Effeithiau Tirwedd a Gweledol (AETG). Bydd angen i AETG ar gyfer unrhyw ddatblygiad sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gymeriad tirwedd neu gael effaith weledol sylweddol o fewn y dirwedd ehangach (yn rhinwedd ei faint neu amlygrwydd neu effaith ar yr ardal) a bydd yn cael ei baratoi yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol. Lle y bo'n berthnasol, dylai hyn ffurfio elfen allweddol o ddatganiad dylunio a mynediad cais cynllunio, a dylai ddangos bod y cynnig wedi'i gynllunio i gael gwared ar neu leihau unrhyw effeithiau annerbyniol ar y rhinweddau y mae'r ATA wedi'i dynodi ar eu cyfer. Dylid ystyried unrhyw effeithiau cronol y gall y cynnig eu cael mewn perthynas â chynigion presennol neu arfaethedig yn yr ardal hefyd. Mae hyn yn arbennig o wir am dyrbinau gwynt neu adeileddau mawr a chynigion ar raddfa fawr fel ffermydd solar. Dylai'r lefel o fanylder sy'n ofynnol ym mhob asesiad effaith tirwedd fod yn gymesur â graddfa'r cynnig.

LLETMAU GLAS

DNP2 – LLETMAU GLAS

Nodwyd lletemau glas i atal aneddiadau rhag ymdoddi i'w gilydd, ac i gadw tir yn agored yn y lleoliadau canlynol:

- 1 Rhwng Dinas Powys, Penarth a Llandochau;**
- 2 I'r gogledd-orllewin o Sili;**
- 3 I'r gogledd o Wenfô;**
- 4 Rhwng y Barri a'r Rhws;**
- 5 De Penarth i Sili; a**
- 6 Rhwng Llanilltud Fawr a Llan-faes.**

Yn yr ardaloedd hyn, ni chaniateir datblygiadau sy'n cyfaddawdu natur agored y tir.



- 6.416 Mae tir ar y cyrion trefol, yn enwedig o gwmpas yr Aneddiadau Allweddol, Gwasanaeth a Phrif Aneddiadau ym Mharth y De-ddwyrain, yn agored i ddatblygiadau tybiannol sy'n gallu gwneud y ffiniau rhwng ymylon aneddiadau a chefn gwlad agored yn annelwig. Os na chaiff ei atal, byddai'r datblygiad hwn yn arwain at golli tir agored yn raddol ac, yn y pen draw, at aneddiadau'n ymdoddi i'w gilydd gan effeithio'n andwyol ar amaethyddiaeth, y dirwedd a gwerth amwynder y tir.
- 6.417 Wrth i bolisiâu eraill y CDLI geisio atal datblygiad amhriodol yng nghefn gwlad agored, ystyrir bod yr ardaloedd a ddiffinnir gan y lletemau glas yn fwy agored i niwed, ac yn agored i newid, ac angen amddiffyniad ychwanegol. Felly, o fewn yr ardaloedd a ddiffinnir gan y lletemau glas bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol ¹⁹a fyddai'n cyfrannu at aneddiadau'n ymdoddi i'w gilydd, yn peryglu natur agored y tir, neu'n cael effaith andwyol ar leoliad ardal drefol. Wrth gymhwyso'r amddiffyniad hwn, fodd bynnag, cydnabyddir bod grwpiau unigol neu fach o anheddau yn bodoli o fewn y dynodiadau, a bod gweithgareddau fel amaethyddiaeth, coedwigaeth a hamdden, yn digwydd. O ganlyniad, bydd datblygiadau sy'n gysylltiedig â defnyddiau presennol yn cael eu cyfyngu i fân adeileddau sy'n gwbl ategol i ddefnyddiau presennol. Mae manylion pob un o'r dynodiadau wedi'u cynnwys yn y Papur Cefndir Lletemau Glas.

ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG

DNP3 – ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG

Bydd rhinweddau amgylcheddol arbennig Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn cael eu cadw a'u cyfoethogi. Bydd datblygiad newydd yn cael ei gyfyngu i:

1. Ddatblygiad sy'n angenrheidiol ar gyfer amddiffyn arfordirol fel y'i nodwyd yng Nghynllun Rheoli Traethlin 2 Trwyn Larnog i Benrhyn Santes Ann;
2. Datblygiad sy'n hanfodol at ddibenion amaethyddiaeth neu gadwraeth natur neu sy'n cefnogi'r economi leol;
3. Datblygiad sy'n cefnogi hamdden a thwristiaeth gynaliadwy neu'n gwella mynediad arfordirol ar gyfer cerdded, beicio a gweithgareddau hamdden eraill sydd ag effaith isel.
4. Datblygiad o fewn ffiniau aneddiadau; neu



DNP3 – ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG

5. Datblygiad priodol a chynaliadwy arall sy'n cyd-fynd â Pholisi Cenedlaethol.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir datblygiad sydd ag effaith andwyol ar rinweddau amgylcheddol arbennig Arfordir Treftadaeth Morgannwg:

6. Mae angen cenedlaethol cymhellol na ellir ei ddiwallu yn unman arall.

7. Mae'r manteision yn gorbwyso'r niwed tebygol.

8. Mae mesurau lliniaru priodol ar waith i leihau effeithiau andwyol.

Bydd angen Asesiad Effaith Tirwedd a Gweledol (LVIA) lle ystyrir bod datblygiad yn debygol o gael effaith sylweddol ar gymeriad y dirwedd, y drefwedd neu'r forwedd o'i gwmpas, amwynder gweledol neu rinweddau arbennig Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

- 6.418 Dylai Cynlluniau Datblygu fel arfer gynnig lleoliadau arfordirol ar gyfer datblygu sydd angen bod ar yr arfordir a darparu offeryn rheoli ar gyfer cydbwysu gofynion cadwraeth a mynediad yn y parth arfordirol.
- 6.419 Mae dynodiad Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn cydnabod ei bwysigrwydd cenedlaethol fel ardal o arfordir deniadol heb ei ddatblygu. Amcan y dynodiad yw sicrhau bod cymeriad arbennig a harddwch naturiol yr arfordir yn cael eu gwarchod a'u gwella wrth alluogi a chyfoethogi mwynhad ohono a hwyluso ei ddefnydd parhaus ar gyfer amaethyddiaeth a gweithgareddau economaidd sefydledig a phriodol eraill.
- 6.420 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn angenrheidiol rheoli gweithgareddau datblygu yn ofalus o fewn Arfordir Treftadaeth Morgannwg er mwyn sicrhau bod y rhinweddau amgylcheddol naturiol y cafodd ei ddynodi ar eu cyfer yn cael eu cadw a'u cyfoethogi. Fodd bynnag, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod mai ffermio yw'r prif weithgaredd o fewn yr Arfordir Treftadaeth, gan helpu i gynnal cymeriad y dirwedd ac yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi'r economi wledig, ac ni ddylid cyfyngu'r gweithgaredd hwn yn ormodol pan fo angen cynigion datblygu y gellir eu cyfiawnhau.
- 6.421 Wrth geisio diogelu Arfordir Treftadaeth Morgannwg, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai ardaloedd adeiledig o fewn y ffin, gan gynnwys Anheddiad Gwledig Bach Ogwr. Yn ogystal, mae rheilffordd Bro Morgannwg yn croesi rhan o ddynodiad yr



Arfordir Treftadaeth yn y lleoliad lle mae tir wedi'i ddiogelu ar gyfer gorsaf newydd bosibl. Er ei fod yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu rhinweddau arbennig Arfordir Treftadaeth Morgannwg, mae'r Cyngor yn derbyn bod datblygiad yn yr ardaloedd hyn yn briodol, yn amodol ar bolisïau perthnasol y Cynllun.

- 6.422 Mae Arfordir Treftadaeth Morgannwg hefyd yn gyrchfan pwysig i ymwelwyr ac mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer hamddena anffurfiol, twristiaeth effaith isel a mynediad arfordirol. Byddai twristiaeth effaith isel yn cynnwys canolfannau dehongli, llwybrau troed, a datblygiadau eraill fel safleoedd gwersylla lle mae'r effeithiau ar yr ardal yn aml ar raddfa fach ac yn dymhorol. Dylai'r cynigion datblygu hyn anelu at amddiffyn neu gyfoethogi cymeriad naturiol neu hanesyddol a thirwedd arfordir heb ei ddatblygu, neu byddant yn arwain at effeithiau andwyol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Dwnrhefn.
- 6.423 Mae'n annhebygol y bydd cynigion datblygu mawr yn dderbyniol o fewn Arfordir Treftadaeth Morgannwg oni bai eu bod yn ofynnol ar gyfer gwaith amddiffyn arfordirol. Bydd angen i unrhyw gynigion ar gyfer datblygiad mawr ddangos bod lleoliad arfordirol yn hanfodol. Dylai gwaith amddiffyn arfordirol gyd-fynd â'r cynigion a nodwyd yng Nghynllun Rheoli Traethlin 2 Trwyn Larnog i Benrhyn Santes Ann (2012) sydd wedi'i baratoi i ystyried effaith hirdymor bosib lefelau cynyddol y môr o ganlyniad i newid hinsawdd. Mae'r CRhT yn nodi polisïau a chamau gweithredu cyffredinol ar gyfer rheoli newid ar hyd yr arfordir. Dylai cynigion ar gyfer gwaith amddiffyn arfordirol ystyried yr holl effeithiau amgylcheddol posib, ar ac oddi ar y môr.

AMGYLCHEDD HANESYDDOL

DNP4 - AMGYLCHEDD HANESYDDOL

Mae'n rhaid i gynigion datblygu ddiogelu rhinweddau amgylchedd adeiledig a hanesyddol Bro Morgannwg, yn benodol:

- 1 O fewn ardaloedd cadwraeth, mae'n rhaid i gynigion datblygu gadw neu wella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal;**
- 2 Ar gyfer adeiladau rhestredig ac adeiladau rhestredig lleol, mae'n rhaid i gynigion gadw neu wella'r adeilad, ei leoliad ac unrhyw nodwedd o arwyddocâd sydd ganddo;**
- 3 O fewn tirweddau dynodedig, parciau a gerddi hanesyddol, a meysydd brwydrau, mae'n rhaid i gynigion datblygu barchu cymeriad ac ansawdd hanesyddol arbennig yr ardaloedd hyn, eu lleoliadau neu eu golygfeydd neu fistâu hanesyddol.**



4 Ar gyfer safleoedd o ddiddordeb archaeolegol, mae'n rhaid i gynigion datblygu gadw neu wella olion archaeolegol a'u lleoliadau lle y bo'n briodol.

- 6.424 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys llawer o nodweddion: adeiladau, adeileddau, cerfluniau, olion, safleoedd archeolegol, gerddi, parciau, tirweddau a'u lleoliadau. Mae **Atodiad 7** yn rhoi manylion am Adeiladau Rhestredig; Ardaloedd Cadwraeth; Trysorau Sirol Rhestredig Lleol; Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru; a Thirweddau o Ddiddordeb Eithriadol yng Nghymru a Henebion Cofrestredig. Mae deddfwriaeth genedlaethol a pholisi cynllunio cenedlaethol, yn nodi y dylid amddiffyn yr holl agweddau hyn ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae cadw a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys lleoliadau asedau hanesyddol, yn agwedd allweddol ar gyfrifoldebau ehangach y Cyngor, a bydd yn cynnwys ystyriaeth berthnasol o bwysigrwydd wrth ddod i benderfyniad ar geisiadau sy'n effeithio ar asedau o'r fath.
- 6.425 Ym Mro Morgannwg, ceir 39 Ardal Gadwraeth sy'n cyfrannu'n sylweddol at atyniad y Fro, gan eu bod wedi'u dynodi nid ar sail adeiladau unigol ond ansawdd cyffredinol yr ardal, eu defnydd cymysg, eu cynllun hanesyddol, eu deunyddiau nodweddiadol, a graddfa a manylder yr adeiladau a'r mannau agored. Mae'r Cyngor wedi paratoi gwerthusiadau manwl ar gyfer pob un o'i ardaloedd cadwraeth, sy'n diffinio eu cymeriad arbennig yn ogystal â chanllawiau ar gyfer cynlluniau datblygu a gwella. Maent wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor fel Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi polisïau'r CDLI.
- 6.426 Mae gan Fro Morgannwg 744 o Adeiladau Rhestredig y mae eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn cael ei ddiogelu gan yr angen i gael Caniatâd Adeilad Rhestredig o dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Yn aml, mae lleoliad adeiladau o'r fath, fodd bynnag, yn hollbwysig i gymeriad yr adeilad, a gellir ei gyfyngu i'w safle agos neu'i estyn i ardal lawer ehangach. Felly, mae'n hanfodol bod unrhyw gynigion datblygu yn dangos yr ystyriwyd yr angen i gadw neu wella'r adeilad a'i lleoliad.
- 6.427 Mewn partneriaeth â'r Gymuned ehangach, mae'r Cyngor wedi nodi adeiladau ac adeileddau ym Mro Morgannwg yr ystyrir bod ganddynt ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol lleol arbennig. Mae'r 'Trysorau'r Sir'²⁰ hyn sydd wedi'u rhestru'n lleol yn arwyddocaol i'r gymuned leol ac maent yn cyfrannu at dreftadaeth

20 Trysorau'r Sir Bro Morgannwg Gorffennaf 2011

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Planning/Conservation/County-Treasures.pdf>



amgylcheddol a diwylliannol y Sir. Er nad ydynt o bwys cenedlaethol sy'n ofynnol i haeddu rhestriad statudol, mae eu gwerth lleol yn haeddu cael ei gadw, ac felly mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r angen i gynigion datblygu warchod asedau o'r fath rhag datblygiadau ansensitif a all niweidio cymeriad lleol, yn unigol neu gyda'i gilydd. Mae cyngor pellach ar ddatblygiadau sy'n effeithio ar Drysorau'r Sir sydd wedi'u rhestru'n lleol wedi'i baratoi, a chaiff ei nodi mewn dogfen Canllaw Cynllunio Atodol²¹.

- 6.428 Mae diddordeb archeolegol a hanesyddol sylweddol ym Mro Morgannwg. Mae Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru yn casglu Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yr awdurdod. Gall nodweddion archeolegol ddylanwadu cryn dipyn ar ddichonoldeb cynigion datblygu. Lle y gwyddys neu y deallir bod olion archeolegol yn bresennol, dylid ymgymryd â gwerthusiad maes archeolegol ar y cyfle cyntaf a'i gyflwyno'n rhan o'r cais cynllunio. Pan fo cynnig datblygu'n effeithio ar safle archeolegol pwysig neu ei leoliad, bydd rhagdybiaeth o blaid cadwraeth ffisegol yr olion, ni waeth a yw'r safle'n Henebyn Cofrestredig ai peidio. Lle y caniateir datblygiad, dylid cadw olion a'u hymgorffori mewn modd sensitif i'r cynllun datblygu neu eu tynnu oddi yno i'w cadw oddi ar y safle, lle y bo'n briodol, yn unol â chynghor gan Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru. Bwriad y Cyngor yw llunio canllaw cynllunio atodol ar ddiogelu a gwella Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

DIOGELU'R AMGYLCHEDD

DNP5 – ENVIRONMENTAL PROTECTION

Ni chaniateir datblygiad a fydd yn arwain at effaith annerbyniol ar bobl, amwynder preswyl, eiddo a/neu'r amgylchedd naturiol o:

- 1 Lygredd tir, dŵr wyneb, dŵr daear a'r aer;
- 2 Halogiad tir;
- 3 Sylweddau peryglus;
- 4 Sŵn, dirgryniadau, niwsans aroglau a llygredd golau;
- 5 Perygl a chanlyniadau llifogydd;
- 6 Erydu arfordirol neu ansefydlogrwydd tir.
- 7 Colli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas; neu
- 8 Unrhyw risg arall a nodir i iechyd a diogelwch y cyhoedd.

21 CCA Trysorau'r Sir Bro Morgannwg (Mawrth 2009)



Lle y nodir effeithiau, bydd y Cyngor yn ei gwneud hi'n ofynnol dangos y gellir cymryd mesurau priodol i leihau'r effaith a nodir i lefel dderbyniol. Gellir gosod amodau cynllunio neu ymrwymo i rwymedigaethau cyfreithiol, i sicrhau unrhyw brosesau lliniaru a monitro angenrheidiol.

Mewn perthynas â risg llifogydd, disgwylir i ddatblygiadau newydd osgoi risg llifogydd diangen a bodloni gofynion Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

- 6.429 Er bod sawl elfen o reoli llygredd y tu allan i gylch gorchwyl y system gynllunio, mae'n bwysig nad yw datblygiadau newydd yn arwain at lefelau annerbyniol o lygredd. Os, o ganlyniad i ymgynghoriad â chyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y bydd y Cyngor yn ystyried y byddai cynnig datblygu yn arwain at lygredd annerbyniol, neu'n gwaethygu problem bresennol, yna ni roddir caniatâd cynllunio.
- 6.430 Mae Polisi DNP5 yn dilyn y dull rhagofalus, ac mae'r Cyngor yn annog datblygwyr i asesu unrhyw effaith yn ystod y cam cynharaf posib fel bod cynigion datblygu yn lleihau unrhyw effaith sy'n bresennol i lefel dderbyniol. Pan ganiateir datblygiad, caiff amodau eu hatodi at y gymeradwyaeth er mwyn lleihau unrhyw lefelau llygredd posib a lle y bo'n briodol, i fonitro effeithiau'r datblygiad.
- 6.431 Yn unol â'r polisi cenedlaethol, mae'n cyfeirio datblygiad o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd afon, cwrs dŵr cyffredin, arfordirol, dŵr wyneb neu lle byddai'n cynyddu'r risg o lifogydd neu ddŵr ffo ychwanegol o ddatblygiadau mewn mannau eraill, ac mae'n adlewyrchu'r cyngor a nodir yn PCC a Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (2025). Bydd osgoi risg llifogydd diangen yn cael ei gyflawni drwy asesu'n llym oblygiadau risg llifogydd cynigion datblygu o fewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd llanw neu afonol ac atal datblygu sy'n cynyddu'r risg yn annerbyniol.

DNP6 – ARDALOEDD TAWEL

Er mwyn diogelu ardaloedd tawelwch mewn ardaloedd trefol, mae'r 'Ardaloedd Tawel' canlynol wedi'u nodi ar y map cyfyngiadau:

- 1 Parc Belle Vue, Penarth**
- 2 Penarth Head Lane, Penarth**
- 3 Caeau Chwarae Fictoria, Penarth**
- 4 Y Gatiau Aur, Penarth**



5 Parc Alexandra, Penarth

Rhaid i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd sy'n cynhyrchu sŵn (e.e. defnyddiau masnachol, seilwaith trafnidiaeth, neu gynlluniau preswyl ar raddfa fawr) sy'n debygol o effeithio ar ardal dawel ddynodedig gynnwys Asesiad Effaith Sŵn cynhwysfawr.

- 6.432 Mae'r 'Ardaloedd Tawel' a restrir ym Mholisi DNP6 wedi'u dynodi gan Lywodraeth Cymru o dan Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) ac wedi'u nodi yng Nghynllun Sŵn a Seinwedd Llywodraeth Cymru (2023-28). Mae'r Ardaloedd Tawel hyn yn barciau cyhoeddus yn ardal drefol Penarth, ac maent wedi'u nodi fel rhai sy'n gwarantu amddiffyniad rhag ymyrraeth sŵn, oherwydd eu bod yn gymharol dawel yn ôl safonau trefol mewn termau gwirioneddol a chanfyddedig.
- 6.433 Mae Polisi DNP6 yn ceisio rheoli llygredd sŵn a chadw tawelwch yr Ardaloedd Tawel dynodedig, ac osgoi unrhyw gynnydd sylweddol mewn sŵn neu effeithiau eraill o ddatblygiad a fyddai'n effeithio'n andwyol ar y 5 nodwedd allweddol canlynol a roddir iddynt:
- Seinwedd.
 - Presenoldeb natur.
 - Rhinweddau gweledol / esthetig.
 - Ymdeimlad o ddiogelwch personol.
 - Diwylliant a rhyddid y lle.
- 6.434 Yn unol â hynny, rhaid i gynigion datblygu o fewn neu gerllaw Ardal Dawel ddynodedig (fel y dangosir ar fap cyfyngiadau'r CDLIN) ddangos sut y bydd y cynnig yn cadw at yr egwyddor 'seinwedd dda', gan sicrhau bod yr amgylchedd sain yn parhau i fod yn briodol i'w gyd-destun, fel yr amlinellir yng Nghynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023-28. Gall hyn gynnwys ymgorffori elfennau sain naturiol mewn mannau agored cyhoeddus, fel nodweddion dŵr, neu osgoi cyflwyno synau newydd, diangen.
- 6.435 Ar gyfer datblygiadau sy'n sensitif i sŵn (e.e. tai, ysgolion, neu gyfleusterau gofal iechyd) a gynigir mewn neu gerllaw Ardal Dawel ddynodedig, rhaid i'r dyluniad sicrhau bod y mannau mewnol ac allanol yn darparu amgylchedd acwstig derbyniol i ddeiliaid yn y dyfodol, heb beryglu uniondeb yr ardal dawel, a dylai ystyried sŵn posib ym mhob cam o'r datblygiad, gan gynnwys yr adeiladu a'r gweithredu.



DNP7 – AWYR DYWYLL

Caniateir datblygiad newydd sy'n cynnwys cynigion ar gyfer goleuadau allanol (gan gynnwys goleuadau diogelwch, goleuadau amwynder, hysbysebion wedi'u goleuo a goleuadau sy'n gysylltiedig â phrifyfyrdd, meysydd parcio, cyfleusterau chwaraeon a gweithrediadau masnachol a diwydiannol) dim ond os dangoswyd bod y goleuadau a gynigir:

- 1 Yn angenrheidiol ar gyfer y datblygiad arfaethedig ac yn gymesur â'r diben y mae ei angen ar ei gyfer;
- 2 Bod y datblygiad wedi'i ddylunio a'i leoli i atal llygredd golau i'r amgylchedd cyfagos;
- 3 Nid yw'n effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol na chymeriad gweledol a thirwedd;
- 4 Nid yw'n effeithio'n andwyol ar amwynder preswyl a defnyddiau tir cyfagos;
- 5 Mae'n ynni-effeithlon ac yn defnyddio technolegau priodol i sicrhau y defnyddir goleuadau pan fo angen yn unig;
- 6 Yn osgoi unrhyw effeithiau goleuadau cronrus neu mewn cyfuniad â datblygiadau eraill, boed yn rhai presennol neu arfaethedig; ac
- 7 Mae'n is na 2,700 Kelvins (golau cynnes) ac eithrio lle gellir dangos bod angen gweithredol am sgôr uwch.

Efallai y bydd yn ofynnol i ddatblygiadau mawr, lle cynigir goleuadau allanol helaeth, gyflwyno cynllun goleuadau sy'n dilyn Canllawiau Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghanllawiau Arfer Da: Cynllunio ar gyfer Cadwraeth a Gwella Awyr Dywyll yng Nghymru (2025). Mae'n annhebygol y bydd angen cynllun goleuadau ar ddatblygiadau ar raddfa fach, ond dylent ddilyn egwyddorion goleuadau arfer da sylfaenol y canllawiau.

- 6.436 Gall goleuadau allanol fod yn elfen bwysig o ddatblygiadau modern a darparu manteision pwysig fel gwell diogelwch y cyhoedd a mwy o ddiogeledd. Gall goleuadau priodol ymestyn ac annog y defnydd o fannau cyhoeddus a hamdden, a gall wella apêl esthetig datblygiad.
- 6.437 Fodd bynnag, gall goleuadau allanol heb eu rheoli ac wedi'u cynllunio'n wael achosi gwrid awyr, tanbeidrwydd, a llygredd golau goramlwg a all gael effeithiau andwyol difrifol ar ecosystemau a thirweddau, ac ar iechyd a lles corfforol a meddyliol pobl. Gall llygredd golau erydu cymeriad gwledig, amharu ar amwynder preswyl, effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth a gwastraffu ynni.



- 6.438 Mae Bro Morgannwg yn cydnabod pwysigrwydd cadw tywyllwch naturiol awyr y nos, am ei werth cynhenid ac am ei fanteision amgylcheddol, ecolegol a diwylliannol. Er nad yw Bro Morgannwg yn gartref i warchodfa awyr dywyll ddynodedig, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau llygredd golau a diogelu ansawdd awyr y nos ar draws y sir, yn enwedig yng nghefn gwlad.
- 6.439 Mae Polisi DNP7 yn ceisio dal y fantol rhwng effeithiau andwyol goleuadau ar yr amgylchedd, amwynder a bywyd gwyllt, â'r angen i ddarparu diogelwch a galluogi chwaraeon a hamdden yn ystod y nos. Yn unol â 'Chanllawiau Arfer Da: Cynllunio ar gyfer Cadwraeth a Gwella Awyr Dywyll yng Nghymru' Llywodraeth Cymru, bydd y polisi yn sicrhau bod goleuadau sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd, yn enwedig datblygiadau newydd yng nghefn gwlad, wedi'u cynllunio a'u lleoli'n dda, ac nad ydynt yn fwy na'r lleiafswm sy'n ofynnol i wasanaethu'r datblygiad.

DNP8 – PWYSAU HAMDDEN ABER AFON HAFREN

Ni fydd cynigion datblygu a fyddai'n arwain at gynnydd mewn pwysau ymwelwyr ar nodweddion ACA, AGA, safle Ramsar, neu Dir sy'n Gysyllfiedig â Swyddogaeth yn cael eu cefnogi oni bai y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y Safle Morol Ewropeaidd. Digwydd

- 6.440 Yn unol ag argymhellion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y CDLIA, mae Polisi DNP8 yn ceisio amddiffyn ACA/AGA/Ramsar Aber Hafren ar hyd arfordir Bro Morgannwg. Mae tystiolaeth o'r ARC wedi dangos y gall amrywiaeth o weithgareddau hamdden, gan gynnwys y rhai ar y lan (cerdded, cerdded cŵn), ar y dŵr (megis sgïau jet, caiacau a byrddau padlo) a'r rhai yn yr awyr (dronau, paragliderau ac ati) gael effaith andwyol ar nodweddion ACA/AGA/Ramsar Aber Hafren.
- 6.441 Gallai datblygiad sydd â'r potensial i effeithio ar Dir â Chysylltedd Swyddogaethol gyfrannu at bwysau hamdden ar nodweddion Aber Hafren. Ni fydd unrhyw gynigion datblygu a fyddai'n cynyddu mynediad ymwelwyr i nodweddion cynefin sensitif yn safle ACA/AGA/Ramsar Aber Hafren yn cael eu cefnogi oni bai y gellir cadarnhau unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle.
- 6.442 Mae Parth Dalgylch Hamdden Craidd o 12.6km wedi'i nodi gan yr ARhC i hysbysu'r CDLIN. Mae hyn yn dangos lle gallai fod angen i ddatblygiadau newydd wneud cyfraniad ariannol i ariannu mesurau cadwraeth ACA/AGA ar y safle, fel rhan o fesurau lliniaru strategol. Mae hyn ar ffurf strategaeth lliniaru a rheoli hamdden a byddai'n cynnwys cymysgedd o fannau gwyrdd naturiol amgen addas a mesurau rheoli a monitro mynediad strategol.



- 6.443 Rhaid i fannau gwyrdd naturiol amgen addas fod yn ystyriaeth ddylunio allweddol yn y datblygiadau o fewn 12.6km i Aber Afon Hafren gyda pholisïau dyrannu safleoedd tai yn cyfeirio at ddarpariaeth. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y dulliau cyflawni.
- 6.444 Mae Canllawiau Rheoliad 33 SME Aber Afon Hafren a baratowyd gan Natural England a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (2009) yn parhau i fod y canllawiau perthnasol wrth ystyried effeithiau ar gyfanrwydd yr SME.





Cyngor Bro Morgannwg

Cyfarwyddiaeth Lleoedd

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwn

Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk

www.bromorgannwg.gov.uk

